# Cofnod y Trafodion
# The Record of Proceedings
# 16/09/2015

Cynnwys Contents


1. Cwestiynau i'r Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus
1. Questions to the Minister for Public Services

2. Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth
2. Questions to the Minister for Finance and Government Business

3. Dadl y Ceidwadwyr Cymreig: Cefnogaeth i Fusnesau
3. Welsh Conservatives Debate: Support for Businesses

4. Dadl y Ceidwadwyr Cymreig: Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus
4. Welsh Conservatives Debate: Public Service Delivery

5. Dadl Plaid Cymru: Buddsoddiad mewn Gwasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol
5. Plaid Cymru Debate: Investment in Health and Social Care Services

6. Cyfnod Pleidleisio
6. Voting Time

7. Dadl Fer: Ffracio: Gweithredu Moratoriwm ar gyfer Cymru
7. Short Debate: Fracking: Implementing a Moratorium for Wales


*Cyfarfu'r Cynulliad am 13:30 gyda'r Llywydd (y Fonesig Rosemary Butler) yn y Gadair.*

*The Assembly met at 13:30 with the Presiding Officer (Dame Rosemary Butler) in the Chair.*

13:30

### Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Good afternoon. The National Assembly for Wales is now in session.

Prynhawn da. Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn awr yn eistedd.

13:30

## 1. Cwestiynau i'r Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus

## 1. Questions to the Minister for Public Services

Senedd.tv Fideo Video

### Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

The first item this afternoon is questions to the Minister for Public Services, and question 1 is from Mohammad Asghar.

Yr eitem gyntaf y prynhawn yma yw cwestiynau i'r Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus, a daw cwestiwn 1 gan Mohammad Asghar.

13:30

### Mohammad Asghar Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Question 1? It's William, I think.

Cwestiwn 1? William yw hwnnw, rwy'n credu.

13:30

### Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

No? Okay. We'll move on to question 2 then. Paul Davies.

Na? Iawn. Symudwn ymlaen at gwestiwn 2 felly. Paul Davies.

#### Llywodraeth Leol yn Sir Benfro

#### Local Government in Pembrokeshire

13:30

### Paul Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*2. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ei flaenoriaethau ar gyfer llywodraeth leol yn sir Benfro? OAQ(4)0598(PS)*

*2. Will the Minister make a statement on his priorities for local government in Pembrokeshire? OAQ(4)0598(PS)*

13:30 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

*Y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus / The Minister for Public Services*

Senedd.tv Fideo Video

Llywydd, the programme for government sets out our priorities for the delivery of efficient and effective local government across Wales. This includes a programme of continuous improvement, which will benefit people in Pembrokeshire and across the whole of Wales.

Lywydd, mae'r rhaglen lywodraethu yn nodi ein blaenoriaethau ar gyfer darparu llywodraeth leol effeithiol ac effeithlon ledled Cymru. Mae hyn yn cynnwys rhaglen o welliant parhaus, a fydd o fudd i bobl yn Sir Benfro ac ar draws Cymru gyfan.

13:31 **Paul Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, a priority for my constituents is accessibility to local high streets, and you'll be aware that Pembrokeshire County Council has decided to end free parking at further sites across the county. Now, in June, MRUK published a report, commissioned by the Welsh Government, to examine the relationships between car parking charges in Wales and town centre footfall in Wales. The report recommended that, in developing solutions to encourage greater town centre footfall, the Welsh Government should work closely with local authorities and business groups to develop car parking strategies. Now, in light of this report, what guidance will you now be issuing to local authorities on this matter, and will you as a Government be accepting the MRUK recommendation to develop parking strategies with local authorities?

Weinidog, mae hygyrchedd y stryd fawr leol yn flaenoriaeth i fy etholwyr, ac fe fyddwch yn ymwybodol fod Cyngor Sir Penfro wedi penderfynu rhoi diwedd ar barcio am ddim mewn safleoedd pellach ar draws y sir. Nawr, ym mis Mehefin, cyhoeddodd MRUK adroddiad, a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru, i edrych ar y berthynas rhwng taliadau parcio ceir yng Nghymru a nifer yr ymwelwyr â chanol trefi Cymru. Roedd yr adroddiad yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru, wrth ddatblygu atebion i annog mwy o ymwelwyr â chanol trefi, weithio'n agos gydag awdurdodau lleol a grwpiau busnes i ddatblygu strategaethau parcio ceir. Nawr, yng ngoleuni'r adroddiad, pa ganllawiau y byddwch yn awr yn eu cyhoeddi i awdurdodau lleol ar y mater, ac a fyddwch chi fel Llywodraeth yn derbyn argymhelliad MRUK i ddatblygu strategaethau parcio gydag awdurdodau lleol?

13:31 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I'm glad the Member has raised the whole question of the state of our high streets. It gives me an opportunity—though this is in the portfolio of my colleague, the Minister for Communities and Tackling Poverty—to draw attention to the fact, of course, that next week is the week in which we will be promoting the high streets across Wales, and we've been running, as a Welsh Government, the very successful High Street Heroes campaign. And I have no doubt my colleague will have more to say about that next week. Certainly, the issue of parking is important. I've been discussing some of the potential of digital approaches to parking management this morning with officials, and we would certainly want local authorities to do what they can to contribute to the development of their town centres, through appropriate parking policies.

Rwy'n falch fod yr Aelod wedi codi'r cwestiwn ynghylch cyflwr ein strydoedd mawr. Er bod hyn yn rhan o bortffolio fy nghyd-Aelod, y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi, mae'n rhoi cyfle imi dynnu sylw at y ffaith, wrth gwrs, mai'r wythnos nesaf yw'r wythnos y byddwn yn hyrwyddo'r stryd fawr ledled Cymru, ac fel Llywodraeth Cymru rydym wedi bod yn cynnal ymgyrch lwyddiannus iawn Arwyr y Stryd Fawr. Ac nid oes gennyf amheuaeth y bydd gan fy nghyd-Aelod fwy i'w ddweud am hynny yr wythnos nesaf. Yn sicr, mae parcio'n bwysig. Rwyf wedi bod yn trafod peth o botensial dulliau digidol o reoli parcio gyda swyddogion y bore yma, a byddem yn sicr yn awyddus i awdurdodau lleol wneud yr hyn a allant i gyfrannu at ddatblygu canol eu trefi, drwy bolisïau parcio priodol.

13:32 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Weinidog, un o'r agweddau ar ddatblygu llywodraeth leol ar hyn o bryd yw'r allanoli sydd yn gorfod digwydd yn aml iawn i wirfoddolwyr ynghylch gwasanaethau megis llyfrgelloedd ac amgueddfeydd. Yn achos sir Benfro, mae amgueddfa bwysig yn Ninbych-y-pysgod, er enghraifft, eisoes yn nwylo gwirfoddolwyr, achos dyna yw'r hanes, lle, mewn awdurdodau eraill, wrth gwrs, mae amgueddfa yn dueddol o orwedd yn nwylo'r cyngor sir. Pa drafodaethau yr ŷch chi'n medru eu cael gyda'r Dirprwy Weinidog treftadaeth, a gyda'ch portffolio chi, i wneud yn siŵr bod gwasanaethau megis amgueddfeydd annibynnol, megis Dinbych-y-pysgod, yn dal i gael cefnogaeth gan y Llywodraeth, ac yn cael eu gweld fel rhan o'r patrwm cenedlaethol ar gyfer denu ymwelwyr a chyfoethogi ein treftadaeth ni?

Minister, one of the aspects of the development of local government at the moment is the outsourcing that has to happen very often to volunteers in terms of services such as libraries and museums. In the case of Pembrokeshire, there is an important museum in Tenby, for example, which is already in the hands of volunteers, because that's the history of the place, while, in other authorities, this tends to be the responsibility of the local council. What discussions can you have with the Deputy Minister for heritage, along with those in your portfolio, to ensure that services such as independent museums, like the one in Tenby, are still supported by Government and are seen as being part of a national pattern in terms of attracting visitors and enhancing our heritage?

13:33 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I note the Member's renewed interest in Tenby. What I can say is that my colleague, the Deputy Minister for culture, has in fact already produced statements in respect of community engagement in libraries. And this is a subject, of course, on which we have also had the report on mutual and co-operatives and how they can be supported, which I commissioned jointly with the Minister for Economy, Science and Transport. I have to refer the Member to the material and statements that have already been produced by the Deputy Minister.

Nodaf ddiddordeb newydd yr Aelod yn Ninbych-y-pysgod. Yr hyn y gallaf ei ddweud yw bod fy nghyd-Aelod, y Dirprwy Weinidog diwylliant, eisoes wedi cynhyrchu datganiadau ar ymgysylltiad cymunedol mewn llyfrgelloedd. Ac wrth gwrs, dyma un o bynciau'r adroddiad a gawsom hefyd ar gwmnïau cydfuddiannol a chydweithredol a sut y gellir eu cefnogi, adroddiad a gomisiynais ar y cyd â Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth. Rhaid i mi gyfeirio'r Aelod at y deunydd a'r datganiadau a gynhyrchwyd eisoes gan y Dirprwy Weinidog.

## Cwestiynau Heb Rybudd gan Lefarwyr y Pleidiau

## Questions Without Notice from Party Spokespeople

13:34 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We now move to questions from the party spokespeople and, first this afternoon, we have the Conservative spokesperson, Janet Finch-Saunders.

Symudwn yn awr at gwestiynau gan lefarwyr y pleidiau ac yn gyntaf y prynhawn yma, llefarydd y Ceidwadwyr, Janet Finch-Saunders.

13:34 **Janet Finch-Saunders** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, the Wales Audit Office report today on the financial management of town and community councils, while showing some improvement, also highlighted serious concerns over a core group of councils with more than one year of accounts unaudited by the statutory deadline for publication of audited accounts. What are you doing to ensure that all town and community councils provide a full level of public accountability?

Weinidog, roedd adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru heddiw ar reolaeth ariannol cynghorau tref a chymuned, er yn dangos rhywfaint o welliant, yn tynnu sylw at bryderon difrifol ynghylch grŵp craidd o gynghorau sydd â mwy na blwyddyn o gyfrifon heb eu harchwilio erbyn y terfyn amser statudol ar gyfer cyhoeddi cyfrifon archwiliedig. Beth ydych chi'n ei wneud i sicrhau bod yr holl gynghorau tref a chymuned yn darparu lefel lawn o atebolrwydd cyhoeddus?

13:34 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I think town and community councils are well aware of their responsibilities, but we are currently working with One Voice Wales to look at the future of town and community councils and to see how we can support their development in respect of provision of services and their role in the new context that we plan following our programme of local government reform.

Rwy'n credu bod cynghorau tref a chymuned yn ymwybodol iawn o'u cyfrifoldebau, ond ar hyn o bryd rydym yn gweithio gydag Un Llais Cymru i edrych ar ddyfodol cynghorau tref a chymuned ac i weld sut y gallwn gefnogi eu datblygiad mewn perthynas â darparu gwasanaethau a'u rôl yn y cyd-destun newydd yr ydym yn ei gynllunio yn dilyn ein rhaglen i ddiwygio llywodraeth leol.

13:35 **Janet Finch-Saunders** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Minister. However, it is a real concern that this report also lists a worrying number of councils receiving repeated qualified audit opinions for at least two of the last three years—45 such councils. In 14 cases, Minister, councils have received the same qualifications for three years running. Minister, whilst you are passing the buck to the town councils themselves, you are the Minister for local government, so it's your responsibility. What is your response to this scandal, and how will you be working to ensure that we see significant improvement next year from these councils in particular?

Diolch yn fawr, Weinidog. Fodd bynnag, mae'n bryder gwirioneddol fod yr adroddiad hwn hefyd yn rhestru nifer sy'n peri pryder o gynghorau sydd wedi cael sawl barn archwilio amodol ers o leiaf ddwy o'r tair blynedd diwethaf —45 o gynghorau o'r fath. Mewn 14 o achosion, Weinidog, mae'r cynghorau wedi cael yr un amodau ers tair blynedd yn olynol. Weinidog, er eich bod yn taflu'r baich ar y cynghorau tref eu hunain, chi yw'r Gweinidog Llywodraeth leol, felly eich cyfrifoldeb chi yw hyn. Beth yw eich ymateb i'r sgandal, a sut y byddwch yn gweithio i sicrhau ein bod yn gweld gwelliant sylweddol y flwyddyn nesaf gan y cynghorau hyn yn arbennig?

13:35 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Llywydd, I generally believe in the principle of name and shame where people are failing to carry out their statutory responsibilities, and I think that publicity in this regard is a key element, and I welcome the work that the Wales Audit Office has undertaken. However, neither I nor the Welsh Government run these town and community councils, nor should we; these should be run by local people and held accountable by local people.

Lywydd, at ei gilydd rwy'n credu yn yr egwyddor o enwi a chywilyddio pan fo pobl yn methu â chyflawni eu cyfrifoldebau statudol. Rwy'n credu bod cyhoeddusrwydd yn elfen allweddol yn hyn o beth, a chroesawaf y gwaith y mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi'i gyflawni. Fodd bynnag, nid fi na Llywodraeth Cymru sy'n arwain y cynghorau tref a chymuned hyn, ac ni ddylem wneud hynny chwaith; dylai'r rhain gael eu harwain gan bobl leol a'u dwyn i gyfrif gan bobl leol.

13:36 **Janet Finch-Saunders** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, we've already had one failed review of community councils and one promised but not happening review of community councils. If auditors deem it necessary to exercise their powers of reporting, or to make statutory recommendations, the WAO highlights that there will be significant additional costs for that council in terms of additional audit fees. What guarantees can you make, Minister, here in this Chamber, that community taxpayers will not have to pay for the shortcomings of their town and community councils but, more importantly, the shortcomings of a Welsh Labour Government?

Weinidog, rydym eisoes wedi cael un adolygiad o gynghorau cymuned sydd wedi methu ac adolygiad arall o gynghorau cymuned a addawyd ond nad yw'n digwydd. Os yw archwilwyr yn barnu bod angen arfer eu pwerau adrodd, neu wneud argymhellion statudol, mae Swyddfa Archwilio Cymru yn pwysleisio y bydd costau ychwanegol sylweddol i'r cyngor o ran y ffioedd archwilio ychwanegol. Pa sicrwydd y gallwch ei roi, Weinidog, yma yn y Siambr hon, na fydd yn rhaid i drethdalwyr cymunedol dalu am ddiffygion eu cynghorau tref a chymuned, ac yn bwysicach, am ddiffygion Llywodraeth Lafur Cymru?

Well, the shortcomings you're talking about are the shortcomings of the specific town and community councils, and it falls to the voters in those areas to take the necessary steps. I am pleased that the Wales Audit Office is carrying out its appropriate function, and, as I say, if people are not carrying out the duties which they have in town and community councils, then I think public exposure is the right way forward.

Wel, diffygion y cynghorau tref a chymuned penodol yw'r diffygion y soniwch amdanynt, a chyfrifoldeb y pleidleiswyr yn yr ardaloedd hynny yw rhoi'r camau angenrheidiol ar waith. Rwy'n falch fod Swyddfa Archwilio Cymru yn cyflawni ei swyddogaeth briodol, ac fel rwy'n ei ddweud, os nad yw pobl yn cyflawni eu dyletswyddau yn y cynghorau tref a chymuned, yna rwy'n credu mai tynnu sylw'r cyhoedd atynt yw'r ffordd gywir ymlaen.

13:37 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We now move to the Plaid Cymru spokesperson, Rhodri Glyn Thomas.

Symudwn yn awr at lefarydd Plaid Cymru, Rhodri Glyn Thomas.

13:37 **Rhodri Glyn Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Weinidog, mae'n ddiddorol eich clywed chi'n dweud eich bod chi'n credu'n gryf mewn enwi a chywilyddio pobl sydd yn methu â chyflawni'u dyletswyddau. Pan dderbyniodd y Prif Weinidog adroddiad comisiwn Williams, fe ddywedodd e fod angen gweithredu ar yr adroddiad hwnnw ar fyrder, a bod angen gwneud hynny cyn yr haf. Ydych chi am enwi a chywilyddio'r Prif Weinidog am fethu â gwneud hynny?

Minister, it's interesting hearing you say that you believe strongly in naming and shaming people who fail to fulfil their duties. When the First Minister first received the Williams commission report, he said that there was a need to act on that report and that that needed to happen before the summer. Will you name and shame the First Minister for not doing so?

13:37 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We have implemented the Williams commission report and we're taking forward its recommendations.

Rydym wedi gweithredu adroddiad y comisiwn Williams ac rydym yn bwrw ymlaen â'i argymhellion.

13:38 **Rhodri Glyn Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Rwy'n credu bod gennym ni ddehongliad gwahanol o'r term 'gweithredu', Weinidog, oherwydd nid oes dim byd wedi digwydd. Rydych chi bellach wedi cydnabod na fydd dim byd yn digwydd tan ar ôl yr etholiad nesaf, felly beth ydych chi'n ei wneud yn y cyfamser er mwyn sicrhau bod rhai o'r arbedion roedd Williams yn sôn amdanynt yn cael eu gweithredu a rhai o'r partneriaethau roedd e'n eu hannog yn digwydd, neu a ydych chi'n mynd i adael y cyfan i orwedd tan ar ôl yr etholiad nesaf?

Well, I think that we have a different interpretation of the term 'acting', because, Minister, nothing has happened. You have now acknowledged that nothing will happen until after the next election. So, what will you be doing in the meantime in order to ensure that some of the savings that Williams mentioned are implemented and that some of the partnerships that he was encouraging do happen, or are you going to leave everything until after the next election?

13:38 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

It's quite ridiculous to say that nothing has happened since the publication of the Williams commission report. The Welsh Government published in July 2014 its White Paper on the way forward. We published the prospectus in respect of voluntary mergers and we made judgments on those voluntary mergers when they were submitted to us. We subsequently published our full White Paper in February of this year. We've published material on the level of reserves held by local authorities. We've published the analysis that's been carried out for us in respect of the potential for administrative efficiencies within local authorities, which pointed to the potential for savings of £151 million per year. We have subsequently published our preferred map. We've taken through in legislation the paving Bill on local government and, as we have promised, we will be publishing in November the draft merger Bill for local government and going to a consultation on that and a consultation on the map.

Mae'n gwbl chwerthinllyd i ddweud nad oes dim wedi digwydd ers cyhoeddi adroddiad y comisiwn Williams. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei Phapur Gwyn ar y ffordd ymlaen ym mis Gorffennaf 2014. Cyhoeddasom y prosbectws o ran uno gwirfoddol a ffurfio barn ar yr uniadau gwirfoddol hynny pan gawsant eu cyflwyno i ni. Yn dilyn hynny cyhoeddasom ein Papur Gwyn yn llawn ym mis Chwefror eleni. Rydym wedi cyhoeddi deunydd ar lefel y cronfeydd wrth gefn a ddelir gan awdurdodau lleol. Rydym wedi cyhoeddi'r dadansoddiad a gyflawnwyd ar ein cyfer mewn perthynas â'r potensial i sicrhau arbedion gweinyddol yn yr awdurdodau lleol, a oedd yn dynodi potensial ar gyfer arbed £151 miliwn y flwyddyn. Ers hynny, rydym wedi cyhoeddi ein map dewisol. Rydym wedi rhoi'r Bil ymbaratoi ar lywodraeth leol mewn deddfwriaeth, ac fel yr addawsom, byddwn yn cyhoeddi'r drafft o'r Bil uno ar gyfer llywodraeth leol ym mis Tachwedd ac yn cynnal ymgynghoriad arno ac ymgynghoriad ar y map.

13:39 **Rhodri Glyn Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Rydych chi wedi cyhoeddi cryn lawer, Weinidog, ac rydych wedi ymgynghori cryn lawer, ond nid ydych chi wedi gwneud unrhyw beth mewn gwirionedd. Fe gyfeirioch chi at yr arbedion yma. Wrth gwrs, mae'r arbedion hynny yn cael eu nodi yn Williams, ond mae hynny wedi'i seilio ar weithredu buan ar eu hargymhellion nhw. Yn ôl eich amserlen chi, nid oes awdurdodau newydd yn mynd i fod yn eu lle tan 2020, felly beth yw eich asesiad chi bellach o'r arbedion ac a oes yna unrhyw arbedion yn mynd i ddigwydd cyn 2020?

Well, you have published quite a lot, Minister, and you have consulted quite a lot, but you haven't done anything, really. You referred to the savings. Of course, those savings are noted in Williams, but that has been based on early action on the recommendations. According to your timetable, no new authorities will be in place until 2020. So, what is your latest assessment of the savings and whether any savings will be made before 2020?

13:40 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I published the study of the potential for administrative savings in the summer, and that indicated that there was a potential for savings of £151 million per annum if local authorities adopted the best practice that is available in the United Kingdom. I'm still waiting to find out how Plaid Cymru are going to reconcile the differences they have within their own party, where the leader of Gwynedd wants one thing, the leader of Ceredigion wants another and their local government spokesperson seems to want something completely different from their official published policy.

Cyhoeddais yr astudiaeth ar y potensial ar gyfer gwneud arbedion gweinyddol yn yr haf, a dangosai fod potensial i arbed £151 miliwn y flwyddyn pe bai awdurdodau lleol yn mabwysiadu'r arferion gorau sydd ar gael yn y Deyrnas Unedig. Rwy'n dal i aros i gael gwybod sut y mae Plaid Cymru am gysoni'r gwahaniaethau sydd ganddynt o fewn eu plaid eu hunain, lle y mae arweinydd Gwynedd eisiau un peth, arweinydd Ceredigion eisiau rhywbeth arall ac mae'n ymddangos bod eu llefarydd ar lywodraeth leol eisiau rhywbeth hollol wahanol i'w polisi cyhoeddedig swyddogol.

13:41 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We now move to the Welsh Liberal Democrat spokesperson, Peter Black.

Symudwn yn awr at lefarydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, Peter Black.

13:41 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Presiding Officer. Can I start by declaring that I'm a principal councillor, which may have a bearing on some of the questions that I'm going to ask today, as is required by the new Standing Orders? Minister, I understand from the First Minister's questions yesterday that the First Minister will be holding a summit tomorrow in terms of the Syrian refugees. I wonder if you could tell us what work the Welsh Government has already done with local government in terms of setting the tone and putting preparations in place to receive those refugees in Wales?

Diolch i chi, Lywydd. A gaf fi ddechrau drwy ddatgan fy mod yn gynghorydd prif gyngor, a allai gael effaith ar rai o'r cwestiynau yr wyf am eu gofyn heddiw, fel sy'n ofynnol yn ôl y Rheolau Sefydlog newydd? Weinidog, o gwestiynau'r Prif Weinidog ddoe, deallaf y bydd y Prif Weinidog yn cynnal uwchgynhadledd yfory ar ffoaduriaid Syria. Tybed a allech ddweud wrthym pa waith y mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi'i wneud gyda llywodraeth leol o ran gosod y naws a rhoi paratoadau ar waith i dderbyn y ffoaduriaid hynny yng Nghymru?

13:41 **Leighton Andrews** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

I think that we've had a positive response from local government in Wales to the developing refugee situation over the last few weeks. A number of local authorities have made strong commitments in terms of their willingness to take responsibility for helping to house and address the concerns of refugees. A number have been involved also in the collection of goods and services to support refugees as well. I think we're very reassured by the positive public response that we've had from local government on this issue. Both the Minister for Communities and Tackling Poverty and I will be attending the summit tomorrow. There will be representatives of the Welsh Local Government Association there and there will be every opportunity for us to look at precisely what is necessary in the near future.

Credaf ein bod wedi cael ymateb cadarnhaol gan lywodraeth leol yng Nghymru i sefyllfa'r ffoaduriaid sydd wedi bod yn datblygu dros yr wythnosau diwethaf. Mae nifer o awdurdodau lleol wedi gwneud ymrwymiadau cryf o ran eu parodrwydd i gymryd cyfrifoldeb am helpu i roi llety a mynd i'r afael â phryderon ffoaduriaid. Mae nifer wedi bod yn rhan o'r gwaith o gasglu nwyddau a gwasanaethau i gefnogi ffoaduriaid hefyd. Rwy'n credu ein bod wedi ein calonogi'n fawr gan yr ymateb cyhoeddus cadarnhaol a gawsom gan lywodraeth leol ar y mater hwn. Byddaf fi a'r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi yn mynychu'r uwchgynhadledd yfory. Bydd cynrychiolwyr o Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yno a bydd cyfle i ni edrych ar beth yn union sydd ei angen yn y dyfodol agos.

13:42 **Peter Black** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Thank you for that answer, Minister. In fact, the local authorities in my own region have also been very heavily involved in that, and I think that most of them expressed an intention and a willingness to take refugees into their area. I think a lot of Assembly Members have been involved in collecting goods as well, in terms of ensuring that they're disseminated to those refugees.

Diolch i chi am eich ateb, Weinidog. Yn wir, mae'r awdurdodau lleol yn fy rhanbarth i hefyd wedi bod yn ymwneud yn helaeth â hynny, ac rwy'n credu bod y rhan fwyaf ohonynt wedi mynegi bwriad a pharodrwydd i dderbyn ffoaduriaid yn eu hardal. Rwy'n credu bod llawer o Aelodau'r Cynulliad wedi bod yn rhan o'r gwaith o gasglu nwyddau hefyd, o ran sicrhau eu bod yn cyrraedd y ffoaduriaid hynny.

The WLGA make the very valid point, of course, that, in terms of them receiving refugees, there will be an impact on the services that they deliver and that this is going to have some cost involved. I'm wondering, does the Welsh Government have any additional money set aside, or would it be looking to set some money aside, to help local authorities with this particular cost? Will you be able to recover any of that money from the UK Government given that they have made a commitment to take 20,000 refugees over five years?

Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn gwneud y pwynt dilys iawn, wrth gwrs, y bydd derbyn ffoaduriaid yn effeithio ar y gwasanaethau y maent yn eu darparu a bod hynny'n mynd i gostio rhywfaint. Rwy'n meddwl tybed a oes gan Lywodraeth Cymru unrhyw arian ychwanegol wedi'i neilltuo, neu a fyddai'n ystyried rhoi rhywfaint o arian o'r neilltu, i helpu awdurdodau lleol gyda'r gost hon? A fyddwch yn gallu adennill rhywfaint o'r arian gan Lywodraeth y DU o gofio eu bod wedi ymrwymo i dderbyn 20,000 o ffoaduriaid dros bum mlynedd?

13:43 **Leighton Andrews** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

These are matters that can be discussed obviously at the refugee summit tomorrow. While we welcome the announcement that the UK Government has committed to help an additional 20,000 refugees, we are concerned about the pace at which this help will be provided and how it will be funded. We note the Prime Minister's commitment to engage with the devolved administrations on that announcement and we look forward to hearing more detail.

Mae'r rhain yn amlwg yn faterion y gellir eu trafod yn yr uwchgynhadledd ffoaduriaid yfory. Er ein bod yn croesawu'r cyhoeddiad fod Llywodraeth y DU wedi ymrwymo i helpu 20,000 o ffoaduriaid ychwanegol, rydym yn bryderus ynglŷn â pha mor gyflym y caiff y cymorth hwn ei ddarparu a sut y caiff ei ariannu. Rydym yn nodi ymrwymiad y Prif Weinidog i ymgysylltu â'r gweinyddiaethau datganoledig ar y cyhoeddiad hwnnw ac edrychwn ymlaen at glywed mwy o fanylion.

13:43 **Peter Black** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Okay, thank you for that again, Minister. Obviously, the Welsh Refugee Council have expressed a concern, of course, that some of those refugees coming to Wales may find themselves destitute and struggling to survive. Clearly, the point of the summit tomorrow is to make sure that that safety net is in place. Does the Welsh Government have any access, for example, to the discretionary assistance fund or other funds to help avoid that destitution and to ensure that those refugees are able to settle into communities rapidly and find their feet both economically and socially?

Iawn, diolch am hynny eto, Weinidog. Yn amlwg, mae Cyngor Ffoaduriaid Cymru wedi mynegi pryder, wrth gwrs, y gallai rhai o'r ffoaduriaid a ddaw i Gymru fod yn ddiymgeledd ac yn brwydro i oroesi. Yn amlwg, pwynt yr uwchgynhadledd yfory yw gwneud yn siŵr fod y rhwyd diogelwch yn ei lle. A all Llywodraeth Cymru ddefnyddio'r gronfa cymorth dewisol, er enghraifft, neu gronfeydd eraill er mwyn helpu i osgoi amddifadrwydd o'r fath ac i sicrhau bod y ffoaduriaid hyn yn gallu ymgartrefu mewn cymunedau'n gyflym a chael eu traed o danynt yn economaidd ac yn gymdeithasol?

13:44 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Let me start by making a statement of principle that Wales stands ready to respond to this unfolding humanitarian tragedy and that the Welsh Government will play a key role in how Wales responds to the current crisis. We obviously expect the UK Government to fulfil its responsibilities in respect of issues that are not devolved, and that will be something on which I and other colleagues will be having conversations with UK Government Ministers in the near future.

Gadewch i mi ddechrau drwy wneud datganiad o egwyddor fod Cymru'n barod i ymateb i'r drychineb ddyngarol hon sy'n datblygu ac y bydd Llywodraeth Cymru yn chwarae rhan allweddol yn y ffordd y mae Cymru'n ymateb i'r argyfwng presennol. Rydym yn amlwg yn disgwyl i Lywodraeth y DU gyflawni ei chyfrifoldebau mewn perthynas â materion nad ydynt wedi'u datganoli, a bydd hynny'n rhywbeth y byddaf i a chyd-Aelodau eraill yn cael sgyrsiau amdano gyda Gweinidogion Llywodraeth y DU yn y dyfodol agos.

## Mynediad at Gyfiawnder yn Ardal Rhondda Cynon Taf

## Access to Justice in the Rhondda Cynon Taf Area

13:44 **Mick Antoniw** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*3. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am fynediad at gyfiawnder yn ardal Rhondda Cynon Taf? OAQ(4)0601(PS)*

*3. Will the Minister make a statement on access to justice in the Rhondda Cynon Taf area? OAQ(4)0601(PS)*

13:45 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The cumulative impact of the UK Government's plans for the justice system is likely to have a serious impact on access to justice in the Rhondda Cynon Taf area, as well as the rest of the Valleys and rural areas of Wales.

Mae effaith gronnol cynlluniau Llywodraeth y DU ar gyfer y system gyfiawnder yn debygol o gael effaith ddifrifol ar fynediad at gyfiawnder yn ardal Rhondda Cynon Taf, yn ogystal â gweddill y Cymoedd ac ardaloedd gwledig Cymru.

13:45 **Mick Antoniw** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, one might be led to believe that the Tory Government doesn't believe that the people of Rhondda Cynon Taf are entitled to accessible justice. Will you carry out a review of the social and economic consequences for businesses and victims in the judicial process, the implications of the closure of the Pontypridd magistrates' court, and also, more broadly, the general attack on the accessibility to justice, which seems to be a product of this Government's policy?

Weinidog, gallai rhywun gael ei arwain i gredu nad yw'r Llywodraeth Doriaidd yn credu bod gan bobl Rhondda Cynon Taf hawl i gyfiawnder hygyrch. A wnewch chi gynnal adolygiad o'r canlyniadau cymdeithasol ac economaidd i fusnesau a dioddefwyr yn y broses farnwrol, goblygiadau cau llys ynadon Pontypridd, a hefyd, yn fwy cyffredinol, yr ymosodiad cyffredinol ar fynediad at gyfiawnder, sydd i'w weld yn deillio o bolisïau'r Llywodraeth hon?

13:45 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Can I reassure my colleague the Member for Pontypridd that the Welsh Government will be responding in full to the UK Government's consultation on its proposals to close more courts and tribunals in Wales? Of course, there have been other proposals that have been rushed through, including deep cuts to legal aid, a series of increases in court fees and changes to judicial review funding.

A gaf fi sicrhau fy nghyd-Aelod, yr Aelod dros Bontypridd, y bydd Llywodraeth Cymru yn ymateb yn llawn i ymgynghoriad Llywodraeth y DU ar ei chynigion i gau rhagor o lysoedd a thribiwnlysoedd yng Nghymru? Wrth gwrs, cafwyd cynigion eraill a wthiwyd drwodd ar frys, gan gynnwys toriadau dwfn i gymorth cyfreithiol, cyfres o godiadau mewn ffioedd llys a newidiadau i gyllido adolygiadau barnwrol.

It is absolutely clear that the focus at a UK level is on saving costs and on revenue raising, rather than striking a balance between achieving efficiency and maintaining fair and equitable access to the justice system. There's no doubt that access to justice will be more difficult for citizens in Wales, particularly the most vulnerable and those living in rural and Valleys communities.

Mae'n gwbl glir fod y ffocws ar lefel y DU ar arbed costau ac ar godi refeniw, yn hytrach na sicrhau cydbwysedd rhwng cyflawni effeithlonrwydd a chynnal mynediad teg a chyfartal at y system gyfiawnder. Nid oes amheuaeth y bydd mynediad at gyfiawnder yn anos i ddinasyddion yng Nghymru, yn enwedig y bobl fwyaf agored i niwed a'r bobl sy'n byw mewn cymunedau gwledig a chymunedau'r Cymoedd.

13:46 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

*Arweinydd yr Wrthblaid / The Leader of the Opposition*

Senedd.tv Fideo Video

Obviously, the consultation around the future direction of the court service clearly identifies trying to use modern technology to make it more accessible for people to participate in the court service. Public buildings are identified, Minister, as one of the options to house some of these facilities. What discussions have your officials had with the Ministry of Justice to see whether these facilities could be made available, should the contents of the proposals in the consultation stage be taken forward?

Yn amlwg, mae'r ymgynghoriad ar gyfeiriad y gwasanaeth llys yn y dyfodol yn nodi'n glir y dylid ceisio defnyddio technoleg fodern er mwyn ei gwneud yn haws i bobl gymryd rhan yn y gwasanaeth llys. Caiff adeiladau cyhoeddus eu nodi, Weinidog, fel un o'r opsiynau ar gyfer cartrefu rhai o'r cyfleusterau hyn. Pa drafodaethau a gafodd eich swyddogion gyda'r Weinyddiaeth Gyfiawnder i weld a ellid sicrhau y bydd y cyfleusterau hyn ar gael, pe bai cynnwys y cynigion ar y cam ymgynghori yn cael ei ddatblygu?

13:47 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Llywydd, our focus has been on responding to that consultation. We will, as I said in answer to my colleague the Member for Pontypridd, be making a full response to the consultation and that includes an analysis of the impact on people affected in those areas. I don't think it's for us, at the present time, to be considering how to plug the gap for an area that is not devolved, simply because the UK Government wishes to impose a further series of cuts.

Lywydd, rydym wedi bod yn canolbwyntio ar ymateb i'r ymgynghoriad. Fel y dywedais wrth ateb fy nghyd-Aelod, yr Aelod dros Bontypridd, byddwn yn ymateb yn llawn i'r ymgynghoriad ac mae hynny'n cynnwys dadansoddiad o'r effaith ar y bobl yr effeithir arnynt yn yr ardaloedd hynny. Nid wyf yn credu mai mater i ni, ar hyn o bryd, yw ystyried sut i gau'r bwlch mewn maes sydd heb ei datganoli, yn syml oherwydd bod Llywodraeth y DU yn awyddus i gyflawni rhagor o doriadau.

### Gwasanaethau Cyhoeddus yn Ne-ddwyrain Cymru

### Public Services in South-east Wales

13:47 **Nick Ramsay** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*4. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gyflenwi gwasanaethau cyhoeddus yn ne ddwyrain Cymru? OAQ(4)0606(PS)*

*4. Will the Minister make a statement on the delivery of public services in south east Wales? OAQ(4)0606(PS)*

13:47 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We set out our strategic reform agenda in 'Devolution, Democracy and Delivery: Improving public services for people in Wales'.

Rydym wedi nodi ein hagenda diwygio strategol yn 'Datganoli, Democratiaeth a Chyflenwi: Gwella gwasanaethau cyhoeddus i bobl yng Nghymru'.

13:47 **Nick Ramsay** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Minister. Earlier, you told my colleague Janet Finch-Saunders, in answer to her question, that it falls to voters in their areas to hold their community councils to account for the delivery of local public services. But those community councils can only work within the resources that they have and they need certainty. There's deep concern, Minister, amongst community councils I've spoken to about what they're going to be expected to deliver and with what resource if you do plough ahead with the new model of public service delivery after 2016. Minister, haven't you approached this in a poor way that actually undermines local public service delivery, at least in the short term, and how do you propose to allay the concerns of local community councillors, who, for the time being at least, are charged with a very important local job?

Diolch yn fawr, Weinidog. Yn gynharach, fe ddywedoch wrth fy nghyd-Aelod Janet Finch-Saunders, wrth ateb ei chwestiwn, mai cyfrifoldeb pleidleiswyr yn eu hardaloedd yw dwyn eu cynghorau cymuned i gyfrif am gyflenwi gwasanaethau cyhoeddus lleol. Ond ni all y cynghorau cymuned hynny ond gweithio o fewn yr adnoddau sydd ganddynt ac mae arnynt angen sicrwydd. Weinidog, mae yna bryder dwfn ymysg y cynghorau cymuned y bûm yn siarad â hwy ynglŷn â'r hyn y bydd disgwyl iddynt ei gyflawni a chyda pha adnoddau os ydych yn bwrw ymlaen â'r model newydd ar gyfer darparu gwasanaethau cyhoeddus ar ôl 2016. Weinidog, onid ydych wedi mynd i'r afael â hyn mewn ffordd wael sydd mewn gwirionedd yn tanseilio'r modd y caiff gwasanaethau cyhoeddus eu darparu'n lleol, yn y tymor byr fan lleiaf, a sut ydych chi'n bwriadu tawelu pryderon y cynghorwyr cymuned lleol, sydd, am y tro o leiaf, yn ysgwyddo cyfrifoldeb am waith lleol pwysig iawn?

13:48 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, I don't agree with the Member's analysis. We set out in our White Paper in February an extensive set of proposals on the relationship between town and community councils and the principal local authorities and we have to recognise that, of course, the nature of the service provided by town and community councils varies from area to area. We have a variety of different sizes of town and community councils and a variety of different services being provided by them.

Wel, nid wyf yn cytuno â dadansoddiad yr Aelod. Nodwyd cyfres helaeth o gynigion gennym ar y berthynas rhwng cynghorau tref a chymuned a'r prif awdurdodau lleol yn ein Papur Gwyn ym mis Chwefror ac mae'n rhaid i ni gydnabod, wrth gwrs, fod natur y gwasanaeth a ddarperir gan gynghorau tref a chymuned yn amrywio o ardal i ardal. Mae gennym amrywiaeth o gynghorau tref a chymuned o wahanol feintiau ac amrywiaeth o wahanol wasanaethau sy'n cael eu darparu ganddynt.

We've consulted on those proposals, we've engaged extensively with their own representative body and I have spoken at conferences—One Voice Wales's and others—and we look forward to continuing that engagement in the future.

Rydym wedi ymgynghori ar y cynigion hynny, rydym wedi ymgysylltu'n helaeth â'u corff cynrychiadol eu hunain ac rwyf wedi siarad mewn cynadleddau—cynhadledd Un Llais Cymru a chynadleddau eraill—ac edrychwn ymlaen at barhau'r ymgysylltiad hwnnw yn y dyfodol.

13:49 **Lindsay Whittle** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First of all, I declare an interest as a member of Caerphilly County Borough Council. Minister, what role do you see the local service boards playing in helping in the delivery of public services in south-east Wales and, indeed, elsewhere in Wales to be much better co-ordinated?

Yn gyntaf oll, rwy'n datgan diddordeb fel aelod o Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili. Weinidog, pa rôl rydych yn gweld y byrddau gwasanaethau lleol yn ei chwarae o ran helpu i sicrhau bod gwasanaethau cyhoeddus yn ne-ddwyrain Cymru ac yn wir, mewn mannau eraill yng Nghymru yn cael eu darparu'n llawer mwy cydlynol?

13:49 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The Member, I think, will be aware that as a result of the Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015 that has now been passed, we are moving to a system of statutory public service boards. We will be producing guidance on the functioning of those boards and I think they will provide a better forum for the deliberation of these issues than the local services boards structure that we've had in the past.

Bydd yr Aelod, rwy'n credu, yn ymwybodol o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 sydd bellach wedi cael ei phasio, ac o ganlyniad i'r ddeddf honno rydym yn symud at system o fyrddau gwasanaethau cyhoeddus statudol. Byddwn yn cynhyrchu canllawiau ar weithrediad y byrddau hynny ac rwy'n credu y byddant yn cynnig fforwm gwell ar gyfer trafod y materion hyn na strwythur y byrddau gwasanaethau lleol a fu gennym yn y gorffennol.

## Argyfwng Ffoaduriaid Syria

## The Syrian Refugee Crisis

13:50 **John Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*5. Pa gymorth ychwanegol y bydd y Gweinidog yn ei ddarparu i wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru yng ngoleuni argyfwng ffoaduriaid Syria? OAQ(4)0610(PS)*

*5. What additional support will the Minister provide to public services in Wales in light of the Syrian refugee crisis? OAQ(4)0610(PS)*

13:50 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Representatives from across the public services and the third sector are coming together at the First Minister's summit tomorrow to consider jointly the most effective response in Wales.

Mae cynrychiolwyr o bob rhan o'r gwasanaethau cyhoeddus a'r trydydd sector yn dod at ei gilydd yfory yn uwchgynhadledd y Prif Weinidog i ystyried ar y cyd beth yw'r ymateb mwyaf effeithiol yng Nghymru.

13:50 **John Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I heard your response earlier, Minister, to Peter Black's questions. In addition to the issues for direct funding of public services, I think there are issues in terms of supporting people and communities who would like to help welcome refugees to Wales and provide support and assistance to them. Are these issues that you will be considering, perhaps along with other Ministers, in terms of whether we can have clear and consistent information for those individuals and communities so that we can effectively draw on that goodwill and make sure that Wales does provide the sort of welcome that we would all like to see?

Clywais eich ymateb i gwestiynau Peter Black yn gynharach, Weinidog. Yn ychwanegol at y materion sy'n ymwneud â chyllid uniongyrchol i wasanaethau cyhoeddus, rwy'n credu bod materion yn codi o ran cefnogi pobl a chymunedau a fyddai'n hoffi helpu i groesawu ffoaduriaid i Gymru a darparu cymorth a chefnogaeth iddynt. A yw'r rhain yn faterion y byddwch yn eu hystyried, gyda Gweinidogion eraill o bosibl, i weld a allwn gael gwybodaeth glir a chyson i'r unigolion a'r cymunedau hynny er mwyn inni allu pwyso'n effeithiol ar yr ewyllys da hwnnw a gwneud yn siŵr fod Cymru'n darparu'r math o groeso y byddem i gyd yn hoffi ei weld?

13:51 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

My colleague the Member for Newport East is absolutely right to raise this—it is a fundamental issue and I'm certain it will be under discussion tomorrow at the First Minister's summit. Let me say that, obviously, my colleague the Minister for Communities and Tackling Poverty leads on the issue of the third sector engagement in this, but we will be very responsive, I think, to the views that are brought forward to us. Let me say also, of course, that we are in regular contact with the UK Government about the vulnerable persons relocation scheme. These discussions have covered the issue of financial support, and it's imperative, as I said earlier in response to the Liberal Democrat spokesperson, that the UK Government makes good its promise to help local authorities to meet this additional financial need.

Mae fy nghyd-Aelod, yr Aelod dros Ddwyrain Casnewydd, yn gwbl gywir i godi hyn—mae'n fater sylfaenol ac rwy'n sicr y bydd yn cael ei drafod yfory yn uwchgynhadledd y Prif Weinidog. Gadewch i mi ddweud mai fy nghyd-Aelod y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi, yn amlwg, sy'n arwain ar ymgysylltiad y trydydd sector yn hyn o beth, ond fe fyddwn yn ymatebol iawn, rwy'n credu, i'r safbwyntiau sy'n cael eu cyflwyno i ni. Gadewch imi ddweud hefyd, wrth gwrs, ein bod mewn cysylltiad rheolaidd â Llywodraeth y DU ynglŷn â'r cynllun adleoli pobl sy'n agored i niwed. Mae'r trafodaethau hyn wedi cynnwys mater cymorth ariannol, ac mae'n hanfodol, fel y dywedais yn gynharach mewn ymateb i lefarydd y Democratiaid Rhyddfrydol, fod Llywodraeth y DU yn cadw ei haddewid i helpu awdurdodau lleol i ddiwallu'r angen ariannol ychwanegol hwn.

13:51 **Mohammad Asghar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Minister, the UK Government has said it intends to use the international development budget to support the resettlement of Syrian refugees here in Wales. Will the Minister confirm that any additional funding that Wales receives to support Syrian refugees will be allocated to those local authorities that, so far, have shouldered the greatest cost burden as designated dispersal areas?

Weinidog, mae Llywodraeth y DU wedi dweud ei bod yn bwriadu defnyddio'r gyllideb datblygu rhyngwladol i gefnogi'r gwaith o ailsefydlu ffoaduriaid Syria yma yng Nghymru. A wnaiff y Gweinidog gadarnhau y bydd unrhyw arian ychwanegol a gaiff Cymru i gefnogi ffoaduriaid Syria yn cael ei ddyrannu i'r awdurdodau lleol hynny sydd, hyd yn hyn, wedi ysgwyddo'r baich costau mwyaf fel ardaloedd gwasgaru dynodedig?

13:52 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Well, I think that the First Minister made the position on this clear doing his questions yesterday, Llywydd, and, of course, we would be intending to ensure that the money goes to where it is needed, and that will be discussed tomorrow at the summit.

Wel, credaf fod y Prif Weinidog wedi gwneud y sefyllfa'n glir ar hyn yn ystod ei gwestiynau ddoe, Lywydd, ac wrth gwrs, byddem yn bwriadu sicrhau bod yr arian yn mynd i ble y mae ei angen, a bydd hynny'n cael ei drafod yfory yn yr uwchgynhadledd.

13:52 **Eluned Parrott** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Minister, yesterday I asked whether the Welsh Government might consider setting up a register for those who wish to offer accommodation for refugees, but, clearly, there might be a need for emergency accommodation for refugees when they first arrive. I wonder if the Welsh Government has conducted a public sector estate survey to see if there are any empty buildings that could be adapted into suitable accommodation.

Weinidog, gofynnais ddoe a fyddai Llywodraeth Cymru'n ystyried sefydlu cofrestr ar gyfer y bobl sydd am gynnig llety i ffoaduriaid, ond yn amlwg, mae'n bosibl y byddai angen llety argyfwng ar ffoaduriaid yn syth ar ôl iddynt gyrraedd. Tybed a yw Llywodraeth Cymru wedi cynnal arolwg o ystad y sector cyhoeddus i weld a oes unrhyw adeiladau gwag y gellid eu haddasu'n llety addas.

13:53

## Leighton Andrews Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, no, we've not conducted such a survey, but this is something we can discuss tomorrow with representatives of Welsh local government. Obviously, my colleague the Minister for Communities and Tackling Poverty leads on the issue of housing and emergency accommodation.

Wel, naddo, nid ydym wedi cynnal arolwg o'r fath, ond mae'n rhywbeth y gallwn ei drafod yfory gyda chynrychiolwyr llywodraeth leol yng Nghymru. Yn amlwg, mae fy nghyd-Aelod, y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi, yn arwain ar fater tai a llety argyfwng.

### Argymhellion Comisiwn Williams

### The Williams Commission's Recommendations

13:53

## Suzy Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*6. A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am weithredu argymhellion Comisiwn Williams? OAQ(4)0603(PS)*

*6. Will the Minister provide an update on implementing the Williams Commission's recommendations? OAQ(4)0603(PS)*

13:53

## Leighton Andrews Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Llywydd, we set out an ambitious reform agenda for devolved public services in Wales last year and we are continuing to implement it. Our reforms relate to recommendations from the Williams commission but are not limited to them.

Lywydd, gosodasom agenda ddiwygio uchelgeisiol ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus datganoledig yng Nghymru y llynedd ac rydym yn parhau i'w weithredu. Mae ein diwygiadau'n ymwneud ag argymhellion o gomisiwn Williams ond nid yn gyfyngedig iddynt.

13:53

## Suzy Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for that answer. I'm wondering whether that helps the situation in Swansea, where the current chief executive of the council has recently announced that he will be stepping down in 2016. This leaves the council in a situation where they need to look for a replacement, even though they don't know how long the role will last and what accountability they can require of the replacement for mid and long-term planning, not just for spending, but those savings you mentioned earlier and, of course, the provision of services. As you're responsible for the long period of uncertainty and delay following the Williams commission recommendations, will you be helping Swansea city council prepare the job description for the new chief executive officer?

Diolch i chi am eich ateb. Tybed a yw hynny'n helpu'r sefyllfa yn Abertawe, lle y mae prif weithredwr presennol y cyngor wedi cyhoeddi'n ddiweddar y bydd yn rhoi'r gorau i'w swydd yn 2016. Mae hyn yn gadael y cyngor mewn sefyllfa lle y mae angen iddynt chwilio am rywun yn ei le, er nad ydynt yn gwybod am ba mor hir y bydd y swydd yn para a pha atebolrwydd y gallant ei ddisgwyl gan y prif weithredwr newydd am gynllunio tymor canolig a hirdymor, nid o ran gwariant yn unig, ond yr arbedion hynny y sonioch amdanynt yn gynharach ac wrth gwrs, y modd y darperir gwasanaethau. Gan eich bod chi'n gyfrifol am y cyfnod hir o ansicrwydd ac oedi yn dilyn argymhellion y comisiwn Williams, a fyddwch yn helpu cyngor dinas Abertawe i baratoi swydd-ddisgrifiad ar gyfer y prif swyddog gweithredol newydd?

13:54

## Leighton Andrews Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I look forward to productive conversations with the leader of Swansea council.

Edrychaf ymlaen at sgyrsiau cynhyrchiol gydag arweinydd cyngor Abertawe.

13:54

## Rhodri Glyn Thomas Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Weinidog, rŷch chi'n sôn am gael trafodaethau gyda chyngor Abertawe, ond y gwir yw, yn ystod y cyfnod yma hyd at 2020, mae yna nifer o gynghorau yn mynd i edrych ar staffio ac maen nhw'n mynd i edrych ar bartneriaethau gyda chynghorau cyfagos er mwyn sicrhau eu bod nhw'n darparu gwasanaethau yn y ffordd mwyaf effeithlon posibl. Pa ran ŷch chi'n mynd i'w chwarae yn y paratoadau yma ar gyfer y newid rŷch chi'n sôn sy'n mynd i ddigwydd yn 2020?

Minister, you mentioned having discussions with Swansea council, but the truth is, during this period up to 2020, a number of councils are going to be looking at staffing issues and they're going to be looking at partnerships with neighbouring councils to ensure that provide services in the most effective way possible. What part are you going to play in these preparations for the change that you're talking about that's going to happen in 2020?

13:55 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, Llywydd, I've already had some correspondence with council leaders who have advertised, indeed, for senior council officers, including, let me say, in Carmarthen and Ceredigion. I'm sure I will be having further conversations with other local authority leaders over the next few months.

Wel, Lywydd, rwyf eisoes wedi bod yn gohebu rhywfaint gydag arweinwyr cynghorau sydd wedi hysbysebu swyddi, yn wir, ar gyfer uwch swyddogion cynghorau, gan gynnwys, gadewch i mi ddweud, yng Nghaerfyrddin ac yng Ngheredigion. Rwy'n siŵr y byddaf yn cael sgyrsiau pellach gydag arweinwyr awdurdodau lleol eraill dros yr ychydig fisoedd nesaf.

**Mentrau Gefeillio Trefi**

**Town Twinning Initiatives**

13:55 **Christine Chapman** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*7. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y gefnogaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei rhoi i fentrau gefeillio trefi? OAQ(4)0608(PS)*

*7. Will the Minister make a statement on how the Welsh Government supports town twinning initiatives? OAQ(4)0608(PS)*

13:55 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Llywydd, the Welsh Government has no formal role in the process for the twinning of towns, cities and regions. We do, however, recognise the many benefits a twinning arrangement can bring.

Lywydd, nid oes gan Lywodraeth Cymru unrhyw rôl ffurfiol yn y broses o efeillio trefi, dinasoedd a rhanbarthau. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod y manteision niferus a allai ddeillio o drefniant gefeillio.

13:55 **Christine Chapman** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Minister. We know that, for many people, town twinning is a source of considerable civic pride and cultural enrichment. I recently met with the chair of the Rhondda Cynon Taf town twinning association to talk about their future plans and challenges. How can the Welsh Government make sure that any changes to the shape of local government in Wales does not lead to any weakening of these important bonds between communities; and what support more generally can you give when these cultural ties may be facing the impact of public sector spending cuts?

Diolch yn fawr, Weinidog. Gwyddom fod gefeillio trefi, i lawer o bobl, yn ffynhonnell cryn dipyn o falchder dinesig a chyfoethogi diwylliannol. Yn ddiweddar, cyfarfûm â chadeirydd cymdeithas gefeillio trefi Rhondda Cynon Taf i siarad am eu cynlluniau a'u heriau yn y dyfodol. Sut y gall Llywodraeth Cymru sicrhau na fydd newidiadau i siâp llywodraeth leol yng Nghymru yn arwain at wanhau'r cysylltiadau pwysig hyn rhwng cymunedau; a pha gefnogaeth y gallwch ei rhoi yn fwy cyffredinol pan fo'r cysylltiadau diwylliannol hyn o bosibl yn wynebu effaith toriadau gwariant yn y sector cyhoeddus?

13:56 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, can I assure my colleague the Member for Cynon Valley that Welsh Government has no plans to seek a change to, or end any of the twinning arrangements in place across Wales as part of our programme of local government reform? These are local arrangements agreed at the discretion of local authorities and will remain so. Of course, responsibility for local funding decisions rests with local authorities, and they are best placed to consider community needs and priorities, including cultural links and benefits.

Wel, a gaf i sicrhau fy nghyd-Aelod, yr Aelod dros Gwm Cynon, nad oes gan Lywodraeth Cymru unrhyw gynlluniau i geisio newid, neu roi terfyn ar unrhyw drefniadau gefeillio sydd ar waith ledled Cymru fel rhan o'n rhaglen i ddiwygio llywodraeth leol? Mae'r rhain yn drefniadau lleol y cytunwyd arnynt yn ôl disgresiwn yr awdurdodau lleol a byddant yn parhau felly. Wrth gwrs, mae'r cyfrifoldeb o wneud penderfyniadau ariannu lleol yn nwylo'r awdurdodau lleol, a hwy sydd yn y sefyllfa orau i ystyried anghenion a blaenoriaethau cymunedol, gan gynnwys cysylltiadau a manteision diwylliannol.

13:56 **Darren Millar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, will you join with me in congratulating the Colwyn twinning association, which, of course, is celebrating its thirtieth anniversary next year in terms of the twinning arrangements that it has with Roissy-en-Brie in France, and indeed the friendship that it has developed with the town of Barmstedt in Germany over many decades? What can you do to encourage these links? Even if that doesn't require financial investment from the Government, surely these are things that you ought to be able to promote and encourage, particularly given the potential economic opportunities that may arise out of these friendships between towns across Wales?

Weinidog, a wnewch chi ymuno â mi i longyfarch cymdeithas efeillio Colwyn, sydd, wrth gwrs, yn dathlu ei phen blwydd yn ddeg ar hugain y flwyddyn nesaf, am y trefniadau gefeillio sydd ganddi â Roissy-en-Brie yn Ffrainc, ac yn wir y cyfeillgarwch y mae'r gymdeithas wedi'i ddatblygu gyda thref Barmstedt yn yr Almaen dros sawl degawd? Beth allwch chi ei wneud i annog y cysylltiadau hyn? Hyd yn oed os nad oes angen buddsoddiad ariannol gan y Llywodraeth, mae'r rhain yn sicr yn bethau y dylech allu eu hyrwyddo a'u hannog, yn enwedig o ystyried y cyfleoedd economaidd posibl a allai ddeillio o gyfeillgarwch o'r fath rhwng trefi ledled Cymru?

13:57 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, Llywydd, town twinning has been under way for almost a century, so it rather predates devolution and the responsibilities of the Welsh Government. Clearly, we want to encourage local authorities in this process. It's obviously valuable to have these cultural links, and they exist, of course, not only across Europe but beyond.

Wel, Lywydd, mae gefeillio trefi wedi bod yn digwydd ers bron i ganrif, felly mae'n dyddio'n ôl i gyfnod cyn datganoli a chyfrifoldebau Llywodraeth Cymru. Yn amlwg, rydym am annog awdurdodau lleol yn y broses hon. Mae'n amlwg fod cael y cysylltiadau diwylliannol hyn yn werthfawr, ac maent yn bodoli, wrth gwrs, nid yn unig ar draws Ewrop ond y tu hwnt.

## Nifer y Prif Gynghorwyr yng Nghymru

## The Number of Principal Councillors in Wales

13:57 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Again, I declare that I am a councillor in the city and council of Swansea.

Unwaith eto, rwy'n datgan fy mod yn gynghorydd dinas a sir Abertawe.

*8. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am nifer y prif gynghorwyr yng Nghymru? OAQ(4)0596(PS)[R]*

*8. Will the Minister make a statement on the number of principal councillors in Wales? OAQ(4)0596(PS)[R]*

13:58 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

There are currently 1,254 council seats in the 22 local authorities in Wales, including the Member's.

Ar hyn o bryd, ceir 1,254 o seddi cyngor yn y 22 awdurdod lleol yng Nghymru, gan gynnwys sedd yr Aelod.

13:58 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

It's very good of you to point that out, Minister. Minister, you've currently launched a consultation on draft directions in terms of the ratio of councillors to electors, which effectively proposes that that number will be reduced to 616 councillors in Wales. But, of course, because of the central ratio of 1:4,000 that you are proposing, there will be a huge disparity in the size of some of the councils—from 33 in the new Gwynedd, for example, to 109 councillors in the new Gwent. But, there is also an implication in the direction that wards should be created by grouping two or more together without recognising that, in some cases, that will destroy or undermine existing communities and also make it very difficult to actually meet other objectives in that direction. Can I ask whether your intention is to insist on that joining together of two wards, or are you open to suggestions whereby the boundary commission will have some discretion in terms of how they ward these various councils?

Rydych yn garedig iawn yn tynnu sylw at hynny, Weinidog. Weinidog, yn ddiweddar fe lansioch ymgynghoriad ar gyfarwyddiadau drafft ar y gymhareb o gynghorwyr i etholwyr, sydd i bob pwrpas yn cynnig y bydd y rhif hwnnw'n cael ei ostwng i 616 o gynghorwyr yng Nghymru. Ond wrth gwrs, oherwydd y gymhareb ganolog o 1:4,000 rydych yn ei hargymell, bydd gwahaniaeth enfawr ym maint rhai o'r cynghorau—o 33 yn y Wynedd newydd, er enghraifft, i 109 o gynghorwyr yn y Went newydd. Ond mae yna awgrym yn y cyfarwyddyd hefyd y dylid creu wardiau drwy grwpio dwy neu ragor gyda'i gilydd heb gydnabod y ffaith y bydd hynny, mewn rhai achosion, yn dinistrio neu'n tanseilio cymunedau presennol a hefyd yn ei gwneud yn anodd iawn cyflawni amcanion eraill yn y cyfarwyddyd hwnnw mewn gwirionedd. A gaf fi ofyn ai eich bwriad yw mynnu bod dwy ward yn uno yn y fath fodd, neu a ydych yn agored i awgrymiadau lle bydd gan y comisiwn ffiniau rywfaint o ddisgresiwn o ran sut y maent yn rhannu'r cynghorau amrywiol hyn yn wardiau?

13:59 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Well, my recollection is that the Member supports electoral reform and the development of a system for using a single transferable vote—

Wel, rwy'n cofio bod yr Aelod yn cefnogi diwygio etholiadol a datblygu system ar gyfer defnyddio un bleidlais drosglwyddadwy—

Senedd.tv Fideo Video

13:59 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

I do. Yes.

Ydw.

Senedd.tv Fideo Video

13:59 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

[Continues.]—which, to my mind, would probably lead to even larger wards in fact. Can I say to him that we are, as he recognised, currently consulting on this matter? When we receive the responses to the consultation, I will look at those.

[Yn parhau.]—a oedd, yn fy marn i, yn debyg o arwain at wardiau hyd yn oed yn fwy o faint mewn gwirionedd. A gaf fi ddweud wrtho ein bod, fel yr oedd yn cydnabod, yn ymgynghori ar y mater hwn ar hyn o bryd? Byddaf yn edrych ar yr ymatebion i'r ymgynghoriad pan ddônt i law.

Senedd.tv Fideo Video

## Ad-drefnu Llywodraeth leol yng Nghymru

## Local Government Reorganisation in Wales

13:59 **Lynne Neagle** Bywgraffiad Biography

*9. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ad-drefnu llywodraeth leol yng Nghymru? OAQ(4)0599(PS)*

*9. Will the Minister make a statement on local government reorganisation in Wales? OAQ(4)0599(PS)*

Senedd.tv Fideo Video

13:59 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Llywydd, I published the Welsh Government's map on 17 June.

Lywydd, cyhoeddais fap Llywodraeth Cymru ar 17 Mehefin.

Senedd.tv Fideo Video

13:59 **Lynne Neagle** Bywgraffiad Biography

Thank you, Minister. We know that local authorities are facing massive financial pressures because of the cuts initiated by the Tories at Westminster. Minister, what steps can you take ahead of local government reorganisation to work with hard-pressed local authorities to address these pressures, and how will you ensure that any changes you make going forward are implemented by working in partnership with local government, which is very much at the front line of Tory cuts?

Diolch yn fawr, Weinidog. Gwyddom fod awdurdodau lleol yn wynebu pwysau ariannol enfawr oherwydd y toriadau gan y Torïaid yn San Steffan. Weinidog, pa gamau allwch chi eu rhoi ar waith cyn ad-drefnu llywodraeth leol i weithio gydag awdurdodau lleol sydd o dan bwysau i fynd i'r afael â'r pwysau hyn, a sut y byddwch yn sicrhau bod unrhyw newidiadau a wnewch yn y dyfodol yn cael eu cyflawni drwy weithio mewn partneriaeth â llywodraeth leol, sydd yn y rheng flaen o ran toriadau'r Torïaid?

Senedd.tv Fideo Video

14:00 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

My colleague, the Member for Torfaen, is absolutely right to draw the Chamber's attention to the cuts that are being imposed on Wales by the UK Government, and I'm not surprised that the Conservatives behind me don't like it when she does that. We have been working with local government. We have had discussions in the finance sub-group about the likely implications of the comprehensive spending review, which, as we know, will be with us during November. We are currently discussing with the Welsh Local Government Association and others how we come together to analyse the impact of the comprehensive spending review, and what other measures we might take collectively to make it clear to the people of Wales where the responsibility lies.

Mae fy nghyd-Aelod, yr Aelod dros Dorfaen, yn gwbl gywir i dynnu sylw'r Siambr at y toriadau sy'n cael eu gorfodi ar Gymru gan Lywodraeth y DU, ac nid wyf yn synnu nad yw'r Ceidwadwyr y tu ôl i mi yn hoffi ei chlywed yn gwneud hynny. Rydym wedi bod yn gweithio gyda llywodraeth leol. Rydym wedi cael trafodaethau yn yr is-grŵp cyllid ynglŷn â goblygiadau tebygol yr adolygiad cynhwysfawr o wariant, a fydd gyda ni, fel y gwyddom, yn ystod mis Tachwedd. Ar hyn o bryd rydym yn trafod gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac eraill sut y down at ein gilydd i ddadansoddi effaith yr adolygiad cynhwysfawr o wariant, a pha fesurau eraill y gallem eu rhoi ar waith ar y cyd i'w gwneud yn glir i bobl Cymru pwy sy'n gyfrifol am beth.

Senedd.tv Fideo Video

14:00 **William Graham** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Unusually, Minister, I do agree with you—with comments that you have made previously that local government needs fundamental reform, not bigger councils going about their business in the same way. But, I would ask you to look again at our historic councils—like Monmouthshire, Pembrokeshire, Powys and many others—which there is overwhelming public support to retain.

Yn wahanol i'r arfer, Weinidog, rwy'n cytuno gyda chi—gyda sylwadau a wnaethoch o'r blaen fod angen diwygio llywodraeth leol yn sylfaenol, nid cynghorau mwy o faint sy'n gwneud eu gwaith yn yr un modd. Ond carwn ofyn i chi edrych eto ar ein cynghorau hanesyddol—fel Sir Fynwy, Sir Benfro, Powys a llawer o rai eraill—cynghorau y ceir cefnogaeth gyhoeddus eithriadol dros eu cadw.

14:01 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, I'm grateful to the Member. I have looked at several maps in my time in this job over the last 12 months. I've looked at historic maps going back to the nineteenth century, and let me say: it is very hard to call individual counties, I think, historic counties. At different stages, many different authorities have been historic counties. You can say the 13 if you like, but, you know, we could say that there was once a historic county of Gwent, and I'd welcome the Member's views on that.

Wel, rwy'n ddiolchgar i'r Aelod. Rwyf wedi edrych ar nifer o fapiau yn ystod fy amser yn y swydd hon dros y 12 mis diwethaf. Rwyf wedi edrych ar fapiau hanesyddol sy'n dyddio'n ôl i'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, a gadewch i mi ddweud: mae'n anodd iawn galw siroedd unigol, rwy'n credu, yn siroedd hanesyddol. Ar wahanol gyfnodau, mae llawer o wahanol awdurdodau wedi bod yn siroedd hanesyddol. Gallwch ddweud y 13 os mynnwch, ond wyddoch chi, gallem ddweud fod Gwent unwaith yn sir hanesyddol, a byddwn yn croesawu barn yr Aelodau ar hynny.

### Trais yn y Cartref

### Domestic Violence

14:02 **Julie Morgan** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*10. A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am fentrau Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â thrais yn y cartref? OAQ(4)0612(PS)*

*10. Will the Minister provide an update on Welsh Government initiatives to combat domestic violence? OAQ(4)0612(PS)*

14:02 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I updated the National Assembly on the Welsh Government's action to tackle violence against women, domestic abuse and sexual violence in my oral statement on 30 June. I announced the appointment of the national adviser in July and provided Members with the timetable for publication of statutory guidance under the Act.

Rhoddais y wybodaeth ddiweddaraf i'r Cynulliad Cenedlaethol ar gamau gweithredu Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn fy natganiad llafar ar 30 Mehefin. Cyhoeddais benodiad y cynghorydd cenedlaethol ym mis Gorffennaf a darparu'r amserlen ar gyfer cyhoeddi canllawiau statudol o dan y Ddeddf i'r Aelodau.

14:02 **Julie Morgan** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank the Minister for that response. Does he agree that the best way to prevent abuse and violence against women in the future is by educating young people about healthy relationships based on mutual trust and respect? I understand that Welsh Women's Aid is tasked with co-ordinating a good practice guide for schools in delivering this, so I wondered if he could update us on any progress.

Diolch i'r Gweinidog am ei ymateb. A yw'n cytuno mai'r ffordd orau o atal cam-drin a thrais yn erbyn menywod yn y dyfodol yw drwy addysgu pobl ifanc am berthnasoedd iach yn seiliedig ar gydymddiriedaeth a pharch? Deallaf mai Cymorth i Fenywod Cymru sydd â'r gorchwyl o gydlynu canllawiau arfer da i ysgolion ar gyfer cyflwyno hyn, felly roeddwn yn meddwl tybed a allai roi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni am unrhyw ddatblygiadau.

14:02 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Indeed, and I'm glad my colleague the Member for Cardiff North has raised this matter. I'm sure she will be pleased to know that, on Saturday, I was at an event organised by the Rhondda Labour Women's Forum on this very issue, where Eleri Butler of Welsh Women's Aid was speaking, and Rachel Williams, who is a very powerful advocate and a survivor of domestic abuse, was speaking as well. Welsh Women's Aid is working well on producing our whole education approach good practice guide and it will be published soon. But let me say also, of course, that there is a significant range of education measures under way to support the implementation of the Act, which I'm working on in collaboration with my colleague the Minister for Education and Skills. We are agreed on that agenda and on the importance of the specialist sector and survivors, in particular, being directly involved in the implementation of the 'Successful Futures' report on the curriculum, to ensure that healthy relationships are a key consideration.

Yn wir, ac rwy'n falch fod fy nghyd-Aelod, yr Aelod dros Ogledd Caerdydd, wedi codi'r mater hwn. Rwy'n siŵr y bydd hi'n falch o wybod fy mod mewn digwyddiad, ddydd Sadwrn, a drefnwyd gan Fforwm Menywod Llafur y Rhondda ar yr union fater hwn, lle roedd Eleri Butler o Cymorth i Fenywod Cymru yn siarad, a Rachel Williams, sy'n gefnogwr pwerus ac wedi goroesi cam-drin domestig, yn siarad hefyd. Mae Cymorth i Fenywod Cymru yn gwneud gwaith da ar gynhyrchu ein canllawiau arfer da ar sail addysg gyfan a bydd hwnnw'n cael ei gyhoeddi cyn bo hir. Ond gadewch i mi ddweud hefyd, wrth gwrs, fod yna amrywiaeth sylweddol o fesurau addysg ar y gweill i gefnogi gweithrediad y Ddeddf, ac rwy'n cydweithio ar hynny gyda fy nghyd-Aelod, y Gweinidog Addysg a Sgiliau. Rydym yn cytuno ar yr agenda honno, ac ar bwysigrwydd cynnwys y sector arbenigol, a goroeswyr yn arbennig, yn uniongyrchol yn y broses o weithredu'r adroddiad 'Dyfodol Llwyddiannus' yn rhan o'r cwricwlwm, er mwyn sicrhau bod perthnasoedd iach yn ystyriaeth allweddol.

14:03 **Mick Antoniw** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, the Independent Police Complaints Commission commissioner for Wales recently called for all police forces in Wales to change the way that they train officers and civilian staff who deal with domestic abuse cases. In particular, concern was expressed that forces are too reliant on staff learning online. Is the Minister aware of these concerns, and will he undertake to raise them with the police to ensure staff dealing with domestic abuse do so in an effective and efficient manner?

Weinidog, yn ddiweddar, galwodd comisiynydd Comisiwn Cwynion Annibynnol yr Heddlu yng Nghymru ar bob un o heddluoedd Cymru i newid y ffordd y maent yn hyfforddi swyddogion a staff sifil sy'n delio ag achosion o gam-drin domestig. Yn benodol, mynegwyd pryder bod heddluoedd yn rhy ddibynnol ar staff yn dysgu ar-lein. A yw'r Gweinidog yn ymwybodol o'r pryderon hyn, ac a yw'n ymrwymo i ddod â hwy i sylw'r heddlu er mwyn sicrhau bod staff sy'n ymdrin â cham-drin domestig yn gwneud hynny mewn modd effeithiol ac effeithlon?

14:04 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Yes, Llywydd. I've discussed these issues with the Independent Police Complaints Commission commissioner for Wales. She has very clear concerns and has been, I think, painstakingly thorough in the way that she has followed through on some of the reports that she has had to produce with the relevant chief constables. I have also had discussions on these matters in meetings with chief constables and, indeed, with the police and crime commissioners.

Ydw, Lywydd. Rwyf wedi trafod y materion hyn gyda chomisiynydd Comisiwn Cwynion Annibynnol yr Heddlu yng Nghymru. Mae ganddi bryderon clir iawn ac yn fy marn i, mae hi wedi bod yn hynod o drylwyr yn y modd y mae wedi ymdrin â rhai o'r adroddiadau y bu'n rhaid iddi eu cynhyrchu gyda'r prif gwnstabliaid perthnasol. Rwyf fi hefyd wedi trafod y materion hyn mewn cyfarfodydd gyda phrif gwnstabliaid ac yn wir, gyda'r comisiynwyr heddlu a throseddu.

14:04 **Aled Roberts** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Weinidog, rydym ni'n awyddus iawn i weld bod llywodraethwyr unigol a hefyd athrawon mewn ysgolion yn derbyn cyfrifoldeb am hybu perthnasau iach. Rwy'n meddwl bod yna wahaniaeth barn ynglŷn â delio â hynny ar wyneb y Bil gwreiddiol, ond mi oedd yn fwriad gennych i gyhoeddi canllawiau y flwyddyn yma yn wreiddiol. Rwy'n derbyn y pwynt sydd wedi cael ei wneud ynglŷn â'r arfer da y mae Cymorth i Fenywod yn ei ddatblygu ar hyn o bryd, ond a ydych chi mewn sefyllfa'r prynhawn yma i ddweud, os ydych yn dal i anelu at ganllawiau statudol i ysgolion erbyn mis Medi 2016, pryd y byddwch chi'n ymgynghori ar y canllawiau hynny wrth inni symud tuag at etholiadau'r Cynulliad?

Minister, we're very eager to see individual governors and also teachers within schools taking responsibility for promoting healthy relationships. I know that there is a difference of opinion on dealing with that on the face of the original Bill, but it was your intention to publish guidance this year, originally. I accept the point that's been made on the good practice being developed by Welsh Women's Aid at present, but are you in a position this afternoon to tell us, if you are still aiming to publish statutory guidance for schools by September 2016, when you will consult on that guidance as we move towards the Assembly elections?

14:05 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I'm confident that the timetables that we've previously outlined will be met.

Rwy'n hyderus y cedwir at yr amserlenni a amlinellwyd gennym yn flaenorol.

## Ad-drefnu Llywodraeth Leol yn Ne-ddwyrain Cymru

## Local Government Reorganisation in South-east Wales

14:05

### Nick Ramsay [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

*11. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ad-drefnu llywodraeth leol yn ne-ddwyrain Cymru? OAQ(4)0607(PS)*

*11. Will the Minister make a statement on local government reorganisation in south east Wales? OAQ(4)0607(PS)*

14:06

### Leighton Andrews [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

Llywydd, I published the Welsh Government's map on 17 June.

Lywydd, cyhoeddais fap Llywodraeth Cymru ar 17 Mehefin.

14:06

### Nick Ramsay [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

Thank you, Minister, for that answer. I'm glad, listening to your earlier answers, that you have been consulting with a variety of maps in this area—no surprises what I'm going to ask you about here. The summer recess has provided a great opportunity for Assembly Members to get out and about in our constituencies and to connect with the public, at least in theory. My constituents have made clear their opposition to the Welsh Government's proposals to abolish councils like Monmouthshire and to return to an old-style, monolithic local government model. Will you go back to the drawing board and reconsider these proposals? Perhaps a proper consultation that listens to the public's concerns wouldn't be a bad thing. This isn't just me saying this; this isn't just William Graham raising this with you; there is real concern out there amongst the public that these proposals have not been thought out and, at the end of the day, we will return to an old system of local government that didn't work then and won't work now.

Diolch am eich ateb, Weinidog. Wrth wrando ar eich atebion yn gynharach, rwy'n falch eich bod wedi bod yn ystyried amrywiaeth o fapiau yn y maes hwn—ni fydd yn syndod beth rwyf am ei ofyn i chi fan hyn. Mae toriad yr haf wedi rhoi cyfle gwych i Aelodau'r Cynulliad fynd allan i'n hetholaethau a chysylltu â'r cyhoedd, mewn theori o leiaf. Mae fy etholwyr wedi lleisio eu gwrthwynebiad clir i gynigion Llywodraeth Cymru i ddiddymu cynghorau fel Sir Fynwy a dychwelyd at fodel llywodraeth leol monolithig, hen ffasiwn. A wnewch chi fynd yn ôl i ailystyried y cynigion hyn? Efallai na fyddai ymgynghoriad priodol sy'n gwrando ar bryderon y cyhoedd yn beth drwg. Nid fi yw'r unig un sy'n dweud hyn; nid William Graham yn unig sy'n dwyn y mater i'ch sylw; mae pryder gwirioneddol ymysg y cyhoedd nad oes digon o feddwl wrth wraidd y cynigion hyn ac yn y pen draw, byddwn yn dychwelyd at yr hen drefn o lywodraeth leol nad oedd yn gweithio bryd hynny ac na fydd yn gweithio yn awr.

14:07

### Leighton Andrews [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

Well, I admire the Member's energy in communicating his preferred position on local government reform to his constituents, but let me say to him: there was a map produced, or several maps, indeed, produced within the Williams commission report in January 2014, including proposals for his area. Some of those proposals, of course, did not find favour with him or with others. We have subsequently published our preferred map, which may or may not find favour with him or his constituents, but it's not as though we are about to move immediately tomorrow to the implementation of our map. We will be consulting on that map; we will not be legislating before the 2016 Assembly election; so, there will be ample time, I think, for public consultation and engagement.

Wel, rwy'n edmygu egni'r Aelod yn cyfleu ei hoff ddewis ar gyfer diwygio llywodraeth leol i'w etholwyr, ond gadewch i mi ddweud hyn wrtho: cynhyrchwyd map, neu nifer o fapiau, yn wir, yn adroddiad comisiwn Williams ym mis Ionawr 2014, gan gynnwys cynigion ar gyfer ei ardal. Wrth gwrs, nid oedd rhai o'r cynigion hynny'n ei blesio ef ac eraill. Yn sgil hynny, rydym wedi cyhoeddi ein map dewisol, a allai fod at ei ddant ef neu ei etholwyr, neu fel arall, ond nid yw fel pe baem ar fin newid yn syth yfory i roi ein map ar waith. Byddwn yn ymgynghori ar y map; ni fyddwn yn deddfu cyn etholiadau'r Cynulliad yn 2016; felly, bydd digonedd o amser, rwy'n meddwl, ar gyfer ymgynghori ac ymgysylltu â'r cyhoedd.

## Llywodraethu Gwasanaethau Tân ac Achub

## The Governance of Fire and Rescue Services

14:07

### Rhodri Glyn Thomas [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

*12. Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda Llywodraeth y DU ynghylch llywodraethu gwasanaethau tân ac achub yn y dyfodol? OAQ(4)0611(PS)*

*12. What discussions has the Minister had with the UK Government regarding the future governance of fire and rescue services? OAQ(4)0611(PS)*

14:08 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Mae hwn yn fater sydd wedi ei ddatganoli. Yn arbennig, nid yw cynigion diweddar Llywodraeth y Deyrnas Unedig i roi cyfrifoldeb i gomisiynwyr heddlu a throseddu dros y gwasanaeth tân yn berthnasol yma.

This is a devolved matter. In particular, the UK Government's recent proposals to give police and crime commissioners responsibility for the fire service do not apply here.

14:08 **Rhodri Glyn Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch yn fawr iawn, Weinidog; dyna'r union ateb yr oeddwn i'n dymuno ei dderbyn.

Thank you very much, Minister; that's exactly the answer I wished to receive.

14:08 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Always glad to oblige.

14:08 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, do you not see that there could be real synergy here in bringing together the two emergency services that have the most to gain here? If you take mid and west Wales, for example, there are over five senior officials in the mid and west Wales fire service on £100,000 plus, whereas, in the police and crime commissioner's department, there are only two. There is a real opportunity to consolidate backroom offices here, and do you not think that this proposal should be welcomed?

Weinidog, onid ydych yn gweld y gallai fod synergedd go iawn yma o ddwyn ynghyd y ddau wasanaeth brys sydd â'r mwyaf i'w ennill? Os edrychwch ar ganolbarth a gorllewin Cymru, er enghraifft, mae dros bump o uwch swyddogion yng ngwasanaeth tân canolbarth a gorllewin Cymru ar fwy na £100,000, ond yn adran comisiynydd yr heddlu a throseddu, dau swyddog yn unig sy'n cael hynny. Mae cyfle gwirioneddol i gydgrynhoi swyddfeydd cefn fan hyn, ac onid ydych yn credu y dylid croesawu'r cynnig hwn?

14:08 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Then devolve policing to Wales.

Yna datganolwch blismona i Gymru.

### Derbyn Ffoaduriaid o Syria

### Accepting Syrian Refugees

14:09 **Bethan Jenkins** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*13. Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gydag awdurdodau lleol ynghylch cyhoeddiad diweddar Llywodraeth y DU ar dderbyn ffoaduriaid o Syria? OAQ(4)0602(PS)*

*13. What discussions has the Minister had with local authorities regarding the recent UK Government announcement on accepting Syrian refugees? OAQ(4)0602(PS)*

14:09 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I refer the Member to my earlier answer on this matter.

Cyfeiriaf yr Aelod at fy ateb cynharach ar y mater hwn.

14:09 **Bethan Jenkins** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Minister. I do appreciate that, and it's heartening to see so many Assembly Members take an interest in this particular issue, but I wonder, specifically with local authorities, have any of them, prior to tomorrow, indicated any difficulties that they may have in hosting some families or a percentage of refugees? For example, in some areas of my constituency, in the Afan valley, transportation is very difficult and they will need access to particular services in the central locations of towns. Has that been something that will be brought up tomorrow in your discussions with them?

Diolch yn fawr, Weinidog. Rwy'n sylweddoli hynny, ac mae'n galonogol gweld cynifer o Aelodau'r Cynulliad yn dangos diddordeb yn y mater penodol hwn, ond tybed, yn benodol mewn perthynas ag awdurdodau lleol, a oes unrhyw un ohonynt, cyn yfory, wedi nodi unrhyw anawsterau a allai fod ganddynt i gynnal rhai teuluoedd neu ganran o ffoaduriaid? Er enghraifft, mewn rhai ardaloedd yn fy etholaeth i, yng nghwm Afan, mae trafnidiaeth yn anodd iawn a bydd angen iddynt gael mynediad at wasanaethau penodol mewn trefi canolog. A yw hynny'n rhywbeth a fydd yn cael sylw yfory yn eich trafodaethau gyda hwy?

14:09 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

I think it's something that people are well aware of, and we have seen some statements, of course, from the Welsh Local Government Association on this matter already. But I think I would rather at this stage focus on the positive response that we've had from many local authorities in Wales, including Rhondda Cynon Taf County Borough Council, let me say. I think that the leadership that has been displayed on this issue from local government should be commended. I am aware of the kinds of issues that the Member raises, and she's right to raise them, but I think that those are matters that we will go through in the summit tomorrow, and we will come out, I think, with a sensible plan for taking this matter forward in Wales. But of course, as she will appreciate, ultimately we are still awaiting further information from the UK Government on many of these issues.

Rwy'n credu ei fod yn rhywbeth y mae pobl yn ymwybodol iawn ohono, ac rydym wedi gweld rhai datganiadau, wrth gwrs, gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar y mater yn barod. Ond ar y cam hwn, rwy'n credu y byddai'n well gennyf ganolbwyntio ar yr ymateb cadarnhaol a gawsom gan lawer o awdurdodau lleol yng Nghymru, gan gynnwys Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, gadewch i mi ddweud. Rwy'n meddwl y dylid canmol yr arweinyddiaeth a ddangoswyd ar y mater gan lywodraeth leol. Rwy'n ymwybodol o'r mathau o broblemau y mae'r Aelod yn eu crybwyll, ac mae'n iawn iddi dynnu sylw atynt, ond rwy'n meddwl bod y rhain yn faterion y byddwn yn mynd drwyddynt yn yr uwchgynhadledd yfory, ac rwy'n meddwl y byddwn yn dod oddi yno wedi creu cynllun synhwyrol ar gyfer symud ymlaen ar y mater hwn yng Nghymru. Ond wrth gwrs, fel y bydd hi'n sylweddoli, yn y pen draw rydym yn dal i aros am wybodaeth bellach gan Lywodraeth y DU ar lawer o'r materion hyn.

Senedd.tv Fideo Video

14:10 **Janet Haworth** Bywgraffiad Biography

Minister, I welcome the news that there will be a summit tomorrow on this issue. Could you outline who you are inviting to this summit, and whether each Welsh local authority will be represented?

Weinidog, rwy'n croesawu'r newyddion y bydd uwchgynhadledd yn cael ei chynnal ar y mater hwn yfory. A wnewch chi amlinellu pwy rydych yn eu gwahodd i'r uwchgynhadledd, ac a fydd pob awdurdod lleol yng Nghymru yn cael eu cynrychioli?

Senedd.tv Fideo Video

14:10 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Well, we wouldn't expect to invite each local authority to the summit. We have invited the Welsh Local Government Association. I think I'm right in saying that the leader of the Welsh Local Government Association will be attending, and the relevant spokesperson on housing, who is Councillor Dyfed Edwards of Gwynedd.

Wel, ni fyddem yn disgwyl gwahodd pob awdurdod lleol i'r uwchgynhadledd. Rydym wedi gwahodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Rwy'n credu fy mod yn gywir yn dweud y bydd arweinydd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn bresennol, a'r llefarydd perthnasol ar dai, sef y Cynghorydd Dyfed Edwards o Wynedd.

Senedd.tv Fideo Video

## Blaenoriaethau ar gyfer Gweddill y Pedwerydd Cynulliad

## Priorities for the Remainder of the Fourth Assembly

14:11 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

*14. A wnaiff y Gweinidog amlinellu ei flaenoriaethau ar gyfer llywodraeth leol yng Nghanol De Cymru ar gyfer gweddill y Pedwerydd Cynulliad? OAQ(4)0604(PS)*

*14. Will the Minister outline his priorities for local government in South Wales Central for the remainder of the fourth Assembly? OAQ(4)0604(PS)*

Senedd.tv Fideo Video

14:11 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Llywydd, the programme for government sets out our priorities for the delivery of efficient and effective local government. This includes a programme of continuous improvement that will benefit people in South Wales Central and across the whole of Wales.

Lywydd, mae'r rhaglen lywodraethu yn nodi ein blaenoriaethau ar gyfer darparu llywodraeth leol effeithiol ac effeithlon. Mae hyn yn cynnwys rhaglen o welliant parhaus a fydd o fudd i bobl yng Nghanol De Cymru ac ar draws Cymru gyfan.

Senedd.tv Fideo Video

14:11 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you, Minister, for that answer. Obviously, one of the things that has occupied not only your officials, but town halls across the length and breadth of Wales, and particularly in South Wales Central, is the reorganisation plan and whether local authorities are going to exist in a couple of years' time. There's a cross-party grass-roots-led campaign to save the Vale of Glamorgan Council, because they believe services would be better delivered locally in the Vale of Glamorgan. Can you tell me where in particular your colleagues in the Vale of Glamorgan, Neil Moore and his colleagues—the Labour leader there—are wrong in their assertions that the vale should be kept separate, and the beneficiaries of an independent Vale of Glamorgan Council running local services are the vale residents themselves?

Diolch am eich ateb, Weinidog. Yn amlwg, un o'r pethau sydd wedi mynd â sylw nid yn unig eich swyddogion ond neuaddau tref ar hyd a lled Cymru, yn enwedig yng Nghanol De Cymru, yw'r cynllun ad-drefnu a pha un a yw awdurdodau lleol yn mynd i fodoli ymhen rhai blynyddoedd. Mae yna ymgyrch drawsbleidiol ar lawr gwlad i achub Cyngor Bro Morgannwg, oherwydd eu bod yn credu y byddai gwasanaethau'n cael eu darparu yn well yn lleol ym Mro Morgannwg. A allwch ddweud wrthyf sut yn benodol y mae eich cydweithwyr ym Mro Morgannwg, Neil Moore a'i gydweithwyr—yr arweinydd Llafur yno—yn anghywir yn eu honiadau y dylid cadw'r fro ar wahân, ac mai'r rhai sy'n elwa o gael Cyngor Bro Morgannwg annibynnol yn rhedeg gwasanaethau lleol yw trigolion y fro eu hunain?

14:12 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Well, Llywydd, we've set out our map, our preferred map, for the future of local government, and I appreciate that there are going to be different views across Wales on this matter. At the end of day, we will be able to take decisions on this issue following the Assembly elections next year. I would hope that we can reach a consensus on that.

Wel, Lywydd, rydym wedi nodi ein map, ein map dewisol, ar gyfer dyfodol llywodraeth leol, ac rwy'n sylweddoli bod gwahanol safbwyntiau yn mynd i fod ar draws Cymru ar y mater hwn. Yn y pen draw, byddwn yn gallu gwneud penderfyniadau ar y mater yn dilyn etholiadau'r Cynulliad y flwyddyn nesaf. Rwy'n gobeithio y gallwn ddod i gonsensws ar hynny.

### Helpu Cyn-filwyr y Lluoedd Arfog

### Helping Armed Forces Veterans

14:12 **Mark Isherwood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

*15. A wnaiff y Gweinidog amlinellu polisi Llywodraeth Cymru ar gyfer helpu cyn-filwyr y Lluoedd Arfog yng Nghymru? OAQ(4)0600(PS)*

*15. Will the Minister outline the Welsh Government's policy for helping Armed Forces veterans in Wales? OAQ(4)0600(PS)*

14:12 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

The package of support outlines Welsh Government policies and actions to support armed forces veterans in Wales.

Mae'r pecyn cymorth yn amlinellu polisïau a chamau gweithredu Llywodraeth Cymru i gefnogi cyn-filwyr y lluoedd arfog yng Nghymru.

14:12 **Mark Isherwood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you. When I submitted a written question to the Minister for Health and Social Services asking how many veterans provided with therapies by NHS Wales committed suicide, I was told that no veterans receiving therapy through Veterans' NHS Wales had committed suicide to the Welsh Government's knowledge. However, this summer I was informed by a member of the armed forces community, having attended the funerals of most of them, that six serving and former Welsh service personnel have committed suicide this year. A further charity in north Wales told me about the risk to another person they were supporting because the NHS were providing support, but only on a revolving-door basis, because he wasn't being referred on to the therapies he needed. What action will you take as the Welsh Government liaison point for the armed forces and veterans in Wales to ensure that, at last, we have a proper evidence-based lead on which to base the policy to meet that need?

Diolch yn fawr. Pan gyflwynais gwestiwn ysgrifenedig i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn gofyn faint o gyn-filwyr a gawsai therapïau gan GIG Cymru sydd wedi cyflawni hunanladdiad, dywedwyd wrthyf nad oedd unrhyw gyn-filwyr a gawsai therapi drwy GIG Cymru i Gyn-filwyr wedi cyflawni hunanladdiad hyd y gŵyr Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, yn ystod yr haf cefais wybod gan aelod o gymuned y lluoedd arfog, a oedd wedi mynychu angladdau'r rhan fwyaf ohonynt, fod chwech o filwyr neu gyn-filwyr y lluoedd arfog yng Nghymru wedi cyflawni hunanladdiad eleni. Dywedodd elusen arall yn y Gogledd wrthyf am y risg i berson arall roeddent yn ei gynorthwyo am fod y GIG yn darparu cymorth, ond ar sail drws troi yn unig, gan nad oedd yn cael ei atgyfeirio ymlaen at y therapïau yr oedd eu hangen arno. Pa gamau a rowch ar waith fel pwynt cyswllt Llywodraeth Cymru ar gyfer y lluoedd arfog a chyn-filwyr yng Nghymru i sicrhau bod gennym, o'r diwedd, arweiniad priodol ar sail tystiolaeth ar gyfer sefydlu polisi i ateb yr angen hwn?

14:13 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Let me say that I think our Veterans' NHS Wales service has been very much welcomed by veterans, and veterans organisations such as the Royal British Legion. It is of course the only national service for veterans of its kind in the United Kingdom. So, I don't think we've got anything to be apologetic about in respect of the service that we are providing. Clearly, if there are specific cases or examples that the Member has, or indeed any Member may have, where individuals who might be entitled to services are not receiving the services to which they are entitled, we would want to hear about them.

Gadewch i mi ddweud bod cyn-filwyr a sefydliadau cyn-filwyr megis y Lleng Brydeinig Frenhinol, wedi rhoi croeso mawr, rwy'n credu, i'n gwasanaeth GIG Cymru i Gyn-filwyr. Wrth gwrs, dyma'r unig wasanaeth cenedlaethol o'i fath i gyn-filwyr yn y Deyrnas Unedig. Felly, nid wyf yn meddwl bod gennym unrhyw beth i ymddiheuro yn ei gylch o ran y gwasanaeth rydym yn ei ddarparu. Yn amlwg, os oes achosion neu enghreifftiau penodol gan yr Aelod, neu'n wir gan unrhyw Aelod, lle nad yw unigolion a allai fod â hawl i wasanaethau yn cael y gwasanaethau y mae ganddynt hawl i'w disgwyl, byddem yn awyddus i glywed amdanynt.

14:14 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Minister.

Diolch yn fawr, Weinidog.

14:14

## 2. Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth

## 2. Questions to the Minister for Finance and Government Business

Senedd.tv Fideo Video

**Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

We now move to item 2, which is questions to the Minister for Finance and Government Business. Question 1 is William Graham.

Symudwn yn awr at eitem 2, sef cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth. Daw cwestiwn 1 gan William Graham.

### Portffolio Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth

### The Economy, Science and Transport Portfolio

14:14 **William Graham** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*1. Pa ystyriaeth a roddodd y Gweinidog i Ddwyrain De Cymru wrth ddyrannu cyllid i'r portffolio Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth? OAQ(4)0592(FIN)*

*1. What consideration did the Minister give to South Wales East when allocating funding to the Economy, Science and Transport portfolio? OAQ(4)0592(FIN)*

14:14 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth / The Minister for Finance and Government Business*

The programme for government sets out our ambitions for the whole of Wales. It has shaped our budget allocations since 2011.

Mae'r rhaglen lywodraethu yn nodi ein huchelgais ar gyfer Cymru gyfan. Mae wedi siapio ein dyraniadau cyllidebol ers 2011.

14:14 **William Graham** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I am grateful to the Minister for that answer. You will be aware of two high-profile incidents over the recess concerning companies within the south-east Wales region failing after gaining Welsh Government grants. Can you outline the collaboration undertaken between portfolios to ensure due diligence with regard to the allocation of business grants and loans?

Diolch i'r Gweinidog am yr ateb hwnnw. Fe fyddwch yn ymwybodol o ddau ddigwyddiad proffil uchel dros y toriad yn ymwneud â chwmnïau yn rhanbarth de-ddwyrain Cymru yn methu ar ôl ennill grantiau Llywodraeth Cymru. A allwch amlinellu'r cydweithio a fu rhwng portffolios er mwyn sicrhau diwydrwydd dyladwy mewn perthynas â dyrannu grantiau a benthyciadau i fusnesau?

14:15 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I can assure you that good grants management and governance are very important to the Welsh Government. Appropriate due diligence checks are undertaken of all organisations where they're receiving grant or loan funding and grants are provided to businesses from a range of grant schemes across the Welsh Government, with over 3,000 businesses funded each year.

Gallaf eich sicrhau bod rheoli a llywodraethu grantiau'n dda yn bwysig iawn i Lywodraeth Cymru. Cyflawnir archwiliadau diwydrwydd dyladwy priodol i'r holl sefydliadau sy'n derbyn cyllid grant neu fenthyciad a darperir grantiau i fusnesau o amrywiaeth o gynlluniau grantiau ar draws Llywodraeth Cymru, gan ariannu dros 3,000 o fusnesau bob blwyddyn.

14:15 **Lindsay Whittle** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, could you tell us how much funding you estimate is going to be lost from infrastructure projects in the Gwent valleys and in other parts of south Wales as a result of the commitment to the second M4 black route and what plans do you have to mitigate the loss of funding that will inevitably come as funds are diverted to this project?

Weinidog, a wnewch chi ddweud wrthym faint o arian rydych yn amcangyfrif sy'n mynd i gael ei golli o brosiectau seilwaith yng nghymoedd Gwent ac mewn rhannau eraill o dde Cymru yn sgil yr ymrwymiad i ail lwybr du yr M4 a pha gynlluniau sydd gennych i liniaru effaith anochel colli cyllid wrth ddargyfeirio arian at y prosiect hwn?

14:15 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, of course, we have opportunities in terms of the new borrowing powers that we have acquired—the £500 million borrowing powers that we've acquired—which will come into play in 2018. Clearly, as a result of a Wales infrastructure investment plan, we can ensure that our borrowing powers are delivering infrastructure investment across the whole of Wales, including, of course, improvements to the M4 infrastructure.

Wel, wrth gwrs, mae gennym gyfleoedd o ran y pwerau benthyca newydd rydym wedi eu cael—y pwerau benthyca gwerth £500 miliwn rydym wedi eu cael—a ddaw'n weithredol yn 2018. Yn amlwg, o ganlyniad i'r cynllun buddsoddi yn seilwaith Cymru, gallwn sicrhau bod ein pwerau benthyca yn arwain at fuddsoddi yn y seilwaith ar draws Cymru gyfan, gan gynnwys y gwelliannau i seilwaith yr M4 wrth gwrs.

14:16 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Question 2, Bethan Jenkins. Sorry, someone's got a mobile phone on. Can they make sure they turn it off? Sorry, Bethan Jenkins.

Cwestiwn 2, Bethan Jenkins. Mae'n ddrwg gennyf, mae ffôn symudol rhywun heb ei ddiffodd. A allwch wneud yn siŵr eich bod yn ei ddiffodd? Mae'n ddrwg gennyf, Bethan Jenkins.

## Cyllidebau Adrannol

## Departmental Budgets

14:16 **Bethan Jenkins** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you.

Diolch yn fawr.

*2. Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael ynghylch darparu cyllid ychwanegol i gyllidebau adrannol yn sgil cyhoeddiad diweddar Llywodraeth y DU ar dderbyn ffoaduriaid o Syria? OAQ(4)0593(FIN)*

*2. What discussions has the Minister had regarding providing additional funding to departmental budgets in the wake of the recent UK Government announcement on accepting Syrian refugees? OAQ(4)0593(FIN)*

**Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

*9. Pa drafodaethau mae'r Gweinidog wedi eu cynnal gyda Llywodraeth y DU parthed cyllido digonol ar gyfer derbyn ffoaduriaid, yn sgil yr argyfwng diweddar? OAQ(4)0600(FIN)*

*9. What discussions has the Minister held with the UK Government regarding sufficient funding for accepting refugees, in light of the recent crisis? OAQ(4)0600(FIN)*

14:16 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Llywydd, I believe you've agreed to group questions 2 and 9. The First Minister has been clear that we will play our part in the UK's response to the crisis. He will host a summit tomorrow to co-ordinate Wales's response, bringing together the key agencies and service providers.

Lywydd, rwy'n credu eich bod wedi cytuno i grwpio cwestiynau 2 a 9. Mae'r Prif Weinidog wedi dweud yn glir y byddwn yn chwarae ein rhan yn ymateb y DU i'r argyfwng. Bydd yn cynnal uwchgynhadledd yfory i gydlynu ymateb Cymru, gan ddod â'r prif asiantaethau a darparwyr gwasanaethau at ei gilydd.

14:17 **Bethan Jenkins** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I hear what you say, but I don't hear whether you've had any discussions with the UK Government. It would have been something that I would have expected the Government to have done as an immediate cause of concern, considering the global issue that we now face. Can you tell us what exactly you will be raising with the UK Government, especially with regards to budget allocations, so that we know that local authorities who are already under pressure will be able to afford to support those refugees as they rightly deserve to be supported?

Rwy'n clywed yr hyn a ddywedwch, ond nid wyf yn clywed a ydych wedi cael unrhyw drafodaethau gyda Llywodraeth y DU. Byddai'n rhywbeth y byddwn wedi disgwyl i'r Llywodraeth ei wneud fel mater o frys uniongyrchol, ag ystyried y broblem fyd-eang sy'n ein hwynebu yn awr. A allwch ddweud wrthym beth yn union y byddwch yn ei ofyn i Lywodraeth y DU, yn enwedig parthed dyraniadau cyllidebol, er mwyn inni wybod y bydd awdurdodau lleol sydd eisoes o dan bwysau yn gallu fforddio cynorthwyo ffoaduriaid yn y modd y maent yn haeddu cael eu cynorthwyo?

14:17 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I think, Bethan Jenkins, you'll be pleased to hear that I had a meeting with the Chief Secretary to the Treasury this morning and it was on my agenda and I raised it with him. Of course, where costs are met centrally for refugees in England, we would expect refugees in Wales to be funded on the same basis. The UK Government has been clear that funding will be available from the overseas aid budget for the first year of resettlement and we are in discussions about how that can be transferred to local authorities accepting refugees.

Bethan Jenkins, rwy'n credu y byddwch yn falch o glywed fy mod wedi cyfarfod â Phrif Ysgrifennydd y Trysorlys y bore yma. Roedd hyn ar fy agenda a thrafodais y mater gydag ef. Wrth gwrs, lle y caiff costau eu talu'n ganolog ar gyfer ffoaduriaid yn Lloegr, byddem yn disgwyl i ffoaduriaid yng Nghymru gael eu hariannu ar yr un sail. Mae Llywodraeth y DU wedi dweud yn glir y bydd arian ar gael o'r gyllideb cymorth tramor ar gyfer y flwyddyn gyntaf o adsefydlu ac rydym yn cael trafodaethau ynglŷn â sut y gellir trosglwyddo hwnnw i awdurdodau lleol sy'n derbyn ffoaduriaid.

14:18 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Yn sgil hynny, wrth gwrs, sut medrwch chi wneud yn siŵr bod gan yr awdurdodau lleol gyllid digonol nid yn unig i groesawu ffoaduriaid, fel mae llawer yn dymuno ei wneud, ond i roi'r gefnogaeth tymor hir i ffoaduriaid o ran iechyd ac addysg a chymorth cymunedol hefyd? Rwy'n gweld hwn yn digwydd ar y cyd gyda chymunedau, ac, wrth gwrs, mae pobl yn gwirfoddoli ac yn rhoi o'r newydd fel rwy'n siarad, ond mewn pum mlynedd, mewn 10 mlynedd, bydd angen o hyd ymysg y teuluoedd rydym yn croesawu fan hyn. Beth yw'r strwythur tymor hir a fydd gennym yng Nghymru i gynnal ffoaduriaid yn ein cymunedau?

In light of that, of course, how can you ensure that local authorities have sufficient capacity not only to welcome refugees, as many wish to do, but also to provide the long-term support to those refugees in terms of health, education and community support? I see this happening jointly with communities and people do volunteer, of course, and are donating and giving of their time as I speak, but in five years or 10 years there will be still be needs among the families that we welcome here. What's the long-term structure that we will have in place in Wales to support refugees within our communities?

14:18 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Like the Minister for Public Services, I'm extremely pleased to see the number of Welsh local authorities who've responded so positively with their willingness to support measures to help accommodate the families in need. Clearly, this is going to be a key part of the discussion tomorrow at the summit. We have to recognise the fact that this will result in needs that we have to support. In fact, in terms of our contact, again, with the UK Government, we are raising the issue about the Syrian vulnerable persons relocation scheme, how it will operate and how we in Wales can play our full part.

Fel y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus, rwy'n hynod o falch o weld y nifer o awdurdodau lleol yng Nghymru sydd wedi ymateb mor gadarnhaol gyda'u parodrwydd i gefnogi camau i helpu i ddarparu llety ar gyfer teuluoedd mewn angen. Yn amlwg, mae hyn yn mynd i fod yn rhan allweddol o'r drafodaeth yn yr uwchgynhadledd yfory. Mae'n rhaid i ni gydnabod y ffaith y bydd hyn yn arwain at anghenion sy'n rhaid inni eu cefnogi. Yn wir, o ran ein cyswllt gyda Llywodraeth y DU, rydym yn trafod cynllun adleoli pobl fregus o Syria, sut y bydd yn gweithredu a sut y gallwn ni yng Nghymru chwarae ein rhan yn llawn.

14:19 **Julie Morgan** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I know the Minister is aware that the 20,000 refugees from Syria, Turkey and Jordan who will come to Britain under the vulnerable persons relocation scheme will have the right to work. Obviously, many of them will have great skills that will be of great advantage to our different communities. I don't know whether she's been able, in her discussions so far this morning, to raise the issue of support for the refugees to get into work, awareness-raising amongst employers, and perhaps some degree of retraining, because I don't think we should think of the refugees as being necessarily a burden on local authorities, but see the skills that they bring as something that we can benefit from.

Rwy'n gwybod bod y Gweinidog yn ymwybodol y bydd hawl i weithio gan yr 20,000 o ffoaduriaid o Syria, Twrci a Gwlad yr Iorddonen a ddaw i Brydain o dan y cynllun adleoli pobl fregus. Yn amlwg, bydd gan lawer ohonynt sgiliau gwych a fydd o fantais fawr i'n gwahanol gymunedau. Nid wyf yn gwybod a yw hi wedi llwyddo, yn ei thrafodaethau hyd yn hyn y bore yma, i grybwyll mater cymorth i ffoaduriaid i gael gwaith, codi ymwybyddiaeth ymysg cyflogwyr, ac efallai rhywfaint o ailhyfforddi, gan nad wyf yn credu y dylem feddwl am y ffoaduriaid fel baich ar awdurdodau lleol o reidrwydd, ond dylem weld y sgiliau y maent yn eu cynnig fel pethau y gallwn fanteisio arnynt.

14:20 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank Julie Morgan for this question, following also Simon Thomas and Bethan Jenkins this afternoon. I do welcome that suggestion, and it's something that I think we can discuss with the Minister for Economy, Science and Transport, particularly how we can work with employer organisations to raise awareness of the work-ready status of many refugees. I think also to recognise that, already, European funding projects can make a contribution to the integration of refugees, and these are targeted initiatives—importantly including improving language, confidence-building and other skills to help refugees into work.

Diolch i Julie Morgan am y cwestiwn hwn, yn dilyn Simon Thomas a Bethan Jenkins hefyd y prynhawn yma. Rwy'n croesawu'r awgrym, ac mae'n rhywbeth rwy'n meddwl y gallwn ei drafod gyda Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, yn enwedig y modd y gallwn weithio gyda sefydliadau cyflogwyr i godi ymwybyddiaeth o statws parod at waith llawer o'r ffoaduriaid. Rwy'n credu hefyd fod angen cydnabod bod prosiectau cyllid Ewropeaidd eisoes yn cyfrannu at integreiddio ffoaduriaid, ac mae'r mentrau hyn wedi'u targedu—gan gynnwys, yn bwysig iawn, gwella iaith, meithrin hyder a sgiliau eraill i helpu ffoaduriaid i gael gwaith.

14:20 **Suzy Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, since May 2010, Swansea's been officially designated as a city of sanctuary. I was wondering, in the light of their experience, whether you've asked them for any advice over and above that that you've requested through your general call about how to best support the refugees that Wales will be welcoming. I must admit, I was disappointed to hear from the public services Minister that this council with direct experience will not be at the summit tomorrow.

Weinidog, ers mis Mai, 2010, mae Abertawe wedi cael ei dynodi'n swyddogol fel dinas noddfa. Yng ngoleuni eu profiad, roeddwn i'n meddwl tybed a ydych wedi gofyn iddynt am gyngor ychwanegol at yr hyn rydych wedi gofyn amdano drwy eich galwad gyffredinol am y ffordd orau o gynorthwyo'r ffoaduriaid y bydd Cymru yn eu croesawu. Rhaid i mi gyfaddef, roeddwn yn siomedig o glywed gan y Gweinidog gwasanaethau cyhoeddus na fydd y cyngor hwn sydd â phrofiad uniongyrchol yn mynychu'r uwchgynhadledd yfory.

14:21 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, of course, Wales's larger, more urban authorities, like Swansea—and, indeed, I think yesterday Newport was mentioned as well and, of course, Cardiff—have traditionally hosted the vast majority, indeed, of asylum seekers and refugees in Wales. So, their experience, of course, will be important and, of course, the ways in which they are working with the third sector, as well as our statutory bodies and their health boards, will also be key. Of course, the health sector will be represented at the summit tomorrow.

Wel, wrth gwrs, awdurdodau mwy o faint a mwy trefol Cymru fel Abertawe—ac yn wir, rwy'n meddwl bod Casnewydd wedi cael sylw ddoe hefyd, a Chaerdydd wrth gwrs—sydd wedi cynnal y mwyafrif helaeth o geiswyr lloches a ffoaduriaid yng Nghymru yn draddodiadol. Felly, bydd eu profiad hwy'n bwysig, wrth gwrs, a bydd y ffyrdd y gweithiant gyda'r trydydd sector, yn ogystal â'n cyrff statudol a'u byrddau iechyd, yn allweddol hefyd. Wrth gwrs, bydd y sector iechyd yn cael ei gynrychioli yn yr uwchgynhadledd yfory.

14:22 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Minister, the conference that you're holding tomorrow is very welcome. The Scottish Government held their conference two weeks ago. Obviously, the First Minister made various pronouncements some two to three weeks ago about Wales's position on this. I appreciate you're going to have dialogue with partners tomorrow, but can you assure us that the Welsh Government operation is fully up to speed and engaged, in particular with the Westminster Government and the new Minister that was announced on Monday, to make sure that the measures put forward, in particular the measure that Theresa May was talking about in her statement to the House of Commons this afternoon, have been taken on board by the Welsh Government and the conference will come out with substantial outcomes for all participants to go away and deliver?

Weinidog, mae'r gynhadledd rydych yn ei chynnal yfory i'w chroesawu'n fawr. Cynhaliodd Llywodraeth yr Alban eu cynhadledd hwy bythefnos yn ôl. Yn amlwg, gwnaeth y Prif Weinidog amryw o ddatganiadau tua dwy neu dair wythnos yn ôl ynghylch safbwynt Cymru ar hyn. Rwy'n sylweddoli eich bod yn mynd i drafod gyda phartneriaid yfory, ond a allwch ein sicrhau bod trefniadau Llywodraeth Cymru gystal ag y gallant fod a'i bod yn ymgysylltu'n arbennig â Llywodraeth San Steffan a'r Gweinidog newydd a gyhoeddwyd ddydd Llun, i wneud yn siŵr bod y mesurau a gyflwynwyd, yn enwedig y mesur y soniodd Theresa May amdano yn ei datganiad i Dŷ'r Cyffredin y prynhawn yma, wedi cael eu hystyried gan Lywodraeth Cymru ac y bydd y gynhadledd yn arwain at ganlyniadau sylweddol i bawb fynd oddi yno i'w cyflawni?

14:22 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

The First Minister will be making a statement following the summit tomorrow. I'm sure the leader of the opposition will be pleased that I met with the Chief Secretary to the Treasury this morning. Of course, tomorrow, we will be discussing what steps the Welsh Government needs to take to support public bodies in Wales playing a full role.

Bydd y Prif Weinidog yn gwneud datganiad yn dilyn yr uwchgynhadledd yfory. Rwy'n siŵr y bydd arweinydd yr wrthblaid yn falch fy mod wedi cyfarfod â Phrif Ysgrifennydd y Trysorlys y bore yma. Wrth gwrs, yfory, byddwn yn trafod pa gamau sydd angen i Lywodraeth Cymru eu rhoi ar waith i gynorthwyo cyrff cyhoeddus yng Nghymru i chwarae rhan lawn yn hyn.

## Cwestiynau Heb Rybudd gan Lefarwyr y Pleidiau

## Questions Without Notice from Party Spokespeople

14:23 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

We now move to questions from party spokespeople. First this afternoon is the Plaid Cymru spokesperson, Alun Ffred Jones.

Symudwn yn awr at gwestiynau gan lefarwyr y pleidiau. Yn gyntaf y prynhawn yma, llefarydd Plaid Cymru, Alun Ffred Jones.

14:23 **Alun Ffred Jones** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Diolch yn fawr. A wnaiff y Gweinidog ddatgan faint o fuddsoddiadau mae hi a'r Llywodraeth wedi eu gwneud sydd i'w hariannu drwy gyllid arloesol?

Thank you very much. Will the Minister state how many investments that she and the Government have made have been funded through innovation funds?

14:23 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

I will have to write to the Member on the specific number in terms of funds in terms of the innovation fund.

Bydd yn rhaid imi ysgrifennu at yr Aelod ynghylch y swm penodol o gyllid o ran y gronfa arloesi.

14:23 **Alun Ffred Jones** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Iawn. Wel, diolch yn fawr iawn am yr ateb yna. Yn anffodus, mae'n debyg na fyddwch chi'n gallu ateb yr ail gwestiwn chwaith.

Right. Well, thank you very much for that answer. Unfortunately, it appears that you won't be able to answer the second question either.

Minister, it is welcome that you eventually leveraged additional—well, I hope that you've leveraged additional—finance from outside the block grant, as Plaid Cymru has long campaigned for. Now then, these are not private finance initiatives, but there are still risks in leveraging private funding in terms of the payback rates and the payback period, and that money obviously has to come from the block grant. Now the Finance Committee previously asked that you provide a breakdown of the repayment profiles for the innovative financing schemes you are responsible for. Now then, I was going to ask you to update us today on how much in revenue funding these schemes will cost over the coming years, but presumably you will be able to send a note regarding that.

Weinidog, mae'r ffaith eich bod o'r diwedd wedi denu cyllid ychwanegol—wel, rwy'n gobeithio eich bod wedi denu arian ychwanegol—o'r tu allan i'r grant bloc i'w groesawu, a dyma y bu Plaid Cymru yn ymgyrchu amdano ers amser hir. Nawr, nid mentrau cyllid preifat yw'r rhain, ond mae yna risgiau'n dal i fod wrth ddenu cyllid preifat o ran y cyfraddau ad-dalu a'r cyfnod ad-dalu, ac yn amlwg mae'n rhaid i'r arian hwnnw ddod o'r grant bloc. Yn flaenorol, fe ofynnodd y Pwyllgor Cyllid i chi ddarparu dadansoddiad o'r proffiliau ad-dalu ar gyfer y cynlluniau ariannu arloesol rydych yn gyfrifol amdanynt. Nawr te, roeddwn i'n mynd i ofyn i chi roi'r wybodaeth ddiweddaraf inni heddiw ynglŷn â faint o gyllid refeniw y bydd y cynlluniau hyn yn ei gostio dros y blynyddoedd nesaf, ond mae'n debyg y byddwch yn gallu anfon nodyn ynglŷn â hynny.

14:24 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Well, I do apologise, Alun Ffred Jones, but I now realise what the purpose of your first question was: it was about the investment we've made in the innovative finance routes that we've taken, particularly through the local government borrowing initiatives, the housing finance grant—I presume that's the point you are making in terms of your question—and, indeed, the moves that we're taking in terms of the non-dividend model, which, of course, is going to help finance not only Velindre Cancer Centre, but also the Heads of the Valleys road and our twenty-first century schools. In fact, we are levering over £1.9 billion in investment in infrastructure through those innovative routes, and indeed, of course, we can account for the cost of that in terms of the revenue to assist in that borrowing.

Wel, rwy'n ymddiheuro, Alun Ffred Jones, ond rwy'n deall yn awr beth oedd diben eich cwestiwn cyntaf: roedd yn ymwneud â'r buddsoddiad a wnaethom yn y llwybrau cyllid arloesol rydym wedi'u dilyn, yn enwedig drwy gynlluniau benthyca llywodraeth leol, y grant cyllid tai—rwy'n tybio mai dyna'r pwynt rydych yn ei wneud yn eich cwestiwn—ac yn wir, y camau rydym yn eu cymryd o ran y model di-ddifidend, sydd, wrth gwrs, yn mynd i helpu i gyllido nid yn unig Canolfan Ganser Felindre, ond hefyd ffordd Blaenau'r Cymoedd a'n hysgolion ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain. Mewn gwirionedd, rydym yn denu dros £1.9 biliwn o fuddsoddiadau yn y seilwaith drwy'r llwybrau arloesol hynny, ac yn wir, gallwn roi cyfrif o gost hynny, wrth gwrs, yn nhermau'r refeniw i gynorthwyo'r benthyca hwnnw.

14:25 **Alun Ffred Jones** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

So, you will be able to provide us or provide me with the current cost, the revenue cost, of these schemes to the Government or to any other body that they apply. My last question, therefore, is: can you reassure us that no new PFI schemes are being implemented by local health boards? Because these are not PFI schemes, are they? But am I right in saying that there are no new PFI schemes being implemented by local health boards in Wales?

Felly, fe fyddwch yn gallu rhoi'r gost gyfredol i mi, neu i ni, cost refeniw'r cynlluniau hyn i'r Llywodraeth neu i unrhyw gorff arall y maent yn berthnasol iddo. Fy nghwestiwn olaf, felly, yw: a allwch ein sicrhau na fydd unrhyw gynlluniau Menter Cyllid Preifat newydd yn cael eu gweithredu gan fyrddau iechyd lleol? Oherwydd nid cynlluniau Menter Cyllid Preifat yw'r rhain, nage? Ond a wyf fi'n gywir i ddweud nad oes unrhyw gynlluniau Menter Cyllid Preifat newydd yn cael eu gweithredu gan fyrddau iechyd lleol yng Nghymru?

14:25 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

If I could just go back and give you a couple of examples; I will give you a full range of examples and share that with Members in terms of how we are assisting in terms of the borrowing. For example, for the local government borrowing initiative, we're levering £170 million into the all-important construction and improvement of highways; £4 million, of course, in terms of the contribution that we are making to the housing finance grant, which is going to deliver 1,000 affordable houses. There are no new PFI schemes that I am aware of in terms of health board developments.

Os caf fi fynd yn ôl i roi un neu ddau o enghreifftiau i chi; rhoddaf ystod lawn o enghreifftiau i chi a rhannu hynny gyda'r Aelodau o ran sut yr ydym yn cynorthwyo o ran y benthyca. Er enghraifft, ar gyfer menter benthyca llywodraeth leol, rydym yn denu £170 miliwn i mewn i'r gwaith hollbwysig o adeiladu a gwella priffyrdd; rydym yn cyfrannu £4 miliwn, wrth gwrs, at y grant cyllid tai, sydd yn mynd i ddarparu 1,000 o dai fforddiadwy. Nid oes unrhyw gynlluniau Menter Cyllid Preifat newydd rwy'n ymwybodol ohonynt o ran datblygiadau byrddau iechyd.

14:26 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

We now move to the Welsh Liberal Democrat spokesperson, Peter Black.

Symudwn yn awr at lefarydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, Peter Black.

14:26 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you, Presiding Officer. Again, I declare I'm a councillor on the City and County of Swansea Council. Minister, you issued a statement on 8 September regarding regulating for public procurement in which you announced that the Welsh Government had secured additional powers to regulate on public procurement in Wales. [Interruption.] Sorry, I don't want to interrupt the leader of the opposition, should he—. I'll carry on. Right, thank you. Minister, given that you now have these additional powers, could you outline to the Chamber what exactly those powers are, please?

Diolch i chi, Lywydd. Unwaith eto, rwy'n datgan fy mod yn gynghorydd ar Gyngor Dinas a Sir Abertawe. Weinidog, fe gyhoeddwyd datganiad gennych ar 8 Medi ar reoleiddio caffael cyhoeddus lle roeddech yn cyhoeddi bod Llywodraeth Cymru wedi sicrhau pwerau ychwanegol i reoleiddio caffael cyhoeddus yng Nghymru. [Torri ar draws.] Mae'n ddrwg gennyf, nid wyf am dorri ar draws arweinydd yr wrthblaid, os yw'n—. Rwyf am fwrw ymlaen. Iawn, diolch. Weinidog, o gofio bod gennych y pwerau ychwanegol hyn bellach, a wnewch chi amlinellu i'r Siambr beth yn union yw'r pwerau hynny, os gwelwch yn dda?

14:27 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I thank Peter Black for that question. Yes, we now have the designation Order agreed with the UK Government, which means we can now regulate in relation to our Wales public procurement policies, and, of course, that does mean that we can move from guidance to regulation.

Diolch i Peter Black am ei gwestiwn. Do, bellach mae gennym y Gorchymyn dynodi a gytunwyd gyda Llywodraeth y DU, sy'n golygu y gallwn reoleiddio yn awr mewn perthynas â'n polisïau caffael cyhoeddus yng Nghymru, ac wrth gwrs, mae hynny'n golygu y gallwn symud o ganllawiau at reoleiddio.

14:27 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you for that answer, Minister. In your statement, you say that it's important that these new powers are used to ensure that barriers to engaging in public procurement are reduced for business and to support the delivery of public services. Could I ask, when you come to draw up these regulations, to what extent will you be involving the private sector and businesses in ensuring that they are as sympathetic as possible to ensure that as much of the Welsh pound is being spent in Wales and locally as possible?

Diolch am eich ateb, Weinidog. Yn eich datganiad, fe ddywedwch ei bod yn bwysig defnyddio'r pwerau newydd i sicrhau bod rhwystrau i gymryd rhan mewn caffael cyhoeddus yn cael eu lleihau i fusnesau ac i gefnogi'r modd y caiff gwasanaethau cyhoeddus eu darparu. A gaf fi ofyn, pan ddowch i lunio'r rheoliadau hyn, i ba raddau y byddwch yn cynnwys y sector preifat a busnesau er mwyn sicrhau eu bod mor gydymdeimladol â phosibl i sicrhau bod cymaint ag y bo modd o'r bunt Gymreig yn cael ei gwario yng Nghymru ac yn lleol?

14:28 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I certainly will be engaging with the private sector—in fact, I'm going to the Council for Economic Renewal, which, of course, includes employer representatives, not just the Confederation of British Industry, the Federation of Small Business and the Institute of Directors, as well as the Wales Trades Union Congress, to report on the opportunities that the new designation Order will bring to us, and to engage with them as we move forward, particularly to look at ways in which we can strengthen our community benefits policy.

Byddaf yn sicr yn ymgysylltu â'r sector preifat—mewn gwirionedd, rwy'n mynd at Gyngor Adnewyddu'r Economi, sydd, wrth gwrs, yn cynnwys cynrychiolwyr cyflogwyr, yn ogystal â Chydffederasiwn Diwydiant Prydain, y Ffederasiwn Busnesau Bach a Sefydliad y Cyfarwyddwyr, a Chyngres Undebau Llafur Cymru, i adrodd ar y cyfleoedd y bydd y Gorchymyn dynodi newydd yn eu creu i ni, ac i ymgysylltu â hwy wrth i ni symud ymlaen, er mwyn edrych yn benodol ar ffyrdd y gallwn gryfhau ein polisi mantais gymunedol.

14:28 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you again for that answer, Minister. You'll know that I've raised in the past the membership of your procurement advisory board, which was, at the last time of looking, entirely made up of public sector representatives. Given the key part this advisory board has in terms of helping you to put in place these regulations and your approach to procurement, can I ask whether you'll be intending to open up its membership to include members of the private sector so that we can have that additional angle, if you like, to making sure that we are as sympathetic as possible to Welsh business in terms of public procurement?

Diolch i chi unwaith eto am eich ateb, Weinidog. Fe wyddoch fy mod wedi crybwyll aelodaeth eich bwrdd cynghori ar gaffael yn y gorffennol, bwrdd nad oedd ond yn cynnwys cynrychiolwyr o'r sector cyhoeddus pan edrychwyd arno ddiwethaf. O ystyried y rhan allweddol sydd gan y bwrdd cynghori hwn yn eich helpu i roi'r rheoliadau hyn ar waith a'ch ymagwedd at gaffael, a gaf fi ofyn a ydych yn bwriadu agor ei aelodaeth i gynnwys aelodau o'r sector preifat er mwyn i ni gael yr ongl ychwanegol honno, os mynnwch, i wneud yn siŵr ein bod mor gydymdeimladol â phosibl i fusnesau Cymru o ran caffael cyhoeddus?

14:29 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I can assure you that we are progressing with discussions. Will Godfrey, the chief executive of Newport City Council, is chairing the procurement board, and he is now undertaking those discussions with Business Wales to secure the most appropriate involvement.

Gallaf eich sicrhau bod ein trafodaethau yn symud ymlaen. Will Godfrey, prif weithredwr Cyngor Dinas Casnewydd, sy'n cadeirio'r bwrdd caffael, ac mae bellach yn cynnal y trafodaethau hynny gyda Busnes Cymru i sicrhau'r cyfranogiad mwyaf priodol.

14:29 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We now move to the Welsh Conservative spokesperson, Nick Ramsay.

Symudwn yn awr at lefarydd y Ceidwadwyr Cymreig, Nick Ramsay.

14:29 **Nick Ramsay** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, over the last five years how many businesses have notified the Welsh Government that they have ceased or threatened to cease trading during the duration of the business grant or the five years that follow?

Weinidog, dros y pum mlynedd diwethaf, faint o fusnesau sydd wedi rhoi gwybod i Lywodraeth Cymru eu bod wedi rhoi'r gorau neu wedi bygwth rhoi'r gorau i fasnachu dros gyfnod y grant busnes neu'r pum mlynedd sy'n dilyn?

14:29 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I think, in response to that question, which I believe is for the Minister for Economy, Science and Transport, I responded to William Graham by saying that grants are provided to businesses from a range of grant schemes across the Welsh Government, with over 3,000 businesses funded each year.

Mewn ymateb i'r cwestiwn, sy'n gwestiwn i Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth rwy'n credu, rwy'n meddwl fy mod wedi ateb William Graham drwy ddweud bod grantiau'n cael eu darparu i fusnesau o amrywiaeth o gynlluniau grantiau ar draws Llywodraeth Cymru, gyda thros 3,000 o fusnesau'n cael eu hariannu bob blwyddyn.

14:29 **Nick Ramsay** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I'll have to correct you there, Minister; it was actually a question asked by me, a written question, and you responded that you didn't have the information back then, so I wouldn't pass the buck on to the economy Minister just yet. I'll ask you a slightly easier question. We know that the Welsh Government is currently in negotiation with over 50 businesses, in efforts to retrieve previously-awarded grants totalling £11 million. How much of that money do you expect to recover, and how much do you expect to be written off?

Bydd yn rhaid i mi eich cywiro chi ar hynny, Weinidog; cwestiwn a ofynnais i oedd hwnnw mewn gwirionedd, cwestiwn ysgrifenedig, ac fe ateboch nad oedd y wybodaeth gennych bryd hynny, felly ni fyddwn yn taflu'r baich at Weinidog yr economi eto. Fe ofynnaf gwestiwn ychydig yn haws i chi. Gwyddom fod Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd mewn trafodaethau gyda thros 50 o fusnesau, mewn ymdrech i adfer grantiau a ddyfarnwyd yn flaenorol gwerth £11 miliwn i gyd. Faint o'r arian hwnnw rydych chi'n disgwyl ei adfer, a faint ohono rydych chi'n disgwyl ei weld yn cael ei ddileu?

14:30 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Grant funding is provided to businesses where it's judged that there will be a benefit to the Welsh economy and the people of Wales. And, of course, we have to achieve a balance, so that we do have appropriate measures in place to mitigate risks. Of course, there are risks associated with grant funding—you would recognise that. But, again, appropriate due diligence checks are undertaken of all organisations, whether receiving grant or loan funding.

Darperir cyllid grant i fusnesau lle bernir y bydd o fudd i economi Cymru a phobl Cymru. Ac wrth gwrs, mae'n rhaid i ni sicrhau cydbwysedd fel bod gennym fesurau priodol ar waith i liniaru risgiau. Wrth gwrs, mae yna risgiau'n gysylltiedig â chyllid grant—fe fyddech yn cydnabod hynny. Ond unwaith eto, cynhelir gwiriadau diwydrwydd dyladwy priodol ar yr holl sefydliadau, pa un a ydynt yn derbyn cyllid grant neu fenthyciad.

14:30 **Nick Ramsay** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

So, as I expected, you haven't given us an answer on how much you do expect to recover, and with regard to the previous question, you don't have those figures to hand, even though I did ask that question a while before. Minister, you know, after your time—your considerable time now—as finance Minister, that, at the heart of an effective Government is the effective spend of public money. You've clearly been awarding grants to businesses that were not adequately assessed in the first place; you also tell us that you don't even have any figures for the number of businesses that have ceased trading during the duration of receiving a Welsh Government grant. This is less than reassuring, both to us, and to the business world. Doesn't this all add to the growing impression that this Welsh Government doesn't really do finance?

Felly, fel roeddwn i'n disgwyl, nid ydych wedi rhoi ateb i ni'n dweud faint rydych yn disgwyl ei adfer, ac o ran y cwestiwn blaenorol, nid yw'r ffigurau hynny gennych wrth law, er fy mod wedi gofyn y cwestiwn beth amser yn ôl. Weinidog, ar ôl eich amser—cryn dipyn o amser bellach—fel Gweinidog cyllid, fe wyddoch mai'r hyn sy'n ganolog i Lywodraeth effeithiol yw'r gallu i wario arian cyhoeddus yn effeithiol. Mae'n amlwg eich bod wedi bod yn dyfarnu grantiau i fusnesau na chawsant eu hasesu'n ddigonol yn y lle cyntaf; rydych chi'n dweud wrthym hefyd nad oes gennych unrhyw ffigurau sy'n dynodi nifer y busnesau sydd wedi rhoi'r gorau i fasnachu dros gyfnod derbyn grant gan Lywodraeth Cymru. Nid yw hyn yn ein calonogi ni, na'r byd busnes. Onid yw hyn i gyd yn ychwanegu at yr argraff gynyddol nad yw Llywodraeth Cymru yn gallu delio â chyllid mewn gwirionedd?

14:31 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

This is very weak and poor; I suppose you're not concerned about those businesses in your constituency that have benefited from grants and loans. But can I just now say that, since May 2011, the number of businesses from whom we're seeking to recover funds represents just 1.3 per cent of the total offers made—1.3 per cent, Nick Ramsay, of the total offers made. And the vast majority of businesses we support are successful in creating jobs. Again, last year, we recorded more than 38,000 jobs created, safeguarded, or assisted by the Welsh Government.

Mae hyn yn wan ac yn wael iawn; tybiaf nad ydych yn poeni am y busnesau hynny yn eich etholaeth sydd wedi elwa o grantiau a benthyciadau. Ond a gaf fi ddweud yn awr nad yw nifer y busnesau ers mis Mai 2011 yr ydym yn ceisio adennill arian ganddynt ond yn 1.3 y cant o gyfanswm y cynigion a wnaed—1.3 y cant, Nick Ramsay, o gyfanswm y cynigion a wnaed. Ac mae'r mwyafrif helaeth o fusnesau a gefnogwn yn llwyddo i greu swyddi. Eto, y llynedd, cofnodwyd bod Llywodraeth Cymru wedi creu, diogelu neu gefnogi dros 38,000 o swyddi.

14:32 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We now move back to questions on the paper, and question 3 is from Jeff Cuthbert.

Symudwn yn ôl yn awr at y cwestiynau ar y papur, a daw cwestiwn 3 gan Jeff Cuthbert.

## Polisi Caffael Cyhoeddus a Deddf Llesiant Cenedlaethu'r Dyfodol (Cymru) 2015

## Public Procurement Policy and the Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015

14:32 **Jeff Cuthbert** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*3. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y berthynas rhwng polisi caffael cyhoeddus Llywodraeth Cymru a darpariaethau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015? OAQ(4)0594(FIN)*

*3. Will the Minister make a statement about the relationship between the Welsh Government's public procurement policy and the provisions of the Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015? OAQ(4)0594(FIN)*

14:32 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I think, Jeff Cuthbert, that's a very useful question, because the refreshed Wales procurement policy statement is aligned with, and supports the delivery of, the seven goals of the Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015.

Jeff Cuthbert, rwy'n meddwl bod hwnnw'n gwestiwn defnyddiol iawn am fod datganiad polisi caffael Cymru ar ei newydd wedd yn cyd-fynd â saith nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, ac yn cynorthwyo'r broses o'i chyflwyno.

14:32 **Jeff Cuthbert** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for that response, Minister. Does the Minister agree with me that, although the provisions of the future generations Act apply to the public sector, there will be an impetus for those private companies wishing to procure work from the Welsh Government to fully understand the importance and value of sustainable development? Therefore, is it not reasonable to expect that such companies should be able to show how they will help to meet the goals, particularly in terms of ethical employment and training?

Diolch i chi am eich ateb, Weinidog. A yw'r Gweinidog yn cytuno â mi, er bod darpariaethau Deddf cenedlaethau'r dyfodol yn berthnasol i'r sector cyhoeddus, y bydd ysgogiad i'r cwmnïau preifat sy'n dymuno caffael gwaith gan Lywodraeth Cymru i ddeall pwysigrwydd a gwerth datblygu cynaliadwy? Felly, onid yw'n rhesymol disgwyl y dylai cwmnïau o'r fath allu dangos sut y byddant yn helpu i gyrraedd y nodau, yn enwedig o ran cyflogaeth a hyfforddiant moesegol?

14:33 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I think the importance of the public procurement policy is that we do have an opportunity to influence the actions of our suppliers, and help shape their contribution to the wellbeing of future generations. And, you know, our suppliers are an extension of the Welsh Government's offer to supply the Welsh public sector. We can, of course, now ensure that we contract with companies that are willing to share our values and support the delivery of our goals in Wales.

Rwy'n meddwl mai'r hyn sy'n gwneud y polisi caffael cyhoeddus yn bwysig yw bod gennym gyfle i ddylanwadu ar weithredoedd ein cyflenwyr, a helpu i lywio eu cyfraniad i lesiant cenedlaethau'r dyfodol. Ac mae ein cyflenwyr, wyddoch chi, yn estyniad o gynnig Llywodraeth Cymru i gyflenwi'r sector cyhoeddus yng Nghymru. Wrth gwrs, gallwn sicrhau yn awr ein bod yn llunio contractau â chwmnïau sy'n fodlon rhannu ein gwerthoedd ac sy'n cefnogi ein nodau yng Nghymru.

14:33 **Mark Isherwood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

This summer, I met an environmental consultancy in north Wales to discuss public procurement from the perspective of small and medium-sized enterprises. How do you respond to their concern that this huge upfront investment of resources is entirely abortive and unproductive, that learning from rejected bids is nearly impossible, that bids are often won on price, but then found to be lacking in essential resources, often included in the losing bids but not picked up, and that colleagues in south Wales feel exactly the same?

Yr haf hwn, cyfarfûm ag ymgynghoriaeth amgylcheddol yng ngogledd Cymru i drafod caffael cyhoeddus o safbwynt busnesau bach a chanolig eu maint. Sut ydych chi'n ymateb i'w pryder fod y buddsoddiad enfawr hwn ymlaen llaw o adnoddau yn gwbl ofer ac anghynhyrchiol, ei bod bron yn amhosibl dysgu o geisiadau a wrthodwyd, fod ceisiadau yn aml yn cael eu hennill ar sail pris, ond yna i'w gweld yn brin o adnoddau hanfodol, sy'n aml wedi'u cynnwys yn y ceisiadau sy'n colli ond heb eu nodi, a bod cydweithwyr yn ne Cymru yn teimlo'n union yr un fath?

14:34 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, certainly, that's not the experience that has been reported to me by businesses in north Wales, and in south Wales. And of course, as a result of the investment that we've made in procurement, we have removed many of the barriers that were identified by businesses, and then we've continued to do that. I believe our new designation Order will strengthen those opportunities.

Wel, yn sicr, nid dyna'r profiad y mae busnesau yn y gogledd, ac yn y de wedi'i grybwyll wrthyf. Ac wrth gwrs, yn sgil y buddsoddi a wnaethom ym maes caffael, rydym wedi cael gwared ar lawer o'r rhwystrau a nodwyd gan fusnesau, ac rydym wedi parhau i wneud hynny. Rwy'n credu y bydd ein Gorchymyn dynodi newydd yn cryfhau'r cyfleoedd hynny.

14:34 **Llyr Gruffydd** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Jest i bigo i fyny ar eich ateb i'r cwestiwn cyntaf, a allwch chi gadarnhau y bydd hi'n rheidrwydd ar unrhyw drydydd parti i fod yn cyfrannu tuag at y nodau llesiant mewn modd rhagweithiol mewn unrhyw waith maen nhw'n ei wneud? Efallai y gallwch chi ddweud wrthym ni sut y bydd hynny'n cael ei heddlua. Ai rôl i gomisiynydd cenedlaethau'r dyfodol fydd hynny, neu ai rôl i chi fel Llywodraeth? Yn olaf, sut y byddwch chi yn ymateb i sefyllfa lle nad yw'r nodau yna yn cael eu parchu?

Just to pick up on your response to the first question, can you confirm that it will be a requirement of any third parties to contribute towards the wellbeing goals in a proactive way in any work that they do? Perhaps you could tell us how that will be policed. Will that be a role for the commissioner for future generations or will it be a role for you as Government? Finally, how will you respond to a situation where those goals aren't respected?

14:35 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I have taken the opportunity, as you know, Llyr Huws Gruffydd, to use procurement policies to encourage ethical, responsible business behaviour already, and that's going to particularly protect vulnerable suppliers and employees. And, of course, there are ways in which we can do that, in establishing new powers for public procurement. We can, for example, reserve contracts for businesses that employ a workforce of 30 per cent or more disabled, disadvantaged people. But we now have an opportunity to look at how we can ensure that businesses comply with the law and treat their workers with respect.

Achubais ar y cyfle eisoes, fel y gwyddoch, Llyr Huws Gruffydd, i ddefnyddio polisïau caffael i annog ymddygiad busnes moesegol a chyfrifol, ac mae hynny'n mynd i ddiogelu cyflenwyr a gweithwyr sy'n agored i niwed yn arbennig. Ac wrth gwrs, mae yna ffyrdd y gallwn wneud hynny wrth sefydlu pwerau newydd ar gyfer caffael cyhoeddus. Er enghraifft, gallwn gadw contractau ar gyfer busnesau sydd â 30 y cant neu fwy o'u gweithlu'n bobl anabl, neu'n bobl o dan anfantais. Ond mae gennym gyfle yn awr i edrych ar sut y gallwn sicrhau bod busnesau yn cydymffurfio â'r gyfraith ac yn trin eu gweithwyr gyda pharch.

### Cynlluniau Gwariant Llywodraeth y DU

### The UK Government's Spending Plans

14:36 **John Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*4. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y trafodaethau a gafwyd gyda Llywodraeth y DU ynghylch ei chynlluniau gwariant? OAQ(4)0601(FIN)*

*4. Will the Minister make a statement on discussions held with the UK Government regarding its spending plans? OAQ(4)0601(FIN)*

14:36 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I have this morning met the Chief Secretary to the Treasury to discuss a range of financial issues impacting on Wales.

Y bore yma, cefais gyfarfod â Phrif Ysgrifennydd y Trysorlys i drafod amrywiaeth o faterion ariannol sy'n effeithio ar Gymru.

14:36 **John Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, the UK Government's austerity plans are impacting particularly severely on more deprived communities and this is a great issue for us here in Wales given our level of social and economic need. Could you assure Members here that, in terms of process at least, the UK Government is properly engaging with Welsh Government, because I understand that there are considerable concerns regarding the summer budget that was held, and indeed the November spending review, particularly the fact that it's at the end of November and will allow very little time for the Welsh Government to go through its own budget processes and ensure that, as best we can, the people of Wales are protected against this austerity agenda?

Weinidog, mae cynlluniau caledi Llywodraeth y DU yn effeithio'n arbennig o ddifrifol ar gymunedau mwy difreintiedig ac mae hon yn broblem fawr i ni yma yng Nghymru o ystyried ein lefel o angen cymdeithasol ac economaidd. A allwch sicrhau'r Aelodau yma fod Llywodraeth y DU, o ran proses o leiaf, yn ymgysylltu'n briodol â Llywodraeth Cymru, oherwydd rwy'n deall fod yna bryderon sylweddol ynghylch cyllideb yr haf a gynhaliwyd, ac adolygiad o wariant mis Tachwedd yn wir, yn enwedig y ffaith ei fod ar ddiwedd mis Tachwedd ac na fydd yn caniatáu llawer o amser i Lywodraeth Cymru fynd drwy ei phrosesau cyllidebol ei hun ac yn sicrhau, hyd eithaf ein gallu, fod pobl Cymru yn cael eu diogelu rhag yr agenda galedi?

14:37 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, I'm sure that the whole Chamber will be pleased to hear that I raised all those issues that John Griffiths raised with me this afternoon; I raised all those issues with the Chief Secretary. Also, in August, I met with my counterparts, the finance Ministers of the Scottish Government and Northern Ireland Executive, and we raised together our concerns and published our letter concerning the timescale of the spending review, which is not just causing difficulties for us as a Welsh Government, but for our partners in local government. Also, we did make the points again that we felt that the cuts were too deep and too fast.

Wel, rwy'n siŵr y bydd y Siambr gyfan yn falch o glywed fy mod wedi crybwyll yr holl faterion hynny y soniodd John Griffiths amdanynt y prynhawn yma; tynnais sylw'r Prif Ysgrifennydd at yr holl faterion hynny. Hefyd, ym mis Awst, cefais gyfarfod gyda'm cymheiriaid, Gweinidogion cyllid Llywodraeth yr Alban a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon, a chyda'n gilydd, rydym wedi lleisio ein pryderon a chyhoeddi ein llythyr yn ymwneud ag amserlen yr adolygiad o wariant. Nid i ni'n unig fel Llywodraeth Cymru y mae'n achosi anawsterau, ond i'n partneriaid mewn llywodraeth leol. Hefyd, fe wnaethom y pwyntiau eto ein bod yn teimlo bod y toriadau'n rhy ddwfn ac yn rhy gyflym.

14:37 **Mohammad Asghar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, what discussions have you had with the UK Government regarding any increased funding that may come to Wales to support the resettlement of Syrian refugees here in Wales?

Weinidog, pa drafodaethau a gawsoch gyda Llywodraeth y DU ynghylch unrhyw gynnydd yn y cyllid a allai ddod i Gymru i gefnogi ailsefydlu ffoaduriaid o Syria yma yng Nghymru?

14:38 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I have had discussions and I raised this issue with the Chief Secretary to the Treasury this morning.

Rwyf wedi cael trafodaethau a chrybwyllais y mater wrth Brif Ysgrifennydd y Trysorlys y bore yma.

14:38 **Alun Ffred Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Gan gyfeirio at y grant bloc, beth ydych chi a'r Llywodraeth Lafur yn ei wneud i sicrhau bod Cymru yn derbyn cyfran deg o unrhyw wariant ar gynllun yr HS2 yn Lloegr yn ystod tymor cyfredol y Senedd yn San Steffan?

With reference to the block grant, what are you and the Labour Government doing to ensure that Wales receives a fair share of any spend on the HS2 scheme in England during the current term of the Westminster Parliament?

14:38 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

This is a matter that I have raised with the UK Government. We made sure that we got a consequential in relation to HS2, and in terms of the spending review, we do have an opportunity again to raise this. I'm continuing to press the UK Government to increase capital expenditure and to receive consequentials from any future funding for HS2. Indeed, I discussed this again in the summer with my colleagues from Scotland and Northern Ireland.

Mae hwn yn fater rwyf wedi'i ddwyn i sylw Llywodraeth y DU. Gwnaethom yn siŵr ein bod yn cael swm canlyniadol mewn perthynas â HS2, ac o ran yr adolygiad o wariant, mae gennym gyfle unwaith eto i godi hyn. Rwy'n parhau i bwyso ar Lywodraeth y DU i gynyddu gwariant cyfalaf ac i dderbyn symiau canlyniadol o unrhyw gyllid ar gyfer HS2 yn y dyfodol. Yn wir, trafodais hyn eto yn ystod yr haf gyda fy nghydweithwyr o'r Alban a Gogledd Iwerddon.

### Cyllidebu Effeithiol

### Effective Budgeting

14:39 **Suzy Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*5. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gyllidebu effeithiol? OAQ(4)0595(FIN)*

*5. Will the Minister make a statement on effective budgeting? OAQ(4)0595(FIN)*

14:39 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Making the most effective use of our reduced budget is key to ensuring we achieve the priorities set out in our programme for government.

Mae gwneud y defnydd mwyaf effeithiol o'n cyllideb lai yn allweddol i sicrhau ein bod yn gwireddu'r blaenoriaethau a bennwyd yn ein rhaglen lywodraethu.

14:39 **Suzy Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you very much for that answer, Minister. As you may remember, Welsh Government gave the City and County of Swansea Council £14 million towards the cost of reconfiguring its road network to create new bus lanes in the city—not just any bus lanes, but bus lanes with more complex specifications in order to accommodate the bendy buses that the council was acquiring. The council has dispensed with those bendy buses after just six years. While the council tax payers of Swansea and, I dare say, the finance officers of Swansea council, are relieved to hear that the Welsh Government won't be reclaiming any of that £14 million, can you tell other taxpayers in my region what steps you're taking to ensure that their money isn't squandered on other Welsh Government support for expensive and controversial plans that collapse in such a short period of time? It's not just in the private sector you're making these mistakes.

Diolch yn fawr iawn am eich ateb, Weinidog. Fel y cofiwch efallai, rhoddodd Llywodraeth Cymru £14 miliwn i Gyngor Dinas a Sir Abertawe tuag at gost ailgyflunio ei rwydwaith ffyrdd i greu lonydd bysiau newydd yn y ddinas—nid unrhyw lonydd bysiau, ond lonydd bysiau gyda manylebau mwy cymhleth er mwyn cynnwys y bysiau plygu yr oedd y cyngor yn eu prynu. Mae'r cyngor wedi cael gwared ar y bysiau plygu wedi cwta chwe blynedd. Er mai testun rhyddhad i'r bobl sy'n talu'r dreth gyngor yn Abertawe a mentraf ddweud, swyddogion cyllid Cyngor Abertawe, yw clywed na fydd Llywodraeth Cymru yn adhawlio dim o'r £14 miliwn, a allwch ddweud wrth drethdalwyr eraill yn fy rhanbarth pa gamau rydych yn eu rhoi ar waith i sicrhau nad yw eu harian yn cael ei wastraffu ar gefnogaeth arall gan Lywodraeth Cymru i gynlluniau drud a dadleuol sy'n dod i ben mewn cyfnod mor fyr? Nid yn y sector preifat yn unig yr ydych yn gwneud camgymeriadau hyn.

14:40 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

These are matters for Swansea council and, of course, they're matters that they will have to account for. But I'm very pleased with the engagement of the Swansea bay city region board and the ways in which they are fully engaging with and supporting the second campus that is now opening at Swansea University with Welsh Government money, European Union funding and European Investment Bank funding, which I'm sure you must be proud of in terms of seeing the success of that, and also the opportunities for the tidal bay lagoon.

Materion ar gyfer cyngor Abertawe yw'r rhain ac wrth gwrs, bydd yn rhaid iddynt roi cyfrif amdanynt. Ond rwy'n falch iawn o ymgysylltiad bwrdd dinas-ranbarth Bae Abertawe a'r ffyrdd y maent yn cefnogi, ac yn ymwneud yn llawn â'r ail gampws sy'n agor yn awr ym Mhrifysgol Abertawe gydag arian Llywodraeth Cymru, yr Undeb Ewropeaidd a Banc Buddsoddi Ewrop, ac rwy'n siŵr eich bod yn falch o weld llwyddiant hynny, a hefyd y cyfleoedd ar gyfer morlyn llanw'r bae.

Senedd.tv Fideo Video

### Polisi Caffael Llywodraeth Cymru

### The Welsh Government's Procurement Policy

14:40 **Paul Davies** Bywgraffiad Biography

*6. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am bolisi caffael Llywodraeth Cymru? OAQ(4)0590(FIN)*

*6. Will the Minister make a statement on the Welsh Government's procurement policy? OAQ(4)0590(FIN)*

Senedd.tv Fideo Video

14:40 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

I published a refreshed Wales procurement policy statement in June providing clear policy direction and expectations for Welsh public sector procurement.

Cyhoeddais ddatganiad polisi caffael Cymru ar ei newydd wedd ym mis Mehefin i ddarparu cyfeiriad a disgwyliadau polisi clir ar gyfer caffael y sector cyhoeddus yng Nghymru.

Senedd.tv Fideo Video

14:40 **Paul Davies** Bywgraffiad Biography

Minister, the recent BBC programme 'The Farmer and the Food Chain' called on the Welsh Government to implement an improved structure and network to support local producers in relation to procuring contracts for Welsh schools, hospitals and other public bodies. In light of this view, do you agree that the Welsh Government should now be building an appropriate structure to support local food producers and can you tell us what the Welsh Government is doing to see more local food in Welsh schools and, indeed, in Welsh hospitals?

Weinidog, roedd rhaglen ddiweddar y BBC 'The Farmer and the Food Chain' yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithredu strwythur a rhwydwaith gwell i gefnogi cynhyrchwyr lleol mewn perthynas â chaffael contractau ar gyfer ysgolion, ysbytai a chyrff cyhoeddus eraill yng Nghymru. O ystyried y farn hon, a gytunwch bellach y dylai Llywodraeth Cymru fod yn adeiladu strwythur priodol i gefnogi cynhyrchwyr bwyd lleol ac a allwch ddweud wrthym beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i sicrhau bod mwy o fwyd lleol mewn ysgolion yng Nghymru ac yn wir, yn ysbytai Cymru?

Senedd.tv Fideo Video

14:41 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

I do recognise the value of smaller and local food producers and how we can make sure they're included in the supply chain. The national procurement service is developing a food strategy to start buying food on behalf of the Welsh public sector in early 2016. If you look at their most recent prior information notice on Sell2Wales for six food frameworks, the first of these are the supply and distribution of prepared sandwiches, sandwich fillings, buffet provision and supply of meals and, of course, they're engaging in the development of the food strategy in terms of those who will benefit as a result of it.

Rwy'n cydnabod gwerth cynhyrchwyr bwyd lleol a llai o faint a'r modd y gallwn wneud yn siŵr eu bod yn cael eu cynnwys yn y gadwyn gyflenwi. Mae'r gwasanaeth caffael cenedlaethol yn datblygu strategaeth fwyd i ddechrau prynu bwyd ar ran y sector cyhoeddus yng Nghymru yn gynnar yn 2016. Os edrychwch ar eu hysbysiad gwybodaeth ymlaen llaw diweddaraf ar GwerthwchiGymru am y chwe fframwaith bwyd, y cyntaf o'r rhain yw cyflenwi a dosbarthu brechdanau wedi'u paratoi, llenwadau brechdanau, darpariaeth bwffe a chyflenwi prydau ac wrth gwrs, maent yn cymryd rhan yn y gwaith o ddatblygu'r strategaeth fwyd o ran y rhai a fydd yn elwa o ganlyniad iddi.

Senedd.tv Fideo Video

14:42 **Rhun ap Iorwerth** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Rwyf i wedi bod yn trafod efo un cwmni sydd yn cynnig gwasanaethau adeiladu arbenigol fel is-gontractwr ar nifer o brosiectau cyhoeddus a phreifat. Maen nhw'n rhwystredig iawn eu bod nhw'n aml yn methu â chael y cyfle i dendro, heb sôn am ennill tendrau, ar gyfer prosiectau cyhoeddus ac maen nhw'n gwybod bod y contractau hynny wedi cael eu rhoi i gwmnïau o'r tu allan i Gymru. I ba raddau bydd y rheoliadau newydd, a fydd yn cael eu cyflwyno'r flwyddyn nesaf, yn rhoi'r hawl i Lywodraeth neu i gyrff cyhoeddus eraill fynnu fod prif gontractwyr yn dod ag isgontractwyr lleol i mewn, neu o leiaf yn rhoi pob cyfle i isgontractwyr lleol i ddod i mewn i weithio ar y cytundebau hynny?

I've been in discussion with one company that provide specialist construction services as a subcontractor on a number of public and private contracts. They're very frustrated that they very often don't have an opportunity to tender, never mind actually winning contracts, for public projects and they know that those contracts have been given to companies from outwith Wales. To what extent will the new regulations that are to be brought forward next year give Government or other public bodies the right to insist that main contractors do bring local subcontractors in, or at least give local subcontractors every opportunity to come in to work on those contracts?

14:42 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank the Member for that question, because 82 per cent of all contracts advertised in Sell2Wales are below the Official Journal of the European Union threshold and those low-value opportunities are vital, as you say, for smaller suppliers and third sector firms. Fifty-five per cent of our £5.5 billion annual procurement expenditure is won by Wales-based businesses, but the importance of the general designation on procurement that we secured in August is that it will give us the ability to regulate on procurement matters, strengthening Wales's procurement policy statement and, of course, that will benefit business.

Diolch i'r Aelod am y cwestiwn, oherwydd mae 82 y cant o'r holl gontractau a hysbysebwyd ar GwerthwchiGymru islaw trothwy Cyfnodolyn Swyddogol yr Undeb Ewropeaidd ac mae'r cyfleoedd gwerth isel hynny'n hanfodol, fel y dywedwch, ar gyfer cyflenwyr llai o faint a chwmnïau trydydd sector. Busnesau wedi'u lleoli yng Nghymru sy'n ennill 55 y cant o'n gwariant caffael blynyddol o £5.5 biliwn, ond yr hyn sy'n bwysig ynglŷn â'r dynodiad cyffredinol ar gaffael a sicrhawyd gennym ym mis Awst yw y bydd yn rhoi'r gallu inni reoleiddio ar faterion caffael, gan gryfhau datganiad polisi caffael Cymru ac wrth gwrs, bydd hynny o fudd i fusnesau.

14:43 **Aled Roberts** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Mae eich datganiad chi rhyw wythnos yn ôl yn dweud eich bod yn bwriadu cyhoeddi rheolau newydd y flwyddyn nesaf. Mae ffermwyr yn amlwg yn pryderu ynghylch pa mor gywir ydy labelu. A fyddwch felly yn barod i edrych ar reolau lle nid yn unig y pris sydd yn bwysig, ond hefyd eich bod yn edrych ar farciau ansawdd a hefyd safonau cynhyrchu er mwyn inni sicrhau ein bod ni'n rhoi cymorth i'n ffermwyr ni yma yng Nghymru?

Your statement about a week ago said that you intended to publish new rules next year. Farmers are obviously concerned about how correct labelling is. Will you therefore be willing to look at rules, not only where the price is important, but also that you look at quality marks and also production standards to ensure that we provide support to our farmers here in Wales?

14:44 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Those are important issues, which, of course, are taken forward by the Deputy Minister for Farming and Food as well as my staff in terms of responsibility for procurement. But I think the food procurement route planner on Sell2Wales will also be welcomed by the farming community in terms of the opportunities that it will provide.

Mae'r rhain yn faterion pwysig, sydd, wrth gwrs, yn cael eu datblygu gan y Dirprwy Weinidog Ffermio a Bwyd yn ogystal â fy staff mewn perthynas â chyfrifoldeb am gaffael. Ond rwy'n credu y bydd y gymuned ffermio hefyd yn croesawu'r canllaw cynllunio ar gaffael bwyd ar GwerthwchiGymru oherwydd y cyfleoedd y bydd yn eu creu.

### Ynni Adnewyddadwy

### Renewable Energy

14:44 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*7. Pa gyllid ychwanegol y bydd y Gweinidog yn ei ddyrannu i'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol i gefnogi ynni adnewyddadwy? OAQ(4)0599(FIN)*

*7. What additional funding will the Minister allocate to the Minister for Natural Resources to support renewable energy? OAQ(4)0599(FIN)*

14:44 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Supporting the development of the energy industry in Wales is a priority of the Wales infrastructure investment plan.

Mae cefnogi datblygiad y diwydiant ynni yng Nghymru yn un o flaenoriaethau cynllun buddsoddi yn seilwaith Cymru.

14:44 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Diolch, Weinidog, am yr ateb, er nad oedd addewid o arian ychwanegol i Weinidog arall. Beth sy'n fy mhryderu i ar hyn o bryd yw newidiadau sy'n digwydd yn San Steffan, yn enwedig yr ymgynghoriad a newid ar gyfer ynni adnewyddadwy ar raddfa fach, gan gynnwys paneli ffotofoltäig. Mae'r Gweinidog yn Llundain wedi datgan y bydd cyfran y sybsidi sy'n cael ei roi i'r adran yma yn cael ei dorri'n sylweddol iawn. Mae hwn yn ddiwydiant sy'n tyfu yng Nghymru ac mae'n ddiwydiant sy'n dod â budd i lawer o ddinasyddion ac i fusnesau bach, ffermydd a nifer o gymunedau yng Nghymru. Os nad oes modd i Lywodraeth Cymru ddyrannu arian, a oes modd ichi gydweithio â phartneriaid, er enghraifft Banc Buddsoddi Ewrop neu'r Banc Buddsoddi Gwyrdd, er mwyn gweld a oes modd rhoi cefnogaeth ychwanegol i'r diwydiant yma yng Nghymru?

Thank you for that response, Minister, although there is no pledge of additional money to your fellow Ministers. What concerns me at present is the changes happening in Westminster, particularly in terms of the consultation on the change for small-scale renewables, including photovoltaic panels? The Minister in London has stated that the amount of subsidy provided to this department will be cut significantly. It's an industry that is growing here in Wales and it's one that is of benefit to a number of citizens and also many small businesses, farms and a number of communities in Wales. If the Welsh Government can't provide funding, can you work with partners, such as the European Investment Bank and the Green Investment Bank, in order to see whether it would be possible to provide additional support for this industry here in Wales?

Senedd.tv Fideo Video

14:45 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Well, you're right, as the latest UK Government proposals across a range of renewable energy support measures are going to have an adverse impact on the investment attractiveness of projects, particularly at community level, but the Minister for Natural Resources has raised these concerns with the Department for the Environment and Climate Change Ministers. He is also considering how we can adapt to these changes and work with the sector, but, of course, as you know, we do provide a range of support for renewable energy, including Ynni'r Fro, Resource Efficient Wales, the rural development programme, Green Growth Wales, energy efficiency schemes and Community Energy Wales.

Wel, rydych chi'n iawn, gan fod cynigion diweddaraf Llywodraeth y DU ar draws ystod o fesurau cymorth ar gyfer ynni adnewyddadwy yn mynd i gael effaith andwyol ar allu prosiectau i ddenu buddsoddiadau, yn enwedig ar lefel gymunedol, ond mae'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol wedi dwyn y pryderon hyn i sylw Gweinidogion Adran yr Amgylchedd a Newid Hinsawdd. Mae hefyd yn ystyried sut y gallwn addasu i'r newidiadau hyn a gweithio gyda'r sector, ond wrth gwrs, fel y gwyddoch, rydym yn darparu amryw o fathau o gymorth ar gyfer ynni adnewyddadwy, gan gynnwys Ynni'r Fro, Cymru Effeithlon, y rhaglen datblygu gwledig, Twf Gwyrdd Cymru, cynlluniau effeithlonrwydd ynni ac Ynni Cymunedol Cymru.

Senedd.tv Fideo Video

14:46 **Russell George** Bywgraffiad Biography

Minister, tidal energy projects have the potential to contribute to a healthier mix of energy sources after years of the Welsh Government focusing all its attention on wind. What consideration has the Government given to providing support to the project to develop a tidal energy impound and coastal protection system in north Wales?

Weinidog, mae gan brosiectau ynni llanw botensial i gyfrannu at gymysgedd iachach o ffynonellau ynni wedi blynyddoedd o Lywodraeth Cymru yn canolbwyntio ei holl sylw ar y gwynt. Pa ystyriaeth y mae'r Llywodraeth wedi'i rhoi i ddarparu cefnogaeth i'r prosiect i ddatblygu cronfa ynni'r llanw a system amddiffyn arfordirol yng ngogledd Cymru?

Senedd.tv Fideo Video

14:46 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

The fact that we are already investing substantially in terms of tidal energy—. Also, what is very important is that investment is coming also via the European Union funding that we are accessing, indeed to the private sector as well as to the public sector. But, of course, that takes us forward to the opportunities that we have ahead of us in terms of tidal energy, which, of course, will have a great impact in Wales.

Y ffaith ein bod eisoes yn buddsoddi yn sylweddol yn ynni'r llanw. Hefyd, yr hyn sy'n bwysig iawn yw bod buddsoddiad yn dod hefyd drwy gyllid yr Undeb Ewropeaidd rydym yn ei ddefnyddio, yn wir i'r sector preifat yn ogystal ag i'r sector cyhoeddus. Ond wrth gwrs, mae hynny'n mynd â ni at y cyfleoedd sydd gennym o'n blaenau o ran ynni'r llanw a fydd, wrth gwrs, yn effeithio'n fawr ar Gymru.

Senedd.tv Fideo Video

### Ynni Tonnau a'r Llanw

### Wave and Tidal Energy

14:47 **Rhodri Glyn Thomas** Bywgraffiad Biography

*8. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gyllid yr UE ar gyfer prosiectau ynni tonnau a'r llanw? OAQ(4)0604(FIN)*

*8. Will the Minister make a statement on EU funding for wave and tidal energy projects? OAQ(4)0604(FIN)*

Senedd.tv Fideo Video

14:47 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

The Welsh Government is investing £155 million of EU structural funds for renewable energy and energy efficiency, including £80 million to support the development of the marine energy sector in west and north Wales.

Mae Llywodraeth Cymru yn buddsoddi £155 miliwn o gronfeydd strwythurol yr Undeb Ewropeaidd mewn ynni adnewyddadwy ac arbed ynni, gan gynnwys £80 miliwn i gefnogi datblygiad y sector ynni morol yn y gorllewin a'r gogledd.

Senedd.tv Fideo Video

14:47 **Rhodri Glyn Thomas** Bywgraffiad Biography

Weinidog, a ydych chi wedi edrych ar beth y gellid ei wneud o ran ceisio cynorthwyo datblygiad y diwydiant newydd yma yng Nghymru? Mae pedwar o'r pump safle sydd wedi'u clustnodi ar gyfer y Deyrnas Unedig ar lannau Cymru yn y gogledd, yn Abertawe, yn y de-orllewin ac yn y de-ddwyrain. A ydych chi wedi edrych ar beth ellid ei wneud ar ran Llywodraeth Cymru o ran cynorthwyo a chysylltu'r safleoedd yma â'r grid cenedlaethol?

Minister, have you looked at what could be done in terms of assisting the development of this new industry here in Wales? Four of the five sites earmarked for the UK are on the Welsh coastline in north Wales, in Swansea, in the south-west and in the south-east. Have you looked at what can be done by the Welsh Government in terms of assisting the connectivity of these sites with the national grid?

Senedd.tv Fideo Video

14:48 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Clearly, the Minister for Natural Resources, and, indeed, the Minister for Economy, Science and Transport are engaged in promoting these opportunities and, of course, this is something where we have the opportunity, particularly as we've just discussed in terms of the second-highest tidal range in the world, and the planning announcement of Swansea bay tidal lagoon is great news for Wales and the Welsh economy.

Yn amlwg, mae'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol, a Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth yn wir, yn ymwneud â'r gwaith o hyrwyddo'r cyfleoedd hyn ac wrth gwrs, mae hyn yn rhywbeth sy'n rhoi cyfle i ni, yn enwedig fel rydym newydd ei drafod o ran yr amrediad llanw mwyaf ond un yn y byd, ac mae'r cyhoeddiad cynllunio ar forlyn llanw bae Abertawe yn newyddion gwych i Gymru ac i economi Cymru.

Senedd.tv Fideo Video

14:48 **Mike Hedges** Bywgraffiad Biography

I don't think it's possible to overestimate the importance of the tidal lagoon to Swansea, and connectivity is already being organised to the Baglan Energy Park. What more can the Welsh Government do to support the scheme and what more can be done to pressurise the Conservative Government in Westminster so the proposal can become a reality?

Nid wyf yn credu ei bod yn bosibl goramcangyfrif pwysigrwydd y morlyn llanw i Abertawe, ac mae cysylltedd â Pharc Ynni Baglan eisoes yn cael ei drefnu. Beth arall y gall Llywodraeth Cymru ei wneud i gefnogi'r cynllun a beth arall y gellir ei wneud i ddwyn pwysau ar y Llywodraeth Geidwadol yn San Steffan er mwyn gwireddu'r cynnig?

Senedd.tv Fideo Video

14:48 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Well, in keeping with our devolved powers, Welsh Government, of course, continues to provide support for Swansea bay tidal lagoon in development. If consented, the economic benefits, of course, will be maximised across the whole of the Welsh supply chain. So, it is vital in terms of our engagement with the UK Government and Crown Estate that we ensure that we get the maximum benefit from the Swansea lagoon project. Of course, that will influence longer term UK development in terms of tidal range, reflecting Wales leading the way.

Wel, yn unol â'n pwerau datganoledig, mae Llywodraeth Cymru, wrth gwrs, yn parhau i ddarparu cymorth i ddatblygu morlyn llanw bae Abertawe. Os yw'n cael cydsyniad, manteisir i'r eithaf ar y budd economaidd ar draws y gadwyn gyflenwi yng Nghymru. Felly, mae'n hanfodol sicrhau, o ran ein hymwneud â Llywodraeth y DU ac Ystad y Goron, ein bod yn cael y budd mwyaf o brosiect morlyn Abertawe. Wrth gwrs, bydd hynny'n dylanwadu ar ddatblygiadau amrediad llanw mwy hirdymor yn y DU, gan ddangos bod Cymru'n arwain y ffordd.

Senedd.tv Fideo Video

14:49 **Darren Millar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, a number of Assembly Members from north Wales attended an excellent event being held by the North Wales Economic Ambition Board at lunchtime, during which they gave a presentation that alluded to the opportunities that tidal lagoons present to the region, not just in terms of the renewable energy that can be delivered but also, of course, in terms of the marine leisure opportunities and other spin-off benefits, which the economy in north Wales can derive from a tidal lagoon off the coast there. Could you tell me what discussions you had with your Cabinet colleagues regarding this tremendous opportunity and how, as a collective Government, you intend to take this forward in partnership with the UK Government and, indeed, the private sector, to make it a reality in north Wales, particularly given these other additional benefits that can be derived?

Weinidog, mynychodd nifer o Aelodau'r Cynulliad o ogledd Cymru ddigwyddiad rhagorol gan Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru yn ystod amser cinio a roddodd gyflwyniad yn cyfeirio at y cyfleoedd y mae morlynnoedd llanw yn eu cynnig i'r rhanbarth, nid yn unig o ran yr ynni adnewyddadwy y mae modd ei gyflenwi, ond hefyd, wrth gwrs, o ran y cyfleoedd hamdden morol a sgil-fanteision eraill a allai ddeillio o forlyn llanw oddi ar yr arfordir yno i economi gogledd Cymru. A allwch ddweud pa drafodaethau yr ydych wedi'u cael gyda'ch cydweithwyr yn y Cabinet ynglŷn â'r cyfle aruthrol hwn a sut y bwriadwch chi, fel cyd-Lywodraeth, fwrw ymlaen â hyn mewn partneriaeth â Llywodraeth y DU, a'r sector preifat yn wir, i'w wireddu yng ngogledd Cymru, yn enwedig o ystyried y manteision ychwanegol eraill hyn a allai ddeillio ohono?

14:50 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Of course, I very recently met with the North Wales Economic Ambition Board and discussed these issues with them. Only last week, I was in Colwyn Bay as well, looking at the important developments there. So, I can assure you of our commitment, and, of course, it is linked to the strategic objectives of the Wales infrastructure investment plan, which is an all-Wales plan benefiting north Wales in terms of these particular opportunities.

Wrth gwrs, cefais gyfarfod yn ddiweddar iawn gyda Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru a thrafodais y materion hyn gyda hwy. Yr wythnos diwethaf hefyd, roeddwn yn ym Mae Colwyn yn edrych ar y datblygiadau pwysig yno. Felly, gallaf sicrhau ein hymrwymiad, ac wrth gwrs, mae'n gysylltiedig ag amcanion strategol y cynllun buddsoddi yn seilwaith Cymru, sy'n gynllun Cymru gyfan a fydd o fudd i ogledd Cymru o ran y cyfleoedd penodol hyn.

14:50 **William Powell** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, Rhodri Glyn Thomas was absolutely right to raise the importance of European funding for renewable energy projects, and this is particularly urgent in the light of the malaise that's been caused by recent Westminster Government decisions. But, one issue that is raised with me with regard to the marine sector is the nature of the supply chain and the importance of maximising the benefit to Welsh companies in the delivery of such projects. What more can the Welsh Government do to ensure that there is a strong representation of Welsh companies in this process with all the benefits that would accrue?

Weinidog, roedd Rhodri Glyn Thomas yn llygad ei le yn nodi pwysigrwydd cyllid Ewropeaidd ar gyfer prosiectau ynni adnewyddadwy, ac mae hyn yn arbennig o bwysig yng ngoleuni'r diflastod a achoswyd gan benderfyniadau diweddar y Llywodraeth yn San Steffan. Ond un mater sy'n cael ei ddwyn i fy sylw o ran y sector morol yw natur y gadwyn gyflenwi a phwysigrwydd manteisio i'r eithaf ar y budd i gwmnïau o Gymru o gyflawni prosiectau o'r fath. Beth arall y gall Llywodraeth Cymru ei wneud i sicrhau bod cynrychiolaeth gref o gwmnïau o Gymru yn rhan o'r broses hon gyda'r holl fanteision a fyddai'n deillio ohoni?

14:51 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, I do think, as you say, William Powell, that we've hit the ground running with our EU investments in the area of wave and tidal stream. In May, we announced EU funding of £10 million for Minesto, and that's going to support the commercial roll-out of the first Deep Green power plant, as you're aware, and the establishment of Minesto UK headquarters in north Wales, again putting north Wales at the forefront. But, it is clear we need business to take a foothold in this emerging marine market with the benefits to Wales accruing.

Wel, fel y dywedwch, William Powell, rwy'n meddwl ein bod wedi cael dechrau da gyda'n buddsoddiadau UE ym maes tonnau a'r ffrwd lanw. Ym mis Mai, cyhoeddwyd gennym fod £10 miliwn o gyllid UE yn mynd i Minesto, i gefnogi'r broses o gyflwyno gweithfa bŵer gyntaf Deep Green yn fasnachol, fel y gwyddoch, a sefydlu pencadlys Minesto UK yng ngogledd Cymru, gan roi gogledd Cymru ar y blaen unwaith eto. Ond mae'n amlwg fod arnom angen i fusnes gael troedle yn y farchnad forol hon sy'n datblygu gyda'r manteision yn sgil hynny i Gymru.

14:52 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Question 9 was grouped with question 2 earlier, so we now move to question 10—Llyr Gruffydd.

Cafodd cwestiwn 9 ei grwpio gyda chwestiwn 2 yn gynharach, felly symudwn yn awr at gwestiwn 10 gan Llyr Gruffydd.

**Cyllid Ychwanegol i Gymru**

**Additional Funding for Wales**

14:52 **Llyr Gruffydd** Bywgraffiad Biography

*10. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddefnyddio cyllid ychwanegol a ddaw i Gymru yn sgil cyllideb ddiweddar Llywodraeth y DU? OAQ(4)0603(FIN)*

*10. Will the Minister make a statement on the use of any additional funding resulting from the UK Government's recent budget? OAQ(4)0603(FIN)*

Senedd.tv Fideo Video

14:52 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Diolch yn fawr. The cumulative effect of the Chancellor's fiscal announcements since the general election is that the Welsh Government's budget in 2016-17 is £46 million lower than originally planned.

Diolch yn fawr. Effaith gronnol cyhoeddiadau cyllid y Canghellor ers yr etholiad cyffredinol yw bod cyllideb Llywodraeth Cymru yn 2016-17 £46 miliwn yn is nag a gynlluniwyd yn wreiddiol.

Senedd.tv Fideo Video

14:52 **Llyr Gruffydd** Bywgraffiad Biography

Diolch ichi am eich ateb. Rwy'n awyddus i ategu rhai o'r pwyntiau sydd wedi cael eu gwneud ynglŷn ag ynni adnewyddadwy. Yn amlwg, mae penderfyniadau diweddar Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn cael effaith andwyol ar y sector adnewyddadwy yng Nghymru. A gaf i ofyn pa ystyriaeth rŷch chi wedi'i rhoi i ddilyn awgrym Plaid Cymru a sefydlu cwmni Ynni Cymru a fydd yn golygu, wrth gwrs, y byddai yna gefnogaeth ychwanegol ar gael i'r sector hwnnw yng Nghymru a chyfle i greu incwm i'r Llywodraeth?

Thank you for that response. I am eager to endorse some of the points that have already been made on renewable energy. Clearly, the recent decisions taken by the UK Government are having a detrimental effect on the renewable sector in Wales. What consideration have you given to following the Plaid Cymru suggestion to establish Ynni Cymru, which would be a Welsh energy company and would mean further support for the sector in Wales and an opportunity to create income for the Government?

Senedd.tv Fideo Video

14:52 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

These, particularly, are questions that the Minister for Natural Resources would want to respond to, because he is seeking to take the lead with the Minister for Economy, Science and Transport in this all-important area. Of course, as I've said, we already not only invest in terms of renewable energy opportunities, but it is quite clear that we have to ensure that we have the means and the powers, of course—I know you would agree on that—to make this real change.

Mae'r rhain, yn arbennig, yn gwestiynau y byddai'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol eisiau ymateb iddynt, am ei fod yn ceisio cymryd yr awenau gyda Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth yn y maes hollbwysig hwn. Wrth gwrs, fel y dywedais, rydym eisoes, nid yn unig yn buddsoddi mewn cyfleoedd ynni adnewyddadwy, ond mae'n amlwg iawn hefyd fod yn rhaid inni sicrhau bod gennym y modd a'r pwerau, wrth gwrs—gwn y byddech yn cytuno ar hynny—i sicrhau newid go iawn.

Senedd.tv Fideo Video

14:53 **Angela Burns** Bywgraffiad Biography

Minister, will you welcome with me the £463 million-consequential that will be due to Wales because of the Conservative Government's additional £8 billion in the NHS in England? And, can you confirm whether or not you'll be using this £463 million to support our health services?

Weinidog, a wnewch chi ategu fy nghroeso i'r swm canlyniadol o £463 miliwn a fydd yn ddyledus i Gymru am fod y Llywodraeth Geidwadol wedi darparu £8 biliwn ychwanegol ar gyfer y GIG yn Lloegr? Ac a allwch gadarnhau a fyddwch yn defnyddio'r £463 miliwn i gefnogi ein gwasanaethau iechyd?

Senedd.tv Fideo Video

14:53 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

I expect the Member is wondering why I went to meet the Chief Secretary to the Treasury today. Why did I meet him? In order to say how difficult it would be because we do not know and we will not know until the end of November what our budget will be as a result of the unprecedented lateness of this spending review. But, I think the Member will also want to congratulate the Welsh Government that we've invested an extra £1 billion in the Welsh NHS over the last two years.

Rwy'n disgwyl bod yr Aelod yn meddwl tybed pam yr euthum i gyfarfod â Phrif Ysgrifennydd y Trysorlys heddiw. Pam y cyfarfûm ag ef? Er mwyn dweud pa mor anodd y byddai gan nad ydym yn gwybod ac na fyddwn yn gwybod tan ddiwedd mis Tachwedd beth fydd ein cyllideb o ganlyniad i'r ffaith fod yr adolygiad o wariant hwn yn ddiweddarach nag a fu erioed o'r blaen. Ond rwy'n credu y bydd yr Aelod hefyd am longyfarch Llywodraeth Cymru am fuddsoddi £1 biliwn yn ychwanegol yn y GIG yng Nghymru dros y ddwy flynedd ddiwethaf.

Senedd.tv Fideo Video

## Portffolio Iechyd a Gwasanaethu Cymdeithasol

## The Health and Social Services Portfolio

14:54 **Elin Jones** Bywgraffiad Biography

*11. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y cyllid a ddyrannwyd i'r portffolio iechyd a gwasanaethau cymdeithasol? OAQ(4)0602(FIN)*

*11. Will the Minister make a statement on the budget allocations made to the health and social services portfolio? OAQ(4)0602(FIN)*

Senedd.tv Fideo Video

14:54 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Mae Llywodraeth Cymru wedi buddsoddi £1 biliwn yn ychwanegol yn y gwasanaeth iechyd cenedlaethol yng Nghymru dros y ddwy flynedd diwethaf.

The Welsh Government has allocated £1 billion in the national health service in Wales over the past two years.

Senedd.tv Fideo Video

14:54 **Elin Jones** Bywgraffiad Biography

Weinidog, fel yr ydym eisoes wedi clywed, mae yna ymrwymiad gan Lywodraeth San Steffan i gynyddu'r gyllideb ar gyfer yr NHS yn Lloegr gan £8 biliwn dros bum mlynedd nesaf eu Llywodraeth nhw. Yr hyn nad ydym ni'n gwybod eto yw beth fydd proffeil y gwariant yna. Yn eich trafodaethau y bore yma gyda'r Trysorlys, a wnaethoch chi unrhyw gais i gael y gwariant yna i ddigwydd mor gynnar o fewn y pum mlynedd nesaf yma â phosib fel ein bod ni'n gallu cael y cynnydd sydd yn angenrheidiol ar gyfer gwasanaeth yr NHS mor gynnar â phosib yn nyddiau Llywodraeth nesaf Cymru?

Minister, as we have already heard, there is a commitment by the UK Government to increase the budget for the NHS in England of £8 billion over the five years of their Government. What we don't yet know is what the profile of that expenditure will be. In you discussions this morning with the Treasury, did you make any application for that expenditure to be made as early as possible within the next five years so that we can have the much needed increase for the NHS as early as possible in the term of the next Welsh Government?

Senedd.tv Fideo Video

14:55 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Well, of course, as you say, Elin Jones, we don't know what the profile will be. In this financial year, we had only a £4 million positive consequential and we had £46 million taken out of our budget, which we agreed in this Chamber in December. We do not know, although I raised the question again, what the negative consequentials will be in the spending review, and, of course, that's got an all-important impact on what the so-called positive consequentials will be.

Wel, wrth gwrs, fel y dywedwch, Elin Jones, nid ydym yn gwybod beth fydd y proffil. Yn y flwyddyn ariannol hon, dim ond £4 miliwn o arian canlyniadol cadarnhaol a gawsom a thynnwyd £46 miliwn o'n cyllideb a gytunwyd yn y Siambr hon ym mis Rhagfyr. Er fy mod wedi gofyn y cwestiwn eto, ni wyddom beth fydd y symiau canlyniadol negyddol yn yr adolygiad o wariant, ac wrth gwrs, mae hynny'n hollbwysig o ran eu heffaith ar y symiau canlyniadol cadarnhaol fel y'u gelwir.

Senedd.tv Fideo Video

14:56 **Altaf Hussain** Bywgraffiad Biography

Minister, your newly elected leader has criticised the Welsh Government's decision to cut health spending in Wales. Has Jeremy Corbyn convinced you it was wrong to impose record-breaking cuts on the NHS, and will you now follow the lead set by the UK Government and protect the health budget from further cuts?

Weinidog, mae eich arweinydd newydd wedi beirniadu penderfyniad Llywodraeth Cymru i dorri gwariant ar iechyd yng Nghymru. A yw Jeremy Corbyn wedi eich argyhoeddi nad yw'n iawn i chi orfodi toriadau llymach nag erioed ar y GIG, ac a fyddwch yn awr yn dilyn arweiniad Llywodraeth y DU ac yn diogelu'r gyllideb iechyd rhag toriadau pellach?

Senedd.tv Fideo Video

14:56 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Well, I mean, I do appreciate you weren't with us five years ago when the Welsh Conservatives produced a budget that would have slashed local government, slashed education and slashed investment in economic development, and, also, I think you do need to recognise—I'm sure you would with your support for the health service—that we've reached record levels of investment, with over £6.7 billion now allocated in the Welsh Government budget to health and social services.

Wel, hynny yw, rwy'n sylweddoli nad oeddech gyda ni bum mlynedd yn ôl pan gynhyrchodd y Ceidwadwyr Cymreig gyllideb a fyddai wedi crebachu llywodraeth leol, addysg a buddsoddi mewn datblygu economaidd, a hefyd, rwy'n meddwl bod angen i chi gydnabod—rwy'n siwr y byddech, gyda'ch cefnogaeth i'r gwasanaeth iechyd—ein bod wedi cyrraedd y lefelau buddsoddi uchaf erioed, gyda thros £6.7 biliwn yn cael ei ddyrannu bellach i gyllideb Llywodraeth Cymru ar gyfer iechyd a gwasanaethau cymdeithasol.

Senedd.tv Fideo Video

## Swyddogaeth Trysorlys Cymru

## A Welsh Treasury Function

14:57 **Eluned Parrott** Bywgraffiad Biography

*12. A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygu swyddogaeth Trysorlys Cymru? OAQ(4)0597(FIN)*

*12. Will the Minister provide an update on the development of a Welsh Treasury function? OAQ(4)0597(FIN)*

Senedd.tv Fideo Video

14:57 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The development of the Welsh treasury is progressing to schedule. Its current focus is on the legislation and administrative arrangements for the new devolved taxes and wider financial powers.

Mae datblygiad trysorlys Cymru yn mynd rhagddo yn ôl yr amserlen. Ei ffocws presennol yw'r ddeddfwriaeth a'r trefniadau gweinyddol ar gyfer y trethi datganoledig newydd a phwerau ariannol ehangach.

14:57 **Eluned Parrott** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for that answer, Minister. Looking to the future, clearly, the potential devolution of income tax is, perhaps, one of the biggest challenges that the new Welsh treasury will have to take on. Can I ask what discussions you've had with UK Government to date to start making separate accounting arrangements for income tax in Wales and England, as, at the moment, they're aggregated and it's impossible to say with any certainty what the income tax take of Wales is?

Diolch ichi am eich ateb, Weinidog. Gan edrych tua'r dyfodol, yn amlwg, efallai mai'r posibilrwydd o ddatganoli treth incwm yw un o'r heriau mwyaf y bydd yn rhaid i drysorlys newydd Cymru eu hwynebu. A gaf fi ofyn pa drafodaethau a gawsoch gyda Llywodraeth y DU hyd yn hyn er mwyn dechrau gwneud trefniadau cyfrifyddu ar wahân ar gyfer treth incwm yng Nghymru a Lloegr, gan eu bod yn gyfanredol ar hyn o bryd, ac mae'n amhosibl dweud gydag unrhyw sicrwydd faint o dreth incwm sy'n cael ei godi yng Nghymru?

14:57 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, I think that's a bit ahead of time in terms of fiscal powers and responsibilities in Wales. I think what's very important in terms of the treasury development—and I also discussed this with the chief secretary today—is that we are moving forward with taking our responsibilities in terms of not only the tax collection and management Bill, but the new land transaction tax and landfill disposals tax. Of course, we begin scrutiny on one of those Bills tomorrow, demonstrating that we are now moving forward with those all-important powers that will give us borrowing powers.

Wel, rwy'n credu bod hynny'n gynamserol braidd o ran pwerau a chyfrifoldebau cyllidol yng Nghymru. Rwy'n credu mai'r hyn sy'n bwysig iawn o ran datblygu trysorlys—a thrafodais hyn hefyd gyda'r prif ysgrifennydd heddiw—yw ein bod yn symud ymlaen gydag ysgwyddo ein cyfrifoldebau o ran y Bil casglu a rheoli trethi yn ogystal â'r dreth trafodiadau tir a'r dreth gwarediadau tirlenwi. Wrth gwrs, rydym yn dechrau craffu ar un o'r Biliau hynny yfory, gan ddangos ein bod yn awr yn symud ymlaen gyda'r pwerau hollbwysig hynny a fydd yn rhoi pwerau benthyca i ni.

14:58 **Nick Ramsay** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Can I firstly thank the Minister for her officers' and her briefings on this subject over a number of months? They've been very helpful in what has been, to date, uncharted territory for this Assembly. Minister, perhaps the biggest concern about the Welsh treasury is the lack of current economic expertise and forecasting expertise in the Welsh Government, because the Welsh Government has never had to operate in this area before. How are you planning to enhance the level of economic expertise in the Welsh Government, and not just in the treasury itself, but in all departments across the Welsh Government that will have to deal with the Welsh treasury and will have to have at least a basic grasp of the potential effects of the devolution of taxation and variations to that taxation on future policy?

A gaf fi ddiolch yn gyntaf i'r Gweinidog am ei briffiau hi a'i swyddogion ar y pwnc hwn dros nifer o fisoedd? Maent wedi bod o gymorth mawr yn yr hyn a oedd, hyd yma, yn diriogaeth newydd i'r Cynulliad hwn. Weinidog, efallai mai'r pryder mwyaf ynghylch trysorlys Cymru yw diffyg arbenigedd economaidd ac arbenigedd ar lunio rhagolygon yn Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd, oherwydd nid yw'r Llywodraeth wedi gorfod gweithredu yn y maes hwn o'r blaen. Sut y bwriadwch wella'r lefel o arbenigedd economaidd yn Llywodraeth Cymru, ac nid yn y trysorlys ei hun yn unig, ond ym mhob adran ar draws Llywodraeth Cymru a fydd yn gorfod ymdrin â thrysorlys Cymru, ac y bydd yn rhaid iddynt wrth ddealltwriaeth sylfaenol fan lleiaf o effeithiau posibl datganoli trethiant ac amrywio trethi ar bolisi yn y dyfodol?

14:59 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, I thank you, Nick Ramsay, for acknowledging the fact that I do want to move forward, in a most consensual way, cross-party, opportunities to develop the Welsh treasury appropriately. But, of course, you well know our chief economist, Jonathan Price, and his team, who have been providing that economic expertise. Of course, that is now strengthening in terms of our new powers.

Wel, diolch i chi, Nick Ramsay, am gydnabod y ffaith fy mod yn dymuno symud ymlaen â chyfleoedd, yn y modd mwyaf cydsyniol, yn drawsbleidiol, i ddatblygu trysorlys Cymru yn briodol. Ond wrth gwrs, rydych yn gyfarwydd iawn â'n prif economegydd, Jonathan Price, a'i dîm sydd wedi bod yn darparu'r arbenigedd economaidd hwnnw. Wrth gwrs, mae hynny bellach yn cryfhau oherwydd ein pwerau newydd.

## Polisïau Caffael yn y Sector Cyhoeddus

## Public Sector Procurement Policies

14:59

**William Powell** [Bywgraffiad] [Biography]

*13. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y polisïau caffael yn y sector cyhoeddus yng Nghymru? OAQ(4)0591(FIN)*

*13. Will the Minister make a statement on procurement policies in the Welsh public sector? OAQ(4)0591(FIN)*

Senedd.tv [Fideo] [Video]

14:59

**Jane Hutt** [Bywgraffiad] [Biography]

The refreshed Wales public procurement policy statement published in June requires public bodies to deploy efficient, streamlined procurement approaches that are inclusive for small firms and third sector suppliers.

Mae datganiad polisi caffael cyhoeddus Cymru ar ei newydd wedd a gyhoeddwyd ym mis Mehefin yn mynnu bod cyrff cyhoeddus yn defnyddio dulliau caffael effeithlon a syml sy'n gynhwysol ar gyfer cwmnïau bach a chyflenwyr trydydd sector.

Senedd.tv [Fideo] [Video]

15:00

**William Powell** [Bywgraffiad] [Biography]

I'd like to thank the leader of the house very much for that response, and I should also declare that I'm a partner in a family farm, because what I wanted to raise was the issue of procurement of Welsh-produced meat products, particularly. This is in the context of my presence last week at the Drovers' Arms on Epynt, when Kirsty Williams and I were present for a special lamb promotion to members of the armed forces. Minister, can we bring additional pressure to bear on the UK Government, as well as using our own levers within Welsh Government to maximise the extent to which we can source our products from the quality that we have here in Wales? Because the industry is at a very difficult place, as you know, and it would be hugely beneficial, not just for those receiving the goods but also for the industry, if we were to do so.

Hoffwn ddiolch yn fawr iawn i arweinydd y tŷ am yr ymateb hwnnw, a dylwn ddatgan hefyd fy mod yn bartner mewn fferm deuluol, oherwydd yr hyn yr oeddwn am ei grybwyll yn benodol oedd mater caffael cynhyrchion cig a gynhyrchwyd yng Nghymru. Dyma gyd-destun fy mhresenoldeb yr wythnos diwethaf yn y Drovers' Arms ar Epynt, mewn digwyddiad arbennig a fynychodd Kirsty Williams a minnau i hyrwyddo cig oen i aelodau o'r lluoedd arfog. Weinidog, a gawn ni roi pwysau ychwanegol ar Lywodraeth y DU, yn ogystal â defnyddio ein hysgogiadau ein hunain yn Llywodraeth Cymru i sicrhau ein bod yn prynu cymaint ag y bo modd o'n cynnyrch o'r ansawdd sydd gennym yma yng Nghymru? Oherwydd mae'r diwydiant mewn lle anodd iawn, fel y gwyddoch, a byddai'n hynod o fuddiol, nid yn unig i'r rhai sy'n derbyn y nwyddau, ond hefyd i'r diwydiant, pe baem yn gwneud hynny.

Senedd.tv [Fideo] [Video]

15:01

**Jane Hutt** [Bywgraffiad] [Biography]

Well I do hope, William Powell, that you will draw to the attention of those suppliers the food procurement route planner on Sell2Wales. Also, I know you welcomed the First Minister's commitment to looking at ways in which we engage with the non-devolved UK Government departments in terms of securing contracts for procurement for local suppliers.

Wel, William Powell, rwy'n gobeithio y byddwch yn tynnu sylw'r cyflenwyr hynny at y canllaw cynllunio caffael bwyd ar GwerthwchiGymru. Hefyd, rwy'n gwybod eich bod wedi croesawu ymrwymiad y Prif Weinidog i edrych ar y ffyrdd rydym yn ymgysylltu ag adrannau Llywodraeth y DU sydd heb eu datganoli er mwyn sicrhau contractau caffael i gyflenwyr lleol.

Senedd.tv [Fideo] [Video]

15:01

**Andrew R.T. Davies** [Bywgraffiad] [Biography]

Minister, I would be interested to know how you propose to take that forward as a Welsh Government, obviously working with non-devolved departments, whether they'll be Westminster-based or in Scotland, to promote Welsh produce, because it has excellent international providence. But there is, obviously, a huge minefield for very many of the smaller producers and processors to be able to access what is a potentially multibillion pound market. So, to actually turn those fine words into actions, I'd be grateful to hear what action the Welsh Government is doing to assist those processors and producers.

Weinidog, byddai gennyf ddiddordeb mewn gwybod sut y bwriadwch fwrw ymlaen â hynny fel Llywodraeth Cymru, gan weithio gydag adrannau sydd heb eu datganoli, mae'n amlwg, boed yn San Steffan neu yn yr Alban, i hyrwyddo cynnyrch o Gymru, am ei fod o darddiad rhagorol yn rhyngwladol. Ond mae'n amlwg yn anodd iawn i lawer o'r cynhyrchwyr a'r proseswyr llai o faint allu treiddio i farchnad a allai fod yn werth biliynau o bunnoedd. Felly, i droi'r geiriau teg yn gamau gweithredu go iawn, byddwn yn falch o glywed pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu rhoi ar waith i gynorthwyo'r proseswyr a'r cynhyrchwyr hynny.

Senedd.tv [Fideo] [Video]

15:02 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Well, that's a very constructive and helpful question because I did engage with a former Cabinet Minister on this—Francis Maude—who was very responsive and saw the opportunities, for example, with the Office for National Statistics. We have so many devolved UK Government departments where it makes sense to engage them in procurement locally in the Wales procurement policy setting. Also, I have to say, of course, that we are working very closely with the police, for example, who are engaged in our procurement board and looking at those opportunities, particularly in relation to local suppliers.

Wel, dyna gwestiwn adeiladol a defnyddiol iawn gan fy mod wedi ymgysylltu â chyn-Weinidog yn y Cabinet ar hyn —Francis Maude—a oedd yn ymatebol iawn ac yn gweld y cyfleoedd, er enghraifft, gyda'r Swyddfa Ystadegau Gwladol. Mae gennym gymaint o adrannau datganoledig yn Llywodraeth y DU lle y mae'n gwneud synnwyr iddynt gymryd rhan mewn gweithgaredd caffael yn lleol o fewn cwmpas polisi caffael Cymru. Hefyd, rhaid i mi ddweud, wrth gwrs, ein bod yn gweithio'n agos iawn gyda'r heddlu, er enghraifft, sy'n rhan o'n bwrdd caffael ac yn edrych ar y cyfleoedd hynny, yn enwedig mewn perthynas â chyflenwyr lleol.

Senedd.tv Fideo Video

## Gwerth am Arian

## Value for Money

15:02 **Janet Finch-Saunders** Bywgraffiad Biography

*14. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am sicrhau gwerth am arian ar draws cyllideb Llywodraeth Cymru? OAQ(4)0598(FIN)*

*14. Will the Minister make a statement on ensuring value for money across the Welsh Government's budget? OAQ(4)0598(FIN)*

Senedd.tv Fideo Video

15:02 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Securing value for money is critical as we prepare for further budget cuts by the UK Government.

Mae sicrhau gwerth am arian yn hanfodol wrth i ni baratoi am doriadau pellach yn y gyllideb gan Lywodraeth y DU.

Senedd.tv Fideo Video

15:03 **Janet Finch-Saunders** Bywgraffiad Biography

Minister, since 2013 the Welsh Government has funded four feasibility studies relating to potential active travel routes at a total cost of over £197,000; and in Conwy another one is proposed at £68,000, despite two rejected bids for scheme development. At an average cost of over £50,000 for each study, does the Minister actually consider this to be value for money for our taxpayers?

Weinidog, ers 2013 mae Llywodraeth Cymru wedi ariannu pedair astudiaeth ddichonoldeb mewn perthynas â llwybrau teithio llesol posibl am gost o dros £197,000 i gyd; ac yng Nghonwy argymhellwyd un arall am £68,000, er bod dau gais wedi'u gwrthod ar gyfer datblygu cynllun. Am gost gyfartalog o dros £50,000 am bob astudiaeth, a yw'r Gweinidog mewn gwirionedd yn ystyried bod hyn yn rhoi gwerth am arian i'n trethdalwyr?

Senedd.tv Fideo Video

15:03 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Well, I'm sure you recognise we do have to undertake feasibility studies before we make our investment. Clearly, we have to use that evidence to make sure that we make the best use of our resources and that we adopt the most cost-effective approaches to delivery.

Wel, rwy'n siwr eich bod yn cydnabod bod rhaid inni gynnal astudiaethau dichonoldeb cyn i ni fuddsoddi. Yn amlwg, mae'n rhaid i ni ddefnyddio'r dystiolaeth i wneud yn siŵr ein bod yn gwneud y defnydd gorau o'n hadnoddau a'n bod yn mabwysiadu'r dulliau mwyaf costeffeithiol o ddarparu cynlluniau.

Senedd.tv Fideo Video

## Portffolio Cymunedau a Threchu Tlodi

## The Communities and Tackling Poverty Portfolio

15:03 **Eluned Parrott** Bywgraffiad Biography

*15. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddyrannu cyllid i'r portffolio Cymunedau a Threchu Tlodi? OAQ(4)0596(FIN)*

*15. Will the Minister make a statement on the allocation of funding to the Communities and Tackling Poverty portfolio? OAQ(4)0596(FIN)*

Senedd.tv Fideo Video

15:03 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

The programme for government sets out our priorities for Wales and underpins our spending plans, including the communities and tackling poverty portfolio.

Mae'r rhaglen lywodraethu yn nodi ein blaenoriaethau ar gyfer Cymru ac yn sylfaen i'n cynlluniau gwariant, gan gynnwys y portffolio cymunedau a threchu tlodi.

Senedd.tv Fideo Video

15:04 **Eluned Parrott** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Minister, for that answer. Clearly, sometimes emergencies do occur, and emergency housing for refugees is likely to be a demand on this particular budget. I wonder if you're able to give any early indication at this point in time of where additional funds and resources might be able to be diverted from to ensure that this is provided.

Diolch am eich ateb, Weinidog. Yn amlwg, mae argyfyngau'n digwydd weithiau, ac mae tai argyfwng ar gyfer ffoaduriaid yn debygol o fod yn un o'r galwadau ar y gyllideb benodol hon. Tybed a allwch roi syniad cynnar ar hyn o bryd o ble y gellid dargyfeirio cyllid ac adnoddau ychwanegol i sicrhau bod hyn yn cael ei ddarparu.

15:04 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, I know this will be a key question at the summit, and you have raised suggestions, which the First Minister said he would expect to be considered at the summit. Of course, local authorities are actively engaging in this and, particularly as a result of their experiences in terms of vulnerable, displaced people who aren't from the Syrian crisis.

Wel, rwy'n gwybod y bydd hwn yn gwestiwn allweddol yn yr uwchgynhadledd, ac rydych wedi crybwyll awgrymiadau. Dywedodd y Prif Weinidog y byddai'n disgwyl iddynt gael eu hystyried yn yr uwchgynhadledd. Wrth gwrs, mae awdurdodau lleol yn cymryd rhan weithredol yn hyn ac yn arbennig o ganlyniad i'w profiadau mewn perthynas â phobl agored i niwed, pobl sydd wedi'u dadleoli nad ydynt yma yn sgil argyfwng Syria.

15:04 **Mark Isherwood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

When determining the allocation of funding to the communities and tackling poverty portfolio, what consideration will you give to the statement in the Bevan Foundation report this month, 'The shape of Wales to come', that some elements of Welsh public policy are based on place, and important though place is, it might not always be the most effective basis for policy? For example, a large proportion of people in poverty live outside Communities First areas.

Wrth benderfynu ar y dyraniad cyllid i'r portffolio cymunedau a threchu tlodi, pa ystyriaeth a rowch i'r datganiad yn adroddiad Sefydliad Bevan y mis hwn, 'The shape of Wales to come', sy'n dweud bod rhai elfennau o bolisi cyhoeddus Cymru yn seiliedig ar leoedd, ac er mor bwysig yw lle, efallai nad dyma'r sail fwyaf effeithiol bob amser dros bolisi? Er enghraifft, mae cyfran fawr o'r bobl sy'n byw mewn tlodi yn byw y tu allan i ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf.

15:05 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, clearly, evidence and guidance from important independent organisations like the Bevan Foundation are very valuable in terms of informing us in terms of our budget-setting. But budget-setting, of course, is getting more difficult as a result of the cuts by your Government. I would say also that you don't recognise, as Bevan recognised, the impact that the welfare benefit cuts are going to have on the poorest and most vulnerable people in Wales.

Wel, yn amlwg, mae tystiolaeth ac arweiniad cyrff annibynnol pwysig fel Sefydliad Bevan yn darparu gwybodaeth werthfawr iawn wrth i ni fynd ati i osod ein cyllideb. Ond mae gosod cyllideb, wrth gwrs, yn mynd yn anos o ganlyniad i doriadau eich Llywodraeth chi. Byddwn yn dweud hefyd nad ydych yn cydnabod, fel yr oedd Bevan yn cydnabod, yr effaith y mae'r toriadau i fudd-daliadau lles yn mynd i'w chael ar y bobl dlotaf a mwyaf agored i niwed yng Nghymru.

15:05 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Minister.

Diolch yn fawr, Weinidog.

## 3. Dadl y Ceidwadwyr Cymreig: Cefnogaeth i Fusnesau

## 3. Welsh Conservatives Debate: Support for Businesses

*Detholwyd y gwelliannau canlynol: gwelliant 1 yn enw Elin Jones, a gwelliant 2 yn enw Aled Roberts. Os derbynnir gwelliant 1, bydd gwelliant 2 yn cael ei ddad-ddethol.*

*The following amendments have been selected: amendment 1 in the name of Elin Jones, and amendment 2 in the name of Aled Roberts. If amendment 1 is agreed, amendment 2 will be deselected.*

15:05 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We now move to item 3, which is the Welsh Conservatives debate on support for businesses. I call on William Graham to move the motion.

Symudwn yn awr at eitem 3, sef dadl y Ceidwadwyr Cymreig ar gymorth i fusnesau. Galwaf ar William Graham i gynnig y cynnig.

Cynnig NDM5820 Paul Davies

Motion NDM5820 Paul Davies

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

1. Yn gresynu at fethiant parhaus Llywodraeth Cymru i ddarparu cymorth digonol i fusnesau Cymru.

1. Regrets the Welsh Government's persistent failure to provide sufficient support to Wales's businesses.

2. Yn mynegi pryder dwfn dros golli swyddi mewn busnesau sy'n derbyn cyllid grant gan Lywodraeth Cymru.

2. Expresses deep concern by the loss of jobs at businesses in receipt of Welsh Government grant funding.

3. Yn credu bod y broses o ddiwydrwydd dyladwy a ddefnyddir gan Lywodraeth Cymru cyn darparu cymorth grant ar gyfer busnesau wedi bod yn annigonol.

3. Believes that the process of due diligence utilised by the Welsh Government prior to providing grant support for businesses has proved inadequate.

4. Yn gresynu at fethiant Llywodraeth Cymru i wario arian cyhoeddus yn effeithiol i gefnogi busnesau Cymru.

4. Regrets the Welsh Government's failure to spend public money effectively in support of Welsh businesses.

5. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gynnal adolygiad cynhwysfawr o'i methiannau o ran cymorth busnes, gan gynnwys ail-flaenoriaethu er mwyn darparu mwy o gefnogaeth i fusnesau bach a chanolig eu maint.

5. Calls on the Welsh Government to undertake a comprehensive review of its failures in business support, including a re-prioritisation to provide more backing for small and medium-sized enterprises.

*Cynigiwyd y cynnig.*

*Motion moved.*

15:05

## William Graham Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

One of the main challenges facing small and medium-sized enterprises in Wales is securing finance. Access to finance is important for funding investment, ensuring businesses reach their full growth potential, and for facilitating new business start-ups. Sometimes, only a modest level of assistance is needed; yet, ironically, this can be the most difficult level of assistance to achieve. Time and time again, we hear of how smaller businesses cannot navigate the Welsh Government's complex and overly bureaucratic funding and grants structures, putting them at a significant disadvantage. This is an imbalance in Welsh access to finance that needs to be urgently addressed. The FSB notes that small businesses are key to job creation in Wales, yet they are served very poorly when it comes to finance.

Un o'r prif heriau sy'n wynebu busnesau bach a chanolig eu maint yng Nghymru yw sicrhau cyllid. Mae dod o hyd i gyllid yn bwysig ar gyfer buddsoddi arian, gan sicrhau bod busnesau yn cyrraedd eu potensial llawn ar gyfer twf, ac i hwyluso'r broses o ddechrau busnesau newydd. Weithiau, lefel gymedrol o gymorth yn unig sydd ei hangen; ac eto, yn eironig, gallai'r lefel honno o gymorth fod yn anos na'r un i'w sicrhau. Dro ar ôl tro, clywn am fusnesau llai o faint yn methu â gwneud eu ffordd drwy strwythurau cyllido a grantiau cymhleth a gorfiwrocrataidd Llywodraeth Cymru, gan eu rhoi o dan anfantais sylweddol. Dyma anghydbwysedd o ran mynediad at gyllid yng Nghymru sy'n rhaid mynd i'r afael ag ef ar frys. Mae'r Ffederasiwn Busnesau Bach yn nodi bod busnesau bach yn allweddol i greu swyddi yng Nghymru, ac eto gwasanaeth gwael iawn a gânt o ran ariannu.

Indeed, despite receiving significant levels of investment from the Welsh Government, many businesses in my region have not only failed to meet Welsh Government requirements of investment, but have gone into administration. Griffin Place Communications in Cwmbran saw 140 jobs being lost despite receiving £600,000 of Welsh Government funding in 2014. Guardian Wealth Management in Caerphilly received £700,000 of Welsh Government funding in March 2013 and closed the next June. Having witnessed consecutive company closures again this summer, resulting in job losses, the Welsh Government's lack of risk assessment prior to investment is deeply concerning. Of all the businesses that ceased this summer within the five-year period from receipt of a grant, how was this made known to the Welsh Government, and what action, if any, was taken on their part?

Yn wir, er eu bod yn cael lefelau sylweddol o fuddsoddiad gan Lywodraeth Cymru, mae llawer o fusnesau yn fy rhanbarth nid yn unig wedi methu â bodloni gofynion buddsoddi Llywodraeth Cymru, ond wedi mynd i ddwylo'r gweinyddwyr. Collodd 140 o bobl eu gwaith yng nghwmni Griffin Place Communications yng Nghwmbrân er iddynt dderbyn £600,000 o gyllid Llywodraeth Cymru yn 2014. Derbyniodd Guardian Wealth Management yng Nghaerffili £700,000 o gyllid gan Lywodraeth Cymru ym mis Mawrth 2013 cyn cau y mis Mehefin canlynol. Ar ôl gweld sawl cwmni olynol yn cau eto yr haf hwn, gan arwain at golli swyddi, mae diffygion Llywodraeth Cymru o ran asesu risg cyn buddsoddi yn peri pryder mawr. O'r holl fusnesau a ddaeth i ben yr haf hwn o fewn y cyfnod o bum mlynedd ers derbyn grant, sut y gwnaed hyn yn hysbys i Lywodraeth Cymru, a pha gamau, os o gwbl, a roddodd ar waith?

The Welsh Government claims to undertake

Mae Llywodraeth Cymru yn honni ei bod yn cynnal

'a full assessment of the viability of any external organisation, prior to agreeing to any funding commitment.'

'a full assessment of the viability of any external organisation, prior to agreeing to any funding commitment.'

However, troubling job losses, and Wales's poor performance on a string of economic indicators, suggest the supervisory process is wholly inadequate. Welsh Conservatives believe the Welsh Government must undertake a comprehensive review of its support for businesses in Wales. Yesterday, a Chartered Management Institute report found that bad management and incompetence are to blame for the majority of new business failures, and one could draw a parallel with the Welsh Government's incompetence and bad management regarding the sale and purchase of land for businesses and the support they receive. Progress on improving access to finance has been slow and uninspiring. Discussions began on improving access to finance back in 2011, with Finance Wales alone being under review for two years. However, it is not just in finance that Welsh businesses are being neglected.

Fodd bynnag, mae nifer bryderus y swyddi a gollir, a pherfformiad gwael Cymru ar gyfres o ddangosyddion economaidd, yn awgrymu bod y broses oruchwylio yn hollol annigonol. Mae'r Ceidwadwyr Cymreig yn credu bod rhaid i Lywodraeth Cymru gynnal adolygiad cynhwysfawr o'i chefnogaeth i fusnesau yng Nghymru. Ddoe, canfu adroddiad gan y Sefydliad Rheolaeth Siartredig mai rheolaeth wael ac anghymhwystra sydd ar fai am y rhan fwyaf o fethiannau busnesau newydd, a gellid cymharu hyn ag anghymhwystra a rheolaeth wael Llywodraeth Cymru o ran gwerthu a phrynu tir ar gyfer busnesau a'r cymorth y maent yn ei gael. Mae cynnydd o ran gwella mynediad at gyllid wedi bod yn araf a di-fflach. Dechreuodd trafodaethau ar wella mynediad at gyllid yn ôl yn 2011, a Cyllid Cymru yn unig a gâi ei adolygu am ddwy flynedd. Fodd bynnag, nid ym maes cyllid yn unig y mae busnesau Cymru yn cael eu hesgeuluso.

Whilst much of the recent debate on access to finance to small and medium-sized enterprises has focused on traditional bank loans or equity investments, there are other forms of funding that should be considered as an alternative source of money for firms throughout Wales. It is not just access to finance that is holding back Welsh businesses. In a bid to supposedly create jobs and growth, the Welsh Government continues to compete with the private sector and tries to monopolise office space, at a massive cost to the public purse. Some £54 million has already been spent in the last three years, and this could soon rise to over £70 million: Cardiff's Capital Quarter office block, bought last year; a five-acre site at Callaghan Square; Pencoed Technology Park; the former car parts firm site in Llantrisant; the former Hotpoint plant in Bodelwyddan; investment in the Porth Teigr redevelopment project in Cardiff bay; plus a project to build a new centre for creative industries.

Er bod llawer o'r drafodaeth ddiweddar ar fynediad at gyllid i fentrau bach a chanolig eu maint wedi canolbwyntio ar fenthyciadau banc neu fuddsoddiadau ecwiti traddodiadol, ceir mathau eraill o gyllid y dylid eu hystyried fel ffynhonnell amgen o arian i gwmnïau ledled Cymru. Nid mynediad at gyllid yn unig sy'n llesteirio busnesau Cymru. Mewn ymgais honedig i greu swyddi a thwf, mae Llywodraeth Cymru yn parhau i gystadlu â'r sector preifat ac yn ceisio monopoleiddio gofod swyddfa, ar gost enfawr i'r pwrs cyhoeddus. Eisoes, yn ystod y tair blynedd diwethaf, gwariwyd tua £54 miliwn, a gallai hyn godi'n fuan i dros £70 miliwn: bloc swyddfeydd Cwr y Ddinas, Caerdydd, a brynwyd y llynedd; safle pum erw yn Sgwâr Callaghan; Parc Technoleg Pencoed; hen safle cydrannau ceir yn Llantrisant; hen safle ffatri Hotpoint ym Modelwyddan; buddsoddiad ym mhrosiect ailddatblygu Porth Teigr ym mae Caerdydd; yn ogystal â phrosiect i adeiladu canolfan newydd ar gyfer y diwydiannau creadigol.

In 2006, Rhodri Morgan remarked:

Yn 2006, dywedodd Rhodri Morgan:

'The days when we saw ourselves as a low-wage, low-skilled economy trapped in an era of post-industrial decline are well and truly over and we are now proud of who we are—a small, smart, confident nation facing up to the challenges of the 21st century.'

'The days when we saw ourselves as a low-wage, low-skilled economy trapped in an era of post-industrial decline are well and truly over and we are now proud of who we are—a small, smart, confident nation facing up to the challenges of the 21st century.'

However, last week, we heard the Bevan report comment that another five years of Labour rule will lead to the economy sleepwalking towards disaster. It is vital that the Labour Welsh Government build on the UK Government's success of delivering a living wage, supporting small businesses by cutting tax and business rates, which will retain and attract foreign investment and provide sustainable jobs.

Fodd bynnag, yr wythnos diwethaf, clywsom adroddiad Bevan yn dweud y bydd pum mlynedd arall o lywodraeth Llafur yn arwain at yr economi'n cerdded yn ei chwsg i drychineb. Mae'n rhaid i Lywodraeth Lafur Cymru adeiladu ar lwyddiant Llywodraeth y DU i sicrhau cyflog byw, gan gefnogi busnesau bach drwy dorri trethi ac ardrethi busnes, er mwyn cadw a denu buddsoddiad tramor a darparu swyddi cynaliadwy.

It is imperative that high-end research and product development remain here in Wales. Many companies I have visited over this summer recess agree that product development moneys are where the future lies. One need only look at the success of Dyson—Prime Minister David Cameron has hailed the Wiltshire-headquartered Dyson as a 'great British success story'. The engineering giant committed to a £1.5 billion investment in future technology. And Dyson last year committed to a £250 million UK technology campus in Malmesbury and a £50 million investment in British universities over the next four years. We have a somewhat different outlook for businesses when it comes to land here in Wales. Not only do the Welsh Government seem to be throwing excessive amounts of money in a bid to buy land, the regeneration investment fund for Wales has failed to maximise the potential of land sales, resulting in massive costs to the taxpayer. I would ask what measures are in place to ensure that the total failure and catastrophe that the RIFW has brought does not happen again.

Rhaid cadw ymchwil a datblygu cynnyrch ym mhen ucha'r farchnad yma yng Nghymru. Mae llawer o gwmnïau yr ymwelais â hwy yn ystod toriad yr haf yn cytuno mai mewn arian datblygu cynnyrch y mae'r dyfodol. Nid oes ond angen edrych ar lwyddiant Dyson—mae'r Prif Weinidog David Cameron wedi canmol Dyson, sydd â'i bencadlys yn Wiltshire, fel stori lwyddiant Brydeinig wych. Ymrwymodd y cwmni peirianneg mawr i fuddsoddi £1.5 biliwn mewn technoleg ar gyfer y dyfodol. A'r llynedd, ymrwymodd Dyson £250 miliwn i gampws technoleg yn Malmesbury a buddsoddiad o £50 miliwn mewn prifysgolion ym Mhrydain dros y pedair blynedd nesaf. Mae gennym agwedd ychydig yn wahanol at fusnesau mewn perthynas â thir yma yng Nghymru. Nid yn unig y mae'n ymddangos bod Llywodraeth Cymru yn taflu gormod o arian mewn ymgais i brynu tir, mae cronfa buddsoddi Cymru mewn adfywio wedi methu â manteisio i'r eithaf ar botensial gwerthiannau tir, gan arwain at gostau enfawr i'r trethdalwr. Carwn ofyn pa fesurau sydd ar waith i sicrhau nad yw methiant llwyr a thrychineb Cronfa Buddsoddi Cymru mewn Adfywio yn digwydd eto.

Welsh Conservatives have built on the issues and concerns raised by businesses that have voiced insufficiencies of Finance Wales since 2013. We wish to see regionalised banking through implementing a new, localised funding model using local knowledge to deliver support to business and delivering improved rates of responsible lending. Welsh Conservatives want to stimulate the local economy and to support SMEs by improving access to finance at a local level. This is an important aspect of the localism agenda, which would ensure that investments support local SMEs and stimulate the local economy and the local community. We want to promote new ideas, such as invoice financing, and really give 'finance with a human face'. Many people can remember their local bank manager knowing them by name and their families. Invest Wales will have accessible regional branches that will understand the local economy and therefore identify gaps in the market. Our vision aims to provide, not just the finance, but the finance counselling that would support SMEs throughout Wales.

Mae'r Ceidwadwyr Cymreig wedi adeiladu ar y materion a'r pryderon a leisiwyd gan fusnesau sydd wedi tynnu sylw at annigonolrwydd Cyllid Cymru ers 2013. Rydym am weld bancio rhanbarthol drwy weithredu model cyllido newydd lleol yn defnyddio gwybodaeth leol i ddarparu cymorth i fusnesau a sicrhau gwell cyfraddau benthyca cyfrifol. Mae'r Ceidwadwyr Cymreig am hybu'r economi leol a chefnogi busnesau bach a chanolig drwy wella mynediad at gyllid ar lefel leol. Mae hon yn agwedd bwysig ar yr agenda leoliaeth a fyddai'n sicrhau bod buddsoddiadau yn cefnogi busnesau bach a chanolig lleol ac yn ysgogi'r economi leol a'r gymuned leol. Rydym eisiau hybu syniadau newydd, megis cyllid anfonebau, a rhoi wyneb dynol i gyllid mewn gwirionedd. Gall llawer o bobl gofio'u rheolwr banc lleol yn eu hadnabod wrth eu henwau a'u teuluoedd. Bydd gan Buddsoddi Cymru ganghennau rhanbarthol hygyrch a fydd yn deall yr economi leol ac felly'n nodi bylchau yn y farchnad. Ein gweledigaeth yw darparu nid yn unig y cyllid, ond cyngor ar gyllid hefyd i gefnogi busnesau bach a chanolig ledled Cymru.

In each local, host retail bank, one counter will be set aside for Invest Wales where we will employ our Invest Wales bank manager and staff, who will manage applications and guide SMEs through the application process. Ultimately, we wish to see business confidence in Wales rise in line with or, hopefully, above the UK average. Survival rates amongst Welsh enterprises need to improve, ensuring flourishing local economies and ensuring that employment opportunities increase.

Ym mhob banc manwerthu lleol, bydd un cownter yn cael ei neilltuo ar gyfer Buddsoddi Cymru lle y byddwn yn cyflogi ein rheolwr banc Buddsoddi Cymru a staff, a fydd yn rheoli ceisiadau ac yn arwain busnesau bach a chanolig drwy'r broses ymgeisio. Yn y pen draw, rydym yn dymuno gweld hyder busnesau yng Nghymru yn cynyddu yn unol â chyfartaledd y DU, neu'n uwch na hynny, gobeithio. Mae angen gwella cyfraddau goroesi busnesau Cymru, gan sicrhau ffyniant economïau lleol a chynyddu cyfleoedd cyflogaeth.

Labour's current business grants process remains flawed: 11,000 business received grants in five years, 68 have failed completely, and 14 may yet have to return funds. Another 54 businesses have received £11 million, of which recovery is doubtful. At least four businesses have shed hundreds of jobs this year, despite receiving grants from the Welsh Government. That should be enough to drive forward a swift evaluation of the current process and a true focus on due diligence. The monitoring process is clearly inadequate, and taxpayers deserve to have a guarantee of improved management of business grants and loans, along with a clear commitment to effective business support that is always value for money. As George Bernard Shaw once remarked,

Mae proses bresennol Llafur ar gyfer grantiau busnes yn parhau i fod yn ddiffygiol: derbyniodd 11,000 o fusnesau grantiau mewn pum mlynedd, mae 68 wedi methu'n llwyr, ac efallai y bydd yn rhaid i 14 ad-dalu arian eto. Mae 54 o fusnesau eraill wedi derbyn £11 miliwn, ac mae'n amheus y caiff ei adfer. Mae o leiaf bedwar busnes wedi cael gwared ar gannoedd o swyddi eleni, er iddynt dderbyn grantiau gan Lywodraeth Cymru. Dylai hynny fod yn ddigon i ysgogi gwerthusiad cyflym o'r broses bresennol a chanolbwyntio'n iawn ar ddiwydrwydd dyladwy. Mae'r broses fonitro yn amlwg yn annigonol, ac mae trethdalwyr yn haeddu cael sicrwydd y bydd grantiau a benthyciadau busnes yn cael eu rheoli'n well, ynghyd ag ymrwymiad clir i gymorth busnes effeithiol sy'n rhoi gwerth am arian bob amser. Fel y dywedodd George Bernard Shaw unwaith,

'Progress is impossible without change, and those who cannot change their minds cannot change anything.'

'Progress is impossible without change, and those who cannot change their minds cannot change anything.'

15:13

## Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

I have selected two amendments to the motion. If amendment 1 is agreed, then amendment 2 will be deselected. I call on Rhun ap Iorwerth to move amendment 1, tabled in the name of Elin Jones.

Rwyf wedi dethol dau welliant i'r cynnig. Os derbynnir gwelliant 1, bydd gwelliant 2 yn cael ei ddad-ddethol. Galwaf ar Rhun ap Iorwerth i gynnig gwelliant 1, a gyflwynwyd yn enw Elin Jones.

*Gwelliant 1—Elin Jones*

*Amendment 1—Elin Jones*

*Dileu pob dim ar ôl pwynt 1 a rhoi yn ei le:*

*Delete all after point 1 and replace with:*

*2. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gefnogi anghenion ariannu busnesau Cymru drwy sefydlu banc datblygu busnes i Gymru.*

*2. Calls on the Welsh Government to support the financing needs of Welsh businesses through establishing a business development bank for Wales.*

*3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i fynd i'r afael â baich ardrethi busnes drwy ymestyn y cynllun rhyddhad ardrethi i fusnesau bach.*

*3. Calls on the Welsh Government to address the burden of business rates by extending the small business rate relief scheme.*

*4. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau cyfleoedd masnach newydd i fusnesau yng Nghymru drwy weithredu menter masnach tramor Plaid Cymru.*

*4. Calls on the Welsh Government to secure new trade opportunities for Welsh businesses by implementing Plaid Cymru's Overseas Trade Initiative.*

*Cynigiwyd gwelliant 1.*

*Amendment 1 moved.*

15:13

## Rhun ap Iorwerth [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

Mi wnaf i gynnig yn ffurfiol y gwelliant yna yn enw Elin Jones. Yn amlwg, mae yna gryn dipyn yn sentiment y cynnig yr wyf i a Phlaid Cymru yn cydymdeimlo ag o—mae o'n gresynu at fethiant y Llywodraeth Lafur i roi'r cymorth priodol, cymorth digon cryf, i hybu llwyddiant busnesau yng Nghymru. Mae yna yn sicr fethiant ar hyn o bryd i roi at ei gilydd y math o becyn cyflawn yna o gymorth i fusnes i alluogi economi Cymru i symud yn ei blaen.

I will formally move the amendment in the name of Elin Jones. Clearly, there is a great deal in the sentiment of the motion that I and Plaid Cymru would agree with—it regrets the failure of the Labour Government to give the appropriate and sufficient support in order to boost the success of Welsh businesses. There is certainly a failure at present to put together the kind of comprehensive package of business support in order to enable the Welsh economy to move forward.

Wedi dweud hynny, rwyf yn credu bod y cynnig arbennig yma, fel y mae wedi ei eirio, yn rhoi ffocws rhy gul ar un elfen o'r cymorth y gellir ei roi, sef cymorth grant. Mi fuaswn i'n dymuno ehangu'r drafodaeth yna dipyn i sut i greu'r amgylchiadau, yr hinsawdd iawn, er mwyn galluogi busnesau i ffynnu.

Having said that, I do believe that this particular motion, as it is currently worded, has too narrow a focus on one element of the support that can be provided, and that's grant support. I would want to enhance and expand that debate and look at how we can create the right conditions and climate in order to enable businesses to prosper.

Mae cynnig cymorth grant yn rhan gwbl normal o bolisi economaidd, ond, wrth gwrs, mae yna risgiau ynghlwm wrth bolisi o'r fath. Maen nhw'n risgiau yr wyf i'n barod iawn i weld llywodraethau yn eu cymryd, o sicrhau bod y camau cywir yn eu lle i reoli'r risg yna. Ac mi ddywedaf i hyn hefyd: mae methiant busnesau yn rhan annatod o fwrlwm economi lewyrchus.

Providing grant support is an entirely normal part of economic policy, but, of course, there are risks attached to such a policy. They are risks that I am very willing to see governments taking, having ensured that the right controls are in place to manage that risk. Also, I will make this point: the failure of businesses is an integral part of any prosperous economy.

Mae'n rhaid i ni fod yn realistig ynglŷn ag ambell ffaith sy'n cyfyngu ar ddylanwad Llywodraethau a Gweinidogion ar lwyddiant eu buddsoddiadau nhw, os liciwch chi. Nid Llywodraeth sy'n gyfrifol am berfformiad busnesau unigol. Nid ydynt chwaith, yn aml iawn, yn gallu gorchymyn i farchnad ehangach ymddwyn mewn rhyw ffordd arbennig. Dyna pam, rwy'n meddwl—a roedd y rheini yn rhai o'r rhesymau pam—yr oedd Ieuan Wyn Jones, tra ei fod yn Weinidog yr economi, eisiau gweld symud oddi wrth gymorth grant tuag at fenthyciadau a fyddai'n cael eu had-dalu, efo hynny o gymorth grant a fyddai ar ôl—ac mi fyddai yna'n wastad elfen o gymorth grant, rwy'n meddwl—yn cael ei ganolbwyntio ar nifer o sectorau allweddol. Rydym yn dal yn credu y dylid edrych eto ar hyn. Mae'n rhywbeth y mae cyrff busnes wedi ei gefnogi; yn sicr mi oedd y strategaeth ar y pryd, pan gafodd ei chyhoeddi yn hanner diwethaf y Llywodraeth ddiwethaf, yn cael ei chroesawu gan y CBI.

We have to be realistic about some facts that will limit the influence that Governments and Ministers can have on the success of their investments. It's not the Government that is responsible for the performance of individual businesses. Very often, they can't require a wider market to behave in a particular fashion either. That is why, I think—and those were some of the reasons why—Ieuan Wyn Jones, when he was Minister for the economy, wanted to see a move away from grant support towards loans that would be repaid, with the remaining grant support—and there would always be some element of grant support—concentrating on certain specific sectors. We still believe that we should review this. It is something that business organisations have supported; certainly the strategy at the time, when it was published in the second half of the last Government, was welcomed by the CBI.

Ond, wrth gwrs, mae yna syniadau arloesol eraill y buaswn i'n licio edrych arnynt, er enghraifft, y syniad o lywodraeth, pa un ai'n genedlaethol neu yn lleol, yn cymryd siâr ecwiti mewn cwmnïau fel eu bod yn gallu rhoi cefnogaeth, ie, ond hefyd rhannu yn yr enillion, a hynny er budd pobl Cymru a phobl mewn cymunedau ar draws Cymru. Nid ydy'r cynnig yma, nid wyf yn meddwl, gan y Ceidwadwyr heddiw yn edrych ymlaen o gwbl o ran cynnig atebion newydd.

But, of course, there are other innovative ideas that I would want to look at too, for example, the idea of a government, either nationally or locally, taking an equity share in companies so that they can provide support, yes, but also share in any profits for the benefit of the people of Wales and the people in communities across Wales. This Conservative motion doesn't look forward at all and doesn't provide any new solutions.

O droi at ein gwelliant, mae yn tanlinellu, rwy'n meddwl, y dylai cefnogaeth i fusnes fod yn anuniongyrchol yn ogystal ag yn uniongyrchol. Mae'n ymwneud â Llywodraeth yn defnyddio'r holl arfau economaidd yn ei meddiant i greu'r hinsawdd orau posibl i alluogi busnes i ffynnu. Rydym yn canolbwyntio yn y gwelliant yma ar dair elfen o'r hyn sy'n bosibl: y cyntaf, sefydlu banc datblygu. Mae'n un ateb, yn sicr, i'r broblem o ddiffyg argaeledd cyllid i fusnes. Rydym yn falch bod y Llywodraeth, a'r Gweinidog rŵan, yn cefnogi'r egwyddor yma. Mae'r Llywodraeth wedi bod yn ymgynghori ar sut y gallai banc o'r fath weithio, a pha fath o sgôp a ellid ei roi i'r banc yma, ond mae'n amser gweithredu erbyn hyn. Mi fyddai yna yn sicr ymrwymiad pendant gan Lywodraeth Plaid Cymru i sefydlu banc datblygu.

In turning to our own amendment, it does highlight, I believe, the fact that business support should be indirect as well as direct. It relates to the Government using all of the economic tools that it holds to create the best possible climate to enable businesses to prosper. We concentrate in this amendment on three elements of what is possible. The first is the establishment of a business development bank. That would be one solution to the lack of financing for business, and we're pleased that the Minister and the Government now support this principle. The Government has been consulting on how such a development bank could work and what kind of scope it should have, but it is now time for action. There will certainly be a commitment by a Plaid Cymru Government to develop a business development bank.

Yn ail, mae angen i bolisi ardrethi busnes arwain at leihau'r baich ar fusnesau bach a chanolig. Ein cynnig ni ydy helpu pob busnes efo gwerth trethiannol dan £15,000. Mi fyddwn ni yn 'commit-io' y gost net o ryw £25 miliwn y flwyddyn, rydym yn meddwl, i sicrhau bod 70,000 o fusnesau yn cael eu tynnu allan o ardrethi busnes yn gyfan gwbl, a llawer mwy yn cael cymorth. Ac, yn ddibynnol ar y gost, mi fyddwn ni hefyd yn edrych ar gymorth ychwanegol i gwmnïau sy'n buddsoddi mewn gwaith ymchwil a datblygu.

Secondly, the policy on business rates needs to reduce the burden on SMEs. Our proposal is that we assist all businesses with a rateable value under £15,000. We would commit the net cost of some £25 million per annum to ensure that some 70,000 businesses were removed entirely from business rates, and many more would be supported and assisted. And, depending on the cost, we would also look at additional support for companies that invest in research and development.

Yn drydydd, mi ydym am edrych eto ar berthynas economaidd Cymru efo'r byd, drwy rhoi sylw o'r newydd, rwy'n meddwl, i sector sy'n gryf yn hanesyddol yng Nghymru, sef allforion a masnach rhyngwladol. Er enghraifft, rwyf wedi amlinellu o'r blaen yn y Siambr yma, a'r tu allan, sut y gall y prosiect arloesol yr ydym yn ei alw'n fenter masnach dramor roi rôl benodol i'r banc datblygu newydd i chwilio am gyfleon masnach newydd. Mae angen y math yna o arloesedd arnom.

Thirdly, we do need to look anew at the Welsh economy's relationship on a global level, giving new focus to a sector that has historically been strong in Wales, and that's export and international trade. For example, I've highlighted in this Chamber and outwith how an innovative project that we call the overseas trade initiative can give a specific role to the new development bank to seek new trade opportunities. We need that kind of innovation here in Wales.

Felly, mae yna fwy o syniadau eto y tu allan i sgôp y cynnig heddiw, lle gallem fod yn chwilio am ffyrdd o gefnogi busnes. Mi fyddai Llywodraeth Plaid Cymru yn cymryd golwg newydd ar bolisi economaidd a busnes. Mae'n rhan o'r newid y mae Cymru ei angen.

So, there are more ideas that are outwith the scope of the motion today where we could be seeking ways to support businesses. A Plaid Cymru Government would look anew at economic and business policy. It is part of the change that Wales needs.

15:18

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on Eluned Parrott to move amendment 2, which is tabled in the name of Aled Roberts. Eluned Parrott.

Galwaf ar Eluned Parrott i gynnig gwelliant 2, sy'n cael ei gyflwyno yn enw Aled Roberts. Eluned Parrott.

*Gwelliant 2—Aled Roberts*

*Gwelliant 2—Aled Roberts*

*Mewnosod ar ddiwedd pwynt 5:*

*Insert at end of point 5:*

*', gwell mynediad at gyllid a galluogi cymorth a chyngor busnes o ansawdd uchel'.*

*', improved access to finance and enable high quality business support and advice'.*

*Cynigiwyd gwelliant 2.*

*Amendment 2 moved.*

15:18

## Eluned Parrott Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move amendment 2, tabled in the name of Aled Roberts. I'd like to thank the Welsh Conservatives for starting this new term on the subject of the economy, which is of course one that is incredibly important. However, if I were to be feeling contrarian today, and I very often am, so I will be, I would point out that points 1 and 3 do seem to be at odds with one another, to a certain extent. In point 1, you're suggesting that the Welsh Government is not providing enough support, that there isn't enough coming through from the Welsh Government, and yet in point 3 you're asking for the Welsh Government to erect more bureaucracy, and more due diligence, which is, may I suggest, unlikely to speed up the process of providing support to businesses.

Rwy'n cynnig gwelliant 2, a gyflwynwyd yn enw Aled Roberts. Hoffwn ddiolch i'r Ceidwadwyr Cymreig am agor y tymor newydd ar yr economi, sy'n bwnc hynod o bwysig wrth gwrs. Fodd bynnag, pe bawn i'n teimlo'n wrthwynebus heddiw, ac rwyf fi'n teimlo felly'n aml iawn, felly fe fyddaf, byddwn yn nodi bod pwyntiau 1 a 3 i'w gweld yn groes i'w gilydd, i ryw raddau. Ym mhwynt 1, rydych yn awgrymu nad yw Llywodraeth Cymru yn darparu digon o gefnogaeth, nad oes digon yn dod gan Lywodraeth Cymru, ac eto ym mhwynt 3 rydych yn gofyn i Lywodraeth Cymru greu mwy o fiwrocratiaeth, a mwy o ddiwydrwydd dyladwy, sydd, os caf awgrymu, yn annhebygol o gyflymu'r broses o ddarparu cymorth i fusnesau.

15:19

## Nick Ramsay Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Will you take an intervention?

A wnewch chi dderbyn ymyriad?

15:19

## Eluned Parrott Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Yes, of course.

Gwnaf, wrth gwrs.

15:19

## Nick Ramsay Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for giving way. I like it when you're in a contrary mood, Eluned. Your point there I don't think does stand the test, though. What we are basically saying is that if the Welsh Government had better due diligence, and wasn't wasting money in certain areas, there would be more money available for those very worthwhile causes in other areas of the economy.

Diolch i chi am ildio. Rwy'n hoffi pan fyddwch chi mewn hwyliau gwrthwynebus, Eluned. Nid wyf yn credu bod eich pwynt yn dal dŵr er hynny. Yr hyn yr ydym yn ei ddweud yn y bôn yw pe bai gan Lywodraeth Cymru ddiwydrwydd dyledus gwell, a phe na bai'n gwastraffu arian mewn rhai meysydd penodol, byddai mwy o arian ar gael ar gyfer achosion gwerth chweil mewn rhannau eraill o'r economi.

15:19 **Eluned Parrott** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for that clarification. Perhaps write it into the motion and it might get through with a little less confusion. But, as I suggested, if you're putting more due diligence in place, the—[Interruption.]

Diolch am yr eglurhad. Efallai y dylech ei ysgrifennu yn y cynnig ac efallai y caiff ei dderbyn gydag ychydig llai o ddryswch. Ond, fel yr awgrymais, os ydych yn rhoi mwy o ddiwydrwydd dyledus ar waith, bydd—[Torri ar draws.]

15:20 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

[Inaudible.]—speak and if you wish to speak, please indicate. Eluned, please carry on.

[Anghlywadwy.]—siaradwch ac os ydych yn dymuno siarad, dangoswch hynny. Eluned, ewch ymlaen os gwelwch yn dda.

15:20 **Eluned Parrott** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you very much, Llywydd. As I say, the suggestion is that with more due diligence, the purpose of due diligence is actually to refine down the number of projects that are likely to get support. I think, as I say, if we want to encourage an entrepreneurial environment then we have to understand that there is going to be some risk associated with that. We need to understand that that balance will have to change over a period of time. We also need to recognise that there is a difference between grant support and finance, and those two seem to have been conflated by the opening speaker. The kind of preparatory work that is done will be different for both and we need to recognise that that is the case.

Diolch yn fawr iawn, Lywydd. Fel y dywedais, yr awgrym yw mai diben mwy o ddiwydrwydd dyledus mewn gwirionedd yw mireinio nifer y prosiectau sy'n debygol o gael cefnogaeth. Fel y dywedais, os ydym am annog amgylchedd entrepreneuraidd, yna rwy'n credu bod rhaid i ni ddeall bod rhywfaint o risg yn gysylltiedig â hynny. Mae angen i ni ddeall y bydd y cydbwysedd yn gorfod newid dros gyfnod o amser. Mae angen inni gydnabod hefyd fod yna wahaniaeth rhwng cymorth grant a chyllid, ac mae'r siaradwr agoriadol i'w weld yn cyfuno'r ddau beth. Bydd y math o waith paratoadol sy'n cael ei wneud yn wahanol ar gyfer y ddau ac mae angen inni gydnabod hynny.

But, I think that the fundamental question we have to ask, in a positive spirit, is: how can we nurture that entrepreneurial spirit in Wales? Rather than erecting barriers, how can we work to make sure that we're maximising the chances of success for all of those businesses that we have supported? What I'd suggest is that there are things that we can do to make sure that those businesses that get our help continue to get our help and aren't just given money and then left to get on with it. Something that I've spoken about before in this Chamber is the importance perhaps of matching funding with practical support, because when a business is looking to grow and expand, it's looking to overcome barriers in its current structures. So, it might need to take on more people; it might be facing legal challenges it hasn't faced before; it might need to make new arrangements for accounting, and so on and so forth. Those barriers that need to be got across are not just financial ones, they're also practical ones, and matching and pairing support and advice with finance is a really important way of making sure that each of those investments has the best possible chance of success.

Ond credaf mai'r cwestiwn sylfaenol sy'n rhaid i ni ei ofyn, mewn ysbryd cadarnhaol, yw: sut y gallwn feithrin ysbryd entrepreneuraidd o'r fath yng Nghymru? Yn hytrach na chodi rhwystrau, sut y gallwn weithio i wneud yn siŵr ein yn rhoi'r cyfle gorau posibl o lwyddo i bob busnes a gefnogwn? Yr hyn y byddwn yn ei awgrymu yw bod yna bethau y gallwn eu gwneud i sicrhau bod y busnesau sy'n cael ein cymorth yn parhau i gael ein cymorth, ac nad ydynt ond yn cael arian a'u gadael i fwrw ymlaen â'r gwaith. Un peth rwyf wedi siarad amdano o'r blaen yn y Siambr hon yw pwysigrwydd sicrhau cefnogaeth ymarferol i gyd-fynd â'r arian efallai, oherwydd pan fydd busnes yn ceisio tyfu ac ehangu, mae'n ceisio goresgyn rhwystrau yn ei strwythurau presennol. Felly, efallai y bydd angen iddo gyflogi mwy o bobl; gallai fod yn wynebu heriau cyfreithiol nad yw wedi'u hwynebu o'r blaen; efallai y bydd angen iddo wneud trefniadau newydd ar gyfer cyfrifyddu, ac yn y blaen ac yn y blaen. Nid rhwystrau ariannol yn unig sydd angen eu goresgyn, mae yna rwystrau ymarferol hefyd, ac mae sicrhau cymorth a chyngor i gyd-fynd â chyllid yn ffordd bwysig iawn o wneud yn siŵr fod pob un o'r buddsoddiadau hynny yn cael y cyfle gorau posibl o lwyddo.

One initiative from the coalition Government, as was, which I was very proud of, was the start-up loans initiative, which loaned £130 million to 25,000 businesses across the UK on that basis. It was, of course, adopted here in Wales, which I'm very grateful for. I think the Minister has accepted in principle that this is an idea that she'd like to investigate in the past. I'd welcome her comments on what progress has been made in that regard to date. I think we also need to think about how we can encourage people to make the leap from being employed to being an employer in the future and what kind of barriers, fears and anxieties prevent people from starting up a business.

Un fenter gan y Llywodraeth glymblaid, fel yr oedd, a menter yr oeddwn yn falch iawn ohoni, oedd y fenter benthyciadau dechrau busnes, a fenthycodd £130 miliwn i 25,000 o fusnesau ar draws y DU ar y sail honno. Cafodd ei mabwysiadu yma yng Nghymru, wrth gwrs, ac rwy'n ddiolchgar iawn am hynny. Rwy'n meddwl bod y Gweinidog wedi derbyn mewn egwyddor yn y gorffennol fod hwn yn syniad y byddai'n hoffi ei archwilio. Byddwn yn croesawu ei sylwadau ar y cynnydd a wnaed yn hynny o beth hyd yn hyn. Rwy'n meddwl bod angen inni feddwl hefyd sut y gallwn annog pobl i wneud y naid rhwng cael eu cyflogi i fod yn gyflogwyr yn y dyfodol a pha fath o rwystrau, ofnau a phryderon sy'n atal pobl rhag dechrau busnesau.

There are things that we've got in our armoury, rather than just funds, that we can think about using. Business rates is one of them and I would ask the Minister to think about the way in which we can use business rates in a targeted way to encourage the re-use of empty premises, which we have done in the past, of course. Another thing that we could look at as well is removing the penalty that closing business have, that they continue to have to pay business rates on a premises even once the business has ended, unless they go bankrupt. Obviously, bankruptcy leaves creditors. If a business is responsible enough to close without leaving creditors, that business owner is liable for those things. So, there are things that we can do, which are within our powers, that we can use to encourage the spirit of entrepreneurship. It's not just about giving away money, it's about making sure that support and advice is brought together. Why not, under the auspices of a Welsh development bank, provide that kind of complete support service for small businesses, as well as perhaps levering in investment for other purposes as well?

Mae yna bethau sydd gennym yn ein harfogaeth, yn hytrach na chyllid yn unig, y gallwn feddwl am eu defnyddio. Ardrethi busnes yw un ohonynt a byddwn yn gofyn i'r Gweinidog feddwl sut y gallwn ddefnyddio ardrethi busnes mewn ffordd wedi'i thargedu i annog ailddefnyddio eiddo gwag, fel y gwnaethom yn y gorffennol, wrth gwrs. Peth arall y gallem edrych arno hefyd yw cael gwared ar y gosb i fusnesau sy'n cau sy'n golygu eu bod yn parhau i orfod talu ardrethi busnes ar eiddo, hyd yn oed ar ôl i'r busnes ddod i ben, oni bai eu bod yn mynd yn fethdalwyr. Yn amlwg, mae methdaliad yn gadael credydwyr ar ei ôl. Os yw busnes yn ddigon cyfrifol i gau heb adael credydwyr, mae'r perchennog busnes hwnnw'n atebol am y pethau hynny. Felly, mae yna bethau y gallwn eu gwneud, sydd o fewn ein pwerau, pethau y gallwn eu defnyddio i annog ysbryd o entrepreneuriaeth. Nid yw'n ymwneud yn unig â rhoi arian, mae'n ymwneud â sicrhau bod cymorth a chyngor yn cael eu dwyn ynghyd. O dan nawdd banc datblygu Cymru, pam na ddarparwn ni'r math hwnnw o wasanaeth cymorth cyflawn i fusnesau bach, yn ogystal â denu buddsoddiad at ddibenion eraill hefyd o bosibl?

But, if we believe that Wales's path to future prosperity is to encourage entrepreneurship and encourage innovation, we have to recognise and fully accept that an entrepreneurial culture has a fundamentally different approach to risk than the public sector does. We may find that we need to find a different balance between those two if we want to see the kind of culture change that will mean economic change.

Ond os credwn mai llwybr Cymru i ffyniant yn y dyfodol yw annog entrepreneuriaeth ac annog arloesedd, mae'n rhaid i ni gydnabod a derbyn yn llawn fod gan ddiwylliant entrepreneuraidd ymagwedd sylfaenol wahanol tuag at risg na sydd gan y sector cyhoeddus. Efallai y gwelwn fod angen i ni ddod o hyd i gydbwysedd gwahanol rhwng y ddau os ydym am weld y math o newid diwylliannol a fydd yn golygu newid economaidd.

15:23

## Paul Davies [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

I'm pleased to take part in this debate this afternoon and highlight some of the issues facing businesses in my own constituency. At the very heart of this debate is the absolute desire, on this side of the Chamber, to see the Welsh Government better support small and medium-sized enterprises and to stimulate local economies. Small business owners in Pembrokeshire tell me that some of our high streets are simply not catering for twenty-first century shoppers, have poor parking facilities, high charges, congestion and inadequate public transport links—all serve to deter consumers from the high street. This is a particularly relevant issue in my constituency, following Pembrokeshire County Council's recent decision to end free parking at further sites across the county. I believe that this will have a detrimental effect on high street businesses in those areas because currently offering free parking at those sites—

Rwy'n falch o gymryd rhan yn y ddadl y prynhawn yma ac o dynnu sylw at rai o'r materion sy'n wynebu busnesau yn fy etholaeth. Wrth galon y ddadl hon y mae'r awydd llwyr, ar yr ochr hon i'r Siambr, i weld Llywodraeth Cymru yn rhoi cefnogaeth well i fusnesau bach a chanolig eu maint ac yn ysgogi economïau lleol. Dywed perchnogion busnesau bach yn Sir Benfro wrthyf nad yw rhai o'n strydoedd mawr yn darparu ar gyfer siopwyr yr unfed ganrif ar hugain; fod cyfleusterau parcio'n wael a chost parcio'n uchel; fod gormod o dagfeydd; a bod cysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus yn annigonol—a hyn oll yn atal defnyddwyr rhag defnyddio'r stryd fawr. Mae hon yn broblem arbennig o berthnasol yn fy etholaeth i, yn dilyn penderfyniad diweddar Cyngor Sir Penfro i roi diwedd ar barcio am ddim mewn safleoedd pellach ar draws y sir. Rwy'n credu y bydd hyn yn effeithio'n andwyol ar fusnesau'r stryd fawr yn yr ardaloedd hynny oherwydd bod cynnig parcio am ddim yn y lleoedd hynny ar hyn o bryd—

15:24

## Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

Are you taking an intervention?

A ydych yn derbyn ymyriad?

15:24

## Paul Davies [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

[Continues.]—makes local businesses more accessible to the community and encourages safe and sensible parking.

[Yn parhau.]—yn gwneud busnesau lleol yn fwy hygyrch i'r gymuned ac yn annog parcio diogel a synhwyrol.

In a moment.

Mewn eiliad.

It's an undeniable fact that free, close and plentiful parking is a major advantage to any consumer venue, particularly for older people or those with young children. We only have to look to the increase in popularity of retail parks that offer free parking to see that. Therefore, I believe that local authorities must be encouraged to implement and introduce free parking schemes that would encourage shoppers back onto the high street. We've seen in Cardigan, for example, shopkeepers reporting their turnover shooting up, in some cases by as much as 50 per cent, following the town's car-parking meters being temporarily unusable. However, I'm told that now the charges have been reintroduced, that footfall has, again, reduced. Members may remember the Portas review, which recommended that local areas should implement free controlled-parking schemes that work for their high streets. Following the rise of out-of-town retail developments, it's become more evident that high streets need to have a flexible, well-communicated parking offer, which will make our high streets more accessible. I give way to the Member for Pontypridd.

Mae'n ffaith ddiymwad fod parcio am ddim, agos a digonol yn fantais fawr i unrhyw leoliad i ddefnyddwyr, yn enwedig i bobl hŷn neu bobl â phlant ifanc. Nid oes ond angen i ni edrych ar y cynnydd ym mhoblogrwydd parciau manwerthu sy'n cynnig parcio am ddim i weld hynny. Felly, rwy'n credu bod yn rhaid annog awdurdodau lleol i weithredu a chyflwyno cynlluniau parcio am ddim a fyddai'n annog siopwyr yn ôl ar y stryd fawr. Yn Aberteifi, er enghraifft, gwelsom siopwyr yn dweud bod eu trosiant wedi cynyddu'n ddirfawr, cymaint â 50 y cant mewn rhai achosion, pan nad oedd modd defnyddio mesuryddion parcio yn y dref dros dro. Fodd bynnag, rwy'n deall bod y taliadau wedi cael eu hailgyflwyno bellach, a bod nifer yr ymwelwyr wedi gostwng unwaith eto. Efallai y bydd yr aelodau'n cofio adolygiad Portas, a oedd yn argymell y dylai ardaloedd lleol weithredu cynlluniau parcio am ddim dan reolaeth sy'n gweithio ar gyfer eu strydoedd mawr. Yn dilyn y cynnydd mewn datblygiadau manwerthu y tu allan i'r dref, daeth yn fwy amlwg fod angen i strydoedd mawr allu darparu cyfleusterau parcio hyblyg wedi'u hysbysebu'n dda, a fydd yn gwneud ein strydoedd mawr yn fwy hygyrch. Ildiaf i'r Aelod dros Bontypridd.

15:26

## Mick Antoniw [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

Thank you for taking the intervention. You talk about money being available to spend in the high street and you, quite rightly, raise the issue of the impact of parking costs, but will you also accept that, when the Government introduces its changes to working tax credits, the £900 million that is going to be taken out of the pockets of working people within Wales is going to have a very significant impact on small businesses in the high street?

Diolch i chi am gymryd yr ymyriad. Rydych yn sôn am arian ar gael i'w wario ar y stryd fawr ac yn gwbl briodol, rydych yn crybwyll effaith costau parcio, ond a wnewch chi dderbyn hefyd, pan fydd y Llywodraeth yn cyflwyno ei newidiadau i gredydau treth gwaith, fod y £900 miliwn sy'n mynd i gael ei dynnu o bocedi pobl sy'n gweithio yng Nghymru yn mynd i effeithio'n sylweddol iawn ar fusnesau bach y stryd fawr?

15:26

## Paul Davies [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

Of course, the UK Government has also made it absolutely clear that it's going to introduce a living wage, which will help those people as well.

Wrth gwrs, mae Llywodraeth y DU hefyd wedi dweud yn gwbl glir ei bod yn mynd i gyflwyno cyflog byw a fydd yn helpu'r bobl hynny hefyd.

Now, accessibility to business premises isn't the only issue that our businesses are facing. As William Graham said, it's quite clear that one of the main obstacles facing businesses, and small businesses in particular, is their inability to access finance. Small businesses raise this with me on a regular basis, and I'm sure that others in the Chamber will identify with that. We on this side of the Chamber are ambitious for Welsh businesses. We want them to succeed, and we believe that the Welsh Government could be doing more to ensure small local businesses aren't turned down outright when they try to access finance.

Nawr, nid hygyrchedd safleoedd busnes yw'r unig broblem sy'n wynebu ein busnesau. Fel y dywedodd William Graham, mae'n eithaf amlwg mai un o'r prif rwystrau sy'n wynebu busnesau, a busnesau bach yn arbennig, yw eu hanallu i gael mynediad at gyllid. Mae busnesau bach yn dwyn hyn i fy sylw'n rheolaidd, ac rwy'n siŵr y bydd eraill yn y Siambr yn uniaethu â hynny. Rydym ni ar yr ochr hon i'r Siambr yn uchelgeisiol dros fusnesau Cymru. Rydym am iddynt lwyddo, a chredwn y gallai Llywodraeth Cymru wneud mwy i sicrhau nad yw busnesau bach lleol yn cael eu gwrthod yn llwyr pan fyddant yn ceisio cael mynediad at gyllid.

We need to make it easier for businesses to obtain finance, and one way of doing that would be to regionalise finance. By regionalising finance, local economies would be able to thrive, because, under the proposals put forward by my party, the plans would introduce local Invest Wales branches, which, as William Graham said, would understand the different economic characteristics of each region and understand niche markets and industries that work well in a particular area. The Welsh Government is, of course, aware that our proposals would bring financial support to small businesses on their doorstep, and I urge the Minister to once again seriously consider those proposals.

Mae angen i ni ei gwneud yn haws i fusnesau gael cyllid, ac un ffordd o wneud hynny fyddai rhanbartholi cyllid. Drwy ranbartholi cyllid, byddai economïau lleol yn gallu ffynnu, oherwydd, o dan y cynigion a gyflwynwyd gan fy mhlaid, byddai'r cynlluniau'n cyflwyno canghennau lleol Buddsoddi Cymru, a fyddai, fel y dywedodd William Graham, yn deall gwahanol nodweddion economaidd pob rhanbarth ac yn deall marchnadoedd a diwydiannau arbenigol sy'n gweithio'n dda mewn ardal benodol. Mae Llywodraeth Cymru, wrth gwrs, yn ymwybodol y byddai ein cynigion yn dod â chymorth ariannol i fusnesau bach ar garreg eu drws, ac rwy'n annog y Gweinidog unwaith eto i ystyried y cynigion hynny o ddifrif.

Another key area that could also help better support smaller businesses in Wales is our procurement practice. I appreciate that the Welsh Government has been working with the UK Government on securing additional powers to regulate on public procurement in Wales, and that could make a real difference to the way in which procurement practices impact on businesses. However, it's essential that local authorities are allowed to continue to work flexibly with SMEs when considering contracts. It's crucial that the procurement system is as accessible as possible to small businesses, as research has shown that, for every £1 a small business receives, 49p will be reinvested in the local economy, compared to 31p for larger firms. Given the evident benefits of SMEs winning Government contracts, it's essential that they have every opportunity to win them in the first place, and there is clearly substantial room for improvement in this area. There are examples across Wales of how local authorities can do more to ensure SMEs can bid for public sector contracts, and the Welsh Government needs to start acting now.

Maes allweddol arall hefyd a allai helpu i wella cymorth i fusnesau llai yng Nghymru yw ein harferion caffael. Rwy'n sylweddoli bod Llywodraeth Cymru wedi bod yn gweithio gyda Llywodraeth y DU er mwyn sicrhau pwerau ychwanegol i reoleiddio ar gaffael cyhoeddus yng Nghymru, a gallai hynny wneud gwahaniaeth go iawn i'r ffordd y mae arferion caffael yn effeithio ar fusnesau. Fodd bynnag, mae'n hanfodol fod awdurdodau lleol yn cael caniatâd i barhau i weithio'n hyblyg gyda busnesau bach a chanolig wrth ystyried contractau. Mae'n hanfodol fod y system gaffael fod mor hygyrch â phosibl i fusnesau bach, gan fod ymchwil wedi dangos, am bob £1 y mae busnes bach yn ei dderbyn, y bydd 49c yn cael ei ailfuddsoddi yn yr economi leol, o'i gymharu â 31c yn achos cwmnïau mwy o faint. O ystyried y manteision amlwg wrth i fusnesau bach a chanolig ennill contractau Llywodraeth, mae'n hanfodol eu bod yn cael pob cyfle i'w hennill yn y lle cyntaf, ac mae'n amlwg fod lle sylweddol i wella yn hyn o beth. Mae enghreifftiau ledled Cymru o sut y gall awdurdodau lleol wneud mwy i sicrhau bod busnesau bach a chanolig yn gallu ymgeisio am gontractau sector cyhoeddus, ac mae angen i Lywodraeth Cymru ddechrau gweithredu yn awr.

*Daeth y Dirprwy Lywydd (David Melding) i'r Gadair.*

*The Deputy Presiding Officer (David Melding) took the Chair.*

## Paul Davies [Bywgraffiad] [Biography]

Now, we've recently seen disappointing figures from the Local Data Company showing Wales's town vacancy rate at 15.6 per cent—by far the highest in the UK. This is a worrying statistic that requires immediate action. The Welsh Government needs to promote our high streets and town centres, help small businesses and ensure that they can compete on a level playing field for contracts. That's why the Welsh Government should undertake a comprehensive review of its business support, including a reprioritisation to provide more backing for small and medium-sized enterprises. I urge Members to support our motion.

Nawr, yn ddiweddar, gwelsom ffigurau siomedig gan y Local Data Company yn dangos bod cyfradd gwacter trefi Cymru yn 15.6 y cant—yr uchaf yn y DU o bell ffordd. Mae hwn yn ystadegyn sy'n peri pryder ac sy'n galw am weithredu ar unwaith. Mae angen i Lywodraeth Cymru hyrwyddo ein stryd fawr a chanol trefi, helpu busnesau bach a sicrhau y gallant gystadlu ar sail gyfartal am gontractau. Dyna pam y dylai Llywodraeth Cymru gynnal adolygiad cynhwysfawr o'i chymorth busnes, gan gynnwys ailflaenoriaethu er mwyn darparu mwy o gefnogaeth i fentrau bach a chanolig eu maint. Anogaf yr Aelodau i gefnogi ein cynnig.

15:29

## Lynne Neagle [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

I wanted to use my time today to talk about what happened to my constituents when Griffin Place Communications in Cwmbran went into liquidation recently, because, for me, this is not an abstract issue about business support, it's about the people who are affected by the decisions we take. GPC was set up in 2014, and Welsh Government announced a grant of £600,000 for the company to enable them to create more than 300 jobs. By April 2015, GPC employed more than 100 staff, many of them my constituents.

Roeddwn eisiau defnyddio fy amser heddiw i siarad am yr hyn a ddigwyddodd i fy etholwyr pan ddiddymwyd Griffin Place Communications yng Nghwmbrân yn ddiweddar, oherwydd i mi, nid mater haniaethol yn ymwneud â chymorth i fusnesau yw hyn, mae'n ymwneud â'r bobl y bydd ein penderfyniadau yn effeithio arnynt. Sefydlwyd GPC yn 2014, a chyhoeddodd Llywodraeth Cymru grant o £600,000 i'r cwmni i'w alluogi i greu dros 300 o swyddi. Erbyn mis Ebrill 2015, roedd GPC yn cyflogi dros 100 o aelodau o staff, ac roedd llawer ohonynt yn etholwyr i mi.

In the last week of July, my office began to receive a steady stream of calls from constituents, many in a distressed state, who had been suddenly dismissed by the company for so-called performance issues. Literally dozens of people had been tapped on the shoulder, taken away from their workstations, and told they had to go. Staff sat next to them, who naturally wanted to comfort their colleagues, were told to remain seated and continue working. On the last day of July, the company went into liquidation, leaving 120 people with no jobs and not having been paid their salaries. Many of those employed at GPC were young, some had been long-term unemployed, and I know of at least one who had been in care. All of them were devastated by the way they were treated, and very frightened about how they would manage after suddenly being left jobless.

Yn ystod wythnos olaf mis Gorffennaf, dechreuodd fy swyddfa dderbyn llif cyson o alwadau gan etholwyr, a llawer ohonynt yn ofidus iawn ar ôl cael eu diswyddo'n sydyn gan y cwmni oherwydd yr hyn a elwid yn broblemau ynghylch perfformiad. Roedd dwsinau o bobl, yn llythrennol, wedi cael tap ar eu hysgwydd, eu harwain o'u gweithfannau, a chael gwybod bod yn rhaid iddynt adael. Dywedwyd wrth aelodau o staff a eisteddai wrth eu hymyl, ac a oedd yn naturiol yn awyddus i gysuro'u cydweithwyr, am aros yn eu seddi a dal ati i weithio. Ar ddiwrnod olaf mis Gorffennaf, aeth y cwmni'n fethdalwr, gan adael 120 o bobl heb swydd a heb gael eu talu. Roedd llawer o'r rhai a gyflogid yn GPC yn ifanc, rhai ohonynt wedi bod yn ddi-waith yn hirdymor, a gwn am o leiaf un a oedd wedi bod yn derbyn gofal. Roedd pob un ohonynt wedi'u diflasu gan y ffordd y cawsant eu trin, ac yn ofnus iawn ynglŷn â sut y byddent yn ymdopi ar ôl cael eu gwneud yn ddi-waith yn sydyn.

I have worked to support the workforce, in partnership with other Assembly colleagues, through this incredibly difficult time. Slowly, they are being paid the moneys they are owed, but many have had an incredibly difficult few months. I have constituents who have been unable to claim benefits because GPC claimed they'd been paid when they hadn't, constituents unable to pay their rent threatened with homelessness, and others who have needed food parcels simply to survive. I am very grateful for the support of other agencies in helping people through this time, and would like to place on record my thanks to Torfaen County Borough Council, Bron Afon Community Housing, Torfaen CAB, and the local job centre, all of whom have pulled together to support people over the summer.

Rwyf wedi gweithio i gefnogi'r gweithlu, mewn partneriaeth â chyd-Aelodau eraill yn y Cynulliad, dros y cyfnod hynod o anodd hwn. Yn araf, maent yn cael yr arian sy'n ddyledus iddynt, ond mae llawer wedi wynebu rhai misoedd anodd tu hwnt. Mae gennyf etholwyr sydd wedi methu â hawlio budd-daliadau am fod GPC yn honni eu bod yn cael eu talu pan nad oedd hynny'n wir, etholwyr na allent dalu eu rhent yn wynebu bygythiad o ddigartrefedd, ac eraill a oedd angen parseli bwyd i fyw. Rwy'n ddiolchgar iawn am gefnogaeth asiantaethau eraill a fu'n helpu pobl drwy'r cyfnod hwn, a hoffwn gofnodi fy niolch i Gyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen, Tai Cymunedol Bron Afon, CAB Torfaen, a'r ganolfan waith leol. Daeth pob un ohonynt at ei gilydd i gefnogi pobl dros yr haf.

One of the questions most often raised with me by former GPC staff was how a company like this could have attracted a substantial amount of Welsh Government funding. I share those concerns. I am very grateful to the Minister for meeting with me to discuss my concerns, and for her assurances that she is looking carefully into the process of due diligence that was followed in approving this funding. I do have to say, though, that I do not believe that the due diligence in this case was anywhere near adequate. Basic checks undertaken by former staff via the Companies House website show a track record of similar-sounding firms having been set up and just dissolved.

Un o'r cwestiynau a ofynnwyd i mi amlaf gan gyn-staff y GPC oedd sut y gallai cwmni fel hwn fod wedi denu cyllid sylweddol gan Lywodraeth Cymru. Rhannaf y pryderon hynny. Rwy'n ddiolchgar iawn i'r Gweinidog am gyfarfod â mi i drafod fy mhryderon, ac am ei sicrwydd ei bod yn edrych yn ofalus ar y broses ddiwydrwydd dyladwy a ddilynwyd wrth gymeradwyo'r cyllid hwn. Mae'n rhaid i mi ddweud, fodd bynnag, nad wyf yn credu bod agos digon o ddiwydrwydd dyladwy wedi bod yn yr achos hwn. Mae gwiriadau sylfaenol a wnaed gan gyn-staff drwy wefan Tŷ'r Cwmnïau yn dangos hanes o sefydlu cwmnïau a swniai'n debyg i'w gilydd, cyn eu diddymu wedyn.

One of the company's areas of work was seeking out payment protection insurance claims, yet the company were not properly registered to provide regulated claims management services, something my colleague Nick Thomas-Symonds MP is pursuing with the Ministry of Justice. These and other concerns raised with me by former staff, such as managers using aliases, and staff offered cash incentives to lie, led me to report the situation to Gwent Police. I'm very grateful to the chief constable for his prompt action in starting an investigation, and to the team in Gwent Police who are now working on this issue.

Un o feysydd gwaith y cwmni oedd chwilio am hawliadau yswiriant gwarchod taliadau, ac eto nid oedd y cwmni wedi'i gofrestru'n briodol i ddarparu gwasanaethau rheoli hawliadau wedi'u rheoleiddio, rhywbeth y mae fy nghydweithiwr, Nick Thomas-Symonds AS yn mynd ar ei drywydd gyda'r Weinyddiaeth Gyfiawnder. Gwnaeth y rhain a phryderon eraill y soniodd cyn-staff wrthyf amdanynt, megis rheolwyr yn defnyddio enwau eraill, a staff yn cael cynnig cymhellion arian parod i ddweud celwydd, fy arwain i sôn wrth Heddlu Gwent am y sefyllfa. Rwy'n ddiolchgar iawn i'r prif gwnstabl am fynd ati'n ddiymdroi i gychwyn ymchwiliad, ac i'r tîm yn Heddlu Gwent sydd bellach yn gweithio ar y mater hwn.

One of the things that struck me as I tried to help my constituents through this awful time was how different it would have been if GPC had a recognised trade union. Although a small number of staff were individual trade union members, most, as far as I am aware, were not. A trade union may not have been able to prevent such an unscrupulous company going under, but it would have ensured that the process was less traumatic, and would have supported the staff through the tough weeks that followed. Trade unions can be the counter-weight to the kind of corporate irresponsibility we have seen at GPC, and what happened here has convinced me that the Welsh Government should now look to include trade union rights as a condition of proceeding with contracts for grant funding.

Un o'r pethau a'm trawodd wrth imi geisio helpu fy etholwyr drwy'r cyfnod ofnadwy hwn oedd pa mor wahanol y byddai wedi bod pe bai gan GPC undeb llafur cydnabyddedig. Er bod nifer fach o staff yn aelodau unigol o undeb llafur, hyd y gwn i nid oedd hynny'n wir am y rhan fwyaf ohonynt. Efallai na fyddai undeb llafur wedi gallu atal cwmni diegwyddor o'r fath rhag methu, ond byddai wedi sicrhau bod y broses yn llai trawmatig, a byddai wedi cefnogi'r staff drwy'r wythnosau anodd a ddilynodd. Gall undebau llafur wrthbwyso'r math o anghyfrifoldeb corfforaethol a welsom yn GPC, ac mae'r hyn a ddigwyddodd yma wedi fy argyhoeddi y dylai Llywodraeth Cymru bellach geisio cynnwys hawliau undebau llafur fel amod cyn symud ymlaen gyda chontractau ar gyfer arian grant.

The Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015 includes a commitment to decent work, so the Government's commitment to this principle is already enshrined in law. The International Labour Organization's definition of 'decent work' is as follows:

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn cynnwys ymrwymiad i waith gweddus, felly mae ymrwymiad y Llywodraeth i'r egwyddor hon eisoes wedi'i hymgorffori yn y gyfraith. Dyma ddiffiniad y Sefydliad Llafur Rhyngwladol o 'waith gweddus':

'work that is productive and delivers a fair income; provides security in the workplace and social protection for workers and their families; offers better prospects for personal development and encourages social integration; gives people the freedom to express their concerns, to organize and to participate in decisions that affect their lives; and guarantees equal opportunities and equal treatment for all.'

'work that is productive and delivers a fair income; provides security in the workplace and social protection for workers and their families; offers better prospects for personal development and encourages social integration; gives people the freedom to express their concerns, to organize and to participate in decisions that affect their lives; and guarantees equal opportunities and equal treatment for all. '

This Welsh Labour Government has a track record of taking action to ensure social justice in the workplace. Jane Hutt has outlawed firms guilty of blacklisting from public contracts, and the Minister for the economy took very welcome action to prevent bogus self-employment contracts operating on the Heads of the Valleys road project. Neither, I should add, are initiatives that the Welsh Conservatives would have taken. But if these workers deserve our protection, so do those treated so badly by Griffin Place, and it is time now for Welsh Government to act on this.

Mae gan Lywodraeth Lafur Cymru hanes o weithredu i sicrhau cyfiawnder cymdeithasol yn y gweithle. Mae Jane Hutt wedi gwahardd cwmnïau sy'n euog o gosbrestru rhag cael contractau cyhoeddus, ac mae camau Gweinidog yr economi i atal contractau hunangyflogaeth ffug rhag bod yn weithredol ar brosiect ffordd Blaenau'r Cymoedd i'w croesawu. Dylwn ychwanegu na fyddai'r Ceidwadwyr Cymraeg wedi gwneud yr un o'r pethau hyn. Ond os yw'r gweithwyr hyn yn haeddu cael eu diogelu gennym, mae hynny'n wir hefyd am y rhai a gafodd eu trin mor wael gan Griffin Place, ac mae'n bryd yn awr i Lywodraeth Cymru weithredu ar hyn.

15:34 **Janet Finch-Saunders** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I'm really pleased to be able to make a contribution to yet another call to this Welsh Government to support our businesses across Wales. We're calling on Welsh Government today to reprioritise its support for small and medium-sized enterprises, the lifeblood of our economy, and to commit to backing them fully and effectively.

Rwy'n falch iawn o allu cyfrannu eto at alwad arall ar y Llywodraeth hon i gefnogi ein busnesau ledled Cymru. Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru heddiw i ailflaenoriaethu ei chefnogaeth i fentrau bach a chanolig eu maint, anadl einioes ein heconomi, ac i ymrwymo i'w cefnogi'n llawn ac yn effeithiol.

In 2014, SMEs created 25,500 jobs in the private sector. We all know they are key to job creation in Wales and they provide support and employment in local communities across Wales. Just look at the recent success in my own constituency of Surf Snowdonia—new jobs, new employment. We welcome the new jobs announced yesterday by the Target Group, yet month after month we still see devastating job losses, often from companies that have received significant amounts of Welsh Government funding. We also see a shocking lack of due diligence from this Welsh Labour Government, who do not hold information on the very businesses that they have provided funding—taxpayers' money—to. The damning report of the Auditor General for Wales into the regeneration investment fund for Wales, established to restore jobs and prosperity to Wales's deprived communities, estimated a loss of £15 million to the public purse. This is a clear example of the Welsh Government's failure to spend taxpayers' money effectively in support of our Welsh businesses.

Yn 2014, creodd busnesau bach a chanolig eu maint 25,500 o swyddi yn y sector preifat. Mae pawb yn gwybod eu bod yn allweddol er mwyn creu swyddi yng Nghymru a'u bod yn darparu cefnogaeth a chyflogaeth mewn cymunedau lleol ledled Cymru. Nid oes raid ond edrych ar lwyddiant diweddar Ewyn Eryri yn fy etholaeth fy hun—swyddi newydd, gwaith newydd. Rydym yn croesawu'r swyddi newydd a gyhoeddwyd ddoe gan y Grŵp Targed, ac eto fis ar ôl mis rydym yn dal i weld colli swyddi ar lefel drychinebus, yn aml gan gwmnïau sydd wedi derbyn symiau sylweddol o gyllid gan Lywodraeth Cymru. Rydym hefyd yn gweld prinder syfrdanol o ddiwydrwydd dyladwy gan y Llywodraeth Lafur hon yng Nghymru, nad oes ganddi wybodaeth am yr union fusnesau y mae wedi darparu cyllid—arian trethdalwyr—ar eu cyfer. Roedd adroddiad damniol Archwilydd Cyffredinol Cymru ar gronfa buddsoddi Cymru mewn adfywio, a sefydlwyd i adfer swyddi a ffyniant i gymunedau difreintiedig Cymru, yn amcangyfrif colled o £15 miliwn i bwrs y wlad. Mae hon yn enghraifft glir o fethiant Llywodraeth Cymru i wario arian trethdalwyr yn effeithiol i gefnogi ein busnesau yng Nghymru.

Today, we are asking how we can ensure that such a catastrophe doesn't happen again. Furthermore, the Federation of Small Businesses has highlighted the struggles of businesses in Wales when it comes to finance. The feasibility study for a development bank for Wales concluded that helping new businesses and microbusinesses to access funding and support is vital. All too often, we hear of small SMEs struggling to navigate the complex and overly bureaucratic funding and grant structures of the Welsh Government. Finance Wales has repeatedly been a cause for concern and has been reluctant to respond to the changing environment for SMEs since the financial crisis of 2008. Yet, despite being declared unfit for purpose, Finance Wales continues to this very day, with many issues remaining unaddressed. Now, I really have concerns here about the Welsh Government's commitment to helping Welsh SMEs access finance.

Heddiw, rydym yn gofyn sut y gallwn sicrhau na fydd trychineb o'r fath yn digwydd eto. Ar ben hynny, mae'r Ffederasiwn Busnesau Bach wedi tynnu sylw at y trafferthion y mae busnesau yng Nghymru yn eu cael mewn perthynas ag ariannu. Daeth yr astudiaeth ddichonoldeb ar fanc datblygu i Gymru i'r casgliad fod helpu busnesau a microfusnesau newydd i gael cyllid a chefnogaeth yn hanfodol. Yn rhy aml, clywn am fentrau bach a chanolig yn ei chael hi'n anodd dilyn strwythurau cyllido a grantiau cymhleth a gorfiwrocrataidd Llywodraeth Cymru. Mae Cyllid Cymru wedi bod yn achos pryder dro ar ôl tro ac yn amharod i ymateb i'r amgylchedd sy'n newid i fusnesau bach a chanolig ers yr argyfwng ariannol yn 2008. Eto i gyd, er gwaethaf y datganiad ei fod yn anaddas at y diben, mae Cyllid Cymru yn parhau hyd heddiw, gyda llawer o broblemau'n dal heb gael sylw. Nawr, mae gennyf bryderon mawr ynghylch ymrwymiad Llywodraeth Cymru i helpu busnesau bach a chanolig Cymru i gael mynediad at gyllid.

What has happened to the recommendations put forward in the development bank Wales study? The National Federation of Retail Newsagents has said that small business rate relief has been crucial in helping independent retailers remain in business. Going forward, however, the Welsh Retail Consortium has stated that the business rates system is woefully out of date and that this disincentivises investment in property. Wales has the highest high street vacancy rate in the UK. We need a full business rate review so that we can buck the depressing trend of almost one Welsh high street shop closing down every two days. Business rate relief is one of the strongest tools that you have in your possession, Minister, and, obviously, it's at the disposal of the Welsh Government per se; they should support you in your role to ensure that our businesses get this vital support. Abolishing business rates for all businesses with a rateable value of under £12,000 would really enable them to grow and expand, and we as Welsh Conservatives have been calling for this for years.

Beth sydd wedi digwydd i'r argymhellion a gyflwynwyd yn yr astudiaeth ar fanc datblygu i Gymru? Mae Ffederasiwn Cenedlaethol Manwerthwyr Papurau Newydd wedi dweud bod rhyddhad ardrethi i fusnesau bach wedi bod yn allweddol i helpu manwerthwyr annibynnol i barhau mewn busnes. Wrth symud ymlaen, fodd bynnag, mae Consortiwm Manwerthu Cymru wedi datgan bod y system ardrethi busnes ar ei hôl hi'n druenus a bod hyn yn atal buddsoddi mewn eiddo. Cymru sydd â'r gyfradd gwacter stryd fawr uchaf yn y DU. Mae angen adolygiad llawn o ardrethi busnes er mwyn gwrthdroi'r duedd ddigalon lle y mae bron i un siop stryd fawr yng Nghymru yn cau bob dau ddiwrnod. Rhyddhad ardrethi busnes yw un o'r arfau cryfaf sydd gennych, Weinidog, ac yn amlwg, mae ar gael i Lywodraeth Cymru ei ddefnyddio; dylai'r Llywodraeth eich cefnogi yn eich rôl i sicrhau bod ein busnesau yn cael y cymorth hanfodol hwn. Byddai dileu ardrethi busnes i bob busnes sydd â gwerth ardrethol o dan £12,000 yn eu galluogi i dyfu ac ehangu o ddifrif, ac rydym ni fel Ceidwadwyr Cymreig wedi bod yn galw am hyn ers blynyddoedd.

The FSB estimates that, if every SME in Wales could employ one additional member of staff, then every person in Wales who wanted a job could have one. As the recent Bevan Foundation report recognised, growing the Welsh economy will require a radical change in thinking and approach by the Welsh Government, who will need to be pro-business in both perception and reality. The efficiency of Welsh Government support for SMEs needs drastic improvement. Labour have short-sighted policies that fail to stimulate economic growth. We need a Government in Wales who will create an environment here that enables us to prosper both economically and socially, and, as the last 16 years have proven, the Welsh Labour Government are simply not the ones to do it. Roll on 6 May.

Pe gallai pob busnes bach a chanolig yng Nghymru gyflogi un aelod o staff ychwanegol, mae'r Ffederasiwn Busnesau Bach yn amcangyfrif y byddai pob person yng Nghymru sydd eisiau swydd yn gallu cael un. Fel y cydnabu adroddiad Sefydliad Bevan yn ddiweddar, bydd tyfu economi Cymru yn galw am newid radical yn ffordd o feddwl ac agwedd Llywodraeth Cymru, a bydd angen iddi gefnogi busnes o ran canfyddiad ac mewn realiti. Mae angen gwella effeithlonrwydd cefnogaeth Llywodraeth Cymru i fusnesau bach a chanolig yn eithriadol. Mae gan Lafur bolisïau annoeth sy'n methu ag ysgogi twf economaidd. Mae arnom angen Llywodraeth yng Nghymru a fydd yn creu amgylchedd yma sy'n ein galluogi i ffynnu yn economaidd ac yn gymdeithasol, ac fel y mae'r 16 mlynedd diwethaf wedi profi, yn syml iawn nid Llywodraeth Lafur Cymru yw'r bobl i wneud hynny. Prysured 6 Mai.

15:39

## Mick Antoniw Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I was a bit worried about the debate at first because I find myself agreeing with a lot of what Paul Davies has said and a lot of what Eluned has said, and, in fact, a lot of what Rhun has said, and, of course, my colleague Lynne, with very important points with regard to the role of the actual people working in businesses as well. But, of course, that last speech highlights the problem with this motion, and the problem with this motion is that, basically, it starts off with a sound bite and then builds a motion around that. So, it starts with a conclusion, but then doesn't have the evidence to actually back up that particular motion itself. And it's a pity, because this was quite a good debate and it's a pity the motion doesn't match the quality of that particular debate.

Roeddwn yn poeni braidd am y ddadl ar y dechrau am fy mod yn gweld fy hun yn cytuno â llawer o'r hyn a ddywedodd Paul Davies, a llawer o'r hyn a ddywedodd Eluned, ac mewn gwirionedd, llawer o'r hyn a ddywedodd Rhun, ac wrth gwrs, fy nghyd-Aelod Lynne, gyda phwyntiau pwysig iawn o ran rôl y bobl go iawn sy'n gweithio mewn busnesau hefyd. Ond wrth gwrs, mae'r araith olaf yn tynnu sylw at y broblem gyda'r cynnig hwn, a'r broblem gyda'r cynnig hwn yn y bôn yw ei fod yn dechrau gyda slogan ac yna'n adeiladu cynnig o'i gwmpas. Felly, mae'n dechrau gyda chasgliad, ond nid yw'n cynnwys y dystiolaeth i gefnogi'r cynnig penodol hwnnw mewn gwirionedd. Ac mae'n drueni, oherwydd roedd hon yn ddadl eithaf da ac mae'n drueni nad yw'r cynnig yn cyrraedd safon y ddadl honno.

After listening to what Janet Finch-Saunders has said, she's clearly been promoting that particular soundbite. So, I think it's important that we actually look at what the actual performance is in terms of Welsh enterprises and Welsh businesses within Wales, because that is the proof of the pudding, isn't it, really, whether we're being successful or not? I should actually just point out, of course, that the failure rate of companies with public support—

Ar ôl gwrando ar yr hyn y mae Janet Finch-Saunders wedi dweud, mae'n amlwg ei bod wedi bod yn hyrwyddo'r slogan penodol hwnnw. Felly, mewn gwirionedd rwy'n meddwl ei bod yn bwysig inni edrych ar beth yw'r perfformiad go iawn o ran mentrau Cymru a busnesau yng Nghymru, oherwydd dyna'r prawf go iawn, onid e: a ydym yn llwyddo ai peidio? Dylwn nodi, wrth gwrs, bod cyfradd methiant cwmnïau sydd wedi cael cymorth cyhoeddus—

15:40

## Janet Finch-Saunders Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Will you take an intervention?

A wnewch chi dderbyn ymyriad?

15:40

## Mick Antoniw Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Sorry, no. You didn't take an intervention from me, so I won't take one from you.

Na wnaf, mae'n ddrwg gennyf. Ni chymeroch ymyriad oddi wrthyf fi, felly nid wyf am gymryd un gennych chi.

So the proof the pudding, really, is the failure rate compared with the UK, and we are much more successful in Wales. Our companies are much more successful with public funding than others within the UK, but of course you didn't mention that.

Felly, y prawf go iawn, mewn gwirionedd, yw'r gyfradd methiant o'i chymharu â'r DU, ac rydym yn llawer mwy llwyddiannus yng Nghymru. Mae ein cwmnïau'n llawer mwy llwyddiannus gyda chyllid cyhoeddus nag eraill yn y DU, ond wrth gwrs ni wnaethoch chi sôn am hynny.

If you look at exports, for example, between 1999 and the second quarter of 2014, Welsh exports have increased by 123.6 per cent in Wales, compared with 74.4 per cent in the UK, and it was the highest increase of all the UK regions. In the second quarter of 2014, there was a 5.4 per cent increase in exports—the second highest performance in the whole of the UK, compared with all the other regions.

Os edrychwch ar allforion, er enghraifft, rhwng 1999 ac ail chwarter 2014, mae allforion o Gymru wedi cynyddu 123.6 y cant yng Nghymru, o'i gymharu â 74.4 y cant yn y DU, a dyma oedd y cynnydd mwyaf o blith holl ranbarthau'r DU. Yn ail chwarter 2014, bu cynnydd o 5.4 y cant mewn allforion—y perfformiad gorau ond un yn y DU gyfan, o'i gymharu â'r holl ranbarthau eraill.

But if we really want to look at how the Welsh businesses are performing, then we ought to look to Professor Dylan Jones-Evans—a Conservative business expert and economist, who really has quite a good grasp of these things and wrote recently in the 'Western Mail'. It seems to me that I could do no better than to give you the Conservative—the official, informed Conservative—position on the performance of the Welsh economy. On gross value added, he said that recent analysis of GVA data shows that

Ond os ydym eisiau edrych yn iawn ar sut y mae busnesau Cymru yn perfformio, yna dylem wrando ar yr Athro Dylan Jones-Evans—arbenigwr busnes ac economegydd Ceidwadol, sydd â gafael da ar y pethau hyn ac a ysgrifennodd yn ddiweddar yn y 'Western Mail'. Mae'n ymddangos i mi na allwn wneud yn well na rhoi'r safbwynt Ceidwadol—y safbwynt Ceidwadol swyddogol, gwybodus—ynghylch perfformiad economi Cymru. Ar werth ychwanegol gros, dywedodd fod dadansoddiad diweddar o ddata gwerth ychwanegol gros yn dangos

'rather than continuing its relative decline, Wales has recovered more strongly from the recession than most other parts of the UK.'

'rather than continuing its relative decline, Wales has recovered more strongly from the recession than most other parts of the UK.'

He goes on to say that, since 2010, Wales is the fourth in the UK regions for GVA growth and the Welsh economy could grow faster than most of the UK, if this trend continues.

Mae'n mynd rhagddo i ddweud fod Cymru, ers 2010, yn y pedwerydd safle o blith rhanbarthau'r DU o ran twf gwerth ychwanegol gros a gallai economi Cymru dyfu'n gyflymach na'r rhan fwyaf o'r Deyrnas Unedig, os yw'r duedd hon yn parhau.

So, what does Professor Dylan Jones-Evans say on jobs? He says, on the jobs forecast of the UK Commission for Employment and Skills, that

Felly, beth y mae'r Athro Dylan Jones-Evans yn ei ddweud am swyddi? Mae'n dweud, yn ôl rhagolwg swyddi Comisiwn y DU dros Gyflogaeth a Sgiliau, fod

'the qualification profile of employed people in Wales has improved (and is projected to continue to improve)'.

'the qualification profile of employed people in Wales has improved (and is projected to continue to improve)'.

What did he say about entrepreneurship? He says that the percentage of new business births in the Welsh economy grew by 41 per cent during 2013-14—the highest of any region in the UK. When it comes to innovation, he says that

Beth a ddywedodd am entrepreneuriaeth? Dywed fod y ganran o fusnesau newydd yn economi Cymru wedi tyfu 41 y cant yn ystod 2013-14—yn uwch nag unrhyw ranbarth arall yn y DU. O ran arloesi, mae'n dweud

'Welsh businesses spent £369 million on research and development in 2013, a rise of 37 per cent on the previous year and the largest increase of any UK region.'

'Welsh businesses spent £369 million on research and development in 2013, a rise of 37 per cent on the previous year and the largest increase of any UK region.'

What does he say about the large businesses in Wales?

Beth y mae'n ei ddweud am y busnesau mawr yng Nghymru?

'Large businesses such as Admiral, Deloitte, Airbus and others are bringing jobs into Wales in record numbers whilst every year we see our fastest growing firms making an impressive impact on their sectors. There are nearly 100,000 more people in employment'.

'Large businesses such as Admiral, Deloitte, Airbus and others are bringing jobs into Wales in record numbers whilst every year we see our fastest growing firms making an impressive impact on their sectors. There are nearly 100,000 more people in employment'.

What does he say about Manpower Wales?

Beth y mae'n ei ddweud am Manpower Wales?

'Manpower Wales noted that Wales is now one of the top areas in the UK for jobseekers with investment and growth driving demand.'

'Manpower Wales noted that Wales is now one of the top areas in the UK for jobseekers with investment and growth driving demand.'

Let's look at the Conservative performance. When it came to supporting one of our most important businesses within Wales, Cardiff Airport—which, in private hands, was in the process of going bust and which, if the Tories had been in Government, probably would have done—year after year, the sole position from the Conservatives is to criticise a measure taken by Welsh Government that was to save the airport—

Gadewch i ni edrych ar berfformiad y Ceidwadwyr. Pan ddaeth yn fater o gefnogi un o'n busnesau mwyaf pwysig yng Nghymru, Maes Awyr Caerdydd—a oedd, pan oedd mewn dwylo preifat, yn y broses o fynd i'r wal ac a fyddai wedi gwneud hynny, mae'n debyg, pe bai'r Torïaid wedi bod yn y Llywodraeth—flwyddyn ar ôl blwyddyn, unig safbwynt y Ceidwadwyr yw beirniadu camau a gymerwyd gan Lywodraeth Cymru i achub y maes awyr—

*Andrew R.T. Davies a gododd—*

*Andrew R.T. Davies rose—*

## Mick Antoniw Bywgraffiad Biography

I haven't got time. Which was to save the airport, and also to save the thousands of jobs that were there. In fact, when the Tories last had a debate on this, what was the wonderful solution they came up with for Cardiff Airport? Let's reprivatise it and give everybody £37. That isn't supporting jobs; that isn't supporting Welsh business. There is no merit to this particular motion. You should think more about content than about soundbites.

Nid oes gennyf amser. I achub y maes awyr, a hefyd i achub y miloedd o swyddi a oedd yno. Yn wir, pan gafodd y Torïaid ddadl ar hyn ddiwethaf, beth oedd eu hateb gwych ar gyfer Maes Awyr Caerdydd? Gadewch i ni ei ailbreifateiddio a rhoi £37 i bawb. Nid yw hynny'n cefnogi swyddi; nid yw'n cefnogi busnesau yng Nghymru. Nid oes teilyngdod i'r cynnig penodol hwn. Dylech feddwl mwy am y cynnwys yn hytrach na sloganau.

15:43

## Mohammad Asghar Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

According to an old proverb, the more things change, the more they stay the same. Here we are at the beginning of the new Assembly term and, once again, it falls to the Welsh Conservatives to table a debate on the failure of Welsh Government to support businesses and to promote economic growth.

Yn ôl hen ddihareb, po fwyaf y bydd pethau'n newid, y mwyaf y maent yn aros yr un fath. Dyma ni ar ddechrau tymor newydd y Cynulliad ac unwaith eto, mae'r Ceidwadwyr Cymreig yn cyflwyno dadl ar fethiant Llywodraeth Cymru i gefnogi busnesau a hyrwyddo twf economaidd.

We have been warning the Welsh Government for some time that their support for small and medium-sized businesses in Wales is bureaucratic, complex and ineffective. It was back in January 2013 that we tabled a debate on the problems businesses faced in accessing finance. The concerns we raised then have largely been ignored by the Welsh Government. Accessing finance is vital to facilitate new business start-ups and to allow existing businesses to grow to their full potential. Time and time again, we have heard complaints, particularly from smaller businesses, that the process is complex and overly bureaucratic. This puts Welsh firms at a significant and needless disadvantage with its competitors.

Rydym wedi bod yn rhybuddio Llywodraeth Cymru ers peth amser fod eu cefnogaeth i fusnesau bach a chanolig eu maint yng Nghymru yn fiwrocrataidd, yn gymhleth ac yn aneffeithiol. Yn ôl ym mis Ionawr 2013, cyflwynwyd dadl gennym ar y problemau y mae busnesau'n eu hwynebu wrth geisio cael mynediad at gyllid. I raddau helaeth, mae Llywodraeth Cymru wedi anwybyddu'r pryderon a leisiwyd bryd hynny. Mae cael gafael ar gyllid yn hanfodol i hwyluso'r broses o ddechrau busnesau newydd ac i ganiatáu i fusnesau sy'n bodoli eisoes i gyrraedd eu potensial llawn. Dro ar ôl tro, rydym wedi clywed cwynion, yn enwedig gan fusnesau llai o faint, fod y broses yn gymhleth ac yn rhy fiwrocrataidd. Mae hyn yn rhoi cwmnïau o Gymru o dan anfantais sylweddol a diangen gyda'u cystadleuwyr.

Finance Wales was established in 2001 to provide finances to small and medium-sized enterprises in Wales. Concerns have been raised about its ability to perform its role effectively. Finance Wales has been under review for two years after being called unfit for purpose. Yet, it still continues to function with many of the issues of concern unaddressed. One of the concerns raised relates to the rate of interest charged. The Assembly's Finance Committee found that a significant proportion of loans made by Finance Wales could have potentially been available commercially at a more competitive rate. They called for the role of Finance Wales to be made clearer with greater co-ordination, communication and marketing of their services to be undertaken. The Federation of Small Businesses Wales said they had long-term concerns about the objective of Finance Wales. They went on to say that a lack of transparency and accountability led to insufficient levels of scrutiny into the performance of Finance Wales, a view echoed by our own Finance Committee.

Sefydlwyd Cyllid Cymru yn 2001 i ddarparu cyllid i fentrau bach a chanolig eu maint yng Nghymru. Mynegwyd pryderon ynglŷn â'i allu i gyflawni ei rôl yn effeithiol. Mae Cyllid Cymru wedi bod dan adolygiad ers dwy flynedd ar ôl cael ei alw'n anaddas at y diben. Eto i gyd, mae'n parhau i weithredu gyda llawer o'r materion sy'n peri pryder heb gael sylw. Roedd un o'r pryderon a fynegwyd yn ymwneud â'r gyfradd llog a godir. Canfu Pwyllgor Cyllid y Cynulliad y gallai cyfran sylweddol o fenthyciadau Cyllid Cymru fod wedi bod ar gael yn fasnachol ar gyfradd fwy cystadleuol. Galwent am wneud rôl Cyllid Cymru yn fwy eglur ac am gydgysylltu, cyfathrebu a marchnata eu gwasanaethau'n well. Dywedodd Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru fod ganddynt bryderon hirdymor ynglŷn ag amcan Cyllid Cymru. Aethant rhagddynt i ddweud bod diffyg tryloywder ac atebolrwydd wedi arwain at lefelau annigonol o graffu ar berfformiad Cyllid Cymru, barn a adleisiwyd gan ein Pwyllgor Cyllid ein hunain.

Discussion to improve access to finance in Wales began back in 2011. Professor Dylan Jones-Evans, which the previous speaker was saying very eloquently of many things—he must know what he actually meant when he wrote these few words—produced a feasibility study back in March into the creation of a development bank for Wales. His task and finish group concluded that the solution currently being provided was not sufficient to address the challenges facing small and medium-sized enterprises in Wales.

Dechreuodd y drafodaeth ar wella mynediad at gyllid yng Nghymru yn ôl yn 2011. Cynhyrchodd yr Athro Dylan Jones-Evans, y dywedodd y siaradwr blaenorol lawer o bethau amdano'n huawdl iawn—rhaid ei fod yn gwybod yn union beth oedd yn ei olygu wrth ysgrifennu'r ychydig eiriau hynny—astudiaeth ddichonoldeb yn ôl ym mis Mawrth ar greu banc datblygu i Gymru. Daeth ei grŵp gorchwyl a gorffen i'r casgliad nad oedd yr ateb sy'n cael ei roi ar hyn o bryd yn ddigonol i fynd i'r afael â'r heriau sy'n wynebu busnesau bach a chanolig eu maint yng Nghymru.

I welcome the principles behind a development bank for Wales as a move away from the Welsh Government's centralised approach to business financing. I'm concerned, however, that in July, in a letter to Assembly Members, the Minister stated the intention of the Welsh Government to, and I quote, 'build upon the skills and expertise within Finance Wales'. Why is the Welsh Government extending the role of this inadequate institution? I call on the Minister to scrap Finance Wales and to start afresh. Our small and medium-sized businesses in Wales need access to finance to enable them to compete, to grow and thrive. It's a competitive world all over, and our country has some of the best brains around to utilise the best finances available here in Wales to promote our economy. I call on the Welsh Government to take action to address the problems of Finance Wales and to seriously consider the proposal we have put forward here today.

Rwy'n croesawu'r egwyddorion sy'n sail i fanc datblygu i Gymru fel symudiad oddi wrth ddull canolog Llywodraeth Cymru o ariannu busnesau. Fodd bynnag, rwy'n pryderu bod y Gweinidog wedi dweud mewn llythyr at Aelodau'r Cynulliad ym mis Gorffennaf, mai bwriad Llywodraeth Cymru yw, a dyfynnaf, 'adeiladu ar sgiliau ac arbenigedd Cyllid Cymru'. Pam y mae Llywodraeth Cymru yn ehangu rôl y sefydliad annigonol hwn? Galwaf ar y Gweinidog i gael gwared ar Cyllid Cymru ac i ddechrau o'r newydd. Mae angen i'n busnesau bach a chanolig eu maint yng Nghymru gael mynediad at gyllid i'w galluogi i gystadlu, i dyfu ac i ffynnu. Mae'n fyd cystadleuol drwyddo draw, ac mae gan ein gwlad rai o'r meddyliau gorau sy'n bod ar gyfer defnyddio'r cyllid gorau sydd ar gael yma yng Nghymru i hyrwyddo ein heconomi. Galwaf ar Lywodraeth Cymru i roi camau ar waith i fynd i'r afael â phroblemau Cyllid Cymru ac i ystyried o ddifrif y cynnig rydym wedi'i gyflwyno yma heddiw.

15:48

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I call the Minister for Economy, Science and Transport, Edwina Hart.

Galwaf ar Edwina Hart, Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth.

15:48

## Edwina Hart Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

*Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth / The Minister for Economy, Science and Transport*

I will resist the temptation to go into soundbites in response to some of the comments that have been made in the Chamber today, because some of the contributions, as Mick Antoniw indicated, were much wider than what the motion was about and started to explore some other ideas that we need to continue to explore as a Government.

Rwyf am wrthsefyll y demtasiwn i adrodd sloganau mewn ymateb i rai o'r sylwadau a wnaed yn y Siambr heddiw, oherwydd roedd rhai o'r cyfraniadau, fel y nododd Mick Antoniw, yn llawer ehangach na'r hyn y mae'r cynnig yn ymwneud ag ef ac yn dechrau archwilio rhai syniadau eraill sydd angen i ni barhau i'w harchwilio fel Llywodraeth.

I will deal in the first instance, I think, with the amendments. In terms of the amendments, we won't be supporting the amendments today, not because I didn't agree with some of the issues that Rhun ap Iorwerth raised, because I think he understood fully how sometimes things will fail, how business isn't perfect and actually understood the issues of risk, which I also thought Eluned Parrott understood very well—that it is not a perfect world. If it was a perfect world, all the commercial banks would certainly not have lost any money on any of the deals that they've done, because allegedly they've taken such wonderful due diligence on every matter that they have dealt with. I think it is very important for us to acknowledge that.

Rwyf am ymdrin yn gyntaf, rwy'n credu, â'r newidiadau. O ran y gwelliannau, ni fyddwn yn cefnogi'r gwelliannau heddiw, nid oherwydd nad oeddwn yn cytuno â rhai o'r materion y soniodd Rhun ap Iorwerth amdanynt, oherwydd credaf ei fod yn deall yn iawn sut y bydd pethau weithiau'n methu a sut nad yw byd busnes yn berffaith ac mewn gwirionedd, credaf ei fod yn deall y materion risg, ac mae Eluned Parrott yn eu deall yn iawn—nad yw'n fyd perffaith. Pe bai'n fyd perffaith, yn sicr ni fyddai'r holl fanciau masnachol wedi colli unrhyw arian ar eu trafodiadau, gan mai'r honiad yw eu bod wedi cyflawni diwydrwydd dyladwy mor wych ar bob mater y maent wedi ymdrin ag ef. Rwy'n credu ei bod yn bwysig iawn i ni gydnabod hynny.

Also as well, I think it's important to acknowledge the importance of actually giving repayable finance, because there is a difference between grants and repayable finance and the way that you look at particular issues, and that is very key as well indeed. In terms of the motion, I will be making a statement on the development bank, as I've indicated. We are almost at the final stages of being able to make a statement to the Chamber.

Yn ogystal, rwy'n credu ei bod yn bwysig cydnabod pwysigrwydd rhoi cyllid ad-daladwy, oherwydd mae gwahaniaeth rhwng grantiau a chyllid ad-daladwy a'r ffordd rydych yn edrych ar faterion penodol, ac mae hynny'n allweddol iawn hefyd yn wir. O ran y cynnig, byddaf yn gwneud datganiad ar y banc datblygu, fel y nodais. Rydym bron â chyrraedd y camau olaf o allu gwneud datganiad i'r Siambr.

In terms of extending the small business rate relief scheme, I regard that as success, but I'm in the hands of the finance Minister and the UK Government and settlements regarding issues around that matter, and that is quite clear. Also, in terms of new trade opportunities for Welsh businesses, we are always open to ideas on that agenda. So, it's not in the content of the speech, but it's on the specific issues within the amendment.

O ran ymestyn y cynllun rhyddhad ardrethi i fusnesau bach, rwy'n ystyried hynny'n llwyddiant, ond rwyf yn nwylo'r Gweinidog Cyllid a Llywodraeth y DU a setliadau o ran materion yn ymwneud â hynny, ac mae hynny'n eithaf clir. Hefyd, o ran cyfleoedd masnachu newydd i fusnesau Cymru, rydym bob amser yn agored i syniadau ynghylch yr agenda honno. Felly, nid yw'n ymwneud â chynnwys yr araith, ond â'r materion penodol yn y gwelliant.

If I turn as well to the contribution that Eluned Parrott made, I think it's very important for us to understand about a more holistic support thing. I think there is a possibility perhaps, as we move to a development bank and others, about how we link all those issues in. The support is about whether you should put an account manager in to help for a period of time—whatever help and assistance you can give to a business. This is something I think we can explore when we discuss further how Business Wales will have to be more closely aligned, I think, to any developments with Finance Wales and it going into a bank.

Os caf droi hefyd at gyfraniad Eluned Parrott, rwy'n credu ei bod yn bwysig iawn i ni i ddeall beth yw cymorth mwy cyfannol. Rwy'n credu fod posibilrwydd efallai, wrth i ni symud at fanc datblygu a phethau eraill, o ran sut yr ydym yn cysylltu'r holl faterion hynny. Mae'r gefnogaeth yn ymwneud ag a ddylech roi rheolwr cyfrif i mewn i helpu am gyfnod o amser—unrhyw help a chymorth y gallwch ei roi i fusnes. Mae hyn yn rhywbeth rwy'n credu y gallwn ei archwilio pan fyddwn yn trafod ymhellach sut y bydd Busnes Cymru yn gorfod cyd-fynd yn agosach, rwy'n credu, ag unrhyw ddatblygiadau gyda Cyllid Cymru, a'i fod yn mynd i mewn i fanc.

Now, I heard Mohammad Asghar's contribution. Well, I read the excellent report from the Finance Committee on Finance Wales. I've accepted the recommendations. There was an issue of not throwing the baby out with the bath water. At the end of the day, build on what you've got and the experiences you have got and mould it. That's what I've tried to do in building a consensus about how we go forward on those particular issues.

Nawr, clywais gyfraniad Mohammad Asghar. Wel, darllenais yr adroddiad ardderchog gan y Pwyllgor Cyllid ar Cyllid Cymru. Rwyf wedi derbyn yr argymhellion. Roedd yna fater o beidio â chadw'r brych a thaflu'r babi. Yn y pen draw, adeiladwch ar yr hyn sydd gennych a'r profiadau sydd gennych a mowldiwch hynny. Dyna rwyf wedi ceisio ei wneud wrth adeiladu consensws ynghylch sut y byddwn yn symud ymlaen ar y materion penodol hynny.

Now, I understand why this debate has been tabled today, following the news coverage over the summer about a closure of a business that was financially supported by the Welsh Government. This specific situation is very disappointing and distressing, and I think Lynne Neagle illustrated that very well today. I know, Lynne, that everybody's been grateful for your support, and I have given my commitment to look in detail at what happened behind that. I note your comments as well about the trade unions, because in trade union workplaces things are better managed even when they're absolutely horrendous. So, it's very important, I think, for us to recognise that we should be opposing everything that's going on in the Trade Union Bill in Westminster and support our trade union colleagues for the excellent job they do in representing workers in the workplace through difficult situations. But I am limited on the issue that Lynne's raised with me because there are police investigations under way. Once they are concluded and we know where we're going, perhaps I'll be able to give a fuller statement.

Nawr, rwy'n deall pam y cyflwynwyd y ddadl hon heddiw, yn dilyn y sylw ar y newyddion dros yr haf ynglŷn â chau busnes a gafodd gefnogaeth ariannol gan Lywodraeth Cymru. Mae'r sefyllfa benodol hon yn destun siom a gofid mawr, ac rwy'n meddwl bod Lynne Neagle wedi darlunio hynny'n dda iawn heddiw. Rwy'n gwybod, Lynne, fod pawb wedi bod yn ddiolchgar am eich cefnogaeth, ac rwyf wedi ymrwymo i edrych yn fanwl ar yr hyn a ddigwyddodd i achosi hynny. Nodaf eich sylwadau hefyd am yr undebau llafur, oherwydd mewn gweithleoedd undebau llafur mae pethau'n cael eu rheoli'n well hyd yn oed pan fyddant yn hollol erchyll. Felly, mae'n bwysig iawn, rwy'n credu, i ni gydnabod y dylem fod yn gwrthwynebu popeth sy'n digwydd gyda'r Bil Undebau Llafur yn San Steffan ac yn cefnogi ein cydweithwyr yn yr undebau llafur am y gwaith ardderchog y maent yn ei wneud yn cynrychioli gweithwyr yn y gweithle drwy sefyllfaoedd anodd. Ond rwyf wedi fy nghyfyngu o ran y mater y soniodd Lynne amdano am fod ymchwiliadau ar y gweill gan yr heddlu. Ar ôl iddynt ddod i ben a phan fyddwn yn gwybod i ble rydym yn mynd, efallai y byddaf yn gallu rhoi datganiad llawnach.

This case has obviously drawn a lot of attention, but it is the exception to the rule, not the rule. So, I will set the record straight because I did provide several pieces of information now in the public domain as a result of Freedom of Information Act 2000 requests, but if I can deal with May 2001 to the present date, the number of businesses from whom we're seeking to recover funds is 1.3 per cent of total offers made—14 businesses in total. The amount of money being recovered is £4.41 million, 1.4 per cent of the total value. During the period, two highly successful rounds of the Wales economic growth fund have been completed, including financial support to grow SMEs and business start-ups. Only five WEGF projects have failed to date, representing 1.3 per cent of projects supported and 1.5 per cent of the value. Now, we assess the viability of grant applications prior to agreeing to any funding commitment. The evaluation considers the company's legal statement, its trading history, its management experience, its client base, investment readiness, governance arrangements, financial viability and marketing plans. Significant effort has been invested in improving our grant management processes, and the grant centre of excellence continues to provide advice, guidance and training to grant managers.

Mae'r achos hwn yn amlwg wedi tynnu llawer o sylw, ond eithriad i'r rheol ydyw, nid y rheol. Felly, rwyf am gywiro camargraffiadau gan fy mod wedi darparu sawl darn o wybodaeth sydd ar gael yn awr i'r cyhoedd o ganlyniad i geisiadau o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, ond os caf ymdrin â mis Mai 2001 hyd heddiw, nifer y busnesau rydym yn ceisio adennill arian ganddynt yw 1.3 y cant o gyfanswm y cynigion a wnaed—14 o fusnesau i gyd. Y swm o arian sy'n cael ei adennill yw £4.41, 1.4 y cant o gyfanswm y gwerth. Yn ystod y cyfnod, cwblhawyd dwy rownd hynod lwyddiannus o gronfa twf economaidd Cymru, gan gynnwys cymorth ariannol i dyfu busnesau bach a chanolig a busnesau newydd. Pump o brosiectau Cronfa Twf Economaidd Cymru yn unig sydd wedi methu hyd yn hyn, sef 1.3 y cant o'r prosiectau a gefnogwyd a 1.5 y cant o'r gwerth. Nawr, rydym yn asesu hyfywedd ceisiadau am grantiau cyn cytuno i unrhyw ymrwymiad ariannol. Mae'r gwerthusiad yn ystyried datganiad cyfreithiol y cwmni, ei hanes masnachu, ei brofiad rheoli, ei sylfaen gleientiaid, parodrwydd i fuddsoddi, trefniadau llywodraethu, hyfywedd ariannol a chynlluniau marchnata. Rydym wedi gwneud ymdrech sylweddol i wella ein prosesau rheoli grantiau, ac mae'r ganolfan ragoriaeth grantiau yn parhau i ddarparu cyngor, arweiniad a hyfforddiant i reolwyr grantiau.

Grants are provided to business from across the Welsh Government and it is important we get value for money for the grants awarded. We must achieve a balance that is appropriate. We can't be overly bureaucratic. On one hand I hear on that side of the Chamber that they want more bureaucracy and that they want me to streamline things more. At the end of the day, a balance has to be struck, and we must take informed risks. The criticism of business, always, about Government is that they don't take managed risks. Yesterday, I had the pleasure of attending an event with businesses at the ExCeL centre—it was defence and security businesses. Large ones, small ones; there were micros there that we're supporting to go there from Wales. What they said about us as a Government is that we were business-friendly, ready to act and could turn things around. Regrettably, not all business is successful, but the figures are clear that that's very infrequent. Can I put some context on that? On 31 December 2014, nearly 5,000 businesses supported by the UK Government's enterprise guarantee scheme had defaulted, which is around 19 per cent. Similar rates have been experienced by the UK Government-backed start-up loans company, with a default rate of 18 per cent since starting in Wales in 2013. So, the comparisons to what we're doing with that are actually very good. I don't condemn them for the fact that those businesses have failed. I wouldn't do that, because they had to manage a risk and take a risk and thought that they were doing the right thing.

Mae grantiau yn cael eu darparu i fusnesau o bob rhan o Lywodraeth Cymru ac mae'n bwysig ein bod yn cael gwerth am arian am y grantiau a ddyfarnwyd. Mae'n rhaid i ni sicrhau cydbwysedd sy'n briodol. Ni allwn fod yn rhy fiwrocrataidd. Ar un llaw rwy'n clywed ar yr ochr honno i'r Siambr eu bod eisiau mwy o fiwrocratiaeth a'u bod eisiau i mi symleiddio pethau'n fwy. Yn y pen draw, rhaid sicrhau cydbwysedd, ac mae'n rhaid i ni gymryd risgiau gwybodus. Y feirniadaeth a glywir bob amser gan fusnesau ynglŷn â'r Llywodraeth yw nad yw'n cymryd risgiau wedi'u rheoli. Ddoe, cefais y pleser o fynychu digwyddiad gyda busnesau yn y ganolfan ExCeL—busnesau amddiffyn a diogelwch. Rhai mawr, rhai bach; roedd yno ficrofusnesau rydym yn eu cynorthwyo i fynd yno o Gymru. Yr hyn roeddent yn ei ddweud amdanom fel Llywodraeth yw ein bod yn fusnes-gyfeillgar, yn barod i weithredu ac yn gallu troi pethau o gwmpas. Yn anffodus, nid yw pob busnes yn llwyddo, ond mae'r ffigurau'n dangos yn glir mai anaml iawn y bydd hynny'n digwydd. A gaf fi roi rhywfaint o gyd-destun i hynny? Ar 31 Rhagfyr 2014, roedd bron i 5,000 o fusnesau a gefnogwyd gan gynllun gwarant menter Llywodraeth y DU wedi methu taliadau, sef tua 19 y cant. Profodd y cwmni benthyciadau i fusnesau newydd a gefnogir gan Lywodraeth y DU gyfraddau tebyg, gyda chyfradd ddiffygdalu o 18 y cant ers cychwyn yng Nghymru yn 2013. Felly, mae'r cymariaethau â'r hyn rydym yn ei wneud gyda hynny yn dda iawn mewn gwirionedd. Nid wyf yn eu condemnio am fod y busnesau hynny wedi methu. Ni fyddwn yn gwneud hynny, oherwydd roedd yn rhaid iddynt reoli risg a chymryd risg ac roeddent yn meddwl eu bod yn gwneud y peth iawn.

Now, the overwhelming number of businesses that we support are successful in creating jobs—Deloitte with 700 and CGI with 620. When you look at what we're doing in terms of the higher end—the skills and research and development—where we are supporting, we're doing a lot. We have created 38,000 more jobs, safeguarded another lot of jobs and we've had the best performance we've had in 10 years. When you look at the forecast investments in Wales by foreign-owned companies, that is actually record breaking.

Nawr, mae nifer helaeth o'r busnesau a gefnogwn yn llwyddo i greu swyddi—Deloitte gyda 700 a CGI gyda 620. Pan edrychwch ar yr hyn rydym yn ei wneud ym mhen ucha'r farchnad—y sgiliau ac ymchwil a datblygu—lle'r ydym yn cefnogi, rydym yn gwneud llawer. Rydym wedi creu 38,000 yn fwy o swyddi, wedi diogelu llwyth arall o swyddi ac rydym wedi perfformio'n well nag y gwnaethom ers 10 mlynedd. Pan edrychwch ar y buddsoddiadau a ragwelir yng Nghymru gan gwmnïau o dramor, mae'n well nag erioed mewn gwirionedd.

Furthermore, the latest labour market statistics published this morning show that, over the last 12 months, Wales has seen the largest rate of increased employment of any part of the UK. We've seen significant falls in the level of economic inactivity, which is down by 1.2 per cent on the quarter and has continued to outperform the rest of the UK over the past year. This level of performance, I think, reflects the proactive policies and strategies that we've taken. I think they say it all.

Ar ben hynny, mae ystadegau diweddaraf y farchnad lafur a gyhoeddwyd y bore yma yn dangos cyfradd fwy o gynnydd mewn cyflogaeth yng Nghymru nag unrhyw ran arall o'r DU dros y 12 mis diwethaf. Rydym wedi gweld gostyngiadau sylweddol yn lefelau anweithgarwch economaidd, sydd wedi gostwng 1.2 y cant ers y chwarter diwethaf ac wedi parhau i berfformio'n well na gweddill y DU dros y flwyddyn ddiwethaf. Rwy'n credu bod y lefel hon o berfformiad yn adlewyrchiad o'r polisïau a'r strategaethau rhagweithiol rydym wedi eu rhoi ar waith. Rwy'n credu eu bod yn dweud y cyfan.

Wales also benefits, I think, from our close relationship with the EU. There are issues around the EU that are causing uncertainty for companies, which is going to be very difficult for us in Wales. We're a pro-EU Government here. We don't want any messing around with the issues on the European Union and, I can tell you, neither do the multinational companies that are within Wales. It is interesting. I met two companies recently who raised those very issues with me, because they had German and other parent companies there and were wondering what would happen in the future. So, I think we've got to understand exactly where we are in terms of the EU membership.

Rwy'n credu bod Cymru hefyd yn elwa o'n perthynas agos gyda'r UE. Mae yna faterion yn ymwneud â'r UE sy'n achosi ansicrwydd i gwmnïau, ac mae hynny'n mynd i fod yn anodd iawn i ni yng Nghymru. Rydym yn Llywodraeth sydd o blaid yr UE yma. Nid ydym am chwarae o gwmpas gyda'r materion sy'n ymwneud â'r Undeb Ewropeaidd a gallaf ddweud wrthych nad yw'r cwmnïau rhyngwladol yng Nghymru eisiau hynny chwaith. Mae'n ddiddorol. Cyfarfûm â dau gwmni yn ddiweddar a grybwyllodd yr union faterion hynny, oherwydd bod ganddynt riant-gwmnïau yn yr Almaen a rhiant-gwmnïau eraill yno ac roeddent yn meddwl tybed beth fyddai'n digwydd yn y dyfodol. Felly, rwy'n meddwl bod rhaid i ni ddeall yn union lle rydym o ran aelodaeth o'r UE.

I thought a number of good points were made. I rather liked Mick Antoniw's; I thought you were absolutely right about issues about parking and localised issues here. Sometimes, we're just looking at what they can gain in revenue, and not looking at the long term and what we've got to lose.

Roeddwn i'n meddwl bod nifer o bwyntiau da wedi'u gwneud. Roeddwn i'n eithaf hoff o bwynt Mick Antoniw; roeddwn i'n meddwl eich bod yn llygad eich lle ar faterion yn ymwneud â pharcio a materion lleol. Weithiau, rydym ond yn edrych ar yr hyn y gallant ei ennill mewn refeniw, ac nid ydym yn edrych ar y tymor hir a'r hyn sydd gennym i'w golli.

In terms of the regeneration of towns, there was a big issue discussed here about what towns should look like. On that note, can I say that there have obviously been some useful comments made? Some comments I haven't agreed with, but at the end of the day, it has been useful from the point of discussion. But of course, the Government will be opposing the motion.

O ran adfywio trefi, trafodwyd problem fawr yma o ran sut y dylai trefi edrych. Ar y nodyn hwnnw, a gaf fi ddweud ei bod yn amlwg fod rhai sylwadau defnyddiol wedi'u gwneud? Nid oeddwn yn cytuno â rhai o'r sylwadau, ond yn y pen draw, mae wedi bod yn ddefnyddiol o safbwynt y drafodaeth. Ond wrth gwrs, bydd y Llywodraeth yn gwrthwynebu'r cynnig.

15:57

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Nick Ramsay to reply.

Nick Ramsay i ymateb.

15:57

## Nick Ramsay Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Deputy Presiding Officer. First, can I thank the Minister for her comments? Thank you for restating the Welsh Government's support for Britain's membership of the European Union. I must say that doesn't chime particularly with some of the views that have been coming out of the UK Labour party over the last week or so, but I've no doubt at all that the Minister will make her case very strongly—

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Yn gyntaf, a gaf fi ddiolch i'r Gweinidog am ei sylwadau? Diolch i chi am ailddatgan cefnogaeth Llywodraeth Cymru i aelodaeth Prydain o'r Undeb Ewropeaidd. Rhaid i mi ddweud nad yw'n cyd-fynd yn arbennig gyda rhai o'r sylwadau a glywyd gan blaid Lafur y DU dros yr wythnos neu ddwy ddiwethaf, ond nid oes gennyf amheuaeth o gwbl y bydd y Gweinidog yn cyflwyno ei hachos yn gryf iawn—

*Mick Antoniw a gododd—*

*Mick Antoniw rose—*

15:57

## Nick Ramsay Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I've only just stood up, Mick, but as it's you and we might hear another alternative, I'll indulge you.

Newydd sefyll wyf fi, Mick, ond gan mai chi ydych chi ac efallai y clywn syniad amgen, fe ildiaf i chi.

15:57 **Mick Antoniw** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for taking the intervention. Would you agree with me that one of the reasons why you come out with some of these rather erroneous comments is because you spend too much time reading the 'Daily Mail', rather than a proper newspaper? [Laughter.]

Diolch i chi am gymryd yr ymyriad. A fyddech yn cytuno mai un o'r rhesymau pam rydych yn lleisio rhai o'r sylwadau braidd yn wallus hyn yw am eich bod yn treulio gormod o amser yn darllen y 'Daily Mail', yn hytrach na phapur newydd go iawn? [Chwerthin.]

15:58 **Nick Ramsay** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, in the absence of a cohesive Labour party manifesto to read, I'll carry on reading the 'Daily Mail' and other newspapers, which at least members of the public do themselves read.

Wel, yn absenoldeb maniffesto cydlynol i'w ddarllen gan y blaid Lafur, rwyf am barhau i ddarllen y 'Daily Mail' a phapurau newydd eraill sydd o leiaf yn cael eu darllen gan y cyhoedd eu hunain.

As William Graham said in opening, access to finance is a key tool in allowing businesses to grow. Our motion expresses deep concern at the loss of jobs at businesses in receipt of Welsh Government funding, and as the Minister herself said, over the summer, there have been a number of issues raised around that. We heard it today in some of the questions earlier to the finance Minister.

Fel y dywedodd William Graham wrth agor, mae mynediad at gyllid yn arf allweddol sy'n caniatáu i fusnesau dyfu. Mae ein cynnig yn mynegi pryder dwfn yn sgil colli swyddi mewn busnesau sy'n derbyn cyllid gan Lywodraeth Cymru, ac fel y dywedodd y Gweinidog ei hun, dros yr haf, tynnwyd sylw at nifer o faterion yn ymwneud â hynny. Clywsom hynny heddiw yn rhai o'r cwestiynau cynharach i'r Gweinidog cyllid.

There are, undoubtedly, questions about due diligence. There are questions, Minister, as I think you would accept, about value for money. Rhun ap Iorwerth, amongst a number of very good points, actually—many of them Welsh Conservative policies, so I would say they were good points—. Apart from making some good points, you did question the basis of the motion. Well, I think the motion is pretty straightforward: we are calling for support for business in Wales and a better system of support, and with better all-important scrutiny of decisions that are being taken, which I think a majority in this Chamber would accept has not been happening to date.

Yn ddi-os, mae yna gwestiynau'n codi ynghylch diwydrwydd dyladwy. Credaf y byddech yn derbyn, Weinidog, fod cwestiynau'n codi ynghylch gwerth am arian. Rhun ap Iorwerth, ymhlith nifer o bwyntiau da iawn, mewn gwirionedd—a llawer ohonynt yn bolisïau'r Ceidwadwyr Cymreig, felly fe fyddwn yn dweud eu bod yn bwyntiau da —. Ar wahân i wneud rhai pwyntiau da, roeddech yn cwestiynu'r sail dros y cynnig. Wel, rwy'n meddwl bod y cynnig yn eithaf syml: rydym yn galw am gefnogaeth i fusnesau yng Nghymru a system gymorth well, gyda phroses well ar gyfer y gwaith hollbwysig o graffu ar y penderfyniadau sy'n cael eu gwneud, ac rwy'n meddwl y byddai'r rhan fwyaf yn y Siambr hon yn derbyn nad yw hynny wedi bod yn digwydd hyd yn hyn.

Eluned Parrott, in a deliciously contrary contribution—you always make very positive points when you're in that sort of mood, Eluned—you basically spoke of matching advice with finance and dismantling barriers between the two. I think you hit the nail on the head, actually. Your concerns are one of the reasons why Welsh Conservatives have put plans forward for reforming Finance Wales, turning it into Invest Wales—that's the model that we have recommended. That would strive to take down some of the barriers between Government support and businesses that you've alluded to. The all-important localising of support would be part of that, and putting that support out there in the high street. The high street was at the heart of Paul Davies's speech and rightly so.

Eluned Parrott, mewn cyfraniad blasus o wrthwynebus—rydych bob amser yn gwneud pwyntiau cadarnhaol iawn pan fyddwch mewn hwyliau o'r fath, Eluned—yn y bôn, roeddech chi'n siarad am roi cyngor yn ogystal â chyllid a chwalu rhwystrau rhwng y ddau. Rwy'n meddwl eich bod wedi taro'r hoelen ar ei phen, mewn gwirionedd. Eich pryderon yw un o'r rhesymau pam y mae'r Ceidwadwyr Cymreig wedi cyflwyno cynlluniau i ddiwygio Cyllid Cymru, gan ei droi'n Buddsoddi Cymru—dyna'r model rydym wedi ei argymell. Byddai hynny'n ymdrech i chwalu rhai o'r rhwystrau rhwng cymorth y Llywodraeth a'r busnesau rydych wedi cyfeirio atynt. Byddai'r cam hollbwysig o leoleiddio cymorth yn rhan o hynny, ac yn mynd â'r gefnogaeth honno allan i'r stryd fawr. Roedd y stryd fawr yn ganolog i araith Paul Davies a hynny'n briodol.

Now, this isn't a debate about high streets, but, too often, we do tend to discuss high streets and businesses as though they are in separate silos. They aren't, of course. As the Minister knows all too well, all parts of the economy are interlinked, and by providing sustainable solutions for one part of the economy then you, at the same time, provide solutions for other parts.

Nawr, nid dadl am y stryd fawr yw hon, ond yn rhy aml, rydym yn tueddu i drafod y stryd fawr a busnesau fel pe baent mewn caeau ar wahân. Nid yw hynny'n wir, wrth gwrs. Fel y gŵyr y Gweinidog ond yn rhy dda, mae pob rhan o'r economi yn gydgysylltiedig, a thrwy ddarparu atebion cynaliadwy ar gyfer un rhan o'r economi, byddwch yn darparu atebion ar gyfer rhannau eraill ar yr un pryd.

Can I concur with the statements of Lynne Neagle in her contribution—in a very poignant contribution, actually? I've had communications as well—we are in neighbouring constituencies—from constituents based at GPC with similar concerns as yourself, Lynne. It does seem extraordinary—the way that some of those employees have been treated, and I agree with you that there do seem to be questions here about due diligence, at least in this case, if you leave aside other questions of due diligence in other businesses. I heard what the Minister said about this now being in the hands of the police, and I know that, Lynne, you've had a role to play in getting this issue scrutinised. From what I've seen of it, it does seem that issues such as managers using aliases were particularly peculiar. There were other aspects of operation of the business that I found strange, as well, so you do have our support in trying to get a better deal for your constituents in that area.

A gaf fi gytuno â datganiadau Lynne Neagle yn ei chyfraniad—mewn gyfraniad ingol iawn, mewn gwirionedd? Rwyf fi wedi cael gohebiaeth hefyd—rydym mewn etholaethau cyfagos—gan etholwyr yn GPC gyda phryderon tebyg i chi, Lynne. Mae'n ymddangos yn anhygoel—y ffordd y mae rhai o'r gweithwyr hynny wedi cael eu trin, ac rwy'n cytuno ei bod yn ymddangos fod yna gwestiynau'n codi yma ynghylch ddiwydrwydd dyladwy, o leiaf yn yr achos hwn, os rhowch y cwestiynau eraill ynghylch diwydrwydd dyladwy mewn busnesau eraill o'r neilltu. Clywais yr hyn a ddywedodd y Gweinidog ynglŷn â bod hyn yn nwylo'r heddlu yn awr, a gwn eich bod wedi chwarae rôl, Lynne, yn sicrhau bod y mater yn cael ei graffu. O'r hyn rwyf wedi'i weld ohono, mae'n ymddangos bod materion megis rheolwyr yn defnyddio enwau eraill yn arbennig o ryfedd. Roedd agweddau eraill ar weithrediad y busnes i'w gweld yn rhyfedd i mi hefyd, felly rydym yn eich cefnogi wrth i chi geisio cael gwell bargen i'ch etholwyr yn yr ardal.

Of course, due diligence is not just questioned in this case; it has, as I said, been questioned across other areas of business. The news that the Welsh Government is trying to reclaim £11 million must be a source of concern. There is no doubt at all that processes need to be tightened up. Mick Antoniw, you've already intervened right at the very start of—I think you spoke before I did in this debate, actually. I really liked your analysis of the Welsh Conservative motion—[Interruption.] I would—I don't think he's intervening. No?

Wrth gwrs, nid cwestiynau ynghylch diwydrwydd dyladwy yn unig sy'n codi yn yr achos hwn; fel y dywedais, mae'n cael ei gwestiynu ar draws meysydd busnes eraill. Rhaid bod y newyddion fod Llywodraeth Cymru yn ceisio adennill £11 miliwn yn destun pryder. Nid oes amheuaeth o gwbl fod angen tynhau'r prosesau. Mick Antoniw, rydych eisoes wedi ymyrryd ar y dechrau un—rwy'n meddwl eich bod wedi siarad cyn i mi wneud yn y ddadl hon, mewn gwirionedd. Roeddwn i'n hoff iawn o'ch dadansoddiad o gynnig y Ceidwadwyr Cymreig—[Torri ar draws.] Hoffwn—nid wyf yn meddwl ei fod yn ymyrryd. Na?

16:02

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

The Minister's attempting.

Mae'r Gweinidog yn ceisio gwneud.

16:02

## Nick Ramsay [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Minister, would you like to intervene?

Weinidog, a hoffech ymyrryd?

16:02

## Edwina Hart [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

So, you have to agree as Welsh Conservatives, when a company goes into administration, that I should claim the money back that's due to Government, then.

Felly, rhaid i chi gytuno fel Ceidwadwyr Cymreig, pan fydd cwmni yn mynd i ddwylo'r gweinyddwyr, y dylwn hawlio'r arian sy'n ddyledus yn ôl i'r Llywodraeth felly.

16:02

## Nick Ramsay [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

But that wasn't the point that we made. The point we made was that the processes, in advance of you issuing the money, should be tightened up so that that due diligence issue is dealt with and that you don't find yourself in this position at the end of the day. I'm not saying, Minister, that, across the board, this is never going to happen. Of course, in the real world, this is going to happen, and that is not our issue. The issue is that when you talk about the number of businesses involved in this and when you look at the scale of some of the statistics, then there are, I think, very legitimate concerns about the scale of what is going on, and we would be remiss in our job as an opposition if we didn't raise those in this debate and during other opportunities.

Ond nid dyna oedd y pwynt a wnaethom. Y pwynt a wnaethom oedd y dylid tynhau'r prosesau, cyn i chi roi'r arian, fel eich bod yn ymdrin â mater diwydrwydd dyladwy ac nad ydych yn y sefyllfa hon yn y pen draw. Weinidog, nid wyf yn dweud, yn gyffredinol, nad yw hyn byth yn mynd i ddigwydd. Wrth gwrs, yn y byd go iawn, mae'n mynd i ddigwydd, ac nid dyna yw ein problem. Y broblem yw, pan siaradwch am nifer y busnesau sy'n rhan o hyn a phan edrychwch ar rai o'r ystadegau, yna rwy'n credu bod yna bryderon dilys iawn ynghylch graddau'r hyn sy'n digwydd, a byddem yn esgeulus yn ein gwaith fel gwrthblaid pe na baem yn lleisio'r pryderon hynny yn y ddadl hon ac yn ystod cyfleoedd eraill.

Mick Antoniw, your analysis of the Welsh Conservative motion—. Well, I would say that a lot of motions that we see here don't always make the best evidence-based—I can see you grinning—arguments. But those often do come out in the debate, and you went on to say that you thought we'd had a good debate here, so I would hope that issues that didn't arise in the motion were raised in the debate. I do have to say that you did take me back to my university days; I think probably one of my worst essays was marked by a tutor and similar comments would have been made back then, so full marks for nostalgia, anyway. Mick, you were obsessed with the issue of us making soundbites. In fact, a number of Labour Members made that point as well, and you are clearly getting very on message with your new leader in the UK, Jeremy Corbyn. It does appear that the age of Tony Blair, New Labour and the soundbite is well and truly passing. I do hope the pendulum doesn't swing too far and that we do find the Labour Party moving completely away from dealing with the media in any realistic way and not really wanting to talk about your policies at all, although you might not want to talk about them; I can understand that.

Mick Antoniw, mae eich dadansoddiad o gynnig y Ceidwadwyr Cymreig—. Wel, byddwn yn dweud nad yw llawer o gynigion a welwn yma bob amser yn cyflwyno'r dadleuon gorau'n seiliedig ar dystiolaeth—gallaf eich gweld yn gwenu. Ond yn aml daw'r rheini allan yn y ddadl, ac aethoch rhagoch i ddweud eich bod yn meddwl ein bod wedi cael dadl dda yma, felly fe fyddwn yn gobeithio bod problemau na chawsant eu crybwyll yn y cynnig wedi cael eu crybwyll yn ystod y ddadl. Mae'n rhaid i mi ddweud eich bod yn mynd â mi yn ôl i fy nyddiau prifysgol; rwy'n meddwl efallai fod tiwtor wedi marcio un o fy nhraethodau gwaethaf a byddai wedi gwneud sylwadau tebyg bryd hynny, felly marciau llawn am gynnau'r atgofion, beth bynnag. Mick, roedd gennych obsesiwn ynglŷn â ni'n creu sloganau. Yn wir, gwnaeth nifer o Aelodau Llafur y pwynt hwnnw hefyd, ac rydych yn amlwg yn dechrau dilyn agweddau eich arweinydd newydd yn y DU, Jeremy Corbyn. Mae'n ymddangos bod oes Tony Blair, Llafur Newydd a'r slogan yn dod i ben yn wir. Rwy'n gobeithio na fydd y pendil yn pendilio'n rhy bell a'n bod yn gweld y Blaid Lafur yn symud yn gyfan gwbl o ymdrin â'r cyfryngau mewn unrhyw ffordd realistig ac na fyddwch eisiau siarad am eich polisïau o gwbl mewn gwirionedd, er efallai nad ydych yn awyddus i siarad yn eu cylch; gallaf ddeall hynny.

The Minister—I just turn to you finally. I've mentioned a number of your points already. I do think that when you said about Welsh Government finance not turning repayable finance into grants, there's a difference between the two—. I do completely take that on board. That is why we believe that you do need to have tight processes in place to make sure that those repayable finance agreements aren't actually grants in the end. The Welsh Government isn't a conventional bank. I've made this point before; you have as well. Businesses need to understand that; they can't come to you like they would go to a branch of NatWest, but that's not to say that the Welsh Government cannot work closely with the banks, and I think the move towards a development bank is an attempt, at least, to try and improve the way that businesses in Wales can access finance and the relationship between Government, businesses and individuals out there on the street.

Y Gweinidog—trof atoch chi i orffen. Rwyf wedi crybwyll nifer o'ch pwyntiau yn barod. Pan sonioch nad yw cyllid Llywodraeth Cymru yn troi cyllid ad-daladwy yn grantiau, rwy'n credu bod gwahaniaeth rhwng y ddau—. Rwy'n derbyn hynny'n llwyr. Dyna pam y credwn fod angen i chi gael prosesau tynn ar waith i sicrhau nad grantiau yw cytundebau cyllid ad-daladwy o'r fath yn y pen draw mewn gwirionedd. Nid banc confensiynol yw Llywodraeth Cymru. Rwyf wedi gwneud y pwynt hwn o'r blaen; rydych chi wedi'i wneud hefyd. Mae angen i fusnesau ddeall hynny; ni allant ddod atoch fel y byddent yn mynd at gangen o NatWest, ond nid yw hynny'n dweud na all Llywodraeth Cymru weithio'n agos gyda'r banciau, ac rwy'n credu bod y symudiad tuag at fanc datblygu yn ymgais, o leiaf, i geisio gwella'r ffordd y gall busnesau yng Nghymru gael mynediad at gyllid a'r berthynas rhwng y Llywodraeth, busnesau ac unigolion allan ar y stryd.

Thank you to everyone who's contributed to this motion. I think there is a lot of agreement in this Chamber, beyond the soundbites and behind the grandstanding. I urge everyone to support it, and let's get on with the job of providing far better support for businesses in Wales.

Diolch yn fawr i bawb sydd wedi cyfrannu at y cynnig hwn. Rwy'n meddwl bod llawer o gytundeb yn y Siambr hon, y tu hwnt i'r sloganau a'r siarad gorchestol. Rwy'n annog pawb i'w gefnogi, a gadewch i ni fwrw ymlaen â'r gwaith o ddarparu llawer gwell cymorth i fusnesau yng Nghymru.

16:05

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer

Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

The proposal is to agree the motion without amendment. Does any Member object? [Objection.] I defer voting until voting time.

Y cynnig yw derbyn y cynnig heb ei ddiwygio. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Gohiriaf y pleidleisio tan yr amser pleidleisio.

*Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.*

*Voting deferred until voting time.*

# 4. Dadl y Ceidwadwyr Cymreig: Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus

# 4. Welsh Conservatives Debate: Public Service Delivery

*Detholwyd y gwelliant canlynol: gwelliant 1 yn enw Elin Jones.*

*The following amendment has been selected: amendment 1 in the name of Elin Jones.*

16:05 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Item 4 is the second Welsh Conservatives debate. This one is on public service delivery. I call on Angela Burns to move the motion.

Eitem 4 yw ail ddadl y Ceidwadwyr Cymreig. Mae'r ddadl hon ar ddarparu gwasanaethau cyhoeddus. Galwaf ar Angela Burns i gynnig y cynnig.

Cynnig NDM5821 Paul Davies

Motion NDM5821 Paul Davies

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

1. Yn gresynu at fethiant parhaus Llywodraeth Cymru dro ar ôl tro i gyrraedd ei thargedau allweddol ei hun sy'n gysylltiedig â darparu gwasanaethau cyhoeddus allweddol; a'r canlyniadau niweidiol a gaiff hyn ar bobl Cymru.

1. Regrets the repeated and persistent failure of the Welsh Government to meet its own key targets linked to the delivery of key public services; and the damaging consequences this has for the people of Wales.

2. Yn credu bod yn rhaid i Lywodraeth Cymru ddangos tryloywder llwyr o ran mesur perfformiad gwasanaethau cyhoeddus.

2. Believes that the Welsh Government must show absolute transparency in measuring public service performance.

3. Yn ofni bod symud, ailddiffinio neu addasu targedau sy'n gysylltiedig â darparu gwasanaethau cyhoeddus yn rhwystro pobl Cymru rhag dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif yn ddigonol, ac yn ystumio'r craffu hir-dymor ar ei methiant parhaus.

3. Fears that the removal, redefinition or altering of targets linked to public service delivery prevents the people of Wales from adequately holding the Welsh Government to account, and distorts the scrutiny of its long-term, repeated failure.

*Cynigiwyd y cynnig.*

*Motion moved.*

16:05 **Angela Burns** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

It gives me great pleasure to lead this Welsh Conservative debate, tabled in the name of my colleague Paul Davies. I thank Plaid Cymru for the amendment and would confirm that it is our intention to support it.

Mae'n rhoi pleser mawr i mi gael arwain y ddadl hon gan y Ceidwadwyr Cymreig, a gyflwynwyd yn enw fy nghyd-Aelod Paul Davies. Diolch i Blaid Cymru am y gwelliant ac rwy'n cadarnhau ein bod yn bwriadu ei gefnogi.

Missed targets and statistical smokescreens: these are the two things we've come to expect from this Welsh Government, because for too long now the people of Wales have not been treated fairly by the First Minister and his team. It's something we've unfortunately had to become used to, seeing that the Welsh Government decides to undertake a policy then fails in the delivery of that policy, then either changes the policy, alters the measurement of the policy, or changes the benchmark, all in order to keep the failure hidden. An example that should immediately surface in people's minds is the Programme for International Student Assessment. Getting results in these tests is crucial as our country needs to be recognised as a quality act on a global educational stage in order to improve our citizens' employment prospects, encourage inward investment, maximise our economic prospects, and support our public services. We will not achieve that excellence with scores failing each time Wales participates.

Targedau a fethwyd a llenni mwg ystadegol: dyma'r ddau beth rydym wedi dod i'w disgwyl gan y Llywodraeth hon, oherwydd ers yn rhy hir bellach nid yw pobl Cymru wedi cael eu trin yn deg gan y Prif Weinidog a'i dîm. Yn anffodus, mae'n rhywbeth rydym wedi gorfod dod i arfer ag ef—gweld bod Llywodraeth Cymru yn penderfynu mabwysiadu polisi, yna'n methu â chyflawni'r polisi hwnnw, yna naill ai'n newid y polisi, yn newid y dull o fesur y polisi, neu'n newid y meincnod, a hyn oll er mwyn cadw'r methiant yn guddiedig. Un enghraifft a ddylai ddod i feddwl pobl yn syth yw'r Rhaglen Ryngwladol Asesu Myfyrwyr. Mae sicrhau canlyniadau yn y profion hyn yn hanfodol gan fod angen i'n gwlad gael ei chydnabod fel presenoldeb o safon ar lwyfan addysgol y byd er mwyn gwella rhagolygon cyflogaeth ein dinasyddion, annog mewnfuddsoddi, uchafu ein rhagolygon economaidd, a chefnogi ein gwasanaethau cyhoeddus. Ni fyddwn yn cyflawni rhagoriaeth o'r fath gyda sgorau'n disgyn bob tro y bydd Cymru'n cymryd rhan.

The 2006 results, with the exception of science, revealed that Wales performed below the Organisation for Economic Co-operation and Development's average. In 2009, results went down. In 2012, results for science and maths went down again, our reading score increased, but it was still lower than our score in 2006.

Ac eithrio mewn gwyddoniaeth, datgelodd canlyniadau 2006 fod Cymru'n cyflawni'n is na chyfartaledd y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd. Yn 2009, aeth y canlyniadau i lawr. Yn 2012, aeth y canlyniadau ar gyfer gwyddoniaeth a mathemateg i lawr unwaith eto, cododd ein sgôr darllen, ond roedd yn dal i fod yn is na'n sgôr yn 2006.

Of course, in order to hide this failure, the Welsh Government have engaged in smoke and mirrors and have changed our 2016 PISA targets to a score of 500 in each area. May I remind the Chamber that we achieved 505 for science in 2006? Simply rebranding what is considered as excellence will not solve the problem. That this Labour Government thinks no-one will notice its lack of moral integrity, the changing of targets, the hiding from accountability, the deception of the electorate, and contempt that that shows—and all because of a frightened scrabble for re-election—cannot continue anymore. This debate is our call for the Welsh Government to end the spinning and the statistical semantics.

Wrth gwrs, er mwyn cuddio'r methiant, mae Llywodraeth Cymru wedi defnyddio dulliau celu ac wedi newid ein targedau PISA 2016 i sgôr o 500 ym mhob ardal. A gaf fi atgoffa'r Siambr ein bod wedi cyflawni 505 mewn gwyddoniaeth yn 2006? Ni fydd ailfrandio syml ar yr hyn a ystyrir yn rhagoriaeth yn datrys y broblem. Ni all y Llywodraeth Lafur hon barhau i gredu mwyach na fydd neb yn sylwi ar ei diffyg uniondeb moesol, y newid targedau, y cuddio rhag atebolrwydd, twyllo etholwyr, a'r dirmyg y mae hynny'n ei ddangos—a'r cyfan oherwydd eu crafangu ofnus i gael eu hailethol. Y ddadl hon yw ein galwad ar Lywodraeth Cymru i roi diwedd ar y sbin a'r semanteg ystadegol.

This summer, once more we saw the fruits of months of hard work from both teachers and learners, and I'll again extend my congratulations to them. However, we cannot ignore the fact that results for both GCSEs and A-levels have not lived up to months of the education Minister's grandstanding. Let me be clear: I'm not criticising the hard work undertaken by teachers and learners, but it is my duty to scrutinise the Labour Government's education policy and to bring a focus on the areas in which it is failing the people of Wales. After all, the Government are obviously not prepared to be bold, to be honest, and to conduct clear-eyed scrutiny of themselves. While we welcome the increase in the number of pupils achieving an A* at A-level, we must remember that the amount of pupils who passed their A-level altogether declined, compared with 2014.

Yr haf hwn, unwaith eto gwelsom ffrwyth misoedd o waith caled gan athrawon a dysgwyr, ac rwyf am eu llongyfarch unwaith eto. Fodd bynnag, ni allwn anwybyddu'r ffaith nad yw'r canlyniadau TGAU a Safon Uwch wedi cyfiawnhau misoedd o siarad gorchestol y Gweinidog addysg. Gadewch imi fod yn glir: nid wyf yn beirniadu'r gwaith caled a wneir gan athrawon a dysgwyr, ond mae'n ddyletswydd arnaf i graffu polisi addysg y Llywodraeth Lafur, ac i ganolbwyntio ar y meysydd lle y mae'n gwneud cam â phobl Cymru. Wedi'r cyfan, mae'n amlwg nad yw'r Llywodraeth yn barod i fod yn feiddgar, i fod yn onest, ac i gynnal gwaith craffu clir arnynt eu hunain. Er ein bod yn croesawu'r cynnydd yn nifer y disgyblion sy'n cyflawni A* yn y Safon Uwch, rhaid i ni gofio bod nifer y disgyblion a lwyddodd yn eu Safon Uwch wedi gostwng, o'i gymharu â 2014.

What I really want to draw your attention to, though, is this summer's GCSE results. Everyone will be familiar with the education Minister's grandstanding on how Wales would, this year, not only match but beat England in this summer's GCSE exams. Indeed, that is exactly what the Minister promised during the debate I led in July. However, as we approached results day, panic struck—oh, Wales wouldn't match, let alone beat England again this year. It was time for Labour to try and limit the damage. We received an e-mail—the Welsh Government called it a technical note—offering us excuses for why we should not compare our GCSE results with those of our neighbours. It told us that, due to the significant amount of early entrants in GCSEs in Wales, we shouldn't make comparisons between Wales and England until November.

Yr hyn rwyf am dynnu eich sylw ato mewn gwirionedd, fodd bynnag, yw canlyniadau TGAU yr haf hwn. Bydd pawb yn gyfarwydd â siarad gorchestol y Gweinidog Addysg ar sut y byddai Cymru, eleni, nid yn unig yn gwneud cystal â Lloegr, ond yn ei churo, yn yr arholiadau TGAU yr haf hwn. Yn wir, dyna'n union a addawodd y Gweinidog yn ystod y ddadl a arweiniais ym mis Gorffennaf. Fodd bynnag, wrth inni agosáu at ddiwrnod y canlyniadau, dechreuodd y panig—O! Eto eleni, ni fyddai Cymru yn gwneud cystal â Lloegr, heb sôn am ei churo. Roedd hi'n bryd i Lafur geisio cyfyngu ar y difrod. Cawsom e-bost—roedd Llywodraeth Cymru yn ei alw'n nodyn technegol—yn cynnig esgusodion pam na ddylem gymharu ein canlyniadau TGAU â rhai ein cymdogion. Oherwydd y nifer sylweddol o ymgeiswyr cynnar yn arholiadau TGAU Cymru, dywedai wrthym na ddylem lunio cymariaethau rhwng Cymru a Lloegr tan fis Tachwedd.

There are two issues here. One: if we shouldn't compare the summer results, why has the Minister been making so much noise about the summer results? Has there been a lack of communication between him and his officials? Two: the Welsh Government has wanted to decrease the number of early entrants since it accepted the review of qualifications in Wales three years ago. Ever the opportunist, the Welsh Government used the failure to reduce early entrants as a tactic to play down the significance of the results we recently received. But, Members, it gets worse. During the debate I mentioned earlier, the Minister told us how he had closed the level 2 attainment gap with England, from 8.9 per cent in 2010-11, to 1.4 per cent in 2013-14. Now, that's a dramatic decrease, and one the Minister tried to make us think was all his own doing. We now know, from both the Labour Government and the Department for Education in Westminster that the drop was mainly due to England's changes in exam structure, as well as England's decision to stop factoring international GCSE results into their figures. So, the gap closed artificially. What was the Welsh Government's response? Well, more spin, of course, by updating the technical note to try and limit the damage. The Minister has brought this on himself by setting up this GCSE results stand-off between Labour-run Wales versus Conservative-led England. Not only has he failed to close the gap, but we've uncovered the dishonesty under which the Welsh Government has been operating. Instead of effective reforms, we get a statistical smokescreen.

Mae yna ddwy broblem yn y fan hon. Un: os na ddylem gymharu canlyniadau'r haf, pam y mae'r Gweinidog wedi bod yn gwneud cymaint o sŵn am ganlyniadau'r haf? A fu diffyg cyfathrebu rhyngddo a'i swyddogion? Dau: mae Llywodraeth Cymru wedi bod eisiau gostwng nifer yr ymgeiswyr cynnar ers iddi dderbyn yr adolygiad o gymwysterau yng Nghymru dair blynedd yn ôl. Gan fachu ar gyfle fel erioed, defnyddiodd Llywodraeth Cymru y methiant i leihau nifer yr ymgeiswyr cynnar fel tacteg i fychanu arwyddocâd y canlyniadau a gawsom yn ddiweddar. Ond, Aelodau, mae'n mynd yn waeth. Yn ystod y ddadl y soniais amdani'n gynharach, dywedodd y Gweinidog wrthym sut yr oedd wedi cau'r bwlch cyrhaeddiad lefel 2 rhyngom a Lloegr o 8.9 y cant yn 2010-11 i 1.4 y cant yn 2013-14. Nawr, mae hwnnw'n ostyngiad dramatig, ac yn un y ceisiodd y Gweinidog wneud i ni feddwl mai ef ei hun a fu'n llwyr gyfrifol amdano. Bellach, gwyddom gan y Llywodraeth Lafur a'r Adran Addysg yn San Steffan fod y gostyngiad yn deillio'n bennaf o'r newidiadau yn strwythur arholi Lloegr, yn ogystal â phenderfyniad Lloegr i roi'r gorau i ffactoreiddio canlyniadau TGAU rhyngwladol yn eu ffigurau. Felly, caeodd y bwlch mewn modd artiffisial. Beth oedd ymateb Llywodraeth Cymru? Wel, mwy o sbin, wrth gwrs, drwy ddiweddaru'r nodyn technegol i geisio cyfyngu ar y difrod. Mae'r Gweinidog wedi creu problem iddo ef ei hun drwy sefydlu brwydr ar sail canlyniadau TGAU rhwng Cymru o dan Lywodraeth Lafur a Lloegr o dan Lywodraeth Geidwadol. Nid yn unig y mae wedi methu â chau'r bwlch, ond rydym wedi datgelu anonestrwydd y ffordd y mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn gweithredu. Yn hytrach na diwygiadau effeithiol, rydym yn cael llen fwg ystadegol.

But, I am afraid there's more, Deputy Presiding Officer. Last week, we received a statement in which the Minister lowered the target for the performance of pupils eligible for free school meals. The target is now to get 34 per cent of FSM learners to achieve at least a C in five GCSEs—including Welsh, English and maths—by 2017. But, since 2012, that target had always been 37 per cent. To add to this, he revealed in late July that the number of people from disadvantaged backgrounds enrolling at further education institutions fell in 2013 by 2.6 per cent compared with the previous academic year. But, as we have come to expect, the Welsh Government quietly published these figures with the hope that they would go unnoticed. It was the Welsh Conservatives that brought this to the public's attention.

Ond rwy'n ofni bod yna ragor, Ddirprwy Lywydd. Yr wythnos diwethaf, cawsom ddatganiad yn dweud bod y Gweinidog wedi gostwng y targed ar gyfer perfformiad disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Y targed yn awr yw cael 34 y cant o'r dysgwyr sy'n cael prydau ysgol am ddim i gyflawni o leiaf C mewn pum pwnc TGAU—gan gynnwys Cymraeg, Saesneg a mathemateg—erbyn 2017. Ond ers 2012, y targed bob amser oedd 37 y cant. I ychwanegu at hyn, datgelodd ddiwedd mis Gorffennaf fod nifer y bobl o gefndiroedd difreintiedig sy'n cofrestru mewn sefydliadau addysg bellach wedi gostwng 2.6 y cant yn 2013 o'i gymharu â'r flwyddyn academaidd flaenorol. Ond fel rydym wedi dod i'w ddisgwyl, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y ffigurau hyn yn ddistaw yn y gobaith na fyddai neb yn sylwi arnynt. Y Ceidwadwyr Cymreig a ddaeth â hyn i sylw'r cyhoedd.

This education Minister made it one of his priorities to break the link between poverty and attainment. I hope the Chamber sees that he's not only failing to break the link, but also that the need to change targets to try and trick us into thinking that he is breaking the link is simply not acceptable. I hope the Chamber realises too how unfair this treatment is of those from disadvantaged backgrounds. These are the children, young people and adults who need help the most to get access to education and achieve what they need in order to improve their chances later in life, or to help provide for their families. This is how they should be treated: as valuable citizens invested in our country and in whom we should be invested—not as statistics used to deceive this Chamber and the Welsh public.

Mae'r Gweinidog addysg hwn wedi gwneud torri'r cysylltiad rhwng tlodi a chyrhaeddiad yn un o'i flaenoriaethau. Rwy'n gobeithio y gwêl y Siambr nid yn unig ei fod yn methu â thorri'r cysylltiad, ond hefyd nad yw'r angen i newid targedau er mwyn ceisio ein twyllo i feddwl ei fod yn torri'r cysylltiad yn dderbyniol o gwbl. Rwy'n gobeithio y bydd y Siambr yn sylweddoli hefyd pa mor annheg yw'r driniaeth hon i rai o gefndir difreintiedig. Dyma'r plant, y bobl ifanc a'r oedolion sydd fwyaf o angen cymorth i gael addysg ac i gyflawni'r hyn sydd ei angen arnynt i wella eu cyfleoedd yn nes ymlaen mewn bywyd, neu i'w helpu i ddarparu ar gyfer eu teuluoedd. Dyma sut y dylent gael eu trin: fel dinasyddion gwerthfawr sy'n buddsoddi yn ein gwlad ac y dylem fod yn buddsoddi ynddynt hwy—nid fel ystadegau a ddefnyddir i dwyllo'r Siambr hon a'r cyhoedd yng Nghymru.

I would like to talk about this Welsh Government's failure to produce an additional learning needs Bill. This is an area that had cross-party support, and I looked forward to working with all parties to produce an Act that would change and improve provision for some of the most vulnerable children and young people in our society. But, no: once again, the Welsh Government has failed to hit targets and, in doing so, have let down these parents and their children. What we have instead is a draft additional learning needs and educational tribunal Bill, which isn't a Bill at all. We, of course, will not see a real Bill on this issue until after the Assembly election in May—and probably only if the Welsh Conservatives are in Government, because it is one of our manifesto commitments.

Hoffwn siarad am fethiant y Llywodraeth hon yng Nghymru i gynhyrchu Bil anghenion dysgu ychwanegol. Dyma faes a gâi gefnogaeth drawsbleidiol, ac rwy'n edrych ymlaen at weithio gyda phob plaid i gynhyrchu Deddf a fyddai'n newid ac yn gwella'r ddarpariaeth ar gyfer rhai o'r plant a'r bobl ifanc mwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas. Ond, na: unwaith eto, mae Llywodraeth Cymru wedi methu â chyrraedd targedau a thrwy hynny, mae wedi gwneud cam â'r rhieni hyn a'u plant. Yr hyn sydd gennym yn lle hynny yw Bil anghenion dysgu ychwanegol a thribiwnlys addysg drafft, nad yw'n Fil o gwbl. Wrth gwrs, ni fyddwn yn gweld Bil go iawn ar y mater tan ar ôl etholiadau'r Cynulliad ym mis Mai—a dim ond os yw'r Ceidwadwyr Cymreig yn y Llywodraeth, yn ôl pob tebyg, gan ei fod yn un o ymrwymiadau ein maniffesto.

Finally, Deputy Presiding Officer, I would like to say this: although we are a small nation, we are also a talented nation. We have money and we have resources. These are the assets that we need to harness and exploit to their utmost. Our education should help learners as individuals, but also serve the needs of our country and its people. Yes, we have a creative industry we should be proud of, but let's also educate and train more people to build an engineering force that will be world-renowned. Let's seek to nurture and support the next billion-dollar business that will change and improve the lives of people the world over. Let our young with their inquiring minds and passion find a cure to some of humanity's most life-threatening illnesses. This is what this country's education system should aim to produce. This is what our goal should be. Our goal should not be to match or beat England. We must be far more ambitious than that. To do this, we need to have more confidence in our teachers. Instead of carrying on spending money on the problems in our education system, we should invest more in initial teacher education to instil teachers with the skills that they need to help both themselves and their pupils to flourish. Wales's teachers are vital for our country's people and its prosperity. It's time we start treating them as such. A Welsh Conservative Government would do just that. Deputy Presiding Officer, Wales deserves better. The people of Wales deserve better than ever-shifting targets. They deserve better than statistical smokescreens. They deserve better than a Government terrified of accountability. They deserve better than this Labour Government.

Yn olaf, Ddirprwy Lywydd, hoffwn ddweud hyn: er ein bod yn genedl fach, rydym hefyd yn genedl dalentog. Mae gennym arian ac mae gennym adnoddau. Dyma'r asedau sydd angen inni eu harneisio a manteisio arnynt hyd yr eithaf. Dylai ein haddysg helpu dysgwyr fel unigolion, ond hefyd dylai wasanaethu anghenion ein gwlad a'i phobl. Oes, mae gennym ddiwydiant creadigol y dylem fod yn falch ohono, ond gadewch i ni hefyd addysgu a hyfforddi mwy o bobl i ddatblygu grym peirianyddol byd-enwog. Gadewch i ni geisio meithrin a chefnogi'r busnes biliwn doler nesaf i newid a gwella bywydau pobl ledled y byd. Gadewch i'n pobl ifanc a'u meddyliau chwilfrydig a'u hangerdd ddod o hyd i wellhad i rai o'r afiechydon gwaethaf sy'n peryglu bywydau'r ddynoliaeth. Dyma'r hyn y dylai system addysg y wlad hon anelu i'w gynhyrchu. Dyma ddylai fod yn nod i ni, nid bod cystal â Lloegr, neu guro Lloegr. Rhaid i ni fod yn llawer mwy uchelgeisiol na hynny. Er mwyn gwneud hyn, mae angen inni gael mwy o hyder yn ein hathrawon. Yn hytrach na pharhau i wario arian ar y problemau yn ein system addysg, dylem fuddsoddi mwy mewn addysg gychwynnol i athrawon er mwyn rhoi'r sgiliau angenrheidiol i athrawon allu helpu eu hunain a'u disgyblion i ffynnu. Mae athrawon Cymru yn hanfodol i bobl ein gwlad a'i ffyniant. Mae'n bryd inni ddechrau eu trin yn unol â hynny. Byddai Llywodraeth Geidwadol yng Nghymru yn gwneud hynny. Ddirprwy Lywydd, mae Cymru yn haeddu gwell. Mae pobl Cymru yn haeddu gwell na thargedau sy'n newid o hyd. Maent yn haeddu gwell na llenni mwg ystadegol. Maent yn haeddu gwell na Llywodraeth y mae atebolrwydd yn codi arswyd arni. Maent yn haeddu gwell na'r Llywodraeth Lafur hon.

16:15

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I have selected the amendment to the motion and I call on Simon Thomas to move amendment 1, tabled in the name of Elin Jones.

Rwyf wedi dethol y gwelliant i'r cynnig a galwaf ar Simon Thomas i gynnig gwelliant 1, a gyflwynwyd yn enw Elin Jones.

*Gwelliant 1—Elin Jones*

*Amendment 1—Elin Jones*

*Mewnosod ar ddiwedd pwynt 2:*

*Insert at end of point 2:*

*'gan gynnwys sicrhau bod data yn cael ei gasglu a'i gyhoeddi mewn modd sy'n sicrhau y gellir cymharu perfformiad â chenhedloedd eraill'.*

*'including ensuring that data is collected and published in a way that ensures performance can be compared with other nations'.*

*Cynigiwyd gwelliant 1.*

*Amendment 1 moved.*

16:15 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Rwy'n cytuno yn llwyr, wrth gwrs, â diweddglo Angela Burns: mae Cymru'n haeddu gwell, ac mae Plaid Cymru, wrth gwrs, yn cynnig y dewis gwell i'r methiannau di-rif y bu Angela Burns yn eu holrhain o'r Llywodraeth Lafur bresennol. Ond pwrpas y gwelliant gan Blaid Cymru heddiw yw gosod gwelliant go iawn i'r cynnig, gwelliant sydd yn seilio'r ffaith bod yn rhaid cymharu Cymru â chenhedloedd eraill os ydym ni'n mynd i gael democratiaeth sy'n agored ac yn gweithio dros Gymru. Achos nid yn unig y mae'n rhaid inni ddal y Llywodraeth i gyfrif, mae'n rhaid inni wybod a ydym yng Nghymru yn dilyn y polisïau cywir sydd yn delifro ar gyfer ein pobl, ac mae hynny'n dod wrth gymharu'r hyn yr ydym ni'n ei wneud yng Nghymru a'n perfformiad ni yng Nghymru â gwledydd eraill.

Thank you, Deputy Presiding Officer. I agree entirely, of course, with Angela Burns's closing remarks: Wales does deserve better and Plaid Cymru, of course, is offering that alternative to the numerous failings of the current Labour Government that Angela Burns outlined. The purpose of the Plaid Cymru amendment today is to place a sincere amendment to the motion, an amendment that emphasises the fact that Wales must be compared with other nations if we are to have a democracy that is open and works for Wales. Because, not only must we hold the Government to account, but we must also know whether we in Wales are following the right policies that are delivering for our people, and that becomes apparent when we compare our actions and performance with those of other nations.

Cafodd hyn ei danlinellu yn adroddiad Nuffield. Nawr, mae'r Llywodraeth yn hoff iawn o dynnu mas rhai o'r gwersi sydd yn adroddiad Nuffield ynglŷn â chyflwr y gwasanaeth iechyd, ond roedd yna argymhelliad, os liciwch chi, dros y cyfan, sef y dylid casglu gwybodaeth nid jest yng Nghymru, ond yn Lloegr hefyd a thrwy Brydain Fawr, mewn ffyrdd sy'n rhoi modd eu cymharu â'i gilydd. Mae hynny yn rhywbeth sy'n gyffredin mewn unrhyw gyfundrefn ffederal. O bosibl, un o wendidau'r ffaith ein bod ni wedi mynd drwy ddatganoli fel proses sydd ddim wedi cael ei weithio mas yn ddatganoli cyflawn na chyfartal ym mhob rhan o'r Deyrnas Gyfunol yw ein bod ni heb edrych ar rai o'r materion hyn, sydd yn rhywbeth naturiol mewn gwledydd eraill fel Awstralia a Chanada, sydd â systemau ffederal, lle mae modd dilyn polisi gwahanol mewn taleithiau neu wledydd gwahanol y tu mewn i undeb ehangach, ond mae'n rhaid casglu gwybodaeth ar y sail bod modd cymharu tebyg â'i debyg. A dyna beth yw pwrpas gwelliant Plaid Cymru, ac nid wyf yn meddwl bod neb yn gallu dadlau yn erbyn hynny, os ydyn nhw'n credu mewn democratiaeth a thrafodaeth eang.

This was highlighted in the Nuffield report. Now, the Government is very fond of drawing on some of the lessons of the Nuffield report on the state of the health service, but there was an overarching recommendation, if you like, that we should gather information not only in Wales, but in England and throughout Great Britain in a way that allows comparison. That is something that is common to any federal system. Possibly, one of the weaknesses of the fact that we have gone through devolution as a process that hasn't been fully worked out in an equal devolved manner in all parts of the United Kingdom is that we haven't looked at some of these issues. This happens quite naturally in other nations such as Australia and Canada, which have federal systems and where you can follow different policies in different states or countries within a wider union, but you must then gather information so that you can compare like with like. That is the purpose of the Plaid Cymru amendment, and I don't think that anyone could argue with that principle, if they believe in democracy and broad debate.

Y rheswm, er enghraifft, y bu cynifer o alwadau a chymaint o anhapusrwydd ynghylch datganiad y Llywodraeth ynglŷn â newid amseroedd targed ar gyfer y gwasanaeth argyfwng, yr ambiwlansys, yw nid yn gymaint eich bod yn newid o system o wyth munud i system arall, ond nad ydych chi byth wedi cyflawni'r wyth munud heblaw am unwaith mewn pedair blynedd, a bod y Prif Weinidog ei hunan wedi dweud na fydd modd i bobl gredu mewn system amgen nes eich bod chi'n cyflawni o dan y system bresennol. Felly, pan welwch chi fod yna system newydd yn cael ei chyflwyno, mae pobl yn colli ffydd; nid ydyn nhw'n credu bod y system yn mynd i wella, ac felly nid ydyn nhw'n mynd i'w chefnogi hi. Dyna pam mae targedau'n bwysig; maen nhw'n arwydd i'r cyhoedd fod Llywodraeth yn cyflawni. Ac os yw'r targed yn anghywir, mae modd i'r Llywodraeth fod yn onest, rwy'n meddwl, a dweud hynny. Yng nghyd-destun PISA, mae'n un o'r ychydig enghreifftiau lle rwy'n cytuno. Dywedais i wrth y Llywodraeth o'r cychwyn bod ein gosod ni yn 20 uchaf PISA yn rhywbeth nad oedd yn ystyrlon yn y ffordd yr oedd y gyfundrefn addysg yn gweithio. Felly, mewn ffordd, penderfyniad cywir oedd newid y targed, ond eto nid oedd hygrededd i'r targed newydd—y 500 yma—gan nad oedd y Llywodraeth ddim wedi dangos unrhyw gynnydd o'r blaen ac, fel y dywedodd Angela Burns, oherwydd ein bod ni wedi cyrraedd y 500, neu o leiaf frigo'r 500, o leiaf unwaith o'r blaen.

The reason, for example, that there have been so many representations and so much dissatisfaction with the Government's announcement on changing ambulance response times was not so much that you are changing the system from eight minutes to another system, but that you've never achieved that eight-minute target, and that the First Minister himself has said that people would not be able to believe in an alternative system until you deliver under the current system. So, when you see a new system being introduced, people lose faith in it; they don't think that there will be real improvement and therefore they won't support it. That is why targets are important; they are a signal to the public that the Government is delivering. And, if the target is incorrect, then the Government should be honest and say as much. In the context of PISA, this is one of the few examples where I agree. I have said to the Government from the outset that setting a target of being within the PISA top 20 wasn't meaningful in terms of the way that the education system worked. Therefore, in a way, it was the correct decision to change that target, but, again, there was no credibility behind the new target—the 500—because the Government hadn't shown any progress previously and, as Angela Burns said, because we have reached, or almost reached, the 500 at least once in the past in terms of PISA.

Roedd Angela Burns yn olrhain nifer o dargedau sydd wedi cael eu methu yn y maes y mae hi'n ymddiddori ynddo, a finnau hefyd, sef addysg, ac ni allaf i ond cytuno â hi ynglŷn â hynny, ond byddwn i'n ychwanegu un yn benodol sydd hefyd yn tanlinellu, yn fy marn i, pa mor bwysig yw hi fod gennym dargedau sy'n gallu cael eu cymharu, ac ystadegau y tu ôl i'r rheini sy'n cael eu cymharu tebyg at ei debyg, a hynny yw'r ffaith nad ydym ni'n gallu yng Nghymru, erbyn hyn, wneud cymhariaeth â Lloegr ynglŷn â gwariant fesul disgybl yn ein hysgolion ni. Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn dweud nad yw'n bosibl gwneud y gymhariaeth yna. Mae'n wir i ddweud bod Lloegr wedi newid cymaint â Chymru yn y cyd-destun yma, ond mae ystadegwyr y Llywodraeth ei hun yn dweud nad oes modd gwneud cymhariaeth. Nawr, pan oedd modd gwneud y gymhariaeth y tro diwethaf, bedair blynedd yn ôl yn 2011, roedd awdurdodau lleol yn Lloegr yn gwario, ar gyfartaledd, £605 yn fwy y pen na'r rhai yng Nghymru. Rwy'n meddwl bod y bwlch wedi lledu ers hynny, ond nid oes modd gweld y gymhariaeth a'r tebygrwydd rhwng y ddau beth.

Angela Burns referred to a number of targets that have been missed in the area in which she, like me, is most interested, namely education, and I can only agree with her on those points. However, I would add one other specific that also underlines, in my view, how important it is that we have targets that can be compared and backed by statistics so that we can compare like with like, and that is the fact that we cannot in Wales now make a comparison with England on per capita expenditure in our schools. The Office for National Statistics says that it's not possible to make that comparison. It's true to say that England has changed just as much as Wales in this context, but the Government's own statisticians say that it's impossible to make that comparison. Now, when it was last possible to actually make that comparison, four years ago in 2011, local authorities in England were spending on average £605 more per capita than those in Wales. I think that the gap has widened since then, but there is no way of actually making that comparison between the two countries.

Oni bai bod gennym ni ystadegau y mae pobl yn gallu credu ynddyn nhw, oni bai bod gennym ni Lywodraeth y mae pobl yn gallu bod yn hyderus yn ei chylch, oni bai bod modd inni gymharu perfformiad y Llywodraeth yma â pherfformiad llywodraethau tebyg, ni fydd gennym ddemocratiaeth lwyr a ffyniannus yma yng Nghymru. Mae modd newid Llywodraeth, oes, y flwyddyn nesaf, ond mae modd newid ystadegau hefyd.

Unless we have statistics in which people can have confidence, unless we have a Government in which people have confidence and unless we can compare the Government's performance with the performance of similar Governments elsewhere, we will not have full and prosperous democracy here in Wales. We can change the Government, yes, next year, but we can also change statistics.

16:20

## Janet Finch-Saunders Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Time and time again we are let down by the Welsh Government's lamentable and persistent failure to meet crucial targets and monitor commitments on our key public services. The people of Wales deserve progress and performance, and a Welsh Government that they can truly hold to account. In health, despite ambitions to make GPs more accessible by opening on Saturday mornings, the Welsh Government doesn't even collect data to monitor any progress against this target. Their commitment to support carers through full implementation of the Carers Strategies (Wales) Measure 2010 will be repealed next year as it is replaced with provisions under the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014, even in the face of real concerns being raised by the Wales Carers Alliance. Furthermore, the recent report into continence support by Shine Cymru has highlighted the lack of timely access to high-quality assessment, care, treatment and support in Wales, and is calling for the improved inspection and audit of services, to be open, transparent and accountable.

Dro ar ôl tro cawn ein siomi gan fethiant truenus a chyson Llywodraeth Cymru i gyrraedd targedau hollbwysig ac i fonitro ymrwymiadau ein gwasanaethau cyhoeddus allweddol. Mae pobl Cymru yn haeddu cynnydd a chyflawniad, a Llywodraeth Cymru y gallant ei dwyn i gyfrif mewn gwirionedd. Ym maes iechyd, er gwaethaf uchelgeisiau i wneud meddygon teulu yn fwy hygyrch drwy agor ar foreau Sadwrn, nid yw Llywodraeth Cymru hyd yn oed yn casglu data i fonitro unrhyw gynnydd yn erbyn y targed hwn. Bydd ei hymrwymiad i gefnogi gofalwyr drwy weithredu Mesur Strategaethau ar gyfer Gofalwyr (Cymru) 2010 yn llawn yn cael ei ddiddymu y flwyddyn nesaf wrth iddo gael ei ddisodli gan ddarpariaethau o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, hyd yn oed yn wyneb y pryderon gwirioneddol a leisiwyd gan Gynghrair Cynhalwyr Cymru. Ar ben hynny, amlygodd yr adroddiad diweddar ar gymorth ymataliaeth gan Shine Cymru y diffyg mynediad amserol at asesiadau, gofal, triniaeth a chymorth o ansawdd yng Nghymru, ac mae'n galw am archwilio ac arolygu gwasanaethau'n well, er mwyn bod yn agored, yn dryloyw ac yn atebol.

Whilst we welcome investment in ambulance services, this has to be set against the appalling background of response time targets not being met for over 20 months. Furthermore, the consistent failure of the Welsh Government to meet targets over urgent cancer treatment and accident and emergency waiting times is inexcusable. Changing how targets are measured and moving the goalposts to neaten up the figures means nothing, and certainly doesn't bring any confidence in this Government by our residents.

Er ein bod yn croesawu buddsoddiad mewn gwasanaethau ambiwlans, rhaid gosod hyn yn erbyn y cefndir ofnadwy o fethiant i gyrraedd targedau amseroedd ymateb ers dros 20 mis. Ar ben hynny, mae methiant cyson Llywodraeth Cymru i gyrraedd targedau triniaethau canser brys ac amseroedd aros mewn adrannau damweiniau ac achosion brys yn anfaddeuol. Nid yw newid y modd y mesurir targedau a symud y pyst gôl i dacluso'r ffigurau yn golygu dim, ac yn sicr nid yw'n meithrin unrhyw hyder yn y Llywodraeth hon ymysg ein trigolion.

Welsh Labour Government failings affect our people at their most vulnerable, on key service provision. Full transparency is essential for the Welsh public to hold this Labour Government to account over failures. The Welsh Conservatives support the British Medical Association's calls for an independent, comprehensive review into the Welsh NHS. Yes, there is a cost, but what cost now to those who have let down and failed by a Welsh health system under this Labour Government? Any identification of potential shortcomings and bad practice, once addressed, would be invaluable to our pressured health workers and our worried patients.

Mae methiannau Llywodraeth Lafur Cymru yn effeithio ar ein pobl ar eu mwyaf agored i niwed, ac ar y modd y darperir gwasanaethau allweddol. Mae tryloywder llwyr yn hanfodol er mwyn i'r cyhoedd yng Nghymru allu dwyn y Llywodraeth Lafur i gyfrif am fethiannau. Mae Ceidwadwyr Cymru yn cefnogi galwadau Cymdeithas Feddygol Prydain am adolygiad cynhwysfawr annibynnol o'r GIG yng Nghymru. Oes, mae yna gost, ond beth yw cost yn awr i'r bobl sydd wedi cael cam gan system iechyd Cymru o dan y Llywodraeth Lafur? Byddai unrhyw ddiffygion posibl ac arferion gwael a nodir, ar ôl eu datrys, yn amhrisiadwy i'n gweithwyr iechyd sydd o dan bwysau a'n cleifion gofidus.

On education, as Angela Burns has fabulously and most—well, you just put it forward so well, you know, about education. We are regrettably lagging behind. The Organisation for Economic Co-operation and Development's damning report criticised the Welsh Labour Government's lack of a long-term vision, whilst the most recent PISA results were the lowest in the UK for the third time in a row. Serious concerns have been voiced by leading academics that poor PISA results in 2016 would be disastrous for our attempts to secure our industrial future, and I have to say, I was here, present, for the education Minister yesterday, and for the length of time he spoke, he certainly didn't convince me that we're making any progress in this regard. We, as Welsh Conservatives, want to give our children the best possible start in life, yet Estyn reports that standards in primary schools have declined, with 40 per cent having poor numeracy standards. I know you don't like this, but these are facts. Worse still is that the figure for secondary schools is 50 per cent. Despite complaints from students, parents, teachers and headteachers about the Welsh Government's handling of the Welsh language GCSE fiasco, and the head of the WJEC recommending a delay in the roll-out of the new Welsh GCSEs, the Minister carries on regardless. In fact, the Cabinet now is likened in parts of Wales to the 'carry on' team. This short-sighted, inflexible approach shows no concern whatsoever for hard-working students who deserve full openness, transparency, and, above all, accountability from their Government.

O ran addysg, fel y dywedodd Angela Burns mor wych ac mor—wel, fe wnaethoch ei gyflwyno mor dda, wyddoch chi, ynglŷn ag addysg. Yn anffodus, rydym ar ei hôl hi. Roedd adroddiad damniol y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd yn beirniadu diffyg gweledigaeth hirdymor Llywodraeth Lafur Cymru, a'r canlyniadau PISA diweddaraf oedd yr isaf yn y DU am y trydydd tro yn olynol. Lleisiwyd pryderon difrifol gan academyddion blaenllaw y byddai canlyniadau PISA gwael yn 2016 yn drychinebus o ran ein hymdrechion i ddiogelu ein dyfodol diwydiannol, ac mae'n rhaid i mi ddweud, roeddwn yma, yn bresennol, i glywed y Gweinidog addysg ddoe, ac o ystyried cyhyd y bu'n siarad, yn sicr ni chefais fy argyhoeddi ein bod yn gwneud unrhyw gynnydd yn hyn o beth. Rydym ni, y Ceidwadwyr Cymreig, am roi'r dechrau gorau posibl mewn bywyd i'n plant, ac eto mae Estyn yn adrodd bod safonau mewn ysgolion cynradd wedi gostwng, gyda 40 y cant â safonau rhifedd gwael. Rwy'n gwybod nad ydych yn hoffi hyn, ond dyma'r ffeithiau. Yn waeth byth, mae'r ffigur ar gyfer ysgolion uwchradd yn 50 y cant. Er gwaethaf cwynion gan fyfyrwyr, rhieni, athrawon a phenaethiaid ynghylch y modd y mae Llywodraeth Cymru wedi ymdrin â ffiasco'r TGAU iaith Gymraeg, a phennaeth CBAC yn argymell oedi cyn cyflwyno'r TGAU Cymraeg newydd, mae'r Gweinidog yn bwrw ymlaen beth bynnag. Yn wir, mewn rhannau o Gymru caiff y Cabinet ei gymharu yn awr â'r tîm 'Carry On'. Nid yw'r dull annoeth, anhyblyg hwn o weithredu yn dangos unrhyw bryder o gwbl am fyfyrwyr sy'n gweithio'n galed ac sy'n haeddu ymateb cwbl agored, tryloyw, ac yn anad dim, atebol gan eu Llywodraeth.

The people of Wales deserve better from their Welsh Labour Government. This Government now holds quite well—. The one thing you do well, actually: you do hold the record for actually managing the decline of public services in Wales over the 16 years that you've been in charge. As I said before, roll on 6 May; the people have a chance then to actually get business back to normal, with good services, efficient services—but not under this Labour Government, I'm afraid.

Mae pobl Cymru yn haeddu gwell gan Lywodraeth Lafur Cymru. Mae'r Llywodraeth hon yn dal ati—. Yr un peth rydych yn ei wneud yn dda, mewn gwirionedd: rydych yn dal y record am reoli dirywiad gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru dros y 16 mlynedd y buoch wrth y llyw. Fel y dywedais o'r blaen, prysured 6 Mai; bryd hynny, bydd y bobl yn cael cyfle i gael pethau'n ôl ar y trywydd iawn, gyda gwasanaethau da, gwasanaethau effeithlon—ond nid o dan y Llywodraeth Lafur hon, yn anffodus.

16:24

## Keith Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Comrades, when you were at school—[Interruption.]—did you learn in English lessons what an oxymoron was? It consists of two apparently contradictory words put together: an example is bittersweet. In this Chamber, we have a very vivid example: it is public services and the Conservative Party. As the Minister said in his statement yesterday, there are significant challenges to address in protecting and improving our public services against the backdrop of UK Government austerity measures.

Gymrodyr, pan oeddech yn yr ysgol—[Torri ar draws.]—a ddysgoch chi yn eich gwersi Saesneg beth yw ocsimoron? Mae'n golygu dau air sy'n ymddangos fel pe baent yn gwrth-ddweud ei gilydd: un enghraifft yw chwerwfelys. Yn y Siambr hon, mae gennym enghraifft fyw iawn: sef gwasanaethau cyhoeddus a'r Blaid Geidwadol. Fel y dywedodd y Gweinidog yn ei ddatganiad ddoe, mae yna heriau sylweddol i fynd i'r afael â hwy wrth amddiffyn a gwella ein gwasanaethau cyhoeddus yn erbyn cefndir o fesurau caledi Llywodraeth y DU.

A dweud y gwir, mae yna syniadau hollol wahanol rhyngom ni'r Blaid Lafur a'r Ceidwadwyr ar wasanaethau cyhoeddus. I'r Ceidwadwyr, o addysg i wasanaethau iechyd, mae'r gair 'preifat' yn golygu daioni. Wrth gwrs, mae hyn yn cael effaith andwyol ar deimladau'r sawl sy'n gweithio yn y sectorau hyn. I'r Ceidwadwyr, yr unig ffordd i sicrhau safonau uchaf yw trwy gystadleuaeth. Does dim rhyfedd mai un o brif benawdau newyddion San Steffan o safbwynt gweithwyr yr wythnos hon yw'r Bil Undebau Llafur. Yr undebau—cryf yn niwylliant Cymru—yw'r rheng olaf sy'n sefyll yn gadarn ac yn unedig er lles hawliau yn y gweithle. O dan y Bil cyfredol, hoffai'r Ceidwadwyr reoli drwy rannu, gan ddefnyddio staff asiantaethau sy'n derbyn llai o arian a mwy o gyfrifoldeb yn ystod eu diwrnod gwaith, a hynny heb sôn am fandiau braich a fydd yn dynodi rhai, gan gynnwys nifer o weithwyr gwasanaethau cyhoeddus, sy'n fodlon protestio am eu hawliau.

Truth be told, the Labour Party and the Conservatives have different ideas when it comes to public services. For the Conservatives, from education to health services, the word 'private' is a good thing. Of course, this has a detrimental effect on the feelings of those who work in those sectors. For the Conservatives, the only way to ensure high standards is through competition. It is no wonder that one of the main Westminster headlines as regards workers this week is the Trade Union Bill. The unions, which are a strong part of Welsh culture, are the last line of defence that holds firm and united for the sake of workplace rights. Under the current Bill, the Conservatives want to divide and rule, by using agency staff who are paid less but given more responsibility during the working day, and that's not to mention arm bands worn by those, including many public sector workers, who are prepared to protest for their rights.

Mae gennym draddodiad yng Nghymru o gydweithio—gorau chwarae, cyd chwarae. Mae'n wir ar lefel y gweithle yn yr un modd ac y mae'n wir yn y gymdeithas lawn. Mae'r ffordd o siarad lawr ein gwasanaethau'n gwneud dim ar gyfer recriwtio i feysydd iechyd ac i faes addysg. O siarad lawr ein gwasanaethau, nid yw gweledigaeth yn rhan o eirfa'r Torïaid. Diwedd y gân yw'r geiniog, ac yng Nghymru, oherwydd Mr Osborne, mae llai o geiniogau ar gael i'n poblogaeth.

We have a tradition in Wales of co-operation—the best way to play is together. This much is true in the workplace as it is in wider society. The way in which our services are talked down does nothing for recruitment to the fields of healthcare and education. In talking down our services, the word 'vision' doesn't form part of the Conservatives' vocabulary. It all comes down to money and, in Wales, because of Mr Osborne, there is less money available to our population.

Y prif reswm rwy'n siarad heddiw yw oherwydd gwasanaethau o fath arall. Mae llysoedd cyfreithiol, sifil, teulu a thribiwnlys Caerfyrddin wedi'u cynnwys yn y rhestr a gyhoeddwyd gan Lywodraeth San Steffan i ystyried eu cau. Mae sawl etholwr a grŵp wedi cysylltu â mi am y posibiliadau cau. Fel y'i gwelaf, gwasanaethau cyhoeddus yn yr ystyriaeth eang ydynt, ac mae dau ffactor yn erbyn y cau. Y cyntaf yw cludiant i rai sy'n byw'n wledig a'r rhai heb geir, yn gorfod teithio o Gaerfyrddin i Hwlffordd neu Abertawe. Mae problem trafnidiaeth i gael ei hystyried, a thoriadau 'legal aid' hefyd yn broblem mynediad at gyfiawnder. Yn ail, mae Caerfyrddin ei hun yn gartref i dri phencadlys gwasanaethau argyfwng cyhoeddus, sef heddlu, tân ac iechyd. Mae'n ganolbwynt gwasanaethau y gellid ei erydu trwy'r dewis i gau'r ddau lys. Mae hynny er sylwadau gan elusennau cyfiawnder bod rhestri aros llysoedd yn codi, sy'n mynd yn gwbl groes i'r ddadl Geidwadol o blaid targedau.

My main reason for speaking today is another kind of service. The law, civil and family courts and tribunal in Carmarthen have been included in the list published by the Westminster Government to be considered for closure. Several constituents and groups have contacted me about the possibility of closure. As I see it, these are public services in the broadest sense, and there are two factors against this closure. The first is transport for those who live in rural areas and those who do not have a car, who would have to travel from Carmarthen to Haverfordwest or Swansea to access these services. So, there is the issue of transport, along with the issue of cuts to legal aid in terms of access to justice. Secondly, Carmarthen itself is home to the headquarters of three emergency services, namely the police, fire and health services. This focus for services could be eroded through the closure of these courts, and this proposal comes despite comments made by justice charities that court waiting lists are increasing, which goes against the Conservative argument in terms of targets.

Mae record gennym ni yng Nghymru o falchder yn ein gwasanaethau. Nid rhethreg yw hyn; mae'r ffeithiau'n glir. Her Llywodraeth Lafur Cymru yw ymdopi â £1.5 biliwn o doriadau i gyllid y wlad. Er gwaethaf hyn, rydym wedi gwireddu ein haddewidion i bobl Cymru yn ystod y tymor Llywodraeth: mae canlyniadau addysg yn uwch nag erioed; mae mwy o gleifion yn cael eu trin; diolch i Twf Swyddi Cymru mae 15,000 o bobl ifanc mewn gwaith o ansawdd da; ac mae mewnfuddsoddiad yn uwch nag erioed. Felly, nid wyf yn cytuno â chynigion y Ceidwadwyr y prynhawn yma bod y Llywodraeth yn methu cyrraedd targedau.

We have a record in Wales of being proud of our services. This isn't rhetoric; the facts are clear. The challenge for the Welsh Government is to cope with £1.5 billion-worth of cuts to the country's budget. Despite this, we have achieved our promises to the people of Wales during this term of Government: education results are higher than ever; more patients are being treated; thanks to Jobs Growth Wales, 15,000 young people are in good-quality employment; and inward investment is higher than ever. Therefore, I don't agree with the Conservative proposal this afternoon that the Government is failing to reach its targets.

16:29 **Altaf Hussain** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you very much, Deputy Presiding Officer, for allowing me to contribute to this very important debate. The Welsh Government, in its varying guises, has failed to improve public services for the people of Wales and we have a long catalogue of failures to meet targets since 1999. History also shows us that, when the Welsh Government consistently fails to meet a target, that target is changed or dropped altogether. Rather than highlight the litany of failures in education, the economy or local government, I want to focus my remarks on health and social care.

Ddirprwy Lywydd, diolch yn fawr iawn am ganiatáu imi gyfrannu at y ddadl bwysig hon. Mae Llywodraeth Cymru, yn ei ffurfiau amrywiol, wedi methu â gwella gwasanaethau cyhoeddus i bobl Cymru ac mae gennym restr hir o fethiannau i gyrraedd targedau ers 1999. Hefyd, pan fydd Llywodraeth Cymru yn methu'n gyson â chyrraedd targed, mae hanes yn dangos y ni fod y targed yn cael ei newid neu ei ollwng yn gyfan gwbl. Yn hytrach na thynnu sylw at y llu o fethiannau ym maes addysg, yr economi neu lywodraeth leol, rwyf am ganolbwyntio fy sylwadau ar iechyd a gofal cymdeithasol.

The people of Wales deserve a first-class NHS. Instead, we have a health service that is failing its patients and putting front-line staff under enormous pressure. This is all too evident when we look at emergency care. We have a target that states that an emergency response to an immediate life-threatening situation should arrive within eight minutes. We have not met the target since May 2012 and now Welsh Government is changing the target, stating it will hold the ambulance service to account for the care it provides, not the speed at which they arrive at the scene. In the case of a cardiac arrest, for every minute without life-saving care, a person's chance of survival decreases by 10 per cent. How many people have died because an ambulance did not arrive on time? We know that the number of people with cardiovascular disease has increased massively in recent times and this will put additional pressure on emergency medicine in the future—I don't want to talk about diabetes or obesity.

Mae pobl Cymru yn haeddu GIG o'r radd flaenaf. Yn lle hynny, mae gennym wasanaeth iechyd sy'n gwneud cam â'i gleifion ac yn rhoi staff rheng flaen o dan bwysau aruthrol. Mae hyn yn amlwg iawn pan edrychwn ar ofal brys. Mae gennym darged sy'n datgan y dylai ymateb brys i sefyllfa lle y mae perygl uniongyrchol o golli bywyd gyrraedd o fewn wyth munud. Nid ydym wedi cyrraedd y targed ers mis Mai 2012 ac erbyn hyn mae Llywodraeth Cymru yn newid y targed, gan ddweud y bydd yn dwyn y gwasanaeth ambiwlans i gyfrif am y gofal y mae'n ei ddarparu, yn hytrach na pha mor gyflym y mae'n cyrraedd y lleoliad. Yn achos ataliad ar y galon, am bob munud heb ofal achub bywyd, mae gobaith person o oroesi yn gostwng 10 y cant. Faint o bobl sydd wedi marw am nad yw'r ambiwlans yn cyrraedd mewn pryd? Rydym yn gwybod bod nifer y bobl sydd â chlefyd cardiofasgwlaidd wedi cynyddu'n aruthrol yn ddiweddar a bydd hyn yn rhoi pwysau ychwanegol ar feddygaeth frys yn y dyfodol—heb sôn am ddiabetes neu ordewdra.

One of the key factors affecting ambulance responses is the number of ambulances left waiting outside accident and emergency departments. Talking to clinicians in A&E, it is clear that the lack of beds on hospital wards is acting as a roadblock to the passage through the emergency department and has a knock-on effect on emergency responses and admissions.

Un o'r ffactorau allweddol sy'n effeithio ar ymateb ambiwlans yw nifer yr ambiwlansys sy'n gorfod aros y tu allan i adrannau damweiniau ac achosion brys. Wrth siarad â chlinigwyr yn yr adrannau damweiniau ac achosion brys, mae'n amlwg fod y diffyg gwelyau ar wardiau ysbyty yn gweithredu fel rhwystr ar y daith drwy'r adran achosion brys ac mae i hyn sgil-effaith ar ymatebion brys a derbyniadau.

When we look at the figures on delayed transfers of care, we've seen a 10 per cent rise in the last 12 months. The median length of delay for patients waiting to leave hospital was 27 days. That is a huge waste of finite resources and is putting additional strain on the NHS, which is massively under-resourced thanks to the Welsh Government's cuts. This situation will only get worse due to shrinking local authority budgets, as social services will be further diminished. More must be done to protect social services budgets and ensure closer integration between health and social services. Unless we have adequately resourced social services, the number of people taking up hospital beds unnecessarily will rocket.

Pan edrychwn ar y ffigurau oedi wrth drosglwyddo gofal, rydym wedi gweld cynnydd o 10 y cant yn y 12 mis diwethaf. Canolrif hyd yr oedi ar gyfer cleifion sy'n aros i adael yr ysbyty oedd 27 diwrnod. Mae hynny'n wastraff enfawr ar adnoddau cyfyngedig ac mae'n rhoi straen ychwanegol ar y GIG, sy'n aruthrol o brin o adnoddau, diolch i doriadau Llywodraeth Cymru. Ni fydd y sefyllfa hon ond yn gwaethygu oherwydd cyllidebau awdurdodau lleol sy'n crebachu, wrth i wasanaethau cymdeithasol gael eu cwtogi ymhellach. Rhaid gwneud mwy i ddiogelu cyllidebau gwasanaethau cymdeithasol a sicrhau integreiddio agosach rhwng iechyd a gwasanaethau cymdeithasol. Oni bai bod gennym wasanaethau cymdeithasol gydag adnoddau digonol, bydd nifer y bobl mewn gwelyau ysbyty yn ddiangen yn codi i'r entrychion.

There are many examples where the lack of a simple assessment by social services has meant a person having to spend days, even weeks, in hospital when they should have been at home or in a care facility. We cannot allow this situation to continue. Minister. I urge you to take steps to ensure that local health boards and local authorities work together to eradicate delayed transfers of care and the knock-on effect this has on our emergency care system.

Ceir llawer o enghreifftiau lle y mae diffyg asesiad syml gan y gwasanaethau cymdeithasol wedi golygu bod person yn gorfod treulio dyddiau, wythnosau hyd yn oed, yn yr ysbyty pan ddylent fod adref neu mewn cyfleuster gofal. Ni allwn ganiatáu i'r sefyllfa hon barhau, Weinidog. Rwy'n eich annog i roi camau ar waith i sicrhau bod byrddau iechyd lleol ac awdurdodau lleol yn gweithio gyda'i gilydd i gael gwared ar oedi wrth drosglwyddo gofal a'r sgil-effaith y mae hyn yn ei chael ar ein system gofal brys.

16:33

## Peter Black Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I heard that the BBC were bringing back 'Citizen Smith', but I wasn't aware that Keith Davies was going to be the lead player in that. [Laughter.] Certainly, I think that, in terms of this particular debate, I very much welcome the opportunity to talk about targets. I think the problem is, of course, if I go out and talk to the man or woman in the street, they're not going to be talking about targets, they're going to be talking about the services that are delivered to them. But that doesn't undermine the importance that targets have as part of the Welsh Government's delivery framework, because having targets and setting targets for the delivery of services is absolutely crucial in terms of how effectively we can scrutinise them and how well we can scrutinise the Welsh Government's performance. I think, from having listened to some of the contributions so far, many of which I agree with, clearly there has been a problem in terms of targets being set that are too ambitious, targets being set for years ahead that are impossible to scrutinise, and targets being set that just haven't been met.

Clywais fod y BBC yn dod â 'Citizen Smith' yn ôl, ond nid oeddwn yn ymwybodol mai Keith Davies oedd yn mynd i chwarae'r brif ran ynddi. [Chwerthin.] Yn bendant, o ran y ddadl hon, rwy'n sicr yn croesawu'n fawr y cyfle i siarad am dargedau. Rwy'n meddwl mai'r broblem, wrth gwrs, os af allan i siarad â'r dyn neu'r fenyw ar y stryd, yw nad ydynt yn mynd i fod yn siarad am dargedau, maent yn mynd i fod yn siarad am y gwasanaethau sy'n cael eu darparu iddynt. Ond nid yw hynny'n tanseilio pwysigrwydd targedau fel rhan o fframwaith darparu Llywodraeth Cymru, gan fod cael targedau a gosod targedau ar gyfer darparu gwasanaethau yn gwbl hanfodol o ran pa mor effeithiol y gallwn eu craffu a pha mor dda y gallwn graffu ar berfformiad Llywodraeth Cymru. O fod wedi gwrando ar rai o'r cyfraniadau hyd yn hyn, mae yna lawer rwy'n cytuno ag ef, ac rwy'n credu ei bod yn amlwg fod problem wedi bod o ran gosod targedau sy'n rhy uchelgeisiol, gosod targedau ar gyfer blynyddoedd i ddod sy'n amhosibl eu craffu, a gosod targedau nad ydynt, yn syml iawn, wedi cael eu cyrraedd.

The latest Bevan Foundation report, 'The shape of Wales to come: Wales' economy, environment and society in 2020', highlights this fact and says that, by 2020—still four or five years away—

Mae adroddiad diweddaraf Sefydliad Bevan, 'The shape of Wales to come: Wales' economy, environment and society in 2020', yn tynnu sylw at y ffaith hon ac yn dweud, erbyn 2020—sy'n dal i fod bedair neu bum mlynedd i ffwrdd

'an extraordinary number of targets are supposed to be met'.

'an extraordinary number of targets are supposed to be met'.

I think that that, in itself, is a convenient handle on which the Welsh Government can avoid proper scrutiny, but, of course, we all remember 2010, which was an equally significant year in terms of targets, because by 2010 every school in Wales was meant to be fit for purpose. I'm afraid we didn't quite meet that one.

Credaf fod hynny, ynddo'i hun, yn fachyn cyfleus y gall Llywodraeth Cymru ei ddefnyddio i osgoi craffu priodol, ond wrth gwrs, rydym i gyd yn cofio 2010, a oedd yn flwyddyn yr un mor arwyddocaol o ran targedau, oherwydd erbyn 2010 roedd pob ysgol yng Nghymru i fod yn addas at y diben. Rwy'n ofni na lwyddwyd i gyrraedd y targed hwnnw.

By 2010, the Welsh housing quality standard was, of course, meant to have been met for every social housing unit around Wales. We're still working towards, now, 2020 in terms of that. So, clearly, the setting of targets is an art form but one, I think, more used to being set by spin doctors than by people who are really concerned about proper scrutiny of delivery in terms of either this Welsh Government or, in fact, the UK Government, which is equally at fault in terms of how they do this. So, I think, if we're going to have targets, those targets need to meaningful, they need to be realistic and they need to be measurable, and we need to be able to hold Government to account for those targets. And that means that we need to set targets—well the Government needs to set targets—on which we can properly scrutinise them, and those targets need to be set so that we're able to measure them within a reasonable time period. I think the biggest problem for me in the time I've been a Welsh Assembly Member, going all the way back to 1999, is we've never managed to do that, because those targets have always been set so far into the future.

Erbyn 2010, roedd pob tŷ cymdeithasol yng Nghymru i fod wedi cyrraedd safon ansawdd tai Cymru, wrth gwrs. Rydym yn dal i weithio tuag at hynny, erbyn 2020 bellach. Felly, yn amlwg, mae gosod targedau yn ffurf ar gelfyddyd ond yn un, rwy'n credu, sy'n arfer cael ei gosod gan sbinddoctoriaid yn hytrach na chan bobl sy'n pryderu mewn gwirionedd am graffu'n briodol ar ddarpariaeth o ran y Llywodraeth hon yng Nghymru neu'n wir, Llywodraeth y DU, sydd lawn cymaint ar fai o ran sut y gwnânt hyn. Felly, os ydym yn mynd i gael targedau, rwy'n meddwl bod angen i'r targedau hynny fod yn ystyrlon, mae angen iddynt fod yn realistig ac mae angen iddynt fod yn fesuradwy, ac mae angen i ni allu dwyn y Llywodraeth i gyfrif am y targedau hynny. Ac mae hynny'n golygu bod angen inni bennu targedau—wel, mae angen i'r Llywodraeth bennu targedau—y gallwn eu craffu'n iawn, ac mae angen pennu'r targedau hynny er mwyn i ni allu eu mesur o fewn cyfnod rhesymol o amser. Rwy'n meddwl mai'r broblem fwyaf i mi yn yr amser y bûm yn Aelod o'r Cynulliad, yn mynd yr holl ffordd yn ôl i 1999, yw nad ydym erioed wedi llwyddo i wneud hynny, am fod y targedau bob amser wedi'u gosod mor bell yn y dyfodol.

Of course, we also have the issue of targets being changed when they're not being met. We've already had alluded to, I think, the ambulance service targets, which have been changed. I know the Minister gave a very robust defence of that in terms of the evidence, but, of course, it doesn't deny the fact that the targets that have been set by the Welsh Government are not as ambitious as the targets that were being met in England, and the targets that are being set on ambulances are still not being met. Equally, we've seen cancer targets as well also not being met. In my own region, Abertawe Bro Morgannwg University Local Health Board, we find that the 62-day target in terms of the number of people who should be treated or seen who are suffering from cancer, that target is not just not being met—I think it's a 95 per cent target—but, of course, the percentage of people who are being seen within that target is actually declining. So, I think that, clearly, there is an issue that needs to be addressed, and we need to make sure that Welsh Government is being held to account when those targets are not being met.

Wrth gwrs, mae gennym hefyd broblem gyda newid targedau pan na chânt eu cyrraedd. Rwy'n meddwl ein bod eisoes wedi crybwyll targedau'r gwasanaeth ambiwlans, sydd wedi cael eu newid. Rwy'n gwybod bod y Gweinidog wedi rhoi amddiffyniad cadarn iawn o hynny o ran y dystiolaeth, ond wrth gwrs, nid yw'n gwadu'r ffaith nad yw'r targedau a osodwyd gan Lywodraeth Cymru yr un mor uchelgeisiol â'r targedau a oedd yn cael eu cyrraedd yn Lloegr, ac mae'r targedau sy'n cael eu gosod ar gyfer ambiwlansys yn dal i gael eu methu. Yn yr un modd, rydym wedi gweld methiant i gyrraedd targedau canser hefyd. Yn fy rhanbarth i, Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg, gwelwn nad yw'r targed o 62 diwrnod o ran y nifer o bobl a ddylai gael eu trin neu eu gweld sy'n dioddef o ganser yn cael ei gyrraedd—rwy'n credu mai 95 y cant yw'r targed—ond wrth gwrs, mae canran y bobl sy'n cael eu gweld o fewn y targed hwnnw yn gostwng. Felly, yn amlwg, rwy'n credu bod yna broblem sy'n rhaid mynd i'r afael â hi, ac mae angen i ni wneud yn siŵr fod Llywodraeth Cymru yn cael ei dwyn i gyfrif pan na fydd y targedau hynny'n cael eu cyrraedd.

The last programme for government annual report stated that the commitment to develop a replacement council tax benefit had been delivered, but, of course, in the short term, we still actually have a short-term fix, because we still have a problem, which is even acknowledged in the Welsh Government's own report, that that is being done. The commitment to fund the employment of 500 police community support officers—the Welsh Government told us that was delivered by October 2013, yet, when you actually look at the figures, the number of PCSOs in Wales has been declining since September 2013 to the point now where the Welsh Government is, effectively, using their budget to offset cuts being implemented by Westminster. And at that high point of September 2013, the number of extra PCSOs was actually 460—40 short of the Welsh Government's target. Now, I'm not quibbling over—. You know, 460 extra PCSOs is very valuable and very important, but the Welsh Government have been shouting from the rooftops for some time about this really important target of 500 that they met in October 2013, but they didn't. I think, Deputy Presiding Officer, that targets are all very well, but what people really want to see are services.

Nodai adroddiad blynyddol diwethaf y rhaglen lywodraethu fod yr ymrwymiad i ddatblygu budd-dal treth gyngor newydd wedi cael ei gyflawni, ond wrth gwrs, yn y tymor byr, ateb tymor byr sydd gennym mewn gwirionedd, ac mae hynny'n cael ei gydnabod yn adroddiad Llywodraeth Cymru ei hun hyd yn oed, fod hynny'n cael ei wneud. Yr ymrwymiad i ariannu'r broses o gyflogi 500 o swyddogion cymorth cymunedol yr heddlu—dywedodd Llywodraeth Cymru wrthym fod hynny wedi'i gyflawni erbyn mis Hydref 2013, ac eto, pan edrychwch ar y ffigurau, mae nifer y swyddogion cymorth cymunedol yng Nghymru wedi bod yn gostwng ers mis Medi 2013 hyd at bwynt yn awr lle y mae Llywodraeth Cymru i bob pwrpas yn defnyddio'i chyllideb i wrthbwyso'r toriadau sy'n cael eu gweithredu gan San Steffan. Ac ar yr uchafbwynt ym Medi 2013, nifer y swyddogion cymorth cymunedol ychwanegol mewn gwirionedd oedd 460—40 yn fyr o darged Llywodraeth Cymru. Nawr, nid wyf yn hollti blew dros—. Wyddoch chi, mae 460 o swyddogion cymorth cymunedol ychwanegol yn werthfawr iawn ac yn bwysig iawn, ond mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn gweiddi o bennau'r tai ers peth amser am y targed gwirioneddol bwysig hwn o 500 a gyrhaeddwyd ganddynt ym mis Hydref 2013, ond ni wnaethant hynny. Ddirprwy Lywydd, rwy'n meddwl bod targedau'n iawn, ond yr hyn y mae pobl mewn gwirionedd am ei weld yw gwasanaethau.

16:38 **Darren Millar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I too want to express my concerns about the failure of the Welsh Government to deliver on its own targets. We hear of targets being watered down all of the time, changed so that you can't compare them from one period to the next, and, of course, yesterday we did hear, as many people have already alluded to, a signal change in the way that the ambulance service targets are going to be considered by the Welsh Government in the future.

Rwyf innau hefyd am fynegi fy mhryderon ynghylch methiant Llywodraeth Cymru i gyrraedd ei thargedau ei hun. Rydym yn clywed am dargedau sy'n cael eu glastwreiddio drwy'r amser, a'u newid fel na allwch eu cymharu o un cyfnod i'r llall, ac wrth gwrs, clywsom ddoe, fel y mae llawer o bobl eisoes wedi dweud, am newid eithriadol yn y ffordd y mae targedau'r gwasanaeth ambiwlans yn mynd i gael eu hystyried gan Lywodraeth Cymru yn y dyfodol.

I think I also want to just talk about the timeliness of the publication of targets, because, in England, particularly for the national health service, there are many statistics that are published on a weekly basis. People can have access to this information readily. It's available on the internet for not just politicians to scrutinise, but for the media and members of the public to scrutinise as well. Yet, here in Wales, we seem to be going backwards. We were talking yesterday about the ambulance service performance statistics being published not on a weekly basis, not even on a monthly basis, as they currently are, at present, but moving instead to a quarterly basis, which just seems to me to be an attempt to wriggle out of scrutiny by the Welsh Government, because I have no doubt whatsoever in my mind that those targets too will not be met in the future either. Of course, the fact that they'll be published only on a quarterly basis means that there will be less fuss—less regular fuss, if you like—so the Welsh Government will hope, as a result.

Rwy'n credu fy mod innau hefyd am siarad am amseroldeb cyhoeddi targedau, oherwydd yn Lloegr, yn enwedig ar gyfer y gwasanaeth iechyd gwladol, mae yna lawer o ystadegau sy'n cael eu cyhoeddi'n wythnosol. Gall pobl gael hyd i'r wybodaeth hon yn rhwydd. Mae ar gael ar y rhyngrwyd nid yn unig i wleidyddion ei graffu, ond i'r cyfryngau ac aelodau o'r cyhoedd ei graffu hefyd. Eto i gyd, yma yng Nghymru, mae'n ymddangos ein bod yn mynd am yn ôl. Roeddem yn sôn ddoe am ystadegau perfformiad y gwasanaeth ambiwlans yn cael eu cyhoeddi nid yn wythnosol, na hyd yn oed yn fisol, fel y maent ar hyn o bryd, ond yn newid yn hytrach i gael eu cyhoeddi bob chwarter, sy'n ymddangos fel ymgais ar ran Llywodraeth Cymru i osgoi craffu, oherwydd nid oes gennyf unrhyw amheuaeth o gwbl yn fy meddwl na fydd y targedau hynny chwaith yn cael eu cyrraedd yn y dyfodol. Wrth gwrs, mae'r ffaith mai ar sail chwarterol yn unig y cânt eu cyhoeddi'n golygu y bydd llai o helynt—llai o helynt rheolaidd os mynnwch—o ganlyniad i hynny, neu felly y bydd Llywodraeth Cymru yn ei obeithio.

But, of course, it's not just the ambulance service targets that people are concerned about when it comes to NHS performance. We've seen the publication of cancer waiting time performance today, which is just appalling, as already mentioned by Altaf Hussain. It's been a long time—over seven years—since those targets were actually met. Emergency department performance targets, again, have not been met since 2009. Referral-to-treatment-time targets more generally, of course, have not been met for a long time either, and it is appalling that we now have one in seven of the Welsh population on a national health service waiting list here in Wales. That is an appalling statistic. We effectively have a national waiting service—people waiting for treatment and queues getting longer and longer and longer. Those queues have more than doubled—. I can hear the Minister laughing. This is not a laughing matter. The Wales Audit Office have told us that patients are coming to harm as a result of prolonged waits for treatment. That is what the Wales Audit Office have concluded. You want to take that up with the auditor general? You go and do so, but don't laugh about it. Don't laugh about those patients who are waiting for cancer diagnoses for too long a time, and as a result their prognosis is worse. Don't laugh about those patients who are going blind waiting for ophthalmology appointments in my own constituency and elsewhere in Wales. You might want to laugh about it. I don't want to laugh about it. I want to see you delivering on the targets that your own Government has set in order that these things can be put right.

Ond wrth gwrs, nid targedau'r gwasanaeth ambiwlans yn unig y mae pobl yn poeni amdanynt o ran perfformiad y GIG. Gwelsom gyhoeddi perfformiad amseroedd aros canser heddiw, sy'n echrydus, fel y crybwyllodd Altaf Hussain eisoes. Bu'n amser hir—dros saith mlynedd—ers i'r targedau hynny gael eu cyrraedd. Ni chyrhaeddwyd targedau perfformiad adrannau achosion brys ers 2009. Nid yw targedau amseroedd aros rhwng atgyfeirio a thriniaeth yn fwy cyffredinol, wrth gwrs, wedi cael eu cyrraedd ers amser hir chwaith, ac mae'n warthus fod un o bob saith o boblogaeth Cymru bellach ar restr aros y gwasanaeth iechyd gwladol yma yng Nghymru. Mae hwnnw'n ystadegyn arswydus. I bob pwrpas, yr hyn sydd gennym yw gwasanaeth aros cenedlaethol—pobl sy'n aros am driniaeth a chiwiau mynd yn hwy drwy'r amser. Mae'r ciwiau hynny wedi mwy na dyblu—. Gallaf glywed y Gweinidog yn chwerthin. Nid yw hwn yn fater i chwerthin yn ei gylch. Mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi dweud wrthym fod cleifion yn cael eu niweidio o ganlyniad i amseroedd aros hir am driniaeth. Dyna'r casgliad y mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi dod iddo. A hoffech chi drafod hynny gyda'r archwilydd cyffredinol? Gwnewch hynny, ond peidiwch â chwerthin am y peth. Peidiwch â chwerthin am y cleifion hynny sy'n aros yn rhy hir am ddiagnosis o ganser, ac o ganlyniad yn wynebu prognosis gwaeth. Peidiwch â chwerthin am y cleifion hynny sy'n mynd yn ddall wrth aros am apwyntiadau offthalmoleg yn fy etholaeth i ac mewn mannau eraill yng Nghymru. Efallai eich bod chi eisiau chwerthin yn ei gylch. Nid wyf i am chwerthin yn ei gylch. Rwyf am eich gweld yn cyflawni ar y targedau y mae eich Llywodraeth eich hun wedi'u gosod fel y gellir unioni'r pethau hyn.

Diagnostic waiting times: why is it that, if you live in Wales, you wait much, much longer for a diagnostic test than if you live over the border in England? Why is it that those in need of hip replacements wait on average 300 days in Wales, compared to 170 days elsewhere in the UK? These are appalling statistics, and all we hear in response to these statistics being laid at the feet of Ministers is, 'I've told health boards they must deliver. It's their responsibility'—trying to pass the buck on to the health boards instead of accepting some responsibility yourself. You set the target; you should be responsible for making sure that the resource is there so that the health boards can deliver against them. But what have we seen? The only records that this Government is breaking are record-breaking cuts that they are making on our health service budget. That is what we've seen—real-terms cuts; the largest and deepest cuts of all the cuts on NHS budgets across the United Kingdom.

Amseroedd aros diagnostig: os ydych yn byw yng Nghymru, pam eich bod yn aros am lawer iawn mwy o amser i gael prawf diagnostig na phe baech yn byw dros y ffin yn Lloegr? Pam y mae'r rhai sydd angen clun newydd yn aros 300 diwrnod ar gyfartaledd yng Nghymru, o'i gymharu â 170 o ddiwrnodau mewn mannau eraill yn y DU? Mae'r rhain yn ystadegau echrydus, a'r unig ymateb a glywn wrth osod yr ystadegau hyn gerbron Gweinidogion yw, 'Rwyf wedi dweud wrth y byrddau iechyd fod yn rhaid iddynt gyflawni. Eu cyfrifoldeb hwy yw hyn'—ceisio taflu'r baich ar y byrddau iechyd yn hytrach na derbyn peth o'r cyfrifoldeb eich hun. Chi a osododd y targed; chi a ddylai fod yn gyfrifol am sicrhau bod yr adnoddau yno er mwyn i'r byrddau iechyd allu ei gyrraedd. Ond beth a welsom? Yr unig record y mae'r Llywodraeth hon yn ei thorri yw'r toriadau uwch nag erioed y maent yn eu gwneud i gyllideb ein gwasanaeth iechyd. Dyna'r hyn a welsom— toriadau mewn termau real; y toriadau mwyaf a dyfnaf o'r holl doriadau i gyllidebau GIG ar draws y Deyrnas Unedig.

16:43 **Ann Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Will you take an intervention?

A wnewch chi dderbyn ymyriad?

16:43 **Darren Millar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I'll happily take the intervention.

Rwy'n hapus i dderbyn ymyriad.

16:43 **Ann Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Good, because it's £1.5 billion from a block grant. So, instead of you sitting there shouting that the only thing the Labour Party can do is cut, you should think about what your Tory Government is doing in the UK and has been doing in the UK.

Da iawn, oherwydd mae'n £1.5 biliwn o grant bloc. Felly, yn lle eistedd yn y fan honno'n gweiddi mai'r unig beth y gall y Blaid Lafur ei wneud yw torri, dylech feddwl am yr hyn y mae eich Llywodraeth Dorïaidd yn ei wneud yn y DU a'r hyn y mae wedi bod yn ei wneud yn y DU.

16:43 **Darren Millar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

If you want to take issue with the facts, Ann, I suggest you refer to the National Audit Office report, the King's Fund report and the Wales Audit Office report, all of which conclude that the Welsh NHS has suffered real-term budget cuts—the largest real-term budget cuts in any part of the United Kingdom. At the same time, budgets have been increasing on health spending in England and they've remained static in Scotland and in Northern Ireland. You should be ashamed, frankly, of the record of your Government here in Wales when it comes to the national health service.

Os ydych am ddadlau yn erbyn y ffeithiau, Ann, rwy'n awgrymu eich bod yn cyfeirio at adroddiad y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, adroddiad Cronfa'r Brenin ac adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru. Daw pob un ohonynt i'r casgliad fod y GIG yng Nghymru wedi dioddef toriadau cyllidebol mewn termau real—y toriadau mwyaf mewn termau real i'r gyllideb mewn unrhyw ran o'r Deyrnas Unedig. Ar yr un pryd, mae cyllidebau wedi bod yn cynyddu ar wariant iechyd yn Lloegr ac maent wedi aros yn sefydlog yn yr Alban ac yng Ngogledd Iwerddon. Dylech fod â chywilydd, a dweud y gwir, o record eich Llywodraeth yma yng Nghymru o ran y gwasanaeth iechyd gwladol.

16:43 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I hope things will calm down now. I call the Minister for Public Services, Leighton Andrews.

Rwy'n gobeithio y bydd pethau'n tawelu nawr. Galwaf ar y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus, Leighton Andrews.

16:44 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus / The Minister for Public Services*

Deputy Presiding Officer, I was heartened by the Conservative contributions today. If this is as good as it gets for them ahead of the Assembly elections, talking Wales down with no vision of their own, they can look forward to another stupendous defeat next May. Unsurprisingly, we will be opposing the motion. If there is one thing the Welsh Conservatives have proved over the past five years, it is that they cannot be trusted with public services. They've inflicted swingeing cuts across public services in England and similarly draconian reductions to the Welsh Government's budget. They've privatised, outsourced and undermined vital public services at every turn. And they have treated the public sector workforce with disdain, developing confrontational relationships with trade unions, resulting in ongoing strikes, for example in the fire service. This is exemplified by the recently-introduced Trade Union Bill—a Bill that will lead to even more confrontational relationships between employers and workers and, ultimately, undermine rather than support public services and the economy.

Ddirprwy Lywydd, Cefais fy nghalonogi gan gyfraniadau'r Ceidwadwyr heddiw. Os yw hyn cystal ag y mae'n mynd iddynt cyn etholiadau Cynulliad, bychanu Cymru heb unrhyw weledigaeth eu hunain, gallant edrych ymlaen at grasfa enfawr arall fis Mai nesaf. Nid yw'n syndod y byddwn yn gwrthwynebu'r cynnig. Un peth y mae'r Ceidwadwyr Cymreig wedi'i brofi dros y pum mlynedd diwethaf yw na ellir ymddiried gwasanaethau cyhoeddus i'w gofal. Maent wedi cyflawni toriadau llym ar draws y gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru ynghyd â gostyngiadau didrugaredd i gyllideb Llywodraeth Cymru. Maent wedi achub ar bob cyfle i breifateiddio a thanseilio gwasanaethau cyhoeddus hanfodol, a'u rhoi ar gontractau allanol. Ac maent wedi trin gweithlu'r sector cyhoeddus yn ddirmygus, wedi datblygu perthynas elyniaethus ag undebau llafur, gan arwain at streiciau parhaus, er enghraifft yn y gwasanaeth tân. Amlygir hyn gan y Bil Undebau Llafur a gyflwynwyd yn ddiweddar—Bil a fydd yn arwain at berthynas fwy gwrthdrawiadol byth rhwng cyflogwyr a gweithwyr ac yn y pen draw, yn tanseilio yn hytrach na chefnogi gwasanaethau cyhoeddus a'r economi.

In contrast, the Welsh Government values and supports our public services and we are delivering. Here's the programme for government—the 547 separate commitments covering the devolved public services, meticulously reported on. You can't get more transparent than that.

Mewn cyferbyniad, mae Llywodraeth Cymru yn gwerthfawrogi ac yn cefnogi ein gwasanaethau cyhoeddus ac rydym yn cyflawni. Dyma'r rhaglen lywodraethu—y 547 o ymrwymiadau gwahanol ar gyfer y gwasanaethau cyhoeddus sydd wedi'u datganoli, gydag adroddiad manwl arnynt. Ni allwch fod yn fwy tryloyw na hynny.

And what do those data say? Ninety-five per cent of our commitments have been delivered or are on track to be delivered. Our key pledges: delivered. Five hundred PCSOs keeping our streets safer: delivered. Welsh students don't pay higher fees wherever they study: delivered. More spending on our schools: delivered. Twelve thousand Jobs Growth Wales placements: delivered. Flying Start provision doubled: delivered. Extra spending: delivered. Our house building targets: delivered and exceeded. The percentage of students getting five good GCSEs, including English or Welsh and maths: up to a record level. Attendance: up. And where is improvement most marked? In our most challenged schools where we are investing. The Tories would be spending what little money they would invest in education on free schools and selective grammar schools. Instead, we've made our improvements without free schools and without academies.

A beth y mae'r data'n ei ddweud? Mae naw deg pump y cant o'n hymrwymiadau wedi'u cyflawni neu ar y ffordd i gael eu cyflawni. Ein haddewidion allweddol: wedi'u cyflawni. Pum cant o swyddogion cymorth cymunedol yr heddlu yn cadw ein strydoedd yn fwy diogel: wedi'i gyflawni. Sicrhau nad yw myfyrwyr Cymru yn talu ffioedd uwch ble bynnag y bont yn astudio: wedi'i gyflawni. Mwy o wariant ar ein hysgolion: wedi'i gyflawni. Deuddeng mil o leoliadau Twf Swyddi Cymru: wedi'i gyflawni. Dyblu darpariaeth Dechrau'n Deg: wedi'i gyflawni. Gwariant ychwanegol: wedi'i gyflawni. Ein targedau adeiladu tai: wedi'i gyflawni ac wedi rhagori arnynt. Canran y myfyrwyr sy'n cael pum TGAU da, gan gynnwys Saesneg neu Gymraeg a mathemateg: i fyny i'r lefel uchaf erioed. Presenoldeb: i fyny. A lle y mae'r gwelliant mwyaf nodedig? Yn ein hysgolion sy'n wynebu fwyaf o her lle rydym yn buddsoddi. Byddai'r Torïaid yn gwario'r ychydig arian y byddent yn ei fuddsoddi mewn addysg ar ysgolion rhydd ac ysgolion gramadeg dethol. Yn lle hynny, rydym wedi gwneud ein gwelliannau heb ysgolion rhydd a heb academïau.

In health, we hear from the Tories about waiting times. Under the Tories' watch in England, the waiting list is bigger than the entire population of Wales. The last time they ran the health service in Wales, you could wait years for an operation. Now, the median waiting time is a matter of weeks and £6.7 billion pounds is being spent on health and social services in Wales—more than ever before. But it isn't just about what we're putting into the NHS, it's about what we're getting out of it: better survival rates; over 90 per cent of people treated saying they're happy with the service; cancer waiting times better than in England and ambulance response times vastly improved in my own area since the turn of this year, thanks to co-ordinated action by the Wales ambulance trust and the local health board.

Ym maes iechyd, clywn gan y Torïaid am amseroedd aros. O dan oruchwyliaeth y Torïaid yn Lloegr, mae'r rhestr aros yn fwy na holl boblogaeth Cymru. Y tro diwethaf iddynt redeg y gwasanaeth iechyd yng Nghymru, gallech aros am flynyddoedd am lawdriniaeth. Yn awr, mae'r amser aros canolrifol yn fater o wythnosau ac mae £6.7 biliwn yn cael ei wario ar iechyd a gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru—mwy nag erioed o'r blaen. Ond nid yw'n ymwneud yn unig â'r hyn rydym yn ei roi i mewn i'r GIG, mae'n ymwneud â'r hyn rydym yn ei gael ohono: cyfraddau goroesi gwell; dros 90 y cant o bobl sy'n cael triniaeth yn dweud eu bod yn fodlon ar y gwasanaeth; amseroedd aros canser yn well nag yn Lloegr ac amseroedd ymateb ambiwlansys wedi gwella'n eithriadol yn fy ardal fy hun ers troad y flwyddyn hon, diolch i gamau gweithredu cydlynol gan ymddiriedolaeth ambiwlans Cymru a'r bwrdd iechyd lleol.

And what of the economy? Wales has actually recovered more strongly from the recession than most other parts of the UK. Not my words—the words of Conservative Dylan Jones-Evans. The percentage of new business births in the Welsh economy growing by 41 per cent during the period 2012 to 2013—the highest of any region of the UK. Not my words—the words of Conservative Dylan Jones-Evans. Welsh businesses spent £369 million on research and development in 2013—a rise of 37 per cent on the previous year and the largest increase of any UK region. Not my words—

A beth am yr economi? Mewn gwirionedd mae Cymru wedi gwella'n gryfach o'r dirwasgiad na'r rhan fwyaf o rannau eraill y DU. Nid fy ngeiriau i—geiriau'r Ceidwadwr Dylan Jones-Evans. Canran y busnesau newydd yn economi Cymru yn cynyddu 41 y cant yn ystod y cyfnod 2012-2013—y lefel uchaf o blith holl ranbarthau'r Deyrnas Unedig. Nid fy ngeiriau i—geiriau'r Ceidwadwr Dylan Jones-Evans. Gwariodd busnesau Cymru £369 miliwn ar ymchwil a datblygu yn 2013—cynnydd o 37 y cant ar y flwyddyn flaenorol a'r cynnydd mwyaf o holl ranbarthau'r DU. Nid fy ngeiriau i—

16:48

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer

Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Order. Minister, please. You're half way through your speech and I've been very patient, but we've had constant sledging from the Conservative front bench. The Australians are about to go home and some of you will be sent home if you don't be quiet and listen to the rest of this speech. Minister.

Trefn. Weinidog, os gwelwch yn dda. Rydych hanner ffordd drwy eich araith ac rwyf wedi bod yn amyneddgar iawn, ond rydym wedi cael dwrdio cyson o fainc flaen y Ceidwadwyr. Mae'r Awstraliaid ar fin mynd adref a bydd rhai ohonoch yn cael eich anfon adref os nad ydych yn distewi a gwrando ar weddill yr araith hon. Weinidog.

16:48 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I'll repeat that one, Deputy Presiding Officer. Welsh businesses spent £369 million on research and development in 2013—a rise of 37 per cent on the previous year and the largest increase of any UK region. Not my words—the words of former Welsh Conservative candidate Dylan Jones-Evans. Meanwhile, of course, inward investment is at a record high.

Fe ailadroddaf hynny, Ddirprwy Lywydd. Gwariodd busnesau Cymru £369 miliwn ar ymchwil a datblygu yn 2013—cynnydd o 37 y cant ar y flwyddyn flaenorol a'r cynnydd mwyaf o holl ranbarthau'r DU. Nid fy ngeiriau i—geiriau cyn-ymgeisydd y Ceidwadwyr Cymreig Dylan Jones-Evans. Yn y cyfamser, wrth gwrs, mae mewnfuddsoddi ar y lefel uchaf erioed.

The Tories run down our health service in Wales, but what's happening in England? On Sunday, 'The Independent' newspaper revealed that the south Kent commissioning group is contracting with hospitals in Calais and the north of France to send NHS patients for treatment for hip and knee operations, urology, gynaecology and ear, nose and throat services.

Mae'r Torïaid yn beirniadu ein gwasanaeth iechyd yng Nghymru, ond beth sy'n digwydd yn Lloegr? Ddydd Sul, datgelodd papur newydd 'The Independent' fod grŵp comisiynu de Caint yn contractio gydag ysbytai yn Calais a gogledd Ffrainc i anfon cleifion y GIG yno am driniaeth ar gyfer llawdriniaethau clun a phen-glin, wroleg, gynaecoleg a gwasanaethau clust, trwyn a gwddf.

16:49 **Angela Burns** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Would you take an intervention, Minister?

A wnewch chi dderbyn ymyriad, Weinidog?

16:49 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

No. If we practiced politics as crudely as the Conservatives do, we would say that the line on life and death in the NHS doesn't follow Offa's Dyke; it runs through the English channel. What's the Conservative policy on the national health service? I'll tell you in three words: allez à Calais.

Na wnaf. Pe baem yn ymarfer gwleidyddiaeth mewn modd mor amrwd ag y mae'r Ceidwadwyr yn ei wneud, byddem yn dweud nad yw'r llinell rhwng byw a marw yn y GIG yn dilyn Clawdd Offa; mae'n rhedeg drwy'r Sianel. Beth yw polisi'r Ceidwadwyr ar y gwasanaeth iechyd gwladol? Fe ddywedaf wrthych mewn tri gair: allez à Calais.

So, let's get real. This isn't a debate about transparency, this is the Tories talking Wales down. Have the Tories practiced transparency in Government? No. Eric Pickles abolished the audit commission and got rid of national indicator sets for local government in England—meaningful comparisons of local government performance, over time or with other nations, are now virtually impossible. In contrast, we have commissioned the Public Policy Institute for Wales to examine how best to compare local government performance across the countries that make up the United Kingdom. It isn't just in local government. For the Conservatives to lecture anyone on transparency, data and missed targets is hypocrisy of the highest order. The Tories didn't want to tackle poverty, so they redefined it, airbrushing hundreds of thousands of children in need of support out of the statistics. Most shameful of all, a statistic that had to be dragged out of the Department for Work and Pensions over the summer: 90 people a month dying after being found fit for work under the new guidelines. A statistic the UK Government jumped through hoops to avoid releasing. Of course it's important that we compare how well our public services are performing with other parts of the UK and internationally. We will, therefore, be supporting the Plaid Cymru amendment.

Felly, gadewch i ni fod o ddifrif. Nid dadl yw hon am dryloywder; y Torïaid yn bychanu Cymru yw hyn. A yw'r Torïaid wedi arfer tryloywder yn y Llywodraeth? Naddo. Diddymodd Eric Pickles y comisiwn archwilio a chael gwared ar setiau o ddangosyddion cenedlaethol ar gyfer llywodraeth leol yn Lloegr—mae cymariaethau ystyrlon o berfformiad llywodraeth leol, dros amser neu gyda chenhedloedd eraill, bron yn amhosibl bellach. Mewn gwrthgyferbyniad, rydym ni wedi comisiynu Sefydliad Polisi Cyhoeddus Cymru i archwilio'r ffyrdd gorau o gymharu perfformiad llywodraeth leol ar draws y gwledydd sy'n ffurfio'r Deyrnas Unedig. Ac nid mewn llywodraeth leol yn unig. Mae i'r Ceidwadwyr bregethu wrth unrhyw un ynghylch tryloywder, data a methu â chyrraedd targedau yn rhagrith o'r radd flaenaf. Nid oedd y Torïaid yn awyddus i fynd i'r afael â thlodi, fellly aethant ati i'w ailddiffinio, gan dynnu cannoedd o filoedd o blant sydd angen cymorth o'r ystadegau. Yn fwy cywilyddus na dim, ystadegyn y bu'n rhaid ei wasgu allan o'r Adran Gwaith a Phensiynau dros yr haf: 90 o bobl y mis yn marw ar ôl cael eu hasesu'n ffit i weithio o dan y canllawiau newydd. Ystadegyn y ceisiodd Llywodraeth y DU wneud ei gorau glas i osgoi ei ryddhau. Wrth gwrs, mae'n bwysig ein bod yn cymharu pa mor dda y mae ein gwasanaethau cyhoeddus yn perfformio gyda rhannau eraill o'r DU ac yn rhyngwladol. Felly, byddwn yn cefnogi gwelliant Plaid Cymru.

The reality is that, as policies diverge, and with the issues we've already highlighted in England, it is becoming increasingly difficult to compare performance with other parts of the UK. We need to collect and publish data that reflect the situation here in Wales, and we continue to do so. Where it is appropriate, statisticians will seek to collect evidence in a manner that is consistent with the rest of the UK. But there is only so much we can do to influence how other parts of the UK collect, hold and publish their own data. We therefore need to consider what more can be done to ensure that data are collected and published in a way that ensures performance can be compared.

Wrth i bolisïau ymwahanu, a chyda'r materion rydym eisoes wedi tynnu sylw atynt yn Lloegr, y gwirionedd yw ei bod yn fwyfwy anodd cymharu perfformiad â rhannau eraill o'r DU. Mae angen i ni gasglu a chyhoeddi data sy'n adlewyrchu'r sefyllfa yma yng Nghymru, ac rydym yn parhau i wneud hynny. Lle y mae'n briodol, bydd ystadegwyr yn ceisio casglu tystiolaeth mewn modd sy'n gyson â gweddill y DU. Ond hyn a hyn yn unig y gallwn ei wneud i ddylanwadu ar sut y mae rhannau eraill o'r DU yn casglu, cadw a chyhoeddi eu data eu hunain. Mae angen i ni ystyried felly beth arall y gellir ei wneud i sicrhau bod data'n cael ei gasglu a'i gyhoeddi mewn modd sy'n sicrhau bod modd cymharu perfformiad.

The Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015 became law on 29 April. This piece of legislation is central to our Government's legislative programme and provides a new framework for performance management in public services. It'll be one of a few laws of its kind anywhere in the world and, as the United Nations has said,

Daeth Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gyfraith ar 29 Ebrill. Mae'r ddeddfwriaeth hon yn ganolog i raglen ddeddfwriaethol ein Llywodraeth ac mae'n darparu fframwaith newydd ar gyfer rheoli perfformiad gwasanaethau cyhoeddus. Bydd yn un o'r ychydig ddeddfau o'i bath yn unman yn y byd ac fel y dywedodd y Cenhedloedd Unedig,

'what Wales is doing today the world will do tomorrow. Action, more than words, is the hope for our current and future generations.'

'yr hyn mae Cymru'n ei wneud heddiw, y bydd y byd yn ei wneud yfory. Camau gweithredu, yn fwy na geiriau, yw'r gobaith ar gyfer ein cenedlaethau presennol ac yn y dyfodol. '

We are proud of our record. We will defend our record. We will stand on our record and we will win on our record.

Rydym yn falch o'n record, a byddwn yn ei hamddiffyn. Byddwn yn gweithredu ar sail ein record, a byddwn yn ennill ar sail ein record.

16:52 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call Mark Isherwood to reply to the debate.

Galwaf ar Mark Isherwood i ymateb i'r ddadl.

16:52 **Mark Isherwood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, everybody, for your contributions. I'll start with a brief summary of speakers. Angela Burns made the point that missed targets and statistical smokescreens are what we've come to expect from this Labour Welsh Government, thinking that no-one will notice. Angela congratulated teachers and learners for their achievements, quite rightly—including my own children—but detailed how a cynical Welsh Government had betrayed them and said the people of Wales deserve better than a Government terrified of accountability.

Diolch i chi, bawb, am eich cyfraniadau. Dechreuaf gyda chrynodeb byr o eiriau'r siaradwyr. Gwnaeth Angela Burns y pwynt mai targedau y methwyd â'u cyrraedd a llenni mwg ystadegol yw'r hyn rydym wedi dod i'w ddisgwyl gan Lywodraeth Lafur Cymru, gan feddwl na fydd neb yn sylwi. Llongyfarchodd Angela athrawon a dysgwyr am eu llwyddiannau, yn gwbl briodol—gan gynnwys fy mhlant fy hun—ond manylodd ar y modd y mae Llywodraeth Cymru sinigaidd wedi eu bradychu a dywedodd fod pobl Cymru yn haeddu gwell na Llywodraeth ag arni ofn atebolrwydd.

Simon Thomas made many valid points, and I particularly picked up on the fact that we can no longer compare spending on pupils in Welsh schools with England because of the jiggery-pokery by the Welsh Government. But the last time we were able to compare, each pupil in England, on average, got £605 more than pupils in Wales.

Gwnaeth Simon Thomas lawer o bwyntiau dilys, a nodais un yn arbennig ynglŷn â'r ffaith na allwn bellach gymharu gwariant ar ddisgyblion yn ysgolion Cymru a Lloegr oherwydd yr ystrywio gan Lywodraeth Cymru. Ond y tro diwethaf y gallem gymharu, roedd pob disgybl yn Lloegr, ar gyfartaledd, yn cael £605 yn fwy na disgyblion yng Nghymru.

Janet Finch-Saunders referred to carers, incontinence, ambulance response times, international student assessments, cancer treatments and much more, and has said, of course, that the people of Wales deserve progress and performance after persistent failure to meet targets by this Labour Government.

Cyfeiriodd Janet Finch-Saunders at ofalwyr, anymataliaeth, amseroedd ymateb ambiwlansys, asesiadau myfyrwyr rhyngwladol, triniaethau canser a llawer mwy, a dywedodd, wrth gwrs, fod pobl Cymru yn haeddu cynnydd a chyflawniad ar ôl methiant parhaus y Llywodraeth hon i gyrraedd targedau.

Comrade Keith Davies, a man I know to have a liberal and caring heart, despite his public presentation as a socialist, pointed out that Wales does have a tradition of co-operation. We should therefore remember that, 16 years after devolution, the Bevan Foundation has produced a report this month referring to public service delivery in Wales as statist, the opposite of 'Citizen Smith' and power to the people.

Mae'r Cymrawd Keith Davies, dyn y gwn fod ganddo galon ryddfrydol a gofalgar, er gwaethaf ei wedd gyhoeddus fel sosialydd, wedi nodi'r ffaith fod gan Gymru draddodiad o gydweithio. Dylem gofio felly fod Sefydliad Bevan, 16 mlynedd ar ôl datganoli, wedi cynhyrchu adroddiad y mis hwn sy'n cyfeirio at y modd gwladoliaethol y caiff gwasanaethau cyhoeddus eu darparu yng Nghymru, y gwrthwyneb i 'Citizen Smith' a grym i'r bobl.

Altaf Hussain referred to the failure to achieve targets since 1999 and said the people of Wales deserve a first-class NHS, something he loves and worked in for his career, but pointed out that target after target has been missed, missed and missed again with consequent pressure on services and increased deaths. He referred to many cases where a simple assessment by social services would have enabled people to leave hospital earlier.

Cyfeiriodd Altaf Hussain at y methiant i gyrraedd targedau ers 1999 a dywedodd fod pobl Cymru yn haeddu GIG o'r radd flaenaf, sefydliad y mae wrth ei fodd ag ef ac wedi gweithio ynddo yn ei yrfa, ond nododd y methiant i gyrraedd targed ar ôl targed, dro ar ôl tro ar ôl tro gyda phwysau yn sgil hynny ar wasanaethau a mwy o farwolaethau. Cyfeiriodd at nifer o achosion lle y byddai asesiad syml gan y gwasanaethau cymdeithasol wedi galluogi pobl i adael yr ysbyty yn gynt.

Peter Black pointed out that setting targets is essential to the scrutiny of Welsh Government performance, but it must be possible to properly scrutinise the targets. He pointed out that targets such as the Welsh housing quality standard had been missed, betraying social housing tenants across Wales.

Nododd Peter Black fod gosod targedau yn hanfodol er mwyn craffu ar berfformiad Llywodraeth Cymru, ond rhaid iddi fod yn bosibl craffu'n briodol ar y targedau. Nododd y methiant i gyrraedd targedau fel safon ansawdd tai Cymru, gan fradychu tenantiaid tai cymdeithasol ledled Cymru.

Darren Millar said that targets had been watered down and changed, preventing comparability and, in consequence, Wales seems to be going backwards as the Welsh Government wriggles out of scrutiny in areas such as the Wales ambulance service. One in seven of the population are now on NHS waiting lists in Wales and we have, as he said, a national waiting service. He referred to the Wales Audit Office and patients coming to harm because of long waits for treatment. That's why people in Wales are waiting so much longer than those in England for diagnosis. Instead, Labour has imposed the largest NHS real-terms cuts among the UK nations, as the Wales Audit Office said, and—as they also said—unprecedented in history.

Dywedodd Darren Millar fod targedau wedi cael eu glastwreiddio a'u newid, gan ein hatal rhag gallu cymharu, ac o ganlyniad, mae Cymru i'w gweld yn mynd am yn ôl wrth i Lywodraeth Cymru osgoi craffu mewn meysydd fel gwasanaeth ambiwlans Cymru. Mae un o bob saith o'r boblogaeth bellach ar restrau aros y GIG yng Nghymru ac fel y dywedodd, mae gennym wasanaeth aros cenedlaethol. Cyfeiriodd at Swyddfa Archwilio Cymru a chleifion yn cael niwed oherwydd yr aros hir am driniaeth. Dyna pam y mae pobl Cymru yn aros cymaint hwy am ddiagnosis na phobl yn Lloegr. Yn lle hynny, fel y dywedodd Swyddfa Archwilio Cymru, mae Llafur wedi cyflawni'r toriadau GIG mwyaf mewn termau real o blith gwledydd y DU ac maent yn ddigynsail mewn hanes.

He made it clear that Labour's approach is to portray delivery failure as success. As for economic recovery in Wales, referred to by Leighton Andrews, we must point out that that followed the 2010 election of a coalition Conservative-led Government, and it was from the lowest base amongst the UK nations and regions. You can play percentages, but look at the actual figures and impact on lives. Leighton Andrews's response was classically—

Eglurodd mai dull Llafur o weithredu yw portreadu methiant i ddarparu fel llwyddiant. O ran adferiad economaidd yng Nghymru, y cyfeiriwyd ato gan Leighton Andrews, rhaid i ni nodi bod hynny wedi dilyn ethol Llywodraeth glymblaid dan arweiniad y Ceidwadwyr yn 2010, ac roedd yn adferiad o'r sylfaen isaf ymhlith gwledydd a rhanbarthau'r DU. Gallwch chwarae gyda chanrannau, ond edrychwch ar y ffigurau go iawn a'r effaith ar fywydau. Ymateb clasurol Leighton Andrews oedd—

16:56 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Will you take an intervention?

A wnewch chi dderbyn ymyriad?

16:56 **Mark Isherwood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Yes.

Gwnaf.

16:56

## Andrew R.T. Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I'm grateful to you for taking the intervention. Wouldn't you recognise that the capital allowance increases that the Chancellor brought forward has allowed companies to invest in their future; and the other big step was holding down national insurance rates at their present levels so that jobs could be created, unlike the current leader of the Labour Party, who wants to increase national insurance by 7 per cent?

Rwy'n ddiolchgar i chi am gymryd yr ymyriad. Oni fyddech yn cydnabod bod y codiadau yn y lwfans cyfalaf a gyflwynodd y Canghellor wedi caniatáu cwmnïau i fuddsoddi yn eu dyfodol; a'r cam mawr arall oedd cadw cyfraddau yswiriant gwladol i lawr ar eu lefel bresennol fel bod modd creu swyddi, yn wahanol i arweinydd presennol y Blaid Lafur, sydd eisiau cynyddu yswiriant gwladol 7 y cant?

16:56

## Mark Isherwood Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Two of the many reasons why the deterioration was reversed.

Dau o'r nifer o resymau pam y cafodd y dirywiad ei wrthdroi.

From Leighton Andrews we saw classic sneering and electioneering, reinforcing the message that Labour can't be trusted with public services. He made it clear that Labour's approach is to present delivery failure as success. There was no mention or contrition from him about Betsi Cadwaladr University Local Health Board having to be placed in special measures after 16 years of a Labour-run NHS. He referred to poverty and poverty targets, when the Joseph Rowntree Foundation and the Bevan Foundation have said that we need to move from a percentage population target to needs and resources in Wales, and refers to the Well-being of Future Generations Act. Clearly, the wellbeing of future generations in Wales depends on Labour being elected out of office. Only today, constituents from Flintshire told me that, when they moved to Wales 28 years ago, health and education—

Gan Leighton Andrews gwelsom wawdio a lecsiyna clasurol, gan atgyfnerthu'r neges na ellir ymddiried yn Llafur i ofalu am wasanaethau cyhoeddus. Gwnaeth hi'n glir mai dull Llafur o weithredu yw cyflwyno methiant i ddarparu fel llwyddiant. Nid oedd unrhyw sôn neu edifeirwch ar ei ran ynglŷn â Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr yn gorfod cael ei roi dan weithdrefn mesurau arbennig ar ôl 16 mlynedd o'r GIG o dan arweiniad Llafur. Cyfeiriodd at dlodi a thargedau tlodi, pan fo Sefydliad Joseph Rowntree a Sefydliad Bevan wedi dweud bod angen i ni symud o darged poblogaeth canrannol i anghenion ac adnoddau yng Nghymru, a chyfeiriodd at Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Yn amlwg, mae llesiant cenedlaethau'r dyfodol yng Nghymru yn dibynnu ar bleidleisio i gael gwared ar Lafur. Heddiw ddiwethaf, dywedodd etholwyr o Sir y Fflint wrthyf, pan oeddent yn symud i Gymru 28 mlynedd yn ôl, roedd iechyd ac addysg —

16:57

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Conclude. You must conclude.

Gorffennwch. Mae'n rhaid i chi ddod i ben.

16:57

## Mark Isherwood Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thought that I had five and a half minutes. Right; I'll finish with this—

Roeddwn yn meddwl fod gennyf bum munud a hanner. Iawn; dof i ben gyda hyn—

16:57

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Order. You took an intervention in the last minute from your own leader, who bowled you underarm. So, you must now conclude. [Laughter.]

Trefn. Fe wnaethoch ildio i ymyriad yn y funud olaf gan eich arweinydd ei hun, a roddodd fowliad dan ysgwydd i chi. Felly, mae'n rhaid i chi ddod i ben yn awr. [Chwerthin.]

16:57

## Mark Isherwood Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

As they said to me, when they moved to Wales 28 years ago, health and education services were ahead of England, but this was no longer the case and they were having to go private or wait 72 weeks to get the treatment that they needed.

Fel y dywedodd yr etholwyr hyn wrthyf, pan oeddent hyn symud i Gymru 28 mlynedd yn ôl, roedd y gwasanaethau iechyd ac addysg yn well nag yn Lloegr, ond nid yw hyn yn wir bellach ac roeddent yn gorfod mynd yn breifat neu aros 72 wythnos i gael y driniaeth oedd ei hangen arnynt.

16:57

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The proposal is to agree the motion without amendment. Does any Member object? [Objection.] I defer voting until voting time.

Y cynnig yw derbyn y cynnig heb ei ddiwygio. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Gohiriaf y pleidleisio tan yr amser pleidleisio.

*Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.*

*Voting deferred until voting time.*

# 5. Dadl Plaid Cymru: Buddsoddiad mewn Gwasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol

# 5. Plaid Cymru Debate: Investment in Health and Social Care Services

*The following amendments have been selected: amendments 1, 2 and 3 in the name of Aled Roberts.*

*Detholwyd y gwelliannau canlynol: gwelliannau 1, 2 a 3 yn enw Aled Roberts.*

16:58

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Item 5 is the Plaid Cymru debate on investment in health and social care services. I call on Elin Jones to move the motion.

Eitem 5 yw dadl Plaid Cymru ar fuddsoddi mewn gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Galwaf ar Elin Jones i gynnig y cynnig.

Cynnig NDM5822 Elin Jones

Motion NDM5822 Elin Jones

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod unrhyw gynnydd yn y grant bloc sy'n deillio o gynnydd yng ngwariant iechyd Llywodraeth y DU, yn cael ei fuddsoddi yng ngwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol Cymru.

Calls on the Welsh Government to ensure that any increases in the block grant which result from an increase in UK Government health expenditure, are invested in Welsh health and social care services.

*Cynigiwyd y cynnig.*

*Motion moved.*

16:58

## Elin Jones Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch, Ddirprwy Lywydd. I move today's motion that calls on the Welsh Government to ensure that any increases in the block grant from the UK Government's increase in health spending in England are reflected here and invested in health and social care services in Wales over the next five years.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Rwy'n cynnig y cynnig heddiw sy'n galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod unrhyw gynnydd yn y grant bloc sy'n deillio o gynnydd yng ngwariant iechyd Llywodraeth y DU yn Lloegr yn cael ei adlewyrchu yma a'i fuddsoddi yng ngwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol Cymru dros y pum mlynedd nesaf.

The distinction here is, of course, important. We in Plaid Cymru have been critical and remain critical of the UK Conservative policy of protecting the NHS budget exclusively from cuts whilst raiding local authority care budgets to pay for this pledge. That is creating all kinds of havoc in care for the elderly in many parts of England and should not be repeated here. Our own policy is for a more rounded approach towards health and care that sees it as part of the same system and thus ultimately falling under one budgetary allocation, one service. We want increases to be made to funding over time so that we can continue to ensure that the health and social care budget receives the investment that it needs in order to be able to meet the demands of a population that is growing older.

Mae'r gwahaniaeth yma, wrth gwrs, yn bwysig. Rydym ni ym Mhlaid Cymru wedi bod yn feirniadol ac yn parhau i fod yn feirniadol o bolisi Ceidwadol y DU i ddiogelu cyllideb y GIG yn llwyr rhag toriadau wrth iddynt ysbeilio cyllidebau gofal awdurdodau lleol i dalu am yr addewid hwn. Mae hynny'n creu pob math o hafoc mewn gofal i'r henoed mewn sawl rhan o Loegr ac ni ddylid ei ailadrodd yma. Mae ein polisi ni ein hunain yn galw am ymagwedd fwy crwn tuag at iechyd a gofal sy'n ei weld fel rhan o'r un system ac felly yn y pen draw, yn dod o dan un dyraniad cyllidebol, un gwasanaeth. Rydym am weld cynnydd yn y cyllid dros gyfnod o amser er mwyn inni allu parhau i sicrhau bod y gyllideb iechyd a gofal cymdeithasol yn cael y buddsoddiad sydd ei angen arni er mwyn gallu ateb gofynion poblogaeth sy'n heneiddio.

We know the challenges posed by demographic change and an increasingly elderly population, many living with complex chronic conditions in late life. All of this is placing increasing pressures on our NHS and social systems—systems that were designed in another century for altogether different challenges. However many times this Government may want to say that systems are integrating and working together, the reality on the ground is quite clearly one, still, of separate systems working to separate priorities and separate budget control mechanisms.

Gwyddom am yr heriau a ddaw yn sgil newid demograffig a phoblogaeth gynyddol hŷn, gyda llawer yn byw gyda chyflyrau cronig cymhleth ar ddiwedd eu hoes. Mae hyn oll yn rhoi pwysau cynyddol ar ein GIG a'n systemau cymdeithasol—systemau a gynlluniwyd mewn canrif arall ar gyfer wynebu heriau hollol wahanol. Waeth pa mor aml y gallai'r Llywodraeth hon fod eisiau dweud bod y systemau'n integreiddio ac yn gweithio gyda'i gilydd, mae'n eithaf amlwg mai'r realiti ar lawr gwlad o hyd yw systemau ar wahân sy'n gweithio yn ôl blaenoriaethau ar wahân a systemau ar wahân ar gyfer rheoli cyllidebau.

In the summer budget of the UK Government—it's in paragraph 2.21 of the budget Red Book, for ease of reference for any Assembly Member—the Chancellor of the Exchequer confirmed increased spending on the NHS in England in real terms by £8 billion by 2021, and that would equate to an increase of £10 billion in cash terms. The Chancellor stated that the specific level of funding for each year will be determined in the spending review, which, as we know, is due later this year. Taking 2014-15 as the base year, however, spending on the NHS in England will increase by 10.6 per cent by 2020-21 in cash terms. And these are the UK Government's figures, not ones produced by Plaid Cymru. As long as there are no u-turns on the part of the UK Conservative Government, this would result in Wales receiving an increase in funding corresponding to the increase in England. That would be a £590 million increase in cash terms by 2020-21, after allowing, of course, for the effect of the infamous Barnett squeeze. Wales will therefore receive a consequential increase of £590 million by that time. Plaid Cymru will match this spending increase by ensuring that health and social care spending is increased by at least this same amount in the Welsh budget. Our commitment also is to introduce a tax on sugary drinks during this period, and that will also supplement the budget of our NHS in that time. Until later this autumn, as the Finance Minister alluded to earlier in questions, we won't know in which year the funding consequentials will be available. But, if the Chancellor keeps to his word, our commitment will be to spend this total allocation on NHS and care in Wales. Specific financial figures do not appear in the motion today because we are endeavouring to seek a cross-party agreement here on the principle that health and care services should have an increase in funding over the course of the next five years. The health Minister himself, of course, has stated to the committee and this Assembly that the additional funding needs identified by the Nuffield report ought to be within the realms of the possible.

Yng nghyllideb yr haf Llywodraeth y DU—mae ym mharagraff 2.21 o Lyfr Coch y gyllideb, er gwybodaeth hwylus i Aelodau'r Cynulliad—cadarnhaodd Canghellor y Trysorlys gynnydd yn y gwariant ar y GIG yn Lloegr mewn termau real o £8 biliwn erbyn 2021, a byddai hynny'n cyfateb i gynnydd o £10 biliwn yn nhermau arian parod. Dywedodd y Canghellor y pennir y lefel benodol o gyllid ar gyfer pob blwyddyn yn yr adolygiad o wariant, sydd, fel y gwyddom, i ddod yn ddiweddarach eleni. Gan gymryd 2014-15 fel y flwyddyn sylfaen, fodd bynnag, bydd gwariant ar y GIG yn Lloegr yn cynyddu 10.6 y cant erbyn 2020-21 yn nhermau arian parod. A ffigurau Llywodraeth y DU yw'r rhain, nid rhai a gynhyrchwyd gan Blaid Cymru. Oni cheir tro pedol ar ran Llywodraeth Geidwadol y DU, byddai hyn yn arwain at Gymru yn derbyn cynnydd yn y cyllid sy'n cyfateb i'r cynnydd yn Lloegr, sef cynnydd o £590 miliwn yn nhermau arian parod erbyn 2020-21, ar ôl caniatáu, wrth gwrs, am effaith ddrwgenwog gwasgfa Barnett. Bydd Cymru felly'n derbyn cynnydd o £590 miliwn o arian canlyniadol erbyn hynny. Bydd Plaid Cymru yn sicrhau cynnydd cyfatebol yn y gwariant drwy sicrhau cynnydd o'r un faint fan lleiaf yn y gwariant ar iechyd a gofal cymdeithasol yng nghyllideb Cymru. Rydym yn ymrwymo hefyd i gyflwyno treth ar ddiodydd llawn siwgr yn ystod y cyfnod hwn, a bydd hynny hefyd yn ychwanegu at gyllideb ein GIG yn yr amser hwnnw. Fel y soniodd y Gweinidog Cyllid yn gynharach wrth ateb cwestiynau, ni fyddwn yn gwybod tan yn ddiweddarach yr hydref hwn ym mha flwyddyn y bydd y symiau canlyniadol o arian ar gael. Ond os yw'r Canghellor yn cadw at ei air, ein hymrwymiad fydd gwario cyfanswm y dyraniad hwn ar y GIG a gofal yng Nghymru. Nid oes ffigyrau ariannol penodol i'w gweld yn y cynnig heddiw oherwydd ein bod yn ymdrechu i geisio cytundeb trawsbleidiol yma ar yr egwyddor y dylid cynyddu cyllid i wasanaethau iechyd a gofal yn ystod y pum mlynedd nesaf. Mae'r Gweinidog Iechyd ei hun, wrth gwrs, wedi datgan wrth y pwyllgor a'r Cynulliad hwn y dylai'r anghenion ariannu ychwanegol a nodwyd yn adroddiad Nuffield fod o fewn terfynau'r hyn sy'n bosibl.

Turning to the amendments this afternoon, we are happy to accept all three of the Lib Dem amendments. Safe staffing is crucial to ensuring good patient care. Mental health services do deserve, of course, parity of status within the service, and we must ensure better access to GPs.

Gan droi at y gwelliannau y prynhawn yma, rydym yn hapus i dderbyn pob un o'r tri gwelliant gan y Democratiaid Rhyddfrydol. Mae staffio diogel yn hanfodol i sicrhau gofal da i gleifion. Mae gwasanaethau iechyd meddwl, wrth gwrs, yn haeddu statws cydradd yn y gwasanaeth, a rhaid inni sicrhau gwell mynediad at feddygon teulu.

Now, of course, the Welsh Government has started to increase the budget over the last couple of years to the NHS, and we in Plaid Cymru played our own part in that with the establishment of the intermediate care fund—something we want to see mainstreamed in health and social care, and not an add-on, as currently, to any budget. However, we have to be honest that our relative position on spending per capita on health has deteriorated sharply over the past four years. Per capita spending on health in Wales has fallen from 105 per cent of the UK average in 2009-10 to 99 per cent of the UK average in 2013-14. That's a pretty significant shift. It is therefore a political commitment by Plaid Cymru that we will halt this downward trend in comparative funding for the NHS if we are elected into Government in May 2016.

Nawr, wrth gwrs, mae Llywodraeth Cymru wedi dechrau cynyddu'r gyllideb i'r GIG dros y ddwy flynedd ddiwethaf, ac rydym ni ym Mhlaid Cymru wedi chwarae ein rhan ein hunain yn hynny gyda sefydlu'r gronfa gofal canolraddol—rhywbeth rydym am ei weld yn cael ei brif-ffrydio ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, ac nid rhywbeth wedi'i ychwanegu at unrhyw gyllideb fel ar hyn o bryd. Fodd bynnag, mae'n rhaid i ni fod yn onest fod ein safle cymharol ar wariant y pen ar iechyd wedi dirywio'n sylweddol dros y pedair blynedd diwethaf. Mae gwariant y pen ar iechyd yng Nghymru wedi gostwng o 105 y cant o gyfartaledd y DU yn 2009-10 i 99 y cant o gyfartaledd y DU yn 2013-14. Dyna newid eithaf sylweddol. Felly, mae'n ymrwymiad gwleidyddol gan Blaid Cymru y byddwn yn atal y duedd hon ar i lawr mewn cyllid cymharol ar gyfer y GIG os cawn ein hethol yn Llywodraeth ym mis Mai 2016.

One of the greatest challenges for the next Welsh Government will be to strengthen and reform our NHS and care services. It will require the resources to do so. As a result of poor management and poor workforce planning by the current Labour Government, there are 25,000 more patients in Wales today waiting longer than 36 weeks for NHS treatment than four years ago. Local hospital services, as we know, are being threatened by centralisation in many parts of Wales. In terms of doctors, in Europe, only Slovenia, Romania and Poland have fewer doctors per head than us in Wales. Over the next 10 years, 24 per cent of GPs will be at retirement age.

Un o'r heriau mwyaf i Lywodraeth nesaf Cymru fydd cryfhau a diwygio ein GIG a'n gwasanaethau gofal. Bydd gofyn cael yr adnoddau i wneud hynny. O ganlyniad i reolaeth wael a chynllunio'r gweithlu gwael gan y Llywodraeth Lafur bresennol, mae 25,000 yn fwy o gleifion yng Nghymru heddiw yn aros mwy na 36 wythnos am driniaeth y GIG na phedair blynedd yn ôl. Mae gwasanaethau ysbytai lleol, fel y gwyddom, yn cael eu bygwth gan ganoli mewn sawl rhan o Gymru. O ran meddygon, yn Ewrop, Slofenia, Romania a Gwlad Pwyl yn unig sydd â llai o feddygon y pen na sydd gennym yng Nghymru. Dros y 10 mlynedd nesaf, bydd 24 y cant o feddygon teulu wedi cyrraedd oedran ymddeol.

Plaid Cymru is pledging today to make training and recruiting 1,000 extra doctors in Wales a key part of our programme for the next Welsh Government, and also to protect local health services and, crucially, integrate health and social care. They will be our priorities for the next Government of Wales. However, we won't repeat the mistakes of previous years and the past, when additional money has simply been allocated to LHBs without any relationship to a national strategic plan or outcomes expected to be achieved. If we did that, it would simply be wasted and may not result in the improvements we want to see. There are so many audit office reports that have highlighted waste and inefficient use of resources in the past in local health boards. As health committee members, we are reminded time and time again of the lack of a planned national strategic approach to a whole range of areas, such as workforce planning, the configuration of services, the integration of health and social care, investment in primary care services, the adoption of new technologies, and no national strategic approach. It is time for a national health service in Wales, not seven local health services.

Mae Plaid Cymru heddiw yn addo gwneud hyfforddiant a recriwtio 1,000 o feddygon ychwanegol yng Nghymru yn rhan allweddol o'n rhaglen ar gyfer Llywodraeth nesaf Cymru, a hefyd i ddiogelu gwasanaethau iechyd lleol ac yn hollbwysig, i integreiddio iechyd a gofal cymdeithasol. Dyna fydd ein blaenoriaethau ar gyfer Llywodraeth nesaf Cymru. Fodd bynnag, ni fyddwn yn ailadrodd camgymeriadau'r blynyddoedd blaenorol a'r gorffennol, pan gâi arian ychwanegol ei ddyrannu i Fyrddau Iechyd Lleol heb unrhyw gysylltiad â chynllun strategol cenedlaethol neu ganlyniadau y disgwylid eu cyflawni. Pe baem yn gwneud hynny, ni fyddai ond yn cael ei wastraffu ac efallai na fyddai'n arwain at y gwelliannau rydym yn awyddus i'w gweld. Mae cymaint o adroddiadau swyddfa archwilio wedi tynnu sylw at wastraff a defnydd aneffeithlon o adnoddau mewn byrddau iechyd lleol yn y gorffennol. Fel aelodau o'r pwyllgor iechyd, cawn ein hatgoffa dro ar ôl tro am ddiffyg dull o weithredu strategol cenedlaethol wedi'i gynllunio mewn ystod eang o feysydd, megis cynllunio'r gweithlu, cyfluniad gwasanaethau, integreiddio iechyd a gofal cymdeithasol, buddsoddi mewn gwasanaethau gofal sylfaenol, mabwysiadu technolegau newydd, ac ni cheir ymagwedd strategol genedlaethol. Mae'n bryd i ni gael gwasanaeth iechyd gwladol yng Nghymru, nid saith gwasanaeth iechyd lleol.

Plaid Cymru believes that health and social care should be a priority for additional financial resources over the next period of government, but we will also make it a priority to use the money effectively, to make the fundamental changes that are necessary, and to plan and run the NHS on a national basis, free to all in every part of Wales.

Cred Plaid Cymru y dylai iechyd a gofal cymdeithasol fod yn flaenoriaeth ar gyfer adnoddau ariannol ychwanegol dros y cyfnod nesaf o lywodraeth, ond byddwn hefyd yn rhoi blaenoriaeth i ddefnyddio'r arian yn effeithiol, er mwyn gwneud y newidiadau sylfaenol sydd eu hangen, ac i gynllunio a gweithredu'r GIG ar sail genedlaethol, am ddim i bawb ym mhob rhan o Gymru.

17:05

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I have selected the three amendments to the motion and I call on Kirsty Williams to move amendments 1, 2 and 3, tabled in the name of Aled Roberts.

Rwyf wedi dethol y tri gwelliant i'r cynnig a galwaf ar Kirsty Williams i gynnig gwelliannau 1, 2 a 3, a gyflwynwyd yn enw Aled Roberts.

*Gwelliant 1—Aled Roberts*

*Amendment 1—Aled Roberts*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn cydnabod pwysigrwydd buddsoddi mewn lefelau diogel staff nyrsio sy'n cael effaith sylweddol ar ofal cleifion a recriwtio a chadw staff.*

*Recognises the importance of investment in safe nurse staffing levels which have a significant impact on patient care and the recruitment and retention of staff.*

*Gwelliant 2—Aled Roberts*

*Amendment 2—Aled Roberts*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod cydraddoldeb ar gyfer gofal iechyd meddwl yn flaenoriaeth ar gyfer buddsoddi yn y gwasanaeth iechyd yng Nghymru yn y dyfodol.*

*Calls on the Welsh Government to ensure that parity for mental healthcare is a priority for future investment in the Welsh health service.*

*Gwelliant 3—Aled Roberts*

*Amendment 3—Aled Roberts*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod gwella mynediad i feddygon teulu yn flaenoriaeth ar gyfer buddsoddi yn y gwasanaeth iechyd yng Nghymru yn y dyfodol.*

*Calls on the Welsh Government to ensure improving access to GPs is a priority for future investment in the Welsh health service.*

*Cynigiwyd gwelliannau 1, 2 a 3.*

*Amendments 1, 2 and 3 moved.*

17:05

## Kirsty Williams Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru / The Leader of the Welsh Liberal Democrats*

Could I thank Plaid Cymru for tabling the motion this afternoon? I formally move the amendments in the name of Aled Roberts on behalf of the Welsh Liberal Democrat group.

A gaf fi ddiolch i Blaid Cymru am gyflwyno'r cynnig y prynhawn yma? Cynigiaf y gwelliannau yn ffurfiol yn enw Aled Roberts ar ran grŵp Democratiaid Rhyddfrydol Cymru.

The principle that lies behind the debate is not one that I would disagree with at all. I'm just concerned about the steps that we need to get there. First, we will absolutely need to ensure that the promises made by the Conservative Government to match the demands that the NHS in England have quite clearly stated they will need actually come to fruition, and although the promise has been made, I have yet to see any costed programme that actually delivers on that promise as we go forward. Of course, then we need to ensure that the appropriate resources come to Wales in a reformed formula, with the very least being the implementation of the Barnett floor to protect the value of any transfers that come from Westminster. And of course, that money is desperately needed, as identified by the Nuffield Trust in its report, 'A decade of austerity in Wales?' Whichever of the scenarios you choose to believe in that report—a combination of an ageing population, a rise in the number of people who suffer from a chronic disease, pay demands and pay rises for the staff who work in that organisation—that resource is going to be much needed, and we will have to put more money into the Welsh NHS.

Nid yw'r egwyddor sy'n sail i'r ddadl yn un y byddwn yn anghytuno â hi o gwbl. Rwy'n pryderu am y camau sydd eu hangen i ni gyrraedd yno. Yn gyntaf, yn bendant bydd angen i ni sicrhau bod yr addewidion a wnaed gan y Llywodraeth Geidwadol yn cyd-fynd â'r gofynion y mae'r GIG yn Lloegr wedi datgan yn ddigon clir y byddant eu hangen yn dwyn ffrwyth mewn gwirionedd, ac er bod yr addewid wedi'i wneud, rwyf eto i weld unrhyw raglen wedi'i chostio sy'n gwireddu'r addewid wrth inni symud ymlaen. Wrth gwrs, mae angen i ni sicrhau wedyn bod yr adnoddau priodol yn dod i Gymru mewn fformiwla ddiwygiedig, gan weithredu cyllid gwaelodol Barnett fan lleiaf er mwyn diogelu gwerth unrhyw drosglwyddiadau a ddaw o San Steffan. Ac wrth gwrs, mae dirfawr angen yr arian hwnnw, fel y nododd Ymddiriedolaeth Nuffield yn ei adroddiad, 'Degawd o galedi yng Nghymru?' Pa senario bynnag y dewiswch ei gredu yn yr adroddiad hwnnw—cyfuniad o boblogaeth sy'n heneiddio, cynnydd yn nifer y bobl sy'n dioddef o glefyd cronig, gofynion a chodiadau cyflog i'r staff sy'n gweithio yn y sefydliad—mae'r adnoddau'n mynd i fod yn fawr eu hangen, a bydd yn rhaid rhoi mwy o arian i mewn i'r GIG yng Nghymru.

However, I think we need also to exercise an element of caution. It will simply not be good enough—and I agree with the points Elin Jones made—simply to put more money in. Let's face it, the NHS in Wales could suck up every single penny that this Welsh Government has to spend and leave us with the resources to do nothing else. But that also ignores the fact that those resources do need to be spent on other services. Poor housing has a direct effect on people's health, as does a weak economy. It ignores the truth espoused once again recently in a new publication by Marmot, that it is the poorest in society that suffer the poorest levels of health, and if we continue to prop up the economic league tables, we will continue to have to spend more and more and more money on servicing the ill health that poverty brings. So, we need to ensure we get outputs from any resources that go in. That's why we've chosen these three specific amendments today.

Fodd bynnag, rwy’n credu bod angen inni arfer peth gofal hefyd. Ni fydd yn ddigon da—ac rwy’n cytuno â’r pwyntiau a wnaeth Elin Jones—inni wneud dim mwy na rhoi rhagor o arian i mewn. Gadewch i ni wynebu’r ffaith, gallai’r GIG yng Nghymru sugno pob ceiniog goch sydd gan y Llywodraeth hon i’w wario a’n gadael heb adnoddau i wneud dim arall. Ond mae hynny’n anwybyddu’r ffaith hefyd fod angen gwario’r adnoddau hynny ar wasanaethau eraill. Mae tai gwael yn effeithio’n uniongyrchol ar iechyd pobl, fel y mae economi wan. Mae’n anwybyddu’r gwir a leisiwyd eto yn ddiweddar mewn cyhoeddiad newydd gan Marmot, sef mai’r tlotaf mewn cymdeithas sy’n dioddef yr iechyd gwaethaf, ac os ydym yn parhau i gynnal y tablau cynghrair economaidd, byddwn yn parhau i orfod gwario mwy a mwy a mwy o arian ar drin y salwch y mae tlodi yn ei greu. Felly, mae angen inni sicrhau ein bod yn cael allbynnau o unrhyw adnoddau sy’n mynd i mewn. Dyna pam ein bod wedi dewis y tri gwelliant penodol hwn heddiw.

Safe staffing levels have been demonstrated not only to improve patient outcome and patient experience, it simply represents better value for money. In 2014 alone, Welsh Government, via trusts, spent £23 million-worth of Welsh taxpayers’ money on agency nurses, when all the academic evidence shows that those nurses are not as effective or as efficient in delivering care as a full-time member of staff. What we know from international experience is, where safe staffing laws have been introduced, nurses have come back into the system. So, it’s not only good news for patients, it's good news for taxpayers, too.

Dangoswyd bod lefelau staffio diogel nid yn unig yn gwella canlyniadau i gleifion a phrofiad cleifion, yn syml iawn mae’n sicrhau gwell gwerth am arian. Yn 2014 yn unig, gwariodd Llywodraeth Cymru, drwy’r ymddiriedolaethau, werth £23 miliwn o arian trethdalwyr Cymru ar nyrsys asiantaeth, pan fo’r holl dystiolaeth academaidd yn dangos nad yw’r nyrsys hynny mor effeithiol nac mor effeithlon am ddarparu gofal ag aelodau o staff amser llawn. Yr hyn a wyddom o brofiad rhyngwladol, lle y cyflwynwyd deddfau staffio diogel, yw bod nyrsys wedi dod yn ôl i mewn i’r system. Felly, mae’n newyddion da, nid yn unig i gleifion, ond i’r trethdalwyr hefyd.

And the same with mental health. How many people wait for early intervention at the first stages of mental distress? In my own constituency, you will wait six months before you can access any counselling at all, when the beginning of an onset of a mental health problem can have exacerbated hugely within that space of six months, often resulting in a costly in-patient episode of care. Therefore, actually addressing our mental ill-health services, again, is not only good news for the individual patients, but actually is an appropriate and an effective use of taxpayers’ money.

A’r un peth gydag iechyd meddwl. Faint o bobl sy’n aros am ymyrraeth gynnar ar y camau cyntaf o drallod meddwl? Yn fy etholaeth fy hun, fe fyddwch yn aros chwe mis cyn y gallwch gael unrhyw wasanaeth cwnsela o gwbl, a gallai problem iechyd meddwl sy’n cychwyn fod wedi gwaethygu’n ddirfawr mewn cyfnod o chwe mis, gan arwain yn aml at gyfnod costus o ofal i gleifion mewnol. Felly, unwaith eto, mae mynd i’r afael â’n gwasanaethau afiechyd meddwl nid yn unig yn newyddion da i’r cleifion unigol, ond mewn gwirionedd yn ddefnydd priodol ac effeithiol o arian y trethdalwyr.

And primary care—we have to find new ways of rebalancing the spending in the NHS away from acute services into primary care teams. Again, that’s where people want to be treated, and the experience of the virtual ward in south Powys demonstrates it also saves money.

A gofal sylfaenol—rhaid inni ddod o hyd i ffyrdd newydd o ailgydbwyso’r gwariant yn y GIG oddi wrth wasanaethau acíwt ac i mewn i dimau gofal sylfaenol. Unwaith eto, dyna lle y mae pobl eisiau cael eu trin, ac mae profiad y ward rithwir yn ne Powys yn dangos ei fod hefyd yn arbed arian.

We also need much more transparency in how money is spent in the NHS in Wales. Now, the Welsh Government has consistently set its face against a system of tariff, so we know what we’re paying for. Now, if they have, they need to come up with something instead, so we can have clarity on exactly how resources are being spent. We cannot ignore the issue of social care. To do so will only be reflected back into costs to the NHS itself.

Rydym angen llawer mwy o dryloywder hefyd o ran y modd y caiff arian ei wario yn y GIG yng Nghymru. Nawr, mae Llywodraeth Cymru wedi gwrthwynebu’n gyson system dariff a fyddai’n gadael inni wybod am beth rydym yn talu. Nawr, os ydynt wedi gwneud hynny, mae angen iddynt ddod o hyd i rywbeth yn ei lle, er mwyn inni gael eglurder ynglŷn â sut yn union y caiff adnoddau eu gwario. Ni allwn anwybyddu mater gofal cymdeithasol. Byddai gwneud hynny ond yn cael ei adlewyrchu’n ôl ar ffurf costau i’r GIG ei hun.

17:11 **Lindsay Whittle** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Well, it's clear that current levels of health funding cannot continue. In the last five years we've borne witness to levels of pressure placed upon our health services, the likes of which have not been seen in many, many years. We've watched as services have been mothballed or downgraded, and targets have been failed or simply abandoned altogether. In many cases, the basic covenant between citizen and health service has been betrayed, as the services so many people rely on have simply been unable to deliver.

Wel, mae'n amlwg na all y lefelau cyllido presennol ym maes iechyd barhau. Yn y pum mlynedd diwethaf rydym wedi gweld tystiolaeth o'r lefelau o bwysau a roddir ar ein gwasanaethau iechyd, pwysau na welwyd ei debyg ers nifer fawr iawn o flynyddoedd. Rydym wedi gweld gwasanaethau'n cael eu rhoi o'r neilltu neu eu hisraddio, a methiant i gyrraedd targedau neu dargedau'n cael eu hanghofio'n gyfan gwbl. Mewn llawer o achosion, mae'r cyfamod sylfaenol rhwng y dinesydd a'r gwasanaeth iechyd wedi cael ei fradychu, wrth i'r gwasanaethau y mae cymaint o bobl yn dibynnu arnynt fethu â chyflawni.

From the outset of this term, the Labour Government here has refused to take its reasonable share of responsibility in what's happened. The buck has been passed: to local health boards—'Oh, it's the Tories' fault'. Well, I might agree with the latter, an answer that, of course, is only half the story, and does, with respect, insult the intelligence of voters and Members of this Senedd. Plaid Cymru has therefore placed tackling this problem at the heart of what we want to achieve in Government. We understand that, until the United Kingdom Government's spending review, no firm numbers can be set in stone, but we all know that if there's an increase in health spending in England in real terms, the Government will receive a block grant increase that will reflect that English increase. The health service needs any extra money. It must be agreed in principle, as this debate sets out to do, that the Welsh NHS cannot cope with any further budgetary raids and reductions—that it is, indeed, at breaking point. It needs a boost over the course of the next Assembly term to stabilise and strengthen the service. It needs new ideas, too. The critical question is: do we believe that the NHS can continue on its current path of ever-declining services? Are we prepared to watch as more and more basic provisions end, such as out-of-hours GPs, which just this week have been announced as ending in the Rhondda and Cynon Valley hospitals? Are we prepared to continue to pass the buck as an ever-increasing feeling of crisis deepens as we approach the challenging winter months—winter months that, it seems, every year are predicted to be the worst we've ever had?

O ddechrau'r tymor hwn, mae'r Llywodraeth Lafur yma wedi gwrthod cymryd ei chyfran resymol o gyfrifoldeb am yr hyn sydd wedi digwydd. Mae'r baich wedi'i daflu at y byrddau iechyd lleol—'O, bai'r Torïaid yw'r cyfan.' Wel, efallai y byddwn yn cytuno gyda'r rhan olaf, ateb nad yw, wrth gwrs, ond yn hanner y stori, ac sydd, gyda phob parch, yn sarhau deallusrwydd pleidleiswyr ac Aelodau'r Senedd hon. Mae Plaid Cymru felly wedi gosod y gwaith o fynd i'r afael â'r broblem wrth wraidd yr hyn rydym am ei gyflawni yn y Llywodraeth. Hyd nes y cawn adolygiad o wariant Llywodraeth y Deyrnas Unedig, deallwn na ellir cadarnhau unrhyw rifau pendant, ond gŵyr pob un ohonom, os oes cynnydd mewn gwariant ar iechyd yn Lloegr mewn termau real, bydd y Llywodraeth yn derbyn cynnydd yn y grant bloc a fydd yn adlewyrchu'r cynnydd yn Lloegr. Mae angen unrhyw arian ychwanegol ar y gwasanaeth iechyd. Rhaid cytuno mewn egwyddor, fel y mae'r ddadl hon yn ceisio ei wneud, na all y GIG yng Nghymru ymdopi ag unrhyw ysbeilio pellach ar ei gyllid nac unrhyw ostyngiadau pellach—ei fod wedi cyrraedd y pen, yn wir. Mae angen rhoi hwb i'r gwasanaeth yn ystod tymor nesaf y Cynulliad i'w sefydlogi a'i gryfhau. Mae angen syniadau newydd hefyd. Y cwestiwn allweddol yw: a ydym yn credu y gall y GIG barhau ar ei lwybr presennol o wasanaethau sy'n parhau i ddirywio? A ydym yn barod i wylio wrth i fwy a mwy o ddarpariaethau sylfaenol ddod i ben, megis gwasanaeth meddygon teulu y tu allan i oriau, y cyhoeddwyd yr wythnos hon ei fod yn dod i ben yn ysbytai Rhondda a Chwm Cynon? A ydym yn barod i barhau i daflu'r baich wrth i'r teimlad cynyddol o argyfwng ddyfnhau a ninnau'n nesáu at fisoedd heriol y gaeaf—misoedd y gaeaf y rhagwelir bob blwyddyn, yn ôl pob golwg, y byddant yn waeth nag erioed o'r blaen?

Well, look, the status quo isn't good enough. We've got an opportunity with this debate to put on the record that all of us here, regardless of our political party, recognise that we have a problem in the NHS, and we're committed to tackling it. Not only do we owe that to the patients, but we owe it to the dedicated staff as well. I think we should agree in principle that any extra money as a result of increases on health spending in England will go to the NHS, and we send a message then to the people across our country that we understand their concerns, and if we can do something about them, we will.

Wel, edrychwch, nid yw'r sefyllfa bresennol yn ddigon da. Mae gennym gyfle yn y ddadl hon i gofnodi bod pob un ohonom yma, waeth beth yw ein plaid wleidyddol, yn cydnabod bod gennym broblem gyda'r GIG, a'n bod yn ymrwymo i fynd i'r afael â hi. Nid yn unig y mae arnom hynny i'r cleifion, ond mae'n ddyletswydd arnom i'r staff ymroddedig yn ogystal. Rwy'n meddwl y dylem gytuno mewn egwyddor y bydd unrhyw arian ychwanegol o ganlyniad i gynnydd yn y gwariant iechyd yn Lloegr yn mynd i'r GIG, a byddwn yn anfon neges drwy hynny at bobl ar draws ein gwlad ein bod yn deall eu pryderon, ac os gallwn wneud rhywbeth yn eu cylch, yna fe wnawn hynny.

We know that extra money could be found to improve our NHS now. The integration of health and social services has been discussed at length on previous occasions. The First Minister said at questions yesterday that social services and health services go hand in hand, but the truth is that the two services should have been merged a long, long time ago. That would take some of the pressure off the NHS and local government in recent years. The fact that the Government didn't do this, and didn't properly heed calls from us and others to do so, has exacerbated the situation in the NHS, and is one of the reasons why this debate is so important today. Social services are coming under increasing pressure from local government cuts and placing a great strain on health services. As part of a commitment to increase funding, all parties should also commit to the solving of the social services dilemma in a timely fashion, regardless of who forms the Government next year, because the status quo cannot continue. That's why we in Plaid Cymru are ready to take up the challenge when we are in power following May.

Gwyddom y gellid dod o hyd i arian ychwanegol i wella ein GIG yn awr. Mae integreiddio iechyd a gwasanaethau cymdeithasol wedi cael ei drafod yn helaeth ar achlysuron blaenorol. Dywedodd y Prif Weinidog wrth ateb cwestiynau ddoe fod gwasanaethau cymdeithasol a gwasanaethau iechyd yn mynd law yn llaw, ond y gwir yw y dylai'r ddau wasanaeth fod wedi'u cyfuno amser maith yn ôl. Byddai hynny wedi lleddfu peth o'r pwysau ar y GIG a llywodraeth leol yn y blynyddoedd diwethaf. Mae'r ffaith na wnaeth y Llywodraeth hyn, a'r ffaith na wrandawodd yn iawn ar alwadau oddi wrthym ni ac eraill i wneud hynny, wedi gwaethygu'r sefyllfa yn y GIG, ac mae'n un o'r rhesymau pam y mae'r ddadl hon mor bwysig heddiw. Mae gwasanaethau cymdeithasol yn dod o dan bwysau cynyddol yn sgil toriadau llywodraeth leol ac yn rhoi straen mawr ar wasanaethau iechyd. Fel rhan o ymrwymiad i gynyddu cyllid, dylai pob plaid hefyd ymrwymo i ddatrys dilema'r gwasanaethau cymdeithasol mewn modd amserol, waeth pwy sy'n ffurfio'r Llywodraeth y flwyddyn nesaf, oherwydd ni all y sefyllfa bresennol barhau. Dyna pam ein bod ni ym Mhlaid Cymru yn barod i wynebu'r her pan fyddwn mewn grym ar ôl mis Mai.

17:15

## Nick Ramsay Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I find myself in the worrying position of agreeing with most of what Lindsay Whittle said in his last contribution. The Welsh Conservatives are very pleased that Plaid Cymru has brought this motion forward today. You're right, Lindsay, it is a very important debate. It's a debate that we in the Welsh Conservatives have been bringing forward for a good number of years now. We've been calling for the protection of the health budget since the protection of the health budget happened following the 2010 election of the UK Government. It's something that should have happened a long time ago. What I'm detecting today in this debate is a gradual recognition, well, maybe not a recognition—I think the recognition has been there for a long time—but a gradual willingness to put the case forward, from other parties, for a greater amount of resource to go into that NHS.

Rwy'n gweld fy mod mewn sefyllfa anghysurus lle rwy'n cytuno â'r rhan fwyaf o'r hyn a ddywedodd Lindsay Whittle yn ei gyfraniad diwethaf. Mae'r Ceidwadwyr Cymreig yn falch iawn fod Plaid Cymru wedi cyflwyno'r cynnig hwn heddiw. Rydych chi'n iawn, Lindsay, mae'n ddadl bwysig iawn. Mae'n ddadl rydym ni yn y Ceidwadwyr Cymreig wedi bod yn ei chyflwyno ers nifer dda o flynyddoedd bellach. Rydym wedi bod yn galw am ddiogelu'r gyllideb iechyd ers i ddiogelu'r gyllideb iechyd ddigwydd yn dilyn etholiad Llywodraeth y DU yn 2010. Mae'n rhywbeth a ddylai fod wedi digwydd amser maith yn ôl. Yr hyn rwy'n ei ganfod heddiw yn y ddadl hon yw'r gydnabyddiaeth raddol, wel, efallai nad cydnabyddiaeth—credaf ei fod wedi'i gydnabod ers amser hir—ond parodrwydd graddol i gyflwyno'r achos, gan y pleidiau eraill, dros roi mwy o adnoddau i'r GIG.

I know that the—okay, I'll give way, yes.

Gwn fod y—iawn, fe ildiaf, gwnaf.

17:16

## Simon Thomas Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank the Member. I simply want to make the point that we are making a wider point here, which is that NHS and care have to go hand in hand when allocating resources. That perhaps could be a criticism of his position in the past, though I welcome him joining us now.

Diolch i'r Aelod. Rwyf ond eisiau nodi ein bod yn gwneud pwynt ehangach yma, sef bod yn rhaid i'r GIG a gofal fynd law yn llaw wrth ddyrannu adnoddau. Gallai hynny fod yn feirniadaeth ar ei safbwynt ef yn y gorffennol efallai, er fy mod yn croesawu'r ffaith ei fod yn ymuno â ni yn awr.

17:16 **Nick Ramsay** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I absolutely remain committed, and the Welsh Conservatives do, to our position on the NHS budget, and that is that the NHS budget, the hospital budget, should have been protected. That's it. I hear what you're saying about social services and the points made by Lindsay Whittle about the need for a bigger discussion about bringing social services and the NHS more closely together. Yes, let's have that, but—the point was made earlier—this hasn't happened yet. What we in the Welsh Conservatives will not allow to happen, and there is a big risk of this, is for that argument and arguments for other funding competition—other requirements for funding, I should say—to be allowed to take away increasing resource from the NHS. You have to start from the premise that the hospital budget, the NHS budget, in Wales should have been protected.

Rwy'n parhau i fod yn gwbl ymrwymedig, a'r Ceidwadwyr Cymreig hefyd, i'n safbwynt ar gyllideb y GIG, sef y dylid bod wedi diogelu cyllideb y GIG, y gyllideb ysbytai. Dyna ni. Rwy'n clywed yr hyn rydych yn ei ddweud am y gwasanaethau cymdeithasol a'r pwyntiau a wnaed gan Lindsay Whittle am yr angen am drafodaeth ehangach ynglŷn â dod â gwasanaethau cymdeithasol a'r GIG yn agosach at ei gilydd. Ie, gadewch i ni gael y drafodaeth honno, ond—gwnaed y pwynt yn gynharach—nid yw hyn wedi digwydd eto. Yr hyn nad ydym ni yn y Ceidwadwyr Cymreig am ganiatáu iddo ddigwydd, ac mae perygl mawr o hyn, yw i'r ddadl honno a dadleuon dros gystadleuaeth arall am gyllid—gofynion eraill am gyllid, dylwn ddweud—gael ei chaniatáu i fynd ag adnoddau cynyddol oddi wrth y GIG. Rhaid i chi ddechrau o'r cynsail y dylai'r gyllideb ysbytai, cyllideb y GIG yng Nghymru, fod wedi cael ei diogelu.

That said, I fully understand the pressures upon the Welsh Government finance Minister. I fully understand that you've had to debate with competing demands. No doubt at all if you want to protect one budget, then clearly you're going to find yourself in a position where other budgets are going to have to suffer. But, it is simply the case that, for the public, the NHS is the prime consideration. If you go by any measure of engagement with the public about what their priorities are, the NHS is up there at the top. Yes, education is a key priority; yes, the economy is a key priority; all these other competing demands. But, the NHS is the number one priority. The public don't feel that that has been appreciated by the Welsh Government for the last five years. Yes, over the last year, there has been additional funding and we have welcomed that. But, that has not replaced a proper, strategic, protection of the funding system of the NHS over the last few years. Unfortunately, as we know too well, and as other speakers have recognised, the Welsh NHS has found itself on the back foot and having to play catch-up while there has been this ongoing assertion that the budget has been protected in cash terms—we haven't heard that today, we might hear it later—while the actual reality is that the real-term protection of the health budget, taking into account inflation, has not happened. That has been swept under the carpet.

Wedi dweud hynny, rwy'n llwyr ddeall y pwysau sydd ar Weinidog Cyllid Llywodraeth Cymru. Rwy'n deall yn iawn eich bod wedi gorfod dadlau yn erbyn gofynion sy'n cystadlu. Nid oes amheuaeth o gwbl os ydych am ddiogelu un gyllideb, yna mae'n amlwg eich bod yn mynd i fod mewn sefyllfa lle y mae cyllidebau eraill yn mynd i orfod dioddef. Ond mae'n wir mai'r GIG yw'r brif ystyriaeth i'r cyhoedd. Os bernwch yn ôl unrhyw fesur o ymgysylltiad â'r cyhoedd ynglŷn â beth yw eu blaenoriaethau, mae'r GIG i fyny yno ar y brig. Ydy, mae addysg yn flaenoriaeth allweddol; ydy, mae'r economi yn flaenoriaeth allweddol; yr holl ofynion eraill hyn sy'n cystadlu. Ond y GIG yw'r brif flaenoriaeth. Nid yw'r cyhoedd yn teimlo bod Llywodraeth Cymru wedi gwerthfawrogi hynny dros y pum mlynedd diwethaf. Do, dros y flwyddyn ddiwethaf, cafwyd cyllid ychwanegol ac rydym wedi croesawu hynny. Ond nid yw hynny wedi cymryd lle diogelu system gyllido'r GIG yn briodol ac yn strategol dros y blynyddoedd diwethaf. Yn anffodus, fel y gwyddom yn rhy dda, ac fel y mae siaradwyr eraill wedi'i gydnabod, mae'r GIG yng Nghymru ar y droed ôl ac yn gorfod dal i fyny tra ceir yr honiad parhaus fod y gyllideb wedi'i diogelu yn nhermau arian parod—ni chlywsom hynny heddiw, efallai y byddwn yn ei glywed yn nes ymlaen—ond y realiti go iawn yw na ddiogelwyd y gyllideb iechyd mewn termau real, gan ystyried chwyddiant. Mae hynny wedi cael ei ysgubo o dan y mat.

If this debate achieves nothing else, let's get away from this idea that the NHS budget has somehow been protected, because as we all know, if you don't include inflation in that—and NHS inflation is running at a higher level—then the idea that protection has happened is simply a nonsense. If I were the new Labour leader, the new leader of the opposition in the UK, I'd have brought a shedload of e-mails into this Chamber with me, with questions for the Minister ranging from year-long waits for hip replacements—don't worry, I haven't brought e-mails in with me—to, of course, support for the cancer treatment petition that was brought to the Assembly earlier this year with 100,000 signatures. The point I'm making is that our postbags—and I know it's not just mine, it's many other AMs as well—are full on a day-to-day basis of concerns with the health service.

Os nad yw'r ddadl hon yn cyflawni dim arall, gadewch i ni ymbellhau oddi wrth y syniad fod cyllideb y GIG wedi'i diogelu rywsut, oherwydd fel y gŵyr pawb ohonom, os nad ydych yn cynnwys chwyddiant yn hynny—ac mae chwyddiant y GIG yn gweithredu ar lefel uwch—yna, yn syml iawn, mae'r syniad fod y gyllideb wedi'i diogelu yn nonsens. Pe bawn i'n arweinydd newydd y Blaid Lafur, arweinydd newydd yr wrthblaid yn y DU, byddwn wedi dod â llond sach o negeseuon e-bost gyda mi i'r Siambr hon, gyda chwestiynau i'r Gweinidog yn amrywio o amseroedd aros o flwyddyn o hyd am driniaeth i osod clun newydd—peidiwch â phoeni, nid wyf wedi dod â negeseuon e-bost i mewn gyda mi—i gefnogaeth i'r ddeiseb triniaeth canser a gyflwynwyd i'r Cynulliad yn gynharach eleni ac a oedd yn cynnwys 100,000 o lofnodion. Y pwynt rwy'n ei wneud yw bod ein bagiau post yn llawn o bryderon yn ddyddiol ynglŷn â'r gwasanaeth iechyd, ac rwy'n gwybod nad fy un i'n unig sydd felly, mae'n wir am lawer o ACau eraill hefyd.

We have a duty to those people who we represent, who we aspire to represent here, to recognise that this is a real concern to them. I do agree with Plaid Cymru that warm words are not enough. Yes, let's get on with that vital task in the future of trying to help the NHS deal better with the ever-growing demands on it. Let's try and build bridges between the social care agenda and the NHS agenda. Let's do all of those things. And, let's try, as Kirsty Williams said, to allow people to be treated at the lowest possible level out there is the community. All of these things will help. All of these things are going to be necessary. But, none of this will help unless you recognise the key basic point, which is that you have to fund the NHS effectively in the first instance, particularly if you want to reduce private money going into the NHS. You can't have it every way. Yes, we are happy to support this motion, but make sure the NHS is properly funded at the outset.

Mae gennym ddyletswydd i'r bobl hynny rydym yn eu cynrychioli, y bobl rydym yn anelu i'w cynrychioli yma, i gydnabod bod hwn yn destun pryder gwirioneddol iddynt. Rwy'n cytuno â Phlaid Cymru nad yw geiriau teg yn ddigon. Ie, gadewch i ni fwrw ymlaen â'r dasg hollbwysig yn y dyfodol o geisio helpu'r GIG i ymdopi'n well â'r gofynion cynyddol arno. Gadewch i ni geisio adeiladu pontydd rhwng yr agenda gofal cymdeithasol ac agenda'r GIG. Gadewch i ni wneud yr holl bethau hynny. Ac fel y dywedodd Kirsty Williams, gadewch i ni geisio caniatáu i bobl gael triniaeth ar y lefel isaf bosibl allan yn y gymuned. Bydd pob un o'r pethau hyn yn helpu. Mae pob un o'r pethau hyn yn mynd i fod yn angenrheidiol. Ond ni fydd dim o hyn yn helpu oni bai eich bod yn cydnabod y pwynt sylfaenol allweddol, sef bod yn rhaid i chi gyllido'r GIG yn effeithiol yn y lle cyntaf, yn enwedig os ydych am gyfyngu ar yr arian preifat sy'n mynd i mewn i'r GIG. Ni allwch ei chael hi bob ffordd. Ydym, rydym yn hapus i gefnogi'r cynnig hwn, ond gwnewch yn siŵr fod y GIG yn cael ei ariannu'n gywir ar y cychwyn.

17:20

## Llyr Gruffydd Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Rwyf yn teimlo ei bod hi'n addas iawn fy mod i'n cael y cyfle i gyfrannu heddiw, fel Aelod dros Ogledd Cymru, wrth inni drafod materion iechyd, a hynny, wrth gwrs, fel rŷm ni wedi clywed eisoes heddiw, ar y canfed diwrnod ers i Fwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr gael ei osod mewn mesurau arbennig.

I think that it's very appropriate that I have the opportunity to contribute today, as a Member representing North Wales, discussing health issues and, as we've already heard, on the hundredth day since the Betsi Cadwaladr University Local Health Board was placed in special measures.

Rŷm ni'n gwybod, wrth gwrs, fod gogledd Cymru yn ardal eang iawn ac yn ardal wledig iawn, fel y mae'r gorllewin a'r canolbarth, ac felly wrth gwrs yn wynebu heriau ychwanegol o safbwynt darpariaeth gwasanaethau. Nawr, yr ymateb rŷm ni wedi ei gael oddi wrth y Llywodraeth a'r byrddau iechyd hyd yma, wrth gwrs, yw symud i ganoli gwasanaethau a gosod rhyw fath o fodel dinesig o ddarparu gwasanaethau iechyd ar ardaloedd nad ydynt yn gydnaws, mewn gwirionedd, â'r math yna o wasanaeth—gwasanaethau nad ydynt yn cymryd i ystyriaeth materion daearyddol o safbwynt pellter teithio, a'r disgwyliad i bobl i orfod mynd ymhellach i gael mynediad at y gwasanaethau hynny; diffyg trafnidiaeth cyhoeddus, wrth gwrs, sy'n realiti mewn nifer o ardaloedd ar draws Cymru; a'r pwysau ychwanegol y mae hynny yn ei osod ar wasanaethau ambiwlans hefyd, yn enwedig yn y gogledd, lle mae rhai llwybrau trafnidiaeth allweddol yn gallu bod yn fregus iawn, megis yr A55, pan fydd damwain yn digwydd.

We know, of course, that north Wales is a very large area, a very rural area, as are west and mid Wales, and therefore faces additional challenges in terms of the provision of services. Now, the response that we've received from Government and the health boards to date, of course, is to move towards centralising services and establishing an urban model of health service provision in areas where that is not appropriate—services that do not take into account geographic issues in terms of travel distances, and the expectation that people will have to travel further to access those services; the absence of public transport, of course, which is a reality in many areas across Wales; and the additional pressure that that places on ambulance services also, particularly in north Wales, where there are some key transport routes that can be very vulnerable, such as the A55, when accidents do occur.

Mae canoli ac israddio gwasanaethau brys, fel mamolaeth a gofal dwys babanod, wrth gwrs, wedi achosi pryder eithriadol yn y gogledd, gyda'r Llywodraeth yn peidio â gwneud digon, yn amlwg, i leddfu'r pryderon sydd wedi cael eu codi yn y cyd-destun hynny. Rŷm ni hefyd wedi gweld trafferthion sylfaenol gyda rheoli heintiau, problemau o fewn gwasanaethau iechyd meddwl, a phroblemau recriwtio dybryd hefyd. Nid ateb syml yw jest taflu arian at rai o'r problemau hynny; yn sicr, mae angen mwy na hynny. Nid pres yw'r unig ateb, ond nid oes yna dim amheuaeth bod yna le i sicrhau bod yna fwy o arian pan fydd y cyfle yn codi i ddarparu'r cyllid hwnnw a'i neilltuo i fynd i'r afael â rhai o'r problemau sydd wedi cael eu hamlinellu. Mae chwyddiant iechyd, wrth gwrs, yn uwch na chwyddiant cyffredinol oherwydd costau cyffuriau a'r galw cynyddol oherwydd bod pobl yn byw yn hirach. Dim ond ddoe fe glywom ni gan y Gweinidog Cymunedau a Threchi Tlodi y gwirionedd o safbwynt demograffeg sy'n newid. Hynny yw, erbyn 2026, bydd bron i chwarter o boblogaeth Cymru dros 65 oed ac un o bob 20 dros 85 oed, a llawer o'r rheini, wrth gwrs, â chyflyrau iechyd cymhleth, megis dementia, ac yn y blaen.

Centralising and downgrading emergency services such as neonatal services and maternity services, have created huge concerns in north Wales, with the Government not doing enough to alleviate the concerns that have been raised in that context. We have also seen basic difficulties with disease management, problems in mental health services, and serious recruitment problems. There isn't a simple solution in just throwing money at some of those problems; certainly, more is needed. Money isn't the only solution, but there is no doubt that there is scope to ensure that there is more funding available when the opportunity arises to make that funding available in order to tackle some of the problems that have been highlighted this afternoon. Health inflation is higher than ordinary inflation because of the cost of drugs and the cost of people living longer. It was only yesterday that we heard from the Minister for Communities and Tackling Poverty the reality in terms of the changing demographics. That is, by 2026, almost 25 per cent of the Welsh population will be over 65 and one in 20 will be over 85, and many of those will have complex medical needs, such as dementia and so on.

Un broblem sylfaenol yn y gogledd, wrth gwrs, yw'r arian sy'n cael ei wario ar hyn o bryd ar staffio dros dro—£7 miliwn ar ddoctoriaid a £14 miliwn ar staff o asiantaethau yn y flwyddyn ddiwethaf yn unig. Mae'r rhain yn gallu bod, wrth gwrs, hyd at dair gwaith yn ddrytach i'w cyflogi na chyflogi staff llawn amser. Mae hynny yn dod â ni yn ôl at y pwynt a wnaethpwyd ar y cychwyn gan Elin Jones ynglŷn â'r pwysigrwydd o fynd i'r afael â recriwtio a datrys y broblem honno, fel y mae Plaid Cymru, wrth gwrs, yn awgrymu y gellir ei wneud. Pam nad oes mwy o hyfforddi doctoriaid yn digwydd yn y gogledd—naill ai trwy Ddeoniaeth Cymru neu Ddeoniaeth Merswy? Pam nad oes yna gynllun uchelgeisiol i alluogi nyrsys i hyfforddi fel 'advanced nurse practitioners' er mwy cwrdd â pheth o'r gofynion ychwanegol yma nad ydynt yn cael eu hateb?

One fundamental problem in north Wales is the funding spent at present on temporary staff—£7 million on doctors and £14 million on agency staff in the last year alone. These can of course be three times more expensive than employing full-time staff in those posts. That brings us back to the point made at the outset by Elin Jones on the importance of tackling the recruitment issue and solving that problem, as Plaid Cymru, of course, is suggesting could be done. Why isn't there more medical training in north Wales, for example, either through the Wales Deanery or the Mersey Deanery? Why isn't there an ambitious plan to train nurses as advanced nurse practitioners in order to meet some of these additional demands that are currently not being addressed?

Pam fod yna brinder nyrsys ac, ar yr un pryd, llai yn cael eu hyfforddi yn y brifysgol rŵan o gymharu â phedair blynedd yn ôl? Faint o gost ychwanegol yw hi i fwrdd iechyd Betsi Cadwaladr, er enghraifft, i fynd i Sbaen i ganfod nyrsys o fanna bob blwyddyn? Mae angen gwneud mwy i sicrhau cydweithio rhwng Betsi Cadwaladr, y prifysgolion, y 'deaneries', y colegau brenhinol, ac yn y blaen, i ganfod atebion, ac mae angen i'r Llywodraeth fod yn cnocio pennau at ei gilydd ac yn arwain, yn hytrach na dilyn. Felly, mae'r angen i fuddsoddi a sicrhau'r cyllid i fuddsoddi mewn hyfforddiant yn gwbl, gwbl allweddol.

Why, when there is a shortage of nurses, are fewer being trained at the university as compared to four years ago? How much of an additional cost is there for the Betsi Cadwaladr health board, for example, to go to Spain to recruit nurses there on an annual basis? We need to do more to ensure collaboration between Betsi Cadwaladr, the universities, the deaneries, the royal colleges and so on, to actually find solutions, and the Government needs to knock some heads together and to take a leadership role rather than following. The need to invest and to secure funding to invest in training is crucially important.

I'd just like to conclude with a few remarks around parity of funding for mental health. The extra investment would enable us, for example, to treat mental health more effectively and address the historical under-investment in the service so that we can realise parity of esteem. Now, parity of esteem, of course, means that, if I become unwell, I use services that assess and treat mental health disorders and conditions that are on a par with physical health illnesses. Mental health problems account for around a quarter of the total burden of disease, yet despite the existence of cost-effective treatment, it receives substantially less NHS health expenditure.

Hoffwn gloi gyda rhai sylwadau ynghylch cydraddoldeb o ran cyllid i iechyd meddwl. Byddai'r buddsoddiad ychwanegol yn ein galluogi, er enghraifft, i drin iechyd meddwl yn fwy effeithiol a mynd i'r afael â'r tanfuddsoddi hanesyddol yn y gwasanaeth er mwyn inni allu sicrhau parch cydradd. Nawr, mae parch cydradd, wrth gwrs, yn golygu, os af yn sâl, fy mod yn defnyddio gwasanaethau sy'n asesu ac yn trin anhwylderau a chyflyrau iechyd meddwl sydd ar yr un lefel â gwasanaethau afiechyd corfforol. Problemau iechyd meddwl yw tua chwarter o gyfanswm y baich afiechyd, ac eto er gwaethaf bodolaeth triniaethau costeffeithiol, mae'n cael cryn dipyn yn llai o wariant iechyd y GIG.

Huge proportions of people with mental health problems get no treatment at all. Only a third of people with depression get treatment, and even fewer, of course, get the right treatment. We need, in particular, to improve access to talking therapies and end the dependency on medication although, clearly, medication should continue where that's appropriate. Waiting lists, in particular for children, remain too high. The Children, Young People and Education Committee's report on CAMHS found that demand had doubled in the four years leading up to the report. Capacity wasn't sufficient to meet demand, there was a significant unmet need for people who don't meet a medical model, and the committee found that spending had remained roughly the same, or at the same proportion, despite an increase due to adding 16 to 18-year-olds to the population covered by the services. So, I'd urge the Government to support our motion to make sure that those types of services receive the funding that they deserve.

Mae cyfrannau mawr iawn o bobl â phroblemau iechyd meddwl nad ydynt yn cael unrhyw driniaeth o gwbl. Traean yn unig o'r bobl sy'n dioddef o iselder sy'n cael triniaeth, a hyd yn oed llai, wrth gwrs, yn cael y driniaeth gywir. Mae arnom angen gwella mynediad at therapïau siarad, yn arbennig, a rhoi diwedd ar y ddibyniaeth ar feddyginiaethau er ei bod yn amlwg y dylai meddyginiaeth barhau lle y bo'n briodol. Mae rhestrau aros, yn arbennig ar gyfer plant, yn parhau i fod yn rhy faith. Gwelodd adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg Ifanc ar CAMHS fod y galw wedi dyblu yn y pedair blynedd cyn llunio'r adroddiad. Nid oedd y capasiti'n ddigon i ateb y galw, roedd angen sylweddol heb ei ddiwallu o ran pobl nad ydynt yn cyd-fynd â model meddygol, a gwelodd y pwyllgor fod gwariant wedi aros fwy neu lai yr un fath, neu ar yr un gyfran, er gwaethaf cynnydd yn sgil ychwanegu pobl rhwng 16 a 18 oed at y boblogaeth y mae'r gwasanaethau yn darparu ar eu cyfer. Felly, byddwn yn annog y Llywodraeth i gefnogi ein cynnig i wneud yn siŵr fod y mathau hynny o wasanaethau yn cael y cyllid y maent yn ei haeddu.

17:25 **Alun Ffred Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Wrth drafod gofal iechyd a gofal yn gyffredinol, mae yna ddwy thema yn codi dro ar ôl tro: faint o arian ychwanegol sydd ei angen i ddiwallu'r angen sy'n cynyddu yn ddiddiwedd, ac, yn ail, rydym yn naturiol yn canolbwyntio ar fethiannau—rhai o'r rheini, wrth gwrs, yn ddifrifol iawn—a gwendidau ac arafwch y gwasanaeth. Mi hoffwn i ailddatgan ar y dechrau fan hyn fod y rhan fwyaf o gleifion yn fy mhrofiad i yn derbyn gwasanaeth da, ac yn aml iawn mae'r gofal yn gallu bod yn ardderchog. Ond, mae'r strwythurau dan straen yn sicr ac mae prinder staff—staff nyrsio yn amlwg, a phrinder meddygon canolradd a rhai arbenigeddau—a diflaniad meddygon teulu o gefn gwlad ac o rai ardaloedd trefol hefyd, yn amlwg yn themâu cyson ac yn gwynion rŷm ni'n eu derbyn o hyd fel Aelodau.

In talking about healthcare and general care, there are two themes that arise time and time again: how much additional funding is needed to meet the need that increases endlessly, and, secondly, we naturally focus on failures—and those can be very serious—and weaknesses and the slowness of the service. I'd like to restate at the beginning here that the majority of patients, in my experience, receive good care, and very often the care can be excellent. But, the structures are under pressure and the shortage of staff—nursing staff and middle-grade doctors and some specialist doctors—and the disappearance of GPs from rural areas and some urban areas are obviously constant themes, and constant complaints that we receive as Members.

Felly, gan gyfeirio at y sefyllfa yn y gogledd i ddechrau, lle mae'r pryderon uchod i gyd yn ffeithiau real, ac hefyd lle y bydd ailstrwythuro a chau ambell i ysbyty leol yn cyfrannu dim mewn gwirionedd i ateb yr angen yma i gynllunio'n iawn ar gyfer dyfodol gwell i'n gwasanaeth iechyd. Un cynllun uchelgeisiol mae Plaid Cymru yn ei hyrwyddo ydy sefydlu ysgol feddygol i ogledd Cymru fel rhan o ddatrysiad Cymru gyfan—ac rwy'n pwysleisio hynny. Ie, ysgol hyfforddi feddygol i'r gogledd, ond hefyd fel rhan o ddatrysiad Cymru gyfan. Fe allwn ni drafod union ffurf a strwythur ysgol feddygol o'r fath eto, ond mi fyddai buddsoddiad o'r fath yn gallu newid holl gyd-destun gofal iechyd yn y gogledd. Mi fyddai'n gallu denu arbenigwyr blaengar, a'r rheini yn rhannu amser rhwng hyfforddi, ymchwilio a gweithio o fewn y gwasanaeth. Ac mi fyddai hynny yn ei dro yn gwella ansawdd y gwasanaeth hwnnw, ac yn datblygu arbenigeddau penodol. Mi fyddai hefyd yn gyfle i fyfyrwyr lleol sydd, ar hyn o bryd, yn methu cael lle yng ngholegau Cymru i wneud o leiaf ran o'r hyfforddi yn y gogledd, heb sôn am ddenu myfyrwyr disglair hefyd i'r ardal, gan obeithio y byddai rhai o'r rheini yn eu tro, wrth gwrs, yn aros ymlaen.

In referring to the situation in north Wales, where the concerns noted exist, and also where the restructuring and the closure of some local hospitals will contribute nothing in all honesty to meeting the need to plan appropriately for a better future for our health services. One ambitious scheme that Plaid Cymru is promoting is the establishment of a medical school for north Wales as part of an all-Wales solution—and I emphasise that. Yes, a medical training school for the north, but also as part of an all-Wales solution. We can talk about the exact structure and model of this school on another occasion, but an investment of this kind could change the whole context of healthcare in the north. It would be able to attract specialists, and they would divide their time between training, research and working within the service. And that would in turn improve the quality of the service, and would develop specific expertise. It would also be an opportunity for local students who at present can't get a place in colleges in Wales to undertake at least some of their training in the north, without mentioning attracting bright students to the area, in the hope that those in turn would stay on.

Mae yna sgil-effeithiau cadarnhaol eraill, ac mae gwir angen newid delwedd gofal iechyd yn y gogledd. Hynny ydy, pwy mewn gwirionedd—pwy mewn difri—sydd yn mynd i ddod i weithio i ardal sy'n ymddangos fel pe bai mewn creisis parhaus o ran y gwasanaeth iechyd? Mae'r ddadl o blaid creu ysgol feddygol, rwy'n credu, yn un ddiateb. Hynny ydy, nid oes dewis arall ac mae'n gyfle euraidd i greu strwythur cynaliadwy yn y gogledd a chyfrannu at ddatrysiad Cymru gyfan.

There are other positive effects, and we need to change the image of healthcare in north Wales. So, who in actuality is going to come to work in an area that appears to be in a constant crisis in terms of health services? The argument in favour of creating a medical school is one that I think can't be contradicted. There is no other option and it's a golden opportunity to create a sustainable structure in north Wales to contribute to an all-Wales solution.

Yr agwedd arall rwyf eisiau cyfeirio'n fyr ati sydd angen ei datblygu i'r eithaf ydy telefeddygaeth. Mae hynny er budd ardaloedd gwledig ond hefyd ar gyfer trefi a phentrefi sydd ymhell o'r canolfannau arbenigol. Mae teithio ymhell yn boen ac yn dreth ar gleifion a'u teuluoedd. Cymaint yn well fyddai i gleifion fynd i ganolfan iechyd leol am brofion, ac hefyd allu trafod y canlyniadau drwy gyswllt electronig gyda'r arbenigwyr. Mae swyddfa archwilydd yr Alban yn ddiweddar wedi nodi tri achos llwyddiannus o delefeddygaeth yn y wlad honno, ac mae'n werth cyfeirio at un ohonyn nhw, sef profion ar gyfer dioddefwyr strôc i weld a oes angen triniaeth thrombolysis—os rwy'n dweud y gair yn iawn. Oherwydd telefeddygaeth, mae pedwar bwrdd yn y gwasanaeth iechyd yn yr Alban yn gallu cynnig y gwasanaeth hwn am y tro cyntaf, a hynny am 24 awr y dydd. Maen nhw'n osgoi trosglwyddo'r claf i'r pumed bwrdd, lle mae'r arbenigwyr wedi'i lleoli. Mae yna fanteision di-ri yn deilio o hyn—mae'r archwilydd yn nodi bod yna ostyngiad yn yr amseroedd aros a hefyd, wrth gwrs, gostyngiad yn amser teithio a chost i'r claf, ac mae'n galluogi'r gwasanaeth i flaenoriaethu gwasanaethau yn llawer iawn gwell. Enghraifft ydy honno yn unig, ac mae gwir angen datblygu'r arbenigedd yma o fewn yn ein gwasanaeth iechyd yma yng Nghymru. Diolch yn fawr.

Another aspect that I wish to refer to that needs to be developed to the fullest is telemedicine. This would benefit rural areas especially, but also towns and villages that are far from the urban centres. Travel is taxing for patients and their families. It would be much better for patients to go to a local centre for tests, and then to be able to discuss those results with experts via electronic means. The audit office in Scotland recently has noted three examples of successful telemedicine in that country, and it's worth mentioning one, that is, tests for stroke patients to see whether they need thrombolysis treatment—if I pronounced that correctly. Due to telemedicine, four boards in the health service in Scotland are able to offer this service for the first time, and that on a 24-hour basis. They avoid transferring the patient to the fifth board, where the experts are located. A whole host of advantages arise from this—the auditor notes that there's a reduction in waiting times and also, of course, there's a reduction in travel times and cost for the patient, and it enables the service to prioritise services in a much better way. That's just one example, and there is a need to develop this expertise within our health service here in Wales. Thank you very much.

17:30

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call the Minister for Finance and Government Business, Jane Hutt.

Galwaf ar y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth, Jane Hutt.

17:30

## Jane Hutt Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth / The Minister for Finance and Government Business*

Thank you, Deputy Presiding Officer. I welcome today's debate as an opportunity for this Assembly to discuss and think carefully about how we respond to the continuing challenges to our budget, which has been reduced year on year by the UK Government. This year, we do face the unprecedented uncertainty with the delay to the spending review until 25 November. I know it's recognised, and it's been said today, that it would be difficult, if not irresponsible, to make spending commitments before we know the full settlement of the spending review. And also it's equally important that we recognise we can't look at positive consequentials in relation to health in isolation. But I can be clear today about the priorities of this Welsh Government, which are informing our planning. This Government has a strong record of investment in the NHS, and we will continue to prioritise the national health service.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Rwy'n croesawu'r ddadl heddiw fel cyfle i'r Cynulliad hwn drafod a meddwl yn ofalus ynglŷn â sut yr ydym yn ymateb i'r heriau parhaus i'n cyllideb, sydd wedi cael ei lleihau o flwyddyn i flwyddyn gan Lywodraeth y DU. Eleni, rydym yn wynebu ansicrwydd mwy nag erioed gyda'r oedi tan 25 Tachwedd cyn yr adolygiad o wariant. Rwy'n gwybod ei fod wedi'i gydnabod, ac mae wedi cael ei ddweud heddiw, y byddai'n anodd, os nad yn anghyfrifol, i ni wneud ymrwymiadau gwario cyn ein bod yn gwybod beth fydd setliad llawn yr adolygiad o wariant. Ac mae hi'r un mor bwysig i ni gydnabod hefyd na allwn edrych ar symiau canlyniadol cadarnhaol mewn perthynas ag iechyd ar ei ben ei hun. Ond gallaf fod yn glir heddiw ynghylch blaenoriaethau'r Llywodraeth hon, sy'n llywio ein cynlluniau. Mae gan y Llywodraeth hanes cadarn o fuddsoddi yn y GIG, a byddwn yn parhau i flaenoriaethu'r gwasanaeth iechyd gwladol.

I want to make two points. Firstly, we've invested an additional £1 billion in NHS Wales over the last two years. This includes £70 million additional funding in this financial year to take forward the transformation of services, which Elin and Kirsty have talked about, with an emphasis on investing in the development of primary and community care services. This year, investment in our health service has reached record levels, with over £6.7 billion allocated to the health and social services major expenditure group. Our record investment means that there are more doctors, nurses, midwives, paramedics and dental staff working in the Welsh NHS today than there were 10 years ago. The second point is that, throughout this administration, we have emphasised the links between health and social services. We have been clear that you can't invest in one at the expense of the other. This has meant that social services spend in Wales has grown and, on a combined basis, health and social services expenditure in Wales in 2013-14 was 5 per cent higher per head in Wales than in England. Combined public spending on health and social services in Wales in 2013-14 was £2,538 per head of the population, £120 per head higher than in England. Elin Jones drew this disparity in terms of our position in relation to England to our attention again today.

Rwyf am wneud dau bwynt. Yn gyntaf, rydym wedi buddsoddi £1 biliwn yn ychwanegol yn y GIG yng Nghymru dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Mae hyn yn cynnwys £70 miliwn o gyllid ychwanegol yn y flwyddyn ariannol hon i symud ymlaen â'r gwaith o weddnewid gwasanaethau, y siaradodd Elin a Kirsty amdano, gyda phwyslais ar fuddsoddi yn y gwaith o ddatblygu gwasanaethau gofal sylfaenol a chymunedol. Eleni, mae buddsoddiad yn ein gwasanaeth iechyd wedi cyrraedd y lefelau uchaf erioed, gyda thros £6.7 wedi'i ddyrannu i brif grŵp gwariant iechyd a gwasanaethau cymdeithasol. Mae ein buddsoddiad mwyaf erioed yn golygu bod mwy o feddygon, nyrsys, bydwragedd, parafeddygon a staff deintyddol yn gweithio yn y GIG yng Nghymru heddiw nag a oedd 10 mlynedd yn ôl. Yr ail bwynt yw ein bod, drwy gydol y weinyddiaeth hon, wedi pwysleisio'r cysylltiadau rhwng iechyd a gwasanaethau cymdeithasol. Rydym wedi bod yn glir na allwch fuddsoddi mewn un ar draul y llall. Mae hyn wedi golygu bod gwariant ar y gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru wedi cynyddu ac ar sail gwariant cyfunol, roedd gwariant ar iechyd a gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru 5 y cant yn uwch y pen yng Nghymru nag yn Lloegr yn 2013-14. Roedd gwariant cyhoeddus cyfunol ar iechyd a gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru yn 2013-14 yn £2,538 y pen o'r boblogaeth, £120 y pen yn uwch nag yn Lloegr. Tynnodd Elin Jones sylw at y gwahaniaeth hwn rhwng ein sefyllfa ni a Lloegr eto heddiw.

We've consistently discussed the need to take an integrated approach to health and social services, and we are taking action to consider the health and social services budget in the round, which I know is the key purpose of your motion. The pioneering—and it is pioneering—intermediate care fund, which was the result of budget agreements with Plaid Cymru and the Welsh Liberal Democrats, did provide that £50 million across Wales to deliver a programme of work that is making a real difference to older people across Wales. Regional partnerships working across social care, health, housing, third and independent sector partners are using this funding to deliver schemes to support the frail and elderly through innovation or improving on existing best practice. Although the scheme was for one year only, some of these schemes are being supported through the further £20 million of funding for this year and in recurring years. This bringing together of partners with agreed shared objectives has seen a radical improvement in the design and delivery of health and social care—innovation as well as investment. This is in stark contrast, of course, to the UK Conservative Government, which does not consider health and social services in the round, with swingeing reductions to local authority budgets in England. Many of us on this side of the Chamber have said over the past five years that health cannot be looked at in isolation from other spending areas—from social services to housing—and, of course, that's vital to address the health inequalities; Kirsty Williams also called to our attention, again, Professor Marmot's recent report.

Rydym wedi trafod yn gyson yr angen i feithrin agwedd integredig tuag at iechyd a gwasanaethau cymdeithasol, ac rydym yn rhoi camau ar waith i ystyried y gyllideb iechyd a gwasanaethau cymdeithasol yn ei chyfanrwydd, a gwn mai dyna yw pwrpas allweddol eich cynnig. Roedd y gronfa gofal canolraddol arloesol—ac mae'n arloesol—a ddeilliodd o gytundebau cyllideb gyda Phlaid Cymru a Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, yn darparu £50 miliwn ledled Cymru i gyflwyno rhaglen o waith sy'n gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i bobl hŷn ledled Cymru. Mae partneriaethau rhanbarthol sy'n gweithio ar draws y sector gofal cymdeithasol, y sector tai, y trydydd sector a'r sector annibynnol yn defnyddio'r arian hwn i gyflwyno cynlluniau i gefnogi pobl fregus ac oedrannus drwy arloesi neu wella arferion gorau sy'n bodoli eisoes. Er mai cynllun blwyddyn oedd hwn i fod, mae rhai o'r cynlluniau hyn yn cael eu cefnogi drwy'r £20 miliwn pellach o gyllid ar gyfer eleni ac mewn blynyddoedd cylchol. Mae dod â phartneriaid sy'n rhannu amcanion a gytunwyd at ei gilydd yn y ffordd hon wedi arwain at welliant radical yn y broses o gynllunio a darparu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol—arloesedd yn ogystal â buddsoddiad. Mae hyn mewn gwrthgyferbyniad llwyr, wrth gwrs, â Llywodraeth Geidwadol y DU, nad yw'n ystyried iechyd a gwasanaethau cymdeithasol yn eu cyfanrwydd, gyda gostyngiadau llym i gyllidebau awdurdodau lleol yn Lloegr. Mae llawer ohonom ar yr ochr hon i'r Siambr wedi dweud dros y pum mlynedd diwethaf nad oes modd edrych ar iechyd wedi'i ynysu rhag meysydd gwariant eraill—o wasanaethau cymdeithasol i dai—ac wrth gwrs, mae hynny'n hanfodol er mwyn mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd; tynnodd Kirsty Williams ein sylw eto hefyd at adroddiad diweddar yr Athro Marmot.

The unwarranted, unnecessary in-year cuts on 4 June, I have to say, included a £200 million cut to public health, which, of course, in itself is counterproductive to the integration of health and social care and tackling health inequalities. Nick.

Rhaid i mi ddweud, roedd y toriadau canol blwyddyn di-alw-amdanynt a diangen ar 4 Mehefin yn cynnwys toriad gwerth £200 miliwn i iechyd y cyhoedd sydd, wrth gwrs, ynddo'i hun yn wrthgynhyrchiol o ran integreiddio iechyd a gofal cymdeithasol a mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd. Nick.

17:35

## Nick Ramsay Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank the Minister for giving way. So, basically, Minister, you are still refusing to protect, in real terms, the NHS budget in Wales.

Diolch i'r Gweinidog am ildio. Felly, yn y bôn Weinidog, rydych yn dal i wrthod diogelu cyllideb y GIG yng Nghymru mewn termau real.

17:35

## Jane Hutt Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, you don't choose, of course, to recognise the extra £1 billion that we've put into the health and social services budget, and also, most importantly, to recognise that point about integration of health and social care. I don't think we should have any lectures from the Welsh Conservatives this afternoon. It's the King's Fund, which is independent, that's commented on the state of the NHS in England. Pressures on funding in the English NHS have led trusts to overspend by £800 million, by you privatising the health service in England. A recent survey of finance directors found that two thirds of English trusts are forecasting a deficit this year—a figure that rises to almost 90 per cent among acute trusts. No lectures from the Welsh Conservatives.

Wel, wrth gwrs, nid ydych yn dewis cydnabod y £1 biliwn ychwanegol rydym wedi ei roi i mewn i'r gyllideb iechyd a gwasanaethau cymdeithasol, a hefyd, yn bwysicaf oll, nid ydych yn dewis cydnabod y pwynt ynglŷn ag integreiddio iechyd a gofal cymdeithasol. Nid wyf yn credu y dylem gael unrhyw bregethau gan y Ceidwadwyr Cymreig y prynhawn yma. Cronfa'r Brenin, sy'n annibynnol, a wnaeth sylwadau ar gyflwr y GIG yn Lloegr. Mae pwysau ar gyllid y GIG yn Lloegr wedi arwain ymddiriedolaethau i orwario £800 miliwn drwy eich bod wedi preifateiddio'r gwasanaeth iechyd yn Lloegr. Canfu arolwg diweddar o gyfarwyddwyr cyllid fod dwy ran o dair o ymddiriedolaethau Lloegr yn rhagweld diffyg eleni—ffigur sy'n codi i bron i 90 y cant ymysg ymddiriedolaethau acíwt. Dim pregethau gan y Ceidwadwyr Cymreig.

Of course, the UK Government has indicated it will increase expenditure on health, but we don't know the extent of cuts to non-protected budgets. We can't forget that the £4 million positive consequential received at the summer UK budget was accompanied by an earlier £50 million reduction to our current year's budget. We can't assume anything about the UK Government's spending intentions for the next few years.

Wrth gwrs, mae Llywodraeth y DU wedi dweud y bydd yn cynyddu gwariant ar iechyd, ond nid ydym yn gwybod i ba raddau y ceir toriadau i gyllidebau nad ydynt yn cael eu diogelu. Ni allwn anghofio bod y swm canlyniadol cadarnhaol o £4 miliwn a gafwyd yng nghyllideb yr haf y DU yn dod gyda gostyngiad cynharach o £50 miliwn i'n cyllideb ar gyfer y flwyddyn gyfredol. Ni allwn gymryd dim yn ganiataol ynghylch bwriadau Llywodraeth y DU o ran gwariant dros yr ychydig flynyddoedd nesaf.

So, turning to the amendments tabled by the Welsh Liberal Democrats, we agree with amendment 1; we agree with this principle. We've acted to increase the number of nurses, we support the amendment, which reflects our efforts to increase and maintain staffing numbers, including an additional £10 million to recruit and retain additional nurses in Wales, following the Francis inquiry. The number of nurses in the Welsh NHS is now over 22,000 for the first time. The number of nurse training places has increased by 22 per cent over the previous academic year.

Felly, gan droi at y gwelliannau a gyflwynwyd gan Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru, rydym yn cytuno â gwelliant 1; rydym yn cytuno â'r egwyddor hon. Rydym wedi gweithredu i gynyddu nifer y nyrsys, rydym yn cefnogi'r gwelliant, sy'n adlewyrchu ein hymdrechion i gynyddu a chynnal niferoedd staffio, gan gynnwys £10 miliwn ychwanegol i recriwtio a chadw nyrsys ychwanegol yng Nghymru, yn dilyn ymchwiliad Francis. Mae nifer y nyrsys yn y GIG yng Nghymru bellach dros 22,000 am y tro cyntaf. Mae nifer y lleoedd hyfforddi nyrsys wedi cynyddu 22 y cant dros y flwyddyn academaidd flaenorol.

Again, we support amendment 2. Welsh Government's ring-fenced mental health budget since 2008-09, and I think you will recognise, of course, that the review of the mental health ring fence, which was commissioned from PWC and published last month, showed it's been largely effective and presented opportunities to build on.

Unwaith eto, rydym yn cefnogi gwelliant 2. Mae Llywodraeth Cymru wedi'i neilltuo'r gyllideb ar gyfer iechyd meddwl ers 2008-09, ac rwy'n meddwl y byddwch yn cydnabod, wrth gwrs, fod yr adolygiad o'r gyllideb iechyd meddwl a neilltuwyd, a gafodd ei gomisiynu gan PWC a'i gyhoeddi fis diwethaf, yn dangos ei fod wedi bod yn effeithiol i raddau helaeth ac wedi cynnig cyfleoedd i adeiladu arnynt.

Also, we do support amendment 3. Improving access to GP services in the evenings and on weekends is a key Welsh Government commitment and it was set out, of course, in our 2011 five-year vision, 'Together for Health'. So, in supporting this amendment, again, I can put the record straight about how we are making steady progress, increasing access to GP services, and that was shown in our recent progress report: investing £3.5 million in primary care services and a £40 million primary care fund in this financial year.

Hefyd, rydym yn cefnogi gwelliant 3. Mae gwella mynediad at wasanaethau meddygon teulu gyda'r nos ac ar benwythnosau yn ymrwymiad allweddol gan Lywodraeth Cymru a nodwyd hynny, wrth gwrs, yn ein gweledigaeth bum mlynedd yn 2011, 'Law yn Llaw at Iechyd'. Felly, wrth gefnogi'r gwelliant hwn, unwaith eto, gallaf gywiro unrhyw gamargraff ynglŷn â sut yr ydym yn datblygu'n gyson, yn cynyddu mynediad at wasanaethau meddygon teulu, a chafodd hynny ei ddangos yn ein hadroddiad cynnydd diweddar: buddsoddi £3.5 miliwn mewn gwasanaethau gofal sylfaenol a chronfa gofal sylfaenol gwerth £40 miliwn yn y flwyddyn ariannol hon.

So, in conclusion, although we can't support this motion for the reasons I've outlined, I'm glad we can share areas of common ground today. I'm glad I've had the opportunity to highlight the significant progress that this Welsh Government has made in investing in health and social services. It's given us the opportunity to expose the flawed management of our public finances by the Conservative UK Government. So, can you join us in bringing that message home to the UK Government, as we face yet more cuts and more uncertainty—once again, I was there today arguing our case for fair funding for Wales with the Chief Secretary—and also unite in recognition of the substantial investment we've made as a Welsh Labour Government in health and social care.

Felly, i gloi, er na allwn gefnogi'r cynnig hwn am y rhesymau a amlinellais, rwy'n falch y gallwn rannu peth tir cyffredin heddiw. Rwy'n falch fy mod i wedi cael cyfle i dynnu sylw at y cynnydd sylweddol y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud o ran buddsoddi mewn iechyd a gwasanaethau cymdeithasol. Mae wedi rhoi cyfle i ni amlygu'r modd diffygiol y mae Llywodraeth Geidwadol y DU yn rheoli ein cyllid cyhoeddus. Felly, a wnewch chi ymuno â ni i fynd â'r neges honno at Lywodraeth y DU, wrth i ni wynebu mwy fyth o doriadau a mwy o ansicrwydd—unwaith eto, roeddwn yno heddiw yn dadlau ein hachos am gyllid teg i Gymru gyda'r Prif Ysgrifennydd—a hefyd i uno i gydnabod y buddsoddiad sylweddol rydym wedi'i wneud fel Llywodraeth Lafur Cymru ym maes iechyd a gofal cymdeithasol?

17:39

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

And Elin Jones to reply.

Ac Elin Jones i ymateb.

17:39

## Elin Jones [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

Diolch, Ddirprwy Lywydd, a diolch i bawb a wnaeth gyfrannu. Gwnaf i wneud ambell i sylw ar y cyfraniadau—wnaf i ddim gwneud crynodeb o bob cyfraniad. A gaf i ddiolch i'r Torïaid a'r Democratiaid Rhyddfrydol am eu cefnogaeth mewn egwyddor i glustnodi'r trosglwyddiad o unrhyw gyllideb NHS o Lywodraeth San Steffan i gyllideb ar gyfer y gwasanaeth iechyd a gofal yma yng Nghymru? Rwy'n derbyn y pwynt gwleidyddol sy'n cael ei wneud nad ni yw'r blaid gyntaf, o bosib, i alw am yr ymrwymiad gwariant yma, ond gwnaf fentro i ddweud mai ni yw'r blaid sydd mwyaf tebygol o fod mewn sefyllfa i wireddu'r ymrwymiad yma mewn Llywodraeth ar ôl mis Mai 2016. Mae'n rhyfeddol, y prynhawn yma eto, i glywed ei bod hi'n ymddangos taw'r unig blaid na fydd yn ymrwymo i glustnodi defnyddio arian ychwanegol i'r NHS yn y Cynulliad nesaf yw'r Blaid Lafur. Nhw yn sicr yw'r unig blaid sydd wedi ymwrthod â dangos yr ymrwymiad yna'r prynhawn yma.

Thank you, Deputy Presiding Officer, and thank you to everyone who has contributed to the debate. I will make a few comments on those contributions—I won't give you a summary of each contribution. May I thank the Conservatives and the Liberal Democrats for their in-principle support to ring-fencing the transfer of any additional NHS budget from Westminster to the budget for health and social care here in Wales? I accept the political point that's made, that we aren't, perhaps, the first party to call for this spending commitment, but I will go as far as to say that we are the party that is most likely to be in a position to achieve that commitment in Government after May 2016. It is surprising, this afternoon, hearing that it appears that the only party that won't commit to using additional funding for the NHS in the next Assembly will be the Labour party. They certainly are the only party that has not been willing to make that commitment this afternoon.

Ond er bod yna rywfaint o debygrwydd yn rhai o'r safbwyntiau sydd wedi cael eu rhoi y prynhawn yma, mae yna dipyn o wahaniaethau sydd angen cael eu hamlygu hefyd rhwng y gwahanol bleidiau. Fe glywsom ni Kirsty Williams a Lindsay Whittle, a finnau'n hunan hefyd, yn gweld y pwysigrwydd o ariannu'r systemau NHS a gofal gyda'i gilydd ac i sicrhau cyllid digonol i wneud hynny. Fe oedd y Gweinidog hefyd yn gweld y peryg o gyllido gwasanaethau iechyd a'r gwasanaethau cymdeithasol ar wahân, ond, o adnabod y perig hwnnw a'r problemau mae hynny'n achosi yn Lloegr, er hynny, dyna beth yw'r gyfundrefn mae'r Gweinidog Cyllid yma yn ei reoli ar hyn o bryd yma yng Nghymru, oherwydd maen nhw'n para yn gyllidebau ar wahân.

But although there is some similarity in some of the views that have been expressed this afternoon, there are also some differences that need to be outlined between the different parties. We heard Kirsty Williams, Lindsay Whittle and myself identifying the importance of funding NHS and care services jointly and to secure adequate funding to do that. The Minister also identified the risk of funding health and social services separately, but, having identified that risk and the problems that that causes in England, that is still the system that this finance Minister is espousing here in Wales, because they continue to be separate budgets.

Pwyslais y Toriaid, wrth gwrs, yn eu cyfraniad nhw'r prynhawn yma ar ariannu'r NHS oedd sôn yn ddigon clir eto taw ariannu'r NHS yn unig yw eu hymrwymiad nhw. Yn wir, rwy'n credu i Nick Ramsay ddweud 'hospitals' yn unig ar un adeg hefyd. Yn fy marn i—wel, dwywaith, mae'n debyg, dywedodd Nick Ramsay 'hospitals' yn unig. Wel, yn fy marn i, mae hynny yn annigonol achos her fwyaf, byddwn i'n dweud, Llywodraeth nesaf Cymru fydd i symud tuag at integreiddiad llawn o wasanaethau iechyd a gofal, ac mae angen plaid sy'n llywodraethu yn y cyfnod nesaf yma sy'n ddigon dewr i wireddu hyn ac i ariannu hyn o'r diwedd—nid i'w wneud e yn dameidiog ac mewn rhai ardaloedd o Gymru yn unig, ond mewn ffordd strwythuredig a ffordd sydd yn barhaol. Rwy'n cymryd yr ymyriad.

The Conservative emphasis, of course, in their contribution this afternoon on funding the NHS made quite clearly that they are talking of funding the NHS alone. I think Nick Ramsay said 'hospitals' only at one point. Apparently, he said that twice. Well, in my view, that is inadequate, because the greatest challenge for the next Welsh Government will be towards a move to the full integration of health and care services, and we need a party of Government who will be brave enough to actually achieve this and to fund this at last—not to do it on a piecemeal basis only in some areas of Wales, but to do it in a structured, comprehensive and permanent manner. I will take an intervention.

17:42

## Nick Ramsay [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Thank you, Minister—not Minister. Thank you, Elin Jones, for giving way. I did say 'hospitals' twice. By that, I meant the national health service structure, but I think there is clearly a difference between us because you are not talking about protecting the NHS budget, are you?

Diolch i chi, Weinidog—nid Weinidog. Diolch i chi, Elin Jones, am ildio. Fe wnes i ddweud 'ysbytai' ddwywaith. Wrth hynny, yr hyn a olygwn oedd strwythur y gwasanaeth iechyd gwladol, ond rwy'n meddwl ei bod hi'n amlwg fod gwahaniaeth rhyngom ni am nad ydych yn sôn am ddiogelu cyllideb y GIG, ydych chi?

17:42

## Elin Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Well, if that was meant for clarification purposes, then perhaps think twice before intervening next time. [Laughter.]

Fe gawsom ni wrth Llyr ac wrth Alun Ffred amlinelliad o'r hyn sy'n digwydd yn y gogledd ar hyn o bryd oherwydd y cyfuniad yna o ddiffyg arian ac o ddiffyg cynllunio gweithlu digonol sydd wedi nodweddu'r Llywodraeth yma dros y pedair blynedd ddiwethaf. Fe glywsom ni hefyd, wrth gwrs, yn bwysig iawn, am y cyfleon sydd yna i gryfhau'r hyfforddiant meddygol, nyrsio a pharamedig yn y gogledd drwy greu model o ysgol feddygol. Nid oes dim amheuaeth na ddylai hynny fod yn flaenoriaeth i Lywodraeth nesaf Cymru. Hefyd, cawsom ein hatgoffa o'r angen yna i foderneiddio'r NHS. I wneud hynny, mae eisiau buddsoddi mewn technoleg newydd ac mae hynny yn ei hunan yn gallu arwain at arbedion cost ac arbedion amser i'r gwasanaeth ac i'r cleifion hefyd.

We heard from both Llyr and Alun Ffred an explanation of what's happening in north Wales at present because of that combination of a shortage of money and an absence in terms of workforce planning, which has characterised this Government over the past four years. We also heard of the opportunities that are there to actually strengthen medical, nursing and paramedicine training in north Wales through the creating of a medical school. There's no doubt that that should be a priority for the next Welsh Government. We were also reminded, of course, of that need to modernise the NHS. To do that, we need investment in new technology and that, in and of itself, can lead to cost savings and time savings for both the service and the patients.

Felly, mae'r ymrwymiad mae Plaid Cymru yn ei wneud i wario arian ychwanegol a ddaw o Lywodraeth San Steffan ar yr NHS a gofal yn ystod pum mlynedd nesaf Llywodraeth nesaf Cymru—. Y neges i Lywodraeth San Steffan ac i Lywodraeth Cymru yw bod hyn yn debygol o fod yn annigonol—y £10 biliwn 'cash' yna mae addewid Llywodraeth San Steffan wedi ei wneud. Mae hynny'n debygol o fod yn annigonol i gwrdd â thwf mewn gofyn ac mewn gwasanaeth yn yr NHS. Mae'r King's Fund, ddim ond yr wythnos yma, wedi dweud bod angen £1 biliwn ychwanegol ar ben yr ymrwymiad mae Llywodraeth San Steffan wedi ei wneud eisoes.

So, the commitment that Plaid Cymru makes to spend additional funding that comes as a consequential from the Westminster Government on health and care over the next five years of the next Welsh Government—. The message for the Westminster Government and for the Welsh Government is that this is likely to be inadequate—it's that £10 billion cash that the Westminster Government has pledged. That is likely to be insufficient to meet with the increases in demand for NHS services. The King's Fund just this week have said that we need an additional £1 billion on top of the commitment made by the Westminster Government to date.

Felly, y neges, wrth gwrs, i unrhyw Lywodraeth yw: os ydych chi'n credu yn yr NHS, os ydym ni'n credu yn yr NHS ac yn y gofal yna ar gyfer ein cleifion a'n pobol ni a chreu gwasanaeth iechyd a gofal sydd yn gofalu ac sydd yn fodern yn ei waith, yna mae'n rhaid gwario ar yr NHS.

Therefore, the message, of course, for any Government is that, if you believe the NHS, and if we believe in our NHS and the care for our patients and our people and the creation of a health and care service that actually does care and is modern in its approach, then you must invest in that NHS.

17:44

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The proposal is to agree the motion without amendment. Does any Member object? [Objection.] I defer voting to voting time.

Y cynnig yw cytuno ar y cynnig heb ei ddiwygio. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Gohiriaf y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.

*Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.*

*Voting deferred until voting time.*

17:44

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Before we move to voting time, can I just say the second Conservative debate got very heated and I ended up seeing red prematurely? There were 30 seconds to run on the clock and I did cut off Mark Isherwood prematurely. I apologise to him for that.

Cyn i ni symud at y cyfnod pleidleisio, a gaf fi ddweud fod ail ddadl y Ceidwadwyr wedi poethi'n fawr ac erbyn y diwedd roeddwn yn gweld coch cyn pryd? Roedd 30 eiliad i fynd ar y cloc a thorrais ar draws Mark Isherwood cyn pryd. Ymddiheuraf iddo am hynny.

We do now move to voting time. Before I conduct the first vote, are there three Members who wish for the bell to be rung? There are not.

Yn awr symudwn ymlaen at y cyfnod pleidleisio. Cyn i mi gynnal y bleidlais gyntaf, a oes tri Aelod sy'n dymuno i'r gloch gael ei chanu? Nac oes.

17:45

# 6. Cyfnod Pleidleisio

# 6. Voting Time

Senedd.tv Fideo Video

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

So, we'll vote first on the Welsh Conservatives debate on support for businesses. I call for a vote on the motion tabled in the name of Paul Davies. If the proposal is not agreed, we will vote on the amendments tabled to the motion. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 10; there voted against 41. Therefore, the motion without amendment is not agreed.

Felly, byddwn yn pleidleisio yn gyntaf ar Ddadl y Ceidwadwyr Cymreig ar gymorth i fusnesau. Galwaf am bleidlais ar y cynnig a gyflwynwyd yn enw Paul Davies. Os na chaiff y cynnig ei dderbyn, byddwn yn pleidleisio ar y gwelliannau a gyflwynwyd i'r cynnig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 10 o blaid; pleidleisiodd 41 yn erbyn. Felly, gwrthodwyd y cynnig heb ei ddiwygio.

*Gwrthodwyd y cynnig: O blaid 10, Yn erbyn 41, Ymatal 0.*

*Motion not agreed: For 10, Against 41, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar gynnig NDM5820

Result of the vote on motion NDM5820

17:45

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We'll now vote on the amendments. If amendment 1 is agreed, amendment 2 will be deselected. I call for a vote on amendment 1, tabled in the name of Elin Jones. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 10; there voted against 42. Therefore, amendment 1 is not agreed.

Pleidleisiwn yn awr ar y gwelliannau. Os derbynnir gwelliant 1, bydd gwelliant 2 yn cael ei ddad-ddethol. Galwaf am bleidlais ar welliant 1, a gyflwynwyd yn enw Elin Jones. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 10 o blaid; pleidleisiodd 42 yn erbyn. Felly, gwrthodwyd gwelliant 1.

*Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 10, Yn erbyn 42, Ymatal 0.*

*Amendment not agreed: For 10, Against 42, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 1 i gynnig NDM5820

Result of the vote on amendment 1 to motion NDM5820

17:46

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call for a vote on amendment 2, tabled in the name of Aled Roberts. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 16; there voted against 26; there were 10 abstentions. So, amendment 2 is not agreed.

Galwaf am bleidlais ar welliant 2, a gyflwynwyd yn enw Aled Roberts. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 16 o blaid; pleidleisiodd 26 yn erbyn; roedd 10 yn ymatal. Felly, gwrthodwyd gwelliant 2.

*Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 16, Yn erbyn 26, Ymatal 10.*

*Amendment not agreed: For 16, Against 26, Abstain 10.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 2 i gynnig NDM5820

Result of the vote on amendment 2 to motion NDM5820

17:46

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We have agreed nothing, therefore the whole motion falls.

Nid ydym wedi derbyn dim, felly gwrthodwyd y cynnig cyfan.

We'll now vote on the second Conservatives debate on public service delivery. I call for a vote on the motion tabled in the name of Paul Davies. If the proposal is not agreed, we will vote on the amendment tabled to the motion. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 11; there voted against 31; there were 10 abstentions. Therefore, the motion without amendment is not agreed.

Pleidleisiwn yn awr ar ail ddadl y Ceidwadwyr ar ddarparu gwasanaethau cyhoeddus. Galwaf am bleidlais ar y cynnig a gyflwynwyd yn enw Paul Davies. Os na chaiff y cynnig ei dderbyn, byddwn yn pleidleisio ar y gwelliant a gyflwynwyd i'r cynnig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 11 o blaid; pleidleisiodd 31 yn erbyn; roedd 10 yn ymatal. Felly, gwrthodwyd y cynnig heb ei ddiwygio.

*Gwrthodwyd y cynnig: O blaid 11, Yn erbyn 31, Ymatal 10.*

*Motion not agreed: For 11, Against 31, Abstain 10.*

Canlyniad y bleidlais ar gynnig NDM5821

Result of the vote on motion NDM5821

17:47

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We'll now vote on the amendment. I call for a vote on amendment 1, tabled in the name of Elin Jones. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 52; there were no votes against. Therefore, amendment 1 is agreed.

Pleidleisiwn yn awr ar y gwelliant. Galwaf am bleidlais ar welliant 1, a gyflwynwyd yn enw Elin Jones. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 52 o blaid; nid oedd unrhyw bleidleisiau yn erbyn. Felly, derbyniwyd gwelliant 1.

*Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 52, Yn erbyn 0, Ymatal 0.*

*Amendment agreed: For 52, Against 0, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 1 i gynnig NDM5821

Result of the vote on amendment 1 to motion NDM5821

17:47

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I now call for a vote on the motion as amended.

Galwaf yn awr am bleidlais ar y cynnig wedi'i ddiwygio.

Cynnig NDM5821 fel y'i diwygiwyd:

Motion NDM5821 as amended:

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

1. Yn gresynu at fethiant parhaus Llywodraeth Cymru dro ar ôl tro i gyrraedd ei thargedau allweddol ei hun sy'n gysylltiedig â darparu gwasanaethau cyhoeddus allweddol; a'r canlyniadau niweidiol a gaiff hyn ar bobl Cymru.

1. Regrets the repeated and persistent failure of the Welsh Government to meet its own key targets linked to the delivery of key public services; and the damaging consequences this has for the people of Wales.

2. Yn credu bod yn rhaid i Lywodraeth Cymru ddangos tryloywder llwyr o ran mesur perfformiad gwasanaethau cyhoeddus gan gynnwys sicrhau bod data yn cael ei gasglu a'i gyhoeddi mewn modd sy'n sicrhau y gellir cymharu perfformiad â chenhedloedd eraill.

2. Believes that the Welsh Government must show absolute transparency in measuring public service performance including ensuring that data is collected and published in a way that ensures performance can be compared with other nations.

3. Yn ofni bod symud, ailddiffinio neu addasu targedau sy'n gysylltiedig â darparu gwasanaethau cyhoeddus yn rhwystro pobl Cymru rhag dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif yn ddigonol, ac yn ystumio'r craffu hir-dymor ar ei methiant parhaus.

3. Fears that the removal, redefinition or altering of targets linked to public service delivery prevents the people of Wales from adequately holding the Welsh Government to account, and distorts the scrutiny of its long-term, repeated failure.

17:47

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Open the vote. Close the vote. There voted in favour 26; there voted against 26. As required under Standing Order 6.20, I exercise my casting vote against the motion, which consequently falls.

Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 26 o blaid; pleidleisiodd 26 yn erbyn. Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, rwy'n arfer fy mhleidlais fwrw yn erbyn y cynnig, sydd felly'n cael ei wrthod.

*Gwrthodwyd cynnig NDM5821 fel y'i diwygiwyd: O blaid 26, Yn erbyn 26, Ymatal 0.*

*Motion NDM5821 as amended not agreed: For 26, Against 26, Abstain 0.*

*Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Dirprwy Lywydd ei bleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant.*

*As required by Standing Order 6.20, the Deputy Presiding Officer exercised his casting vote by voting against the amendment.*

Canlyniad y bleidlais ar gynnig NDM5821 fel y'i diwygiwyd.

Result of the vote on motion NDM5821 as amended.

17:48

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We'll now vote on the Plaid Cymru debate. I call for a vote on the motion tabled in the name of Elin Jones. If the proposal is not agreed, we will vote on the amendments tabled to the motion. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 10; there voted against 31; there were 11 abstentions. Therefore, the motion without amendment is not agreed.

Pleidleisiwn yn awr ar ddadl Plaid Cymru. Galwaf am bleidlais ar y cynnig a gyflwynwyd yn enw Elin Jones. Os na chaiff y cynnig ei dderbyn, byddwn yn pleidleisio ar y gwelliannau a gyflwynwyd i'r cynnig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 10 o blaid; pleidleisiodd 31 yn erbyn; roedd 11 yn ymatal. Felly, gwrthodwyd y cynnig heb ei ddiwygio.

*Gwrthodwyd y cynnig: O blaid 10, Yn erbyn 31, Ymatal 11.*

*Motion not agreed: For 10, Against 31, Abstain 11.*

Canlyniad y bleidlais ar gynnig NDM5822

Result of the vote on motion NDM5822

17:48

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call for a vote on amendment 1, tabled in the name of Aled Roberts. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 52; there were no votes against. Therefore, amendment 1 is agreed.

Galwaf am bleidlais ar welliant 1, a gyflwynwyd yn enw Aled Roberts. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 52 o blaid; nid oedd unrhyw bleidleisiau yn erbyn. Felly, derbyniwyd gwelliant 1.

*Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 52, Yn erbyn 0, Ymatal 0.*

*Amendment agreed: For 52, Against 0, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 1 i gynnig NDM5822

Result of the vote on amendment 1 to motion NDM5822

17:48

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call for a vote on amendment 2, tabled in the name of Aled Roberts. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 52; there were no votes against. Therefore, amendment 2 is agreed.

Galwaf am bleidlais ar welliant 2, a gyflwynwyd yn enw Aled Roberts. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 52 o blaid; nid oedd unrhyw bleidleisiau yn erbyn. Felly, derbyniwyd gwelliant 2.

*Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 52, Yn erbyn 0, Ymatal 0.*

*Amendment agreed: For 52, Against 0, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 2 i gynnig NDM5822 | Result of the vote on amendment 2 to motion NDM5822

17:49

### Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call for a vote on amendment 3, tabled in the name of Aled Roberts. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 52; no votes against. Therefore, amendment 3 is also agreed.

Galwaf am bleidlais ar welliant 3, a gyflwynwyd yn enw Aled Roberts. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 52 o blaid; dim pleidleisiau yn erbyn. Felly, derbyniwyd gwelliant 3 hefyd.

*Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 52, Yn erbyn 0, Ymatal 0.*

*Amendment agreed: For 52, Against 0, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 3 i gynnig NDM5822

Result of the vote on amendment 3 to motion NDM5822

17:49

### Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I now call for a vote on the motion as amended.

Galwaf yn awr am bleidlais ar y cynnig wedi'i ddiwygio.

Cynnig NDM5822 fel y'i diwygiwyd:

Motion NDM5822 as amended:

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

1. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod unrhyw gynnydd yn y grant bloc sy'n deillio o gynnydd yng ngwariant iechyd Llywodraeth y DU, yn cael ei fuddsoddi yng ngwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol Cymru.

1. Calls on the Welsh Government to ensure that any increases in the block grant which result from an increase in UK Government health expenditure, are invested in Welsh health and social care services.

2. Yn cydnabod pwysigrwydd buddsoddi mewn lefelau diogel staff nyrsio sy'n cael effaith sylweddol ar ofal cleifion a recriwtio a chadw staff.

2. Recognises the importance of investment in safe nurse staffing levels which have a significant impact on patient care and the recruitment and retention of staff.

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod cydraddoldeb ar gyfer gofal iechyd meddwl yn flaenoriaeth ar gyfer buddsoddi yn y gwasanaeth iechyd yng Nghymru yn y dyfodol.

3. Calls on the Welsh Government to ensure that parity for mental healthcare is a priority for future investment in the Welsh health service.

4. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod gwella mynediad i feddygon teulu yn flaenoriaeth ar gyfer buddsoddi yn y gwasanaeth iechyd yng Nghymru yn y dyfodol.

4. Calls on the Welsh Government to ensure improving access to GPs is a priority for future investment in the Welsh health service.

17:49

### Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Open the vote. Close the vote. There voted in favour 15; there voted against 26; there were 11 abstentions. Therefore, the motion is not agreed.

Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 15 o blaid; pleidleisiodd 26 yn erbyn; roedd 11 yn ymatal. Felly, gwrthodwyd y cynnig.

*Gwrthodwyd cynnig NDM5822 fel y'i diwygiwyd: O blaid 15, Yn erbyn 26, Ymatal 11.*

*Motion NDM5822 as amended not agreed: For 15, Against 26, Abstain 11.*

Canlyniad y bleidlais ar gynnig NDM5822 fel y'i diwygiwyd.

Result of the vote on motion NDM5822 as amended.

17:49

### Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I ask those Members who are leaving the Chamber to do so quickly and quietly. Quickly, please.

Gofynnaf i'r Aelodau sy'n gadael y Siambr i wneud hynny'n gyflym ac yn dawel. Yn gyflym, os gwelwch yn dda.

17:50

## 7. Dadl Fer: Ffracio: Gweithredu Moratoriwm ar gyfer Cymru

## 7. Short Debate: Fracking: Implementing a Moratorium for Wales

Y Senedd.tv Fideo Video

### Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

We now move to the short debate, and I call on Aled Roberts to speak on the subject he has chosen.

Symudwn yn awr at y ddadl fer, a galwaf ar Aled Roberts i siarad ar y pwnc y mae wedi ei ddewis.

17:50

### Aled Roberts Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Rwyf yn falch iawn o'r cyfle i gael cyflwyno'r ddadl hon heddiw. Rwyf wedi cytuno bod Llyr Huws Gruffydd, Suzy Davies a Bill Powell yn cyfrannu at y ddadl. Rwyf hefyd yn falch iawn bod cymaint ohonoch chi wedi aros ar ôl.

I'm pleased to be able to bring forward this debate today. I've agreed to give time to Llyr Huws Gruffydd, Suzy Davies and Bill Powell to contribute to this debate. I'm also very pleased that so many of you have remained.

In opening, I would like to place on record that I welcome the recent announcement from the UK Government that no more licences will be issued for fracking until powers have been devolved to Wales and Scotland. I also welcome the Welsh Government's indication that they would seek to impose a moratorium on fracking in Wales, although I think there are still genuine concerns raised as to how that will actually be brought about.

Wrth agor, hoffwn gofnodi fy mod yn croesawu'r cyhoeddiad diweddar gan Lywodraeth y DU na fydd rhagor o drwyddedau'n cael eu rhoi ar gyfer ffracio hyd nes y caiff pwerau eu datganoli i Gymru a'r Alban. Rwyf hefyd yn croesawu dynodiad Llywodraeth Cymru y byddai'n ceisio gosod moratoriwm ar ffracio yng Nghymru, er fy mod yn credu bod pryderon gwirioneddol o hyd ynglŷn â sut y bydd hynny'n digwydd mewn gwirionedd.

I'm sure I don't need to advise this Minister of the controversy in our particular area in the north-east, with regard to technology that is being proposed to be used, whether that be in Borras in Wrexham or in Mostyn in Flintshire. In fact, many areas of both Flintshire and Wrexham are currently the subject of grants that have been given by previous Governments in previous rounds.

Rwy'n siŵr nad oes angen i mi roi gwybod i'r Gweinidog am y dadlau yn ein hardal ni yn y gogledd-ddwyrain, o ran y dechnoleg yr argymhellir ei defnyddio, naill ai yn Borras, Wrecsam neu Mostyn, Sir y Fflint. Yn wir, mae llawer o ardaloedd Sir y Fflint a Wrecsam ar hyn o bryd yn destun grantiau a roddwyd gan Lywodraethau blaenorol mewn rowndiau blaenorol.

In north Wales, Wrexham had two sites where planning had been granted in 2010: at Sun Lane, Bowling Bank and at Hollybush Lane in Penley, which were both applied for by Dart Energy, an Australian multinational mining conglomerate. More recently, the same company applied for permission at Borras Head, which was rejected following significant local opposition by Wrexham County Borough Council, but that, sadly, was overruled by the Welsh Government through the Planning Inspectorate in October 2014.

Yng ngogledd Cymru, roedd dau safle yn Wrecsam wedi cael hawl cynllunio yn 2010: Sun Lane, Bowling Bank a Hollybush Lane yn Llannerch Banna, a Dart Energy, cwmni mwyngloddio amlwladol a rhyngwladol o Awstralia, a wnaeth gais am y ddau safle. Yn fwy diweddar, cyflwynodd yr un cwmni gais am ganiatâd yn Borras Head, a chafodd ei wrthod gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn dilyn gwrthwynebiad lleol sylweddol, ond yn anffodus, gwrthododd Llywodraeth Cymru benderfyniad y Cyngor drwy'r Arolygiaeth Gynllunio yn Hydref 2014.

I think it is important, as well, that I would like to deal this afternoon with what the public would think of as fracking and not, necessarily, the technical term that would be used within the industry. So, I would include the process by which unconventional gas is removed from both shale and coal. I don't think the public would understand the industry's use of the term purely for hydraulic fracturing, where fluids are pumped into shale or coal at high pressure. So, to be clear, my use of the term includes horizontal drilling of shale gas wells and the removal of coalbed methane, while others, I think—environmentalists, in particular—might include also the use of technology for abandoned mine methane, coal mine methane and underground coal gasification.

Rwy'n credu ei bod yn bwysig hefyd i mi ymdrin y prynhawn yma â'r hyn y byddai'r cyhoedd yn ei feddwl yw ffracio ac nid, o reidrwydd, y term technegol a fyddai'n cael eu defnyddio yn y diwydiant. Felly, byddwn yn cynnwys y broses a ddefnyddir i dynnu nwy anghonfensiynol o siâl a glo. Nid wyf yn credu y byddai'r cyhoedd yn deall defnydd y diwydiant o'r term ar gyfer hollti hydrolig yn unig, lle y mae hylifau'n cael eu pwmpio i mewn i siâl neu lo ar bwysedd uchel. Felly, i fod yn glir, mae fy nefnydd o'r term yn cynnwys drilio llorweddol i ffynhonnau nwy siâl a chodi methan gwely glo, tra byddai eraill, rwy'n meddwl—amgylcheddwyr, yn arbennig—yn cynnwys y defnydd o dechnoleg ar gyfer methan hen weithfeydd, methan pwll glo a nwyeiddio glo tanddaearol.

Why is this such an issue in Wales? Well, it’s because we are under threat from this industry in both the north and the south. There are three operational phases of an unconventional gas well site. The first is the exploration phase, where a company performs tests to see if extraction would be economically viable. Then, there is the appraisal stage, where a company decides whether to invest. Then, finally, there is the production stage. Shale gas exploration in Wales is currently in the first of these stages, with only a few companies holding petroleum exploration and development licences, or PEDLs, for shale gas and coalbed methane. But, these licences have been granted across large areas of south Wales, in particular. In addition, two licences for experimental underground coal gasification have been granted by the coal authority for coal seams under both Swansea bay and in the Loughor estuary.

Pam y mae hyn yn gymaint o broblem yng Nghymru? Wel, oherwydd ein bod o dan fygythiad y diwydiant hwn yn y gogledd a’r de. Ceir tri cham gweithredu ar safle ffynnon nwy anghonfensiynol. Y cyntaf yw’r cam archwilio, lle y mae cwmni’n cynnal profion i weld a fyddai echdynnu yn economaidd hyfyw. Yna, ceir y cyfnod gwerthuso, lle y mae cwmni’n penderfynu a ddylai fuddsoddi. Yna, yn olaf, ceir y cyfnod cynhyrchu. Mae chwilio am nwy siâl yng Nghymru ar hyn o bryd ar y cam cyntaf o’r rhain, gydag ond ychydig o gwmnïau’n dal trwyddedau archwilio a datblygu petrolewm, neu PEDLs, am nwy siâl a methan gwely glo. Ond rhoddwyd y trwyddedau hyn ar draws rhannau helaeth o dde Cymru, yn arbennig. Yn ogystal, mae’r awdurdod glo wedi caniatáu dwy drwydded ar gyfer nwyeiddio glo tanddaearol arbrofol mewn gwythiennau glo o dan fae Abertawe ac yn aber afon Llwchwr.

The 2012 Welsh Affairs Committee inquiry into shale gas extraction concluded that there was a lack of data regarding the amount of shale gas in Wales. Despite assertions by the industry to the inquiry, they felt it was difficult to estimate the extent of Welsh shale gas reserves, although it’s true to say that data on coalbed methane reserves are more extensive because of studies carried out by the British Geological Survey, which stated that the south Wales coalfield had the best resource potential.

Daeth ymchwiliad y Pwyllgor Materion Cymreig i echdynnu nwy siâl yn 2012 i’r casgliad fod yna brinder data ynghylch faint o nwy siâl a geir yng Nghymru. Er gwaethaf honiadau gan y diwydiant i’r ymchwiliad, teimlent ei bod yn anodd amcangyfrif faint o gronfeydd o nwy siâl a fodolai yng Nghymru, er ei bod yn wir dweud bod y data ar gronfeydd methan gwely glo yn fwy helaeth oherwydd astudiaethau a gynhaliwyd gan Arolwg Daearegol Prydain, a nodai mai maes glo de Cymru oedd â’r potensial gorau o ran adnoddau.

I have to say, my own view is that this is a retrograde technology best suited to approximately 100 years ago, when there was—surprisingly, when I was looking at the notes for this—plenty of activity in my home area, where there were shale gas wells very close to Wrexham town centre. I personally believe it is a scandal that the UK Government, since the general election, has been carrying out a sustained attack on renewable energy whilst developing at full pace its support for fossil technologies, which will do little by way of contribution to the UK's attempts to tackle climate change—an issue that is, I know, dear to the Minister’s heart.

Rhaid i mi ddweud, fy marn i yw mai technoleg wrthdroadol yw hon ac un a oedd fwyaf addas tua 100 mlynedd yn ôl, pan oedd digon o weithgaredd yn ardal fy nghartref—yn rhyfedd ddigon, pan oeddwn yn edrych ar y nodiadau ar gyfer hyn—lle roedd ffynhonnau nwy siâl yn agos iawn at ganol tref Wrecsam. Rwy’n credu’n bersonol ei bod yn sgandal fod Llywodraeth y DU, ers yr etholiad cyffredinol, wedi bod yn cynnal ymosodiad parhaus ar ynni adnewyddadwy gan fwrw iddi i ddatblygu ei chymorth i dechnolegau ffosil cyn gyflymed ag y gallai, technolegau nad ydynt yn gwneud fawr ddim i gyfrannu tuag at ymdrechion y DU i fynd i’r afael â newid yn yr hinsawdd—mater y gwn ei fod yn agos at galon y Gweinidog.

Here in Wales, the declaration by the UK Government means that we now have the option to follow a different path, but I want to understand, following clarification from the UK Government that they did not wish to grant further licences during the fourteenth round, what steps the Welsh Government will be taking to strengthen our hand and the hand of people who oppose this technology.

Yma yng Nghymru, mae’r datganiad gan Lywodraeth y DU yn golygu bod gennym opsiwn yn awr i ddilyn llwybr gwahanol, ond rwyf am ddeall, yn dilyn eglurhad gan Lywodraeth y DU nad ydynt yn dymuno rhoi trwyddedau pellach yn ystod y bedwaredd rownd ar ddeg, pa gamau y bydd Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i ymgryfhau ac i gryfhau’r bobl sy’n gwrthwynebu’r dechnoleg hon.

It's clear that applications for drilling and fracking need to be approved by a number of different bodies. As I said, I welcomed the announcement by the Minister on 13 February that he would issue a direction that mineral planning authorities, whether they be local councils or national parks, have to notify the Minister of any unconventional extraction application. The direction applies, as I understand it, where the authority is minded to approve the application, giving the Minister the opportunity to call the application in. Of course, the Welsh Government sets national policy and guidance, and in this particular area, we have to refer to the 'Minerals Planning Policy Wales' documentation going back to 2001 and, normally, to technical advice notes. Now, there have been many calls for the Welsh Government to issue a technical advice note relating to onshore unconventional gas operations in Wales. In fact, as far back as 2012, a report by the Assembly's environment committee recommended that the Welsh Government should issue a new technical advice note, but the Minister for Economy, Science and Transport, as recently as 4 February 2015, some nine days before the Minister for Natural Resources' announcement, said that there was no intention of issuing a further TAN at that time. So, I'd ask the Minister to indicate this afternoon whether it is currently the Welsh Government's position that they will update either the minerals planning guidance documentation, which now goes back some 14 years, or, alternatively, an updated technical advice note.

Mae'n amlwg bod angen i nifer o gyrff gwahanol gymeradwyo ceisiadau drilio a ffracio. Fel y dywedais, roeddwn yn croesawu'r cyhoeddiad gan y Gweinidog ar 13 Chwefror y byddai'n rhoi cyfarwyddyd i'w gwneud yn orfodol i awdurdodau cynllunio mwynau, boed yn gynghorau lleol neu'n barciau cenedlaethol, roi gwybod i'r Gweinidog am unrhyw gais echdynnu anghonfensiynol. Mae'r cyfarwyddyd yn berthnasol, yn ôl a ddeallaf, os yw'r awdurdod yn bwriadu cymeradwyo'r cais, gan roi'r cyfle i'r Gweinidog alw'r cais i mewn. Wrth gwrs, Llywodraeth Cymru sy'n gosod polisi a chanllawiau cenedlaethol, ac yn y maes hwn, rhaid i ni gyfeirio at ddogfennaeth 'Polisi Cynllunio Mwynau Cymru' sy'n mynd yn ôl i 2001 ac fel arfer, at nodiadau cyngor technegol. Nawr, cafwyd llawer o alwadau ar Lywodraeth Cymru i gyhoeddi nodyn cyngor technegol yn ymwneud â gweithrediadau nwy anghonfensiynol ar y tir yng Nghymru. Yn wir, mor bell yn ôl â 2012, roedd adroddiad gan bwyllgor amgylcheddol y Cynulliad yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi nodyn cyngor technegol newydd, ond dywedodd Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, mor ddiweddar â 4 Chwefror 2015, tua naw diwrnod cyn cyhoeddiad y Gweinidog Cyfoeth Naturiol, nad oedd unrhyw fwriad i gyhoeddi TAN pellach bryd hynny. Felly, hoffwn ofyn i'r Gweinidog ddangos y prynhawn yma ai safbwynt cyfredol Llywodraeth Cymru yw y bydd yn diweddaru naill ai dogfennaeth y canllawiau cynllunio mwynau, sydd erbyn hyn yn mynd yn ôl oddeutu 14 mlynedd, neu fel arall, yn cyhoeddi nodyn cyngor technegol wedi'i ddiweddaru.

I think there are genuine concerns from people who oppose the extension of this technology across Wales that, without the issue of a technical advice note, where an application is rejected by the local authority, or, where the local authority is minded, the Minister then calls it in and ultimately declines the application, there is a potential vulnerability at judicial review that the lack of a TAN that sets out the grounds upon which an application can be reasonably refused means that companies will pursue matters through the courts, in complete contravention of the democratic will as expressed by this Assembly. And that is clearly the case when we have media comments by companies such as IGas, who, when they were asked about the current moratorium, said it was wholly irrelevant and who insist, currently, through their public affairs department, that the Welsh Government has no power to stop the extension of this technology.

Rwy'n meddwl bod pryderon dilys gan y bobl sy'n gwrthwynebu ymestyn y dechnoleg hon ar draws Cymru: heb gyhoeddi nodyn cyngor technegol, pan fo cais yn cael ei wrthod gan yr awdurdod lleol, neu lle y mae'r awdurdod lleol yn bwriadu gwneud hynny, a'r Gweinidog wedyn yn ei alw i mewn ac yn y pen draw yn gwrthod y cais, mae yna wendid posibl mewn adolygiad barnwrol fod diffyg TAN sy'n nodi seiliau dros allu gwrthod cais yn rhesymol yn golygu y bydd cwmnïau'n mynd ag achosion i'r llysoedd, yn gwbl groes i'r ewyllys democrataidd fel y'i mynegwyd gan y Cynulliad hwn. Ac mae hynny'n amlwg yn wir pan fydd gennym sylwadau ar y cyfryngau gan gwmnïau fel IGas, a ddywedodd, pan ofynnwyd iddynt ynglŷn â'r moratoriwm cyfredol, ei fod yn gwbl amherthnasol ac sy'n mynnu, ar hyn o bryd, drwy eu hadran materion cyhoeddus, nad oes gan Lywodraeth Cymru bŵer i atal y dechnoleg hon rhag cael ei hymestyn.

I think it's also important, in discussing the powers that are available to the Welsh Government to block this particular technology, that we turn to the other regulatory requirements, which include the grant of environmental permits by Natural Resources Wales. Natural Resources Wales currently grant licences to extract and treat water from groundwater sources, they are required to ensure appropriate treatment and disposal of mining waste, and they also control emissions to air. Operators are also required under the current regulations to inform Natural Resources Wales of all the chemicals that are to be used as part of a hydraulic fracturing process. And we're all, I'm sure, very much aware of the differences in opinion between the industry and environmental groups and local campaigners with regard to the extent of chemicals that are used in this process. It's also the case, unfortunately, that where regulatory requirements in other jurisdictions have required that certain chemicals are not used, or limiting the use of certain chemicals, the industry itself has been found wanting with regard to its compliance with those regulatory processes. What I would also ask the Minister to deal with this afternoon is: in a situation where the Minister has indicated that there is a moratorium on the future use of this technology in Wales, how is that then consistent with an agency of the Government, Natural Resources Wales, continuing currently to grant licences, including the most recent one, granted a week today, for the St Nicholas exploration site between the A4266 and Duffryn to Coastal Oil and Gas? Surely, we must use all the armaments within our power to actually try and block this use of fossil fuel technology.

Finally, I would ask whether the Minister can clarify the position on cross-border exploration, and also the use of the sea bed, because I'm sure he's aware that current licences granted in respect of both the Dee estuary and potentially the Severn estuary may mean that the jurisdictional operation is somewhat confused. In fact, certainly in north-east Wales, there was a suggestion that, if operations were blocked on the Welsh side, that actually they would use locations in the Wirral to ensure that they actually got around the difficulties. I would also ask whether there's been any discussion with either the UK Government or Crown Estate to actually establish what their position is with regard to the attitude of the Welsh Government, given the control that the Crown Estate currently has on sea exploration. Diolch yn fawr.

Rwy'n credu ei bod hefyd yn bwysig, wrth drafod y pwerau sydd ar gael i Lywodraeth Cymru allu atal y dechnoleg hon, ein bod yn troi at y gofynion rheoleiddio eraill, sy'n cynnwys rhoi trwyddedau amgylcheddol drwy Cyfoeth Naturiol Cymru. Ar hyn o bryd, mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn rhoi trwyddedau i dynnu a thrin dŵr o ffynonellau dŵr daear, mae gofyn iddynt sicrhau bod gwastraff mwyngloddio yn cael ei drin a'i waredu'n briodol, ac maent hefyd yn rheoli allyriadau i'r aer. Hefyd, mae'n ofynnol i weithredwyr roi gwybod i Cyfoeth Naturiol Cymru o dan y rheoliadau presennol ynglŷn â'r holl gemegion sydd i'w defnyddio'n rhan o broses hollti hydrolig. Ac rydym i gyd, rwy'n siŵr, yn ymwybodol iawn o'r gwahaniaethau barn rhwng y diwydiant a grwpiau amgylcheddol ac ymgyrchwyr lleol o ran faint o gemegion sy'n cael eu defnyddio yn y broses hon. Mae hefyd yn wir, yn anffodus, lle y mae gofynion rheoleiddiol mewn awdurdodaethau eraill wedi gwahardd neu wedi cyfyngu ar y defnydd o gemegion penodol, gwelwyd bod y diwydiant ei hun wedi methu â chydymffurfio'n llawn â'r prosesau rheoleiddio hynny. Carwn ofyn i'r Gweinidog ymdrin â hyn y prynhawn yma hefyd: mewn sefyllfa pan fo'r Gweinidog wedi nodi bod moratoriwm ar y defnydd o'r dechnoleg hon yng Nghymru yn y dyfodol, sut y gellir cysoni hynny â'r ffaith fod un o asiantaethau'r Llywodraeth, Cyfoeth Naturiol Cymru, yn parhau ar hyn o bryd i ganiatáu trwyddedau, gan gynnwys y ddiweddaraf, a roddwyd wythnos i heddiw i Coastal Oil and Gas ar gyfer safle archwilio Sain Nicolas rhwng y A4266 a Dyffryn? Yn sicr, mae'n rhaid i ni ddefnyddio'r holl arfau sydd gennym i geisio rhwystro'r defnydd hwn o dechnoleg tanwydd ffosil.

Yn olaf, carwn ofyn a all y Gweinidog egluro'r sefyllfa o ran archwilio trawsffiniol, a hefyd y defnydd o wely'r môr, gan fy mod yn siŵr ei fod yn ymwybodol y gallai trwyddedau cyfredol a roddwyd mewn perthynas ag aber Afon Dyfrdwy ac o bosibl, aber afon Hafren, olygu bod awdurdodaeth gweithrediad yn ddryslyd braidd. Yn wir, yn sicr yng ngogledd-ddwyrain Cymru, cafwyd awgrym, pe bai gweithrediadau'n cael eu rhwystro ar ochr Cymru, y byddent mewn gwirionedd yn defnyddio lleoliadau yn Wirral i sicrhau eu bod yn osgoi'r anawsterau. Carwn ofyn hefyd a fu unrhyw drafodaeth gyda naill ai Llywodraeth y DU neu Ystad y Goron i sefydlu beth yw eu safbwynt o ran agwedd Llywodraeth Cymru, o ystyried y rheolaeth sydd gan Ystad y Goron ar hyn o bryd ar archwilio morol. Diolch yn fawr.

18:02 **Llyr Gruffydd** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

A gaf i ddiolch i'r Aelod am ganiatáu imi gyfrannu at y ddadl yma? Y cyfan rwyf eisiau ei wneud yw tynnu sylw at sinigiaeth Llywodraeth y Deyrnas Unedig, sydd ar yr un llaw yn clochdar eu bod yn ymbweru cymunedau i fedru gwrthod prosiectau ynni adnewyddadwy, ond ar y llaw arall yn gwthio prosiectau ffracio i lawr gyddygau cymunedau nad ydynt yn dymuno i'r prosiectau hynny ddigwydd. Maen nhw wedi torri cymorthdaliadau, fel yr ydym yn gwybod, i'r sector ynni adnewyddadwy, sydd wedi tanseilio'r sector yna yn sylweddol yma yng Nghymru. Maen nhw wedi gwrthod hefyd, wrth gwrs, y ceisiadau ar gyfer y prosiectau yma yng Nghymru. Ac mae'n gliriach nag erioed i fi: os ydym am wireddu'r dyfodol yr ŷm ni'n ei chwennych yma yng Nghymru o safbwynt ynni, a fydd yn caniatáu inni gwrdd â'n goblygiadau a'n dyheadau o safbwynt datblygu cynaliadwy, newid hinsawdd ac yn y blaen, yr unig ffordd i wneud hynny yw sicrhau bod yr holl gyfrifoldeb am bob agwedd o bolisi ynni yn cael ei ddatganoli i Gymru. Buaswn yn gwerthfawrogi clywed y Gweinidog yn cadarnhau ei fod o'r un farn. Diolch.

May I thank the Member for allowing me to contribute to this debate? All I want to do is highlight the cynicism of the United Kingdom Government, who on the one hand are claiming that they are empowering communities to be able to reject renewable energy projects, but on the other are pushing fracking projects down the throat of communities that don't want to see those projects happening. They have cut subsidies, as we know, to the renewable energy sector, which has undermined that sector significantly here in Wales. They have also rejected, of course, applications for projects here in Wales. And it's clearer than ever to me: if we do want to achieve the future that we aspire to in Wales in terms of energy, which will allow us to meet our obligations and aspirations in terms of sustainable development, climate change and so on, the only way of doing that is to ensure that all responsibilities for all aspects of energy policy are devolved to Wales. I would appreciate the Minister confirming his support for that. Thank you.

18:03 **Suzy Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Can I also thank Aled Roberts for giving me some time on this? I echo his comments regarding the UK's moratorium pending devolution of licensing powers to this place. Obviously, we already have a moratorium on fracking specifically here in the Welsh Assembly, supported by all parties, which is of particular interest to constituents of mine because, as you identified, south Wales has been identified as a region with great potential for this. However, because of that, constituents in my region are very keen to know what the current Government actually really means by a moratorium, because they're not entirely convinced that a ministerial decision on what's safe and what's not is the same as a generally accepted level of safety. There's also a question they put to me, which is: what is the point of allowing exploratory drilling if actually there's a moratorium on extraction? Consistently, I'm afraid, the Labour Government has refused to provide new guidance on that, and I'd be grateful if you could give us an indication of whether you've changed your mind on that.

A gaf fi hefyd ddiolch i Aled Roberts am roi rhywfaint o amser i mi ar hyn? Ategaf ei sylwadau ynghylch moratoriwm y DU hyd nes y datganolir pwerau trwyddedu i'r lle hwn. Yn amlwg, mae gennym eisoes foratoriwm ar ffracio yn benodol yma yn y Cynulliad, sy'n cael cefnogaeth pob plaid, ac sydd o ddiddordeb arbennig i fy etholwyr oherwydd, fel y dywedoch, mae de Cymru wedi'i chlustnodi'n ardal sydd â photensial mawr ar gyfer hyn. Ond oherwydd hynny, mae etholwyr yn fy rhanbarth yn awyddus iawn i wybod beth y mae'r Llywodraeth bresennol yn ei olygu mewn gwirionedd wrth sôn am foratoriwm, gan nad ydynt yn gwbl argyhoeddedig fod penderfyniad gweinidogol ar yr hyn sy'n ddiogel a'r hyn nad yw'n ddiogel yr un fath â lefel o ddiogelwch a dderbynnir yn gyffredinol. Maent hefyd wedi gofyn i mi beth yw diben caniatáu drilio archwiliadol os oes moratoriwm ar echdynnu? Yn anffodus, mae'r Llywodraeth Lafur wedi gwrthod rhoi canllawiau newydd ynglŷn â hynny'n gyson, a byddwn yn ddiolchgar pe gallech roi syniad i ni a ydych wedi newid eich meddwl ynglŷn â hynny.

18:04 **William Powell** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I'd like to thank Aled Roberts very much for bringing forward this important debate and such a well-researched presentation. In this Chamber, in committee, and indeed on the steps of the Senedd, I've consistently spoken out against fracking here in Wales. It's long-standing Welsh Liberal Democrat policy, and appropriately enough, it was agreed back in the autumn of 2011 in our Wrexham conference. I strongly agree also with the position that's been taken by Friends of the Earth Cymru, who've brought a petition to the Assembly on this matter. I would urge the Minister, as Aled has done, to make safe the moratorium of which he has spoken by revisiting the whole issue of independent Welsh guidance that will give authority to councils throughout Wales in resisting applications for this retrograde technology. We must act—we must act now.

Hoffwn ddiolch yn fawr iawn i Aled Roberts am gyflwyno'r ddadl bwysig hon ac am gyflwyniad wedi'i ymchwilio mor dda. Yn y Siambr hon, yn y pwyllgor, ac yn wir ar risiau'r Senedd, rwyf wedi siarad yn gyson yn erbyn ffracio yma yng Nghymru. Mae'n bolisi hirsefydlog gan Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru, ac yn ddigon priodol, fe'i cytunwyd yn ôl yn hydref 2011 yn ein cynhadledd yn Wrecsam. Cytunaf yn gryf hefyd â safbwynt Cyfeillion y Ddaear Cymru, sydd wedi dod â deiseb i'r Cynulliad ar y mater hwn. Byddwn yn annog y Gweinidog, fel y mae Aled wedi ei wneud, i sicrhau'r moratoriwm y siaradodd amdano drwy ailystyried holl fater canllawiau annibynnol i Gymru a fydd yn rhoi awdurdod i gynghorau ledled Cymru wrthsefyll ceisiadau ar gyfer y dechnoleg wrthdroadol hon. Rhaid i ni weithredu—mae'n rhaid i ni weithredu yn awr.

18:05 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on the Minister for Natural Resources to reply, Carl Sargeant.

Galwaf ar y Gweinidog Cyfoeth Naturiol i ateb, Carl Sargeant.

18:05 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

*Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol / The Minister for Natural Resources*

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you, Deputy Presiding Officer. I'm very grateful for the opportunity to respond to this very important debate today led by Aled Roberts.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Rwy'n ddiolchgar iawn am y cyfle i ymateb i'r ddadl bwysig hon heddiw a arweiniwyd gan Aled Roberts.

I've consistently made clear my precautionary position on fracking, most recently in response to the UK Government's announcements about changes to the planning system to expedite shale gas exploration. I have emphasised our vision for a clean, green future with energy generation based on embracing Wales's abundant renewable energy sources, which provide exciting and immediate opportunities. I believe that the technologies behind unconventional oil and gas extraction are unproven, in the complex geology of the UK, and on that basis we should maintain our precautionary policy framework.

Rwyf wedi egluro fy safbwynt rhagofalus ar ffracio yn gyson, yn fwyaf diweddar mewn ymateb i gyhoeddiadau Llywodraeth y DU ynglŷn â newidiadau i'r system gynllunio i hwyluso'r broses o chwilio am nwy siâl. Rwyf wedi pwysleisio ein gweledigaeth ar gyfer dyfodol glân a gwyrdd gyda chynhyrchu ynni yn seiliedig ar wneud yn fawr o ffynonellau ynni adnewyddadwy helaeth Cymru, sy'n darparu cyfleoedd cyffrous ac uniongyrchol. Rwy'n credu nad yw'r technolegau sy'n sail i echdynnu olew a nwy anghonfensiynol wedi'u profi, yn naeareg gymhleth y DU, ac ar y sail honno dylem gynnal ein fframwaith polisi rhagofalus.

In February, I issued a notification direction that sets out the requirements on local planning authorities to notify me of any planning application that they are minded to approve. Let me be clear about this: the direction relates to any planning application for shale gas and coal-bed methane using unconventional techniques, including hydraulic fracturing. Shale gas and coal-bed methane are resources that would be extracted in an unconventional way. They require unconventional techniques for extraction. Therefore, the direction applies to them. What the direction doesn't apply to, and this answers Suzy Davies's question, is exploratory boreholes. I do understand that communities across Wales do raise this with me on a regular basis. But boreholes and test drilling are not the same as unconventional exploration techniques. The drilling of boreholes is a routine part of engineering works and is undertaken widely beyond the issue of hydraulic fracturing, including for water exploration also. So, I don't believe that it is appropriate to put the direction on the borehole element of that. But I hope I've been very clear on the issue of the application post borehole drilling.

Ym mis Chwefror, cyhoeddais gyfarwyddyd hysbysu yn nodi'r gofynion ar awdurdodau cynllunio lleol i roi gwybod i mi am unrhyw gais cynllunio y maent yn bwriadu ei ganiatáu. Gadewch i mi fod yn glir ynglŷn â hyn: mae'r cyfarwyddyd yn ymwneud ag unrhyw gais cynllunio ar gyfer nwy siâl a methan gwely glo gan ddefnyddio technegau anghonfensiynol, yn cynnwys hollti hydrolig. Mae nwy siâl a methan gwely glo yn adnoddau a fyddai'n cael eu hechdynnu mewn ffordd anghonfensiynol. Maent yn galw am ddefnyddio technegau anghonfensiynol ar gyfer echdynnu. Felly, mae'r cyfarwyddyd yn cyfeirio atynt. Yr hyn nad yw'r cyfarwyddyd yn berthnasol iddo, ac mae hyn yn ateb cwestiwn Suzy Davies, yw tyllau turio archwiliadol. Rwy'n deall bod cymunedau ledled Cymru yn fy holi'n rheolaidd ynglŷn â hyn. Ond nid yw tyllau turio a drilio prawf yr un peth â thechnegau archwilio anghonfensiynol. Mae drilio tyllau turio yn rhan arferol o waith peirianneg a gyflawnir yn eang y tu hwnt i hollti hydrolig, gan gynnwys ar gyfer chwilio am ddŵr. Felly, nid wyf yn credu ei bod yn briodol rhoi cyfarwyddyd ar elfen twll turio o hynny. Ond rwy'n gobeithio fy mod wedi bod yn glir iawn ar fater ceisiadau drilio ar ôl tyllu twll turio.

The other matter I wanted to comment on is underground coal gasification. At the time I decided to issue a direction, concerns were primarily around shale gas and there was no immediate development pressures relating to underground coal gasification. However, extracting gas by means of underground gasification I believe is an unconventional method and the concerns I've already expressed in relation to fracking, for example, are arguably equally valid for underground coal gasification. I am giving this some further consideration to include this in the direction issued previously. I will issue a further statement to Members once I've made decisions on that.

Y mater arall yr oeddwn am wneud sylwadau yn ei gylch yw nwyeiddio glo tanddaearol. Ar yr adeg y penderfynais roi cyfarwyddyd, roedd y pryderon yn ymwneud yn bennaf â nwy siâl ac nid oedd unrhyw bwysau datblygu uniongyrchol yn ymwneud â nwyeiddio glo tanddaearol. Fodd bynnag, credaf fod echdynnu nwy drwy nwyeiddio tanddaearol yn ddull anghonfensiynol a gellid dadlau bod y pryderon rwyf eisoes wedi'u mynegi mewn perthynas â ffracio, er enghraifft, yr un mor ddilys ar gyfer nwyeiddio glo tanddaearol. Rwy'n rhoi peth ystyriaeth bellach i gynnwys hyn yn y cyfarwyddyd a gyhoeddwyd yn flaenorol. Byddaf yn cyhoeddi datganiad arall i'r Aelodau wedi i mi benderfynu ynghylch hynny.

Turning to the issue of planning guidance, which many of the Members alluded to today, I am clear that we have got the precautionary planning policy framework and this is bolstered by both the direction and the strong regulatory framework we have issued. I am clear that the direction provides a moratorium on planning authorities approving applications without prior reference to Welsh Ministers. We recently consulted on the development of national significance and received a large number of representations regarding our thresholds and categories for schemes that are to be determined by Welsh Ministers. This includes requests that developments including onshore exploration or production of unconventional oil and gas should be treated as a development of national significance. My officials are currently analysing the consultation responses and we will issue a statement on that.

Gan droi at fater canllawiau cynllunio, y cyfeiriodd llawer o'r Aelodau ato heddiw, rwy'n glir fod gennym y fframwaith polisi cynllunio rhagofalus ac mae hwn yn cael ei ategu gan y cyfarwyddyd a'r fframwaith rheoleiddio cryf a gyhoeddwyd gennym. Rwy'n glir fod y cyfarwyddyd yn darparu moratoriwm ar awdurdodau cynllunio yn cymeradwyo ceisiadau heb eu cyfeirio ymlaen llaw at Weinidogion Cymru. Buom yn ymgynghori'n ddiweddar ar y datblygiad o arwyddocâd cenedlaethol a daeth nifer fawr o sylwadau i law ynglŷn â'n trothwyon a'n categorïau ar gyfer cynlluniau sydd i'w penderfynu gan Weinidogion Cymru. Mae hyn yn cynnwys ceisiadau y dylai datblygiadau gan gynnwys archwilio neu gynhyrchu olew a nwy anghonfensiynol ar y tir gael eu trin fel datblygiadau o arwyddocâd cenedlaethol. Mae fy swyddogion wrthi'n dadansoddi'r ymatebion i'r ymgynghoriad, a byddwn yn cyhoeddi datganiad ar hynny.

The UK Government has agreed that the licensing of onshore oil and gas exploration and development in Wales should be devolved. I welcome that as soon as possible. In terms of some of the applications that have taken place, and with respect to Members, I cannot comment on applications that have been made or are currently in the system, as that would be premature and prejudice my decision-making processes. But the principle of making sure that we apply the direction and the principle of future opportunities to consider applications is something that I'm very keen that my department takes a full and frank view on.

Mae Llywodraeth y DU wedi cytuno y dylai'r broses o drwyddedu archwilio a datblygu olew a nwy ar y tir yng Nghymru gael ei ddatganoli. Croesawaf hynny cyn gynted ag y bo modd. O ran rhai o'r ceisiadau sydd wedi digwydd, a chyda pharch i'r Aelodau, ni allaf roi sylwadau ar geisiadau sydd wedi'u gwneud neu sydd ar hyn o bryd yn y system, gan y byddai hynny'n gynamserol ac yn peryglu fy mhrosesau gwneud penderfyniadau. Ond mae'r egwyddor o sicrhau ein bod yn cymhwyso'r cyfarwyddyd a'r egwyddor i gyfleoedd yn y dyfodol i ystyried ceisiadau yn rhywbeth rwy'n awyddus iawn i fy adran edrych arno'n llawn ac yn agored.

Negotiations are currently progressing, and until such time as the powers are devolved I've made the best use of the powers currently available to me. If we had further devolved powers, I would be maybe even more robust in my views on how we should make sure no further fracking takes place in Wales. Of course, companies from across the globe will have a view on my stance in terms of how I apply the direction, but it is a matter for the companies to consider that. I am very clear that my department will consider every application that's made, where an approval is being considered, and we will act appropriately on that.

Ar hyn o bryd mae trafodaethau'n mynd rhagddynt, a hyd nes y datganolir y pwerau rwyf wedi gwneud y defnydd gorau o'r pwerau sydd ar gael i mi ar hyn o bryd. Pe bai gennym bwerau datganoledig pellach, efallai y byddwn hyd yn oed yn fwy cadarn yn fy safbwyntiau ynglŷn â sut y dylem wneud yn siŵr nad oes ffracio pellach yn digwydd yng Nghymru. Wrth gwrs, bydd gan gwmnïau o bob cwr o'r byd farn ar fy safiad o ran sut y byddaf yn cymhwyso'r cyfarwyddyd, ond mater i'r cwmnïau fydd ystyried hynny. Rwy'n glir iawn y bydd fy adran yn ystyried pob cais sy'n cael ei wneud, lle y bydd cymeradwyaeth yn cael ei hystyried, a byddwn yn gweithredu'n briodol yn unol â hynny.

Of course, I am finding myself frequently reiterating how our approach in Wales is very different to that of the Conservative Government of the UK. Renewable energy at all scales remains my priority and this Government's priority for energy generation here in Wales. Renewable energy can bring economic benefits to our communities through jobs, growth and investment, and help us reduce our carbon emissions. Wales has an abundant supply of natural resources, which can help power a low-carbon economy.

Wrth gwrs, yn aml rwy'n dal fy hun yn ailadrodd sut y mae ein hymagwedd yng Nghymru yn wahanol iawn i un Llywodraeth Geidwadol y DU. Mae ynni adnewyddadwy ar bob graddfa yn parhau i fod yn flaenoriaeth i mi ac yn flaenoriaeth i'r Llywodraeth hon ar gyfer cynhyrchu ynni yma yng Nghymru. Gall ynni adnewyddadwy sicrhau manteision economaidd i'n cymunedau drwy swyddi, twf a buddsoddiad, a'n helpu i leihau ein hallyriadau carbon. Mae gan Gymru gyflenwad helaeth o adnoddau naturiol, a all helpu i bweru economi carbon isel.

I am determined, through all measures available to me, to keep promoting renewable energy as the sustainable alternative to fracking. I recently published my 'Green Growth Wales: Local Energy' paper, which outlines the positive actions I will take in this regard. 'Planning Policy Wales' and technical advice note 8 outline our positive approach in dealing with applications for renewable energy schemes, and it was extremely frustrating that the UK Secretary of State for Energy and Climate Change refused applications for windfarms in mid Wales without regard to the Welsh Government's policy—windfarms that were located in areas identified by us as being the most suitable. The decision denies us the opportunity to make the best use of our natural resources and make a major contribution to reducing carbon emissions. It's a lost opportunity for Wales and, to be clear, this will lead to the loss of 350 MW of renewable energy potential, a loss of potentially 400 to 600 jobs and a loss of £65 million-worth of investment, and community benefits of over £45 million have been lost to communities across Wales. Our Westminster colleagues seem determined to undermine Welsh Government policies on renewable energy and our aspirations for a low-carbon economy wherever they can, which is certainly not helpful for the progressive opportunities we see here in Wales.

Drwy'r holl ddulliau sydd ar gael i mi, rwy'n benderfynol o ddal ati i hyrwyddo ynni adnewyddadwy fel y dewis arall cynaliadwy yn lle ffracio. Yn ddiweddar cyhoeddais fy mhapur 'Twf Gwyrdd Cymru: Ynni Lleol', sy'n amlinellu'r camau gweithredu cadarnhaol y byddaf yn eu rhoi ar waith yn hyn o beth. Mae 'Polisi Cynllunio Cymru' a nodyn cyngor technegol 8 yn amlinellu ein dull cadarnhaol o ymdrin â cheisiadau ar gyfer cynlluniau ynni adnewyddadwy, ac roedd yn hynod o rwystredig fod Ysgrifennydd Gwladol y DU dros Ynni a Newid Hinsawdd wedi gwrthod ceisiadau am ffermydd gwynt yn y canolbarth heb ystyried polisi ffermydd gwynt Llywodraeth Cymru—ffermydd gwynt a leolwyd mewn ardaloedd a nodwyd gennym fel y rhai mwyaf addas. Mae'r penderfyniad yn cael gwared ar gyfle inni wneud y defnydd gorau o'n hadnoddau naturiol a chyfrannu'n helaeth at leihau allyriadau carbon. Mae'n gyfle a gollwyd i Gymru ac i fod yn glir, bydd yn arwain at golli 350 MW o botensial ynni adnewyddadwy, colli 400-600 o swyddi posibl, colli gwerth £65 miliwn o fuddsoddiad, a cholli manteision cymunedol o dros £45 miliwn i gymunedau ledled Cymru. Mae ein cydweithwyr yn San Steffan i'w gweld yn benderfynol o danseilio polisïau Llywodraeth Cymru ar ynni adnewyddadwy a'n dyheadau i gael economi carbon isel lle bynnag y gallant, ac yn sicr nid yw hynny'n helpu o ran y cyfleoedd blaengar a welwn yma yng Nghymru.

It's too early to comment on the future of our renewable energy policies in light of these short-sighted decisions, and TAN 8 will remain in place for the foreseeable future. However, with the forthcoming changes to the consenting regimes promised by the UK energy in Wales Bills, as well as the implementation of the Planning (Wales) Act 2015, the future for renewable energy development in Wales is one that we can believe will come forward and give some positive outcomes for the people of Wales.

Mae'n rhy gynnar i wneud sylwadau ar ddyfodol ein polisïau ynni adnewyddadwy yng ngoleuni'r penderfyniadau annoeth hyn, a bydd TAN 8 yn aros ar gyfer y dyfodol rhagweladwy. Fodd bynnag, gyda'r newidiadau sydd ar ddod i'r systemau caniatâd a addawyd gan Filiau ynni yng Nghymru y DU yn ogystal â gweithrediad Deddf Cynllunio (Cymru) 2015, mae'r dyfodol ar gyfer datblygu ynni adnewyddadwy yng Nghymru yn un y gallwn gredu y bydd yn cynnig canlyniadau cadarnhaol i bobl Cymru.

I share many Members' concerns around the process of fracking, but those Members can be reassured that, within the powers that are embedded within Wales, held by this Government, we will continue to observe the stringent policies of planning around fracking and the techniques alluded to earlier. It's something that I look forward to working on with colleagues with like-minded views to see how we can put an end to fracking in Wales.

Rwy'n rhannu pryderon llawer o'r Aelodau ynglŷn â'r broses ffracio, ond gallaf sicrhau'r Aelodau y byddwn yn parhau, o fewn y pwerau sydd wedi gwreiddio yng Nghymru, ac a ddelir gan y Llywodraeth hon, i lynu at y polisïau cynllunio llym sydd ynghlwm wrth ffracio a'r technegau y cyfeiriwyd atynt yn gynharach. Mae'n rhywbeth rwy'n edrych ymlaen at weithio arno gyda chydweithwyr sy'n rhannu safbwyntiau tebyg, i weld sut y gallwn roi diwedd ar ffracio yng Nghymru.

18:13

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Minister. That concludes today's proceedings.

Diolch yn fawr, Weinidog. Dyna ddiwedd y trafodion am heddiw.

*Daeth y cyfarfod i ben am 18:13.*

*The meeting ended at 18:13.*